

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Gruffudd Gryg

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Alaw Mai Edwards, BA, MPhil, PHD

Barry James Lewis, MA, MPhil, PHD

Eurig Salisbury, BA, MPhil

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPhil, DLitt, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Yr Athro Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH GRUFFUDD GRYG

golygwyd gan

BARRY J. LEWIS

ac

EURIG SALISBURY



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2010

□ Prifysgol Cymru ©, 2010.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-0-947531-78-2

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Lluniwyd testunau cyfansawdd o'r cerddi gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw darlleniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o lawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth drafod trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw llinell yn anghyflawn, neu os yw gair neu eiriau'n annarllenadwy oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvii); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd y gyfrol rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau. Rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi yn y mynegeion i enwau priod.

Golygwyd cerddi 1, 2, 4, 5 ac Atodiad i gan Eurig Salisbury. Golygwyd gweddill y cerddi ac ysgrifennwyd y rhagymadrodd i'r gyfrol gan Barry J. Lewis.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Bwrdd Golygyddol a Golygydd Ymgynghorol 'Cyfres Beirdd yr Uchelwyr', Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru, aelodau Prosiect Dafydd ap Gwilym, staff Adran Archifau a Llawysgrifau Prifysgol Bangor, Dr Bleddyn Owen Huws a Mr Daniel Huws. Diolchir yn arbennig i Dr Ann Parry Owen am ei chymorth parod ac i Glenys Howells am brawfddarllen y gyfrol ac am lunio'r mynegeion.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a Geiriau	xix
GWAITH GRUFFUDD GRYG	
RHAGYMDRODD	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Moliant Einion ap Gruffudd ap Hywel	31
2. Cywydd cymod saith mab Iorwerth ap Gruffudd	38
3. Marwnad Rhys ap Tudur	44
4. Marwnad Dafydd ap Gwilym	50
5. I'r ywen uwchben bedd Dafydd ap Gwilym.....	58
6. I'r lleuad.....	63
7. I'r don	68
8. I dir Môn	76
9. Disgrifiad o ferch	79
10. Awdl i Dduw.....	83
11. Englynion o Lawysgrif Hendregadredd.....	87
ATODIADAU	
i. Cywydd i Grist.....	94
ii. Cynghori Dafydd ap Gwilym.....	101
NODIADAU.....	103
MYNEGAI I'R NODIADAU	199
Enwau personau.....	204
Enwau lleoedd	206
LLAWYSGRIFAU	207
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	217
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU.....	219

Byrfoddau

Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- AH *Astudiaethau ar yr Hengerdd*, gol. Rachel Bromwich ac R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
- AP *Yr Areithiau Pros*, gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934)
- ArchifMR <<http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/>>
- ASCent *Apocryffa Siôn Cent*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2004)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Bangor
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Bangor
- P.C. Bartrum: WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BCN *Y Beibl Cymraeg Newydd* (Swindon, 1988)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- BDG *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, gol. Owen Jones a William Owen (Llundain, 1789)

- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- BI B XIV *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)
- Bodewryd Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Bodley Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- BRh *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)
- BU *Barddoniaeth yr Uchelwyr*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1957)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMOC² *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (ail arg., Pen-y-bont ar Ogwr, 1998)
- CMRWBM Edward Owen, *A Catalogue of the Manuscripts relating to Wales in the British Museum* (4 vols., London, 1900–22) (Cymmrodorion Record Series no. 4)
- CO³ *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth D.H. Evans (Caerdydd, 1997)

- CSTB *Cywyddau Serch y Tri Bedo*, gol. P.J. Donovan (Caerdydd, 1982)
- CT *Canu Taliesin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960)
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- CyT *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. R. Iestyn Daniel *et al.* (Caerdydd, 2003)
- Dat ‘Datguddiad Ioan’ yn y Testament Newydd
- DB *Delw y Byd*, gol. Henry Lewis a P. Diverres (Caerdydd, 1928)
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- Deut ‘Deuteronomium’ yn yr Hen Destament
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996)
- DGG *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (Bangor, 1914)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DGIA H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DG.net <<http://www.dafyddapgwilym.net>>
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd 1986)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- Études *Études celtiques*, 1936–
- EWGP *Early Welsh Gnostic Poems*, ed. Kenneth Jackson (Cardiff, 1935)
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)

- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GCC D. Simon Evans, *Gramadeg Cymraeg Canol* (ail arg., Caerdydd, 1960)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a beirdd eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDEp *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)

- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GGMD i *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, i, Canu i deulu Penmynydd*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003)
- GGMD ii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, ii, Canu Crefyddol*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2005)
- GGMD iii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, iii, Canu Amrywiol*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2007)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GILIF *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2003)
- GIRh *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)

- GLMorg *Gwaith Lewys Morgannwg*, gol. A. Cynfael Lake (dwy gyfrol, Aberystwyth, 2004)
- GLI *Gwaith Llawdden*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hilynn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLIGt *Gwaith Llywelyn ap Gutun*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2007)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMBen *Gwaith Madog Benfras ac eraill o feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg*, gol. Barry J. Lewis a Twm Morys (Aberystwyth, 2007)
- GMBr *Gwaith Mathau Brwmffild*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2002)
- GMD *Gwaith Madog Dwygraig*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2006)
- GMRh *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion*, gol. Enid Roberts (Aberystwyth, 2003)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L'oeuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- G.W. Goetinck: Peredur *Historia Peredur vab Efracw*, gol. Glenys Witchard Goetinck (Caerdydd, 1976)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)

- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a cherddi dychan dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GPC² *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GPhE *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- R.A. Griffiths: PW i Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GRhGE *Gwaith Rhys Goch Eryri*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2007)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSDT *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (2 gyfrol, Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Bangor
- H *Llawysgrif Hendregadredd*, gol. J. Morris-Jones a T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1933)

- Hafod Llawysgrif yng nghasgliad Hafod, yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- HCad Llawysgrif Huw Cadwaladr yn Llyfrgell Salisbury, Prifysgol Caerdydd
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7)
- IGE *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (Bangor, 1925)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- Io ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan’ yn y Testament Newydd
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- JWBS *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 1910–
- LIB *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*, gol. S.J. Williams a J.E. Powell (Caerdydd, 1942)
- LlCy *Llên Cymru*, 1950–
- LlGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LlII *Llyfr Iorwerth*, ed. Aled Rhys Wiliam (Cardiff, 1960)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LlIU Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005)
- MAng A.D. Carr, *Medieval Anglesey* (Llangefni, 1982)
- Math ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd

MCF	Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
J. Morris-Jones: CD	John Morris-Jones, <i>Cerdd Dafod</i> (Rhydychen, 1925)
Mos	Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
MWM	Daniel Huws, <i>Medieval Welsh Manuscripts</i> (Cardiff and Aberystwyth, 2000)
MWP	Joseph P. Clancy, <i>Medieval Welsh Poems</i> (Dublin, 2003)
MWRL	Catherine A. McKenna, <i>The Medieval Welsh Religious Lyric</i> (Belmont, Massachusetts, 1991)
NLWCM	J.H. Davies, <i>The National Library of Wales Catalogue of Manuscripts</i> , i (Aberystwyth, 1921)
OBWV	<i>The Oxford Book of Welsh Verse</i> , ed. Thomas Parry (Oxford, 1976)
ODCC ³	<i>The Oxford Dictionary of the Christian Church</i> , ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed. revised, London, 2005)
OED ²	<i>The Oxford English Dictionary</i> (second ed., Oxford, 1989)
Pant	Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Pen	Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
PKM	<i>Pedeir Keinc y Mabinogi</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
R	<i>The Poetry in the Red Book of Hergest</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
RB	<i>The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest</i> , ed. John Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
RCAHM (Caernarvonshire)	<i>An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire: Caernarvonshire</i> (3 vols., London, 1956, 1960, 1964)
RWM	<i>Report on Manuscripts in the Welsh Language</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng

- nghatalog J. Gwenogvryn Evans.
- Salm 'Llyfr y Salmau' yn yr Hen Destament
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- SCWMBLO Falconer Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford*, vi (Oxford, 1924)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (2 gyfrol, Caerdydd, 1926)
- TCHSG *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1939–
- R.L. Thomson: Gereint *Ystorya Gereint uab Erbin*, ed. Robert L. Thomson (Dublin, 1997)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TYP³ *Trioedd Ynys Prydein: The Triads of the Island of Britain*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
- VSΒ *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, ed. A.W. Wade-Evans (Cardiff, 1944)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: BWP Ifor Williams, *The Beginnings of Welsh Poetry*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1980)
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YMTh *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1951)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	gen.	genidol
amhff.	amherffraith	goddr.	goddrych
amhrs.	amheronol	gol.	golygydd, golygydd gan
amr.	amrywiad	grch.	gorchmynnol
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	arddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
arg.	argraffiad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	gwr.	gwreiddiol
At.	Atodiad	gwrth.	gwrthrych
b. (f.)	benywaidd	Gwydd.	Gwyddeleg
be.	berfenw	h.y.	hynny yw
bf. (f.)	berf, -au	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
bg.	berf gyflawn	<i>id.</i>	<i>idem</i>
c.	<i>circa</i>	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
c. (g.)	canrif	ll.	lluosog; llinell
C.	Canol	Llad.	Lladin
cf.	cymharer	llau.	llinellau
cmhr.	gradd gymharol	llsgr.	llawysgrif
Cym.	Cymraeg	llsgrau.	llawysgrifau
cys.	cysylltair, cysylltiad	m.	mewnol
d.g.	dan y gair	myn.	mynegol
dib.	dibynnol	n.	nodyn
e.	enw	neg.	negydd, -ol
<i>ead.</i>	<i>eadem</i>	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
eb.	enw benywaidd	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
ed.	<i>edited by, edition</i>	pres.	presennol
e.e.	er enghraifft	r	<i>recto</i>
eg.	enw gwrywaidd	rh.	rhagenw, -ol
<i>et al.</i>	<i>et alii</i>	rhif.	rhifol, -ion, rhifyn
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	S.	Saesneg
f.	ffolio	s.	<i>saeculo</i>
³ .	³ <i>oruit</i>	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
ffig.	ffigurol	td.	tudalen
Ffr.	Ffrangeg	un.	unigol
g.	(c.) canrif	v	<i>verso</i>
g.	gwrywaidd	vols.	volume
Gael.	Gaeleg		

Rhagymadrodd

Bardd sy'n sefyll yng nghysgod Dafydd ap Gwilym yw Gruffudd Gryg. Ei gyfraniad enwocaf i lenyddiaeth Cymru yw ei gywydd yn cyfarch yr ywen uwchben bedd honedig Dafydd yn Ystrad-fflur—cywydd a roes fod, yn ôl pob tebyg, i'r traddodiad adnabyddus i'r bardd hwnnw gael ei gladdu yno—ond cofir Gruffudd hefyd am iddo ffræo'n enbyd â Dafydd mewn cyfres o gywyddau ymryson piwis ac anrasol. Fel sy'n wir am eraill ymhlith y Cywyddwyr cynnar, bychan yw nifer y cerddi dilys sydd wedi goroesi dan enw Gruffudd Gryg. Serch hynny, y mae'r nifer helaeth o gerddi annilys a gylchredai dan ei enw ef yn awgrymu bod arno gynt fri mawr fel bardd. Yn y gyfrol hon ceir pob cerdd y gellir yn hyderus ei phriodoli i Ruffudd Gryg, un ar ddeg ohonynt i gyd, a dwy arall nad yw eu hawduraeth mor sicr, ond hepgorwyd pedwar cywydd yr ymryson a olygwyd mewn man arall yn ddiweddar.¹ Rhydd y cerddi hyn gip ar fardd dawnus sy'n haeddu dianc rhag cysgod ei gyfoeswr a chael ei gydnabod yn un o leisiau mwyaf difyr y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Bywyd y bardd

Ei enw

Enwa Gruffudd Gryg ei hun yn ei gywydd i'r don:

Cennad wyf er cyn y dydd,
Cynnil leddf, cain Oleuddydd,
I geisio Gruffudd ruddgroen
Gryg, os byw, gorug ais boen.²

Felly y gwna hefyd yn yr englynion a gedwir yn Llawysgrif Hendregadredd³ ac yn ei gywydd cymod.⁴ Y mae Dafydd ap Gwilym yntau'n enwi Gruffudd droeon, sef yn y farwnad a ganodd iddo ac yn yr ymryson a fu rhwng y ddau fardd.⁵ *Gruffudd Gryg* yw ei enw yn gyson mewn priodoliadau llawysgrifol, ac anwybyddu amrywiadau orgraffyddol a thalfyriadau. Cyfeiria'r llysenw *cryg* at ryw nam a oedd ar ei leferydd a gwna Dafydd ap Gwilym yn fawr o'r cyfle i wawdio lleferydd trwsogl Gruffudd Gryg, y *mab ataliaith*, yn yr

¹ Gw. DG.net cerddi 23, 25, 27 a 29.

² 7.39–42.

³ 11.29.

⁴ 2.60n (*Gruffudd*).

⁵ DG.net 22.9–10, 34, 24.1, 26.2, 28.1, 30.1–2.

ymryson.⁶ Ymddengys fod Gruffudd yn baglu ar ei eiriau:

Gruffudd Gryg, wŷg wag awen,
Grynedig, boenedig ben.

Ystyried Gruffudd ruddlwm,
A blaen ei dafod yn blwm,
Gantaw na ddaw'n ddilestair
Druan gŵr, draean y gair,
Cuc cuc yn yfed sucen,
Ci brwysg yn llyncu cyw brân.⁷

Ymddengys mai gair onomatopeaidd yw *cuc*, yn dynwared sŵn rhywun yn yfed.⁸ Dyna'r sŵn a wna Gruffudd wrth geisio ynganu geiriau. Yn ateb i sen Dafydd ap Gwilym, cydnebydd Gruffudd ei fod yn cael trafferth wrth siarad, ond gan daeru bod y nam yn diflannu wrth iddo ddatgan cerdd:

Cyd boed cryg, ennyg ynni,
Yn nhwf dig, fy nhafod i,
Nid ungamp, onid angerdd,
Nid cryg, myn Mair, gair o'r gerdd.⁹

Dyma ffenomen ddigon hysbys heddiw, sef bod rhai pobl sydd â nam ar eu lleferydd yn medru canu'n ddilyffethair.

Ei ach

Fel y dywedwyd eisoes, *Gruffudd Gryg*, heb fanylion pellach, yw enw'r bardd yn y llawysgrifau. Ond enwir ei dad unwaith, sef yn Pen 81, 173, lle y ceir y nodyn canlynol mewn llaw sy'n dyddio o chwarter olaf yr unfed ganrif ar bymtheg: *gryff ap Kynfrig ap gryff foel oedd yr hwn a elwid gryff gryg*. Cadarnheir enw tad Gruffudd gan Ddafydd ap Gwilym yn yr ymryson:

Gruffudd, ddigudd ymddygiad,
Ap Cynwrig, Wyndodig dad,
Gŵr heb hygarwch Gwyndyd,
Gwyrodd â'i ben gerdd y byd.
Nid oes gwaith, lle mae maith medd,
I geiniad cerddau Gwynedd,
Eithr torri, ethrod diraen,
Braisg gofl yw, y brisg o'i flaen.¹⁰

Ni chadwyd rhagor o ach Gruffudd Gryg.

⁶ *Ib.* 24.61.

⁷ *Ib.* 24.1–2; 30.37–42.

⁸ Gw. Sara Elin Roberts, 'Cwpled Coll o Waith Dafydd ap Gwilym', *Dwned*, xi (2005), 68.

⁹ DG.net 25.25–8.

¹⁰ *Ib.* 24.31–8.

Ei fro

Dysgwn o'r llinellau a ddyfynnwyd uchod mai gŵr o Wynedd oedd Gruffudd a'i dad yntau. Y mae hynny'n esbonio'r ffafr arbennig a ddengys Duw i'r wlad honno yn 10.18. Thema sy'n rhedeg drwy'r ymryson yw'r ymgiprys rhwng Gwynedd, gwlad Gruffudd, a'r Deau a gysylltir â Dafydd (ond noder gochelgarwch Dafydd yn y llinellau a ddyfynnwyd uchod: yr oedd gan Ddafydd gydnabod yng Ngwynedd na fynnai eu tramgwyddo).¹¹ Wrth gwrs, nid oes rhaid chwilio'n bell am fro Gruffudd Gryg: canodd ef ei hun gywydd i gyfarch Ynys Môn ar ddiwedd ei daith i'r cyfandir, ac ynddo dywed yn eglur mai un o Fôn ydyw:

Delwyf—fan y hanwyf—Fôn.¹²

Nid oes dim yn y cywydd i Fôn sy'n cysylltu Gruffudd ag unrhyw ran benodol o'r ynys, ond sonnir am Fôn hefyd yn yr ymryson,¹³ ac yno ceir cyfeiriad penodol at Aberffraw:

Mae saith o gymydeithion
I mi'n Aberffraw ym Môn,
Aml ym roddiad profadwy,
Am un i Ddafydd, a mwy.¹⁴

Efallai, fel yr awgrymir isod,¹⁵ mai saith mab Iorwerth ap Gruffudd oedd y rhain, neu'n symlach fod Gruffudd yn honni bod ganddo saith cyfaill yn Aberffraw am bob un sydd gan Ddafydd. Bid a fo am hynny, awgrymir mai yn Aberffraw yr oedd Gruffudd yn byw. Yr oedd Aberffraw yn enw lle ac yn enw cantref, a daw'n amlwg o ffynonellau eraill mai'r cantref sydd dan sylw yma. Dangosodd E.D. Jones fod Gruffudd yn gysylltiedig â Thregwehelyth yng nghwmwd Llifton.¹⁶ Ceir dwy ddogfen gyfreithiol, y naill yn dyddio o 1336 a'r llall o 1338, sy'n dwyn enw Gruffudd. Ysgrifennwyd ei enw dros enw arall a ddilewyd, sef Iorwerth ap Cynwrig—ei frawd, bid sicr. Yn y ddau achos, rhoi arian ar fenthyg yr oedd Iorwerth ap Cynwrig, a hynny i bobl yn Nhregwehelyth. Rywsut, efallai yn sgil marwolaeth ei frawd, ymgymrodd Gruffudd â rhan Iorwerth yn y cytundebau hyn. Yn ddiweddarach daeth dwy ddogfen arall i'r fei (dyddiedig 1334 a 1357/8) sy'n enwi rhyw Gynfrig ap Cynfrig ap Gruffudd, eto â chysylltiad â Thregwehelyth.¹⁷ Gellir tybio mai brawd arall i'r bardd oedd hwn. Cawn enw Gruffudd Gryg ei hun yn 1356/7 pan ddirwywyd ef am beidio ag erlyn rhyw

¹¹ Am gyfeiriadau eraill at Wynedd yn yr ymryson, gw. DG.net 25.43, 28.24, 37, 30.35 (*Uwch Conwy*).

¹² 8.20.

¹³ DG.net 23.46, 26.31, 28.4, 40, 29.28, 34, 54, 30.28.

¹⁴ *Ib.* 29.33–6.

¹⁵ Gw. nodyn cefndir cerdd 2.

¹⁶ E.D. Jones, 'Cartre Gruffudd Gryg', *Cylch LIGC x* (1957–8), 230–1.

¹⁷ Dafydd Wyn Wiliam, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedem, Môn', AAST, 1969–70, 47–52.

Ddafydd ab Ednyfed Goch.¹⁸ Yn 1357/8, wedyn, yr oedd Gruffudd yn rhingyll cwmwd Malltraeth.¹⁹ Gall hefyd mai tad Gruffudd Gryg oedd y Cynwrig ap Gruffudd a oedd yn siryf Môn yn 1334.²⁰

Ei ddyddiadau

Isod cyflwynir tystiolaeth y canu ynglŷn â dyddiadau Gruffudd Gryg.

Cerdd 1: Yr oedd Einion ap Gruffudd, noddwr y gerdd, yn siryf sir Gaernarfon yn 1351–9, a daliodd ei fab Ieuan yr un swydd yn 1385–90.²¹

Cerdd 2: Ceir llawer o gyfeiriadau at wrthrychau'r cywydd hwn. Yr oedd eu tad yn fyw yn 1294 ac fe'i carcharwyd yn 1327. Gwyddys am y dyddiadau canlynol ar gyfer ei feibion: Iorwerth Ddu 1336/7; Gruffudd Dwn 1339, 1343, 1346; Llywelyn 1337–57/8, 1352; Hywel Ddu 1339, 1346, 1355; Rhys 1343, 1346.²² Gellir awgrymu *c.*1330 × *c.*1350 fel dyddiad mwyaf tebygol y cywydd, ond gallai fod yn ddiweddarach.

Cerdd 3: Dienyddiwyd Rhys ap Tudur yn 1411, a chan mai ffug-farwnad ydyw hon yn ôl pob tebyg, perthyn i ryw amser cyn y flwyddyn honno, efallai i deyrnasiad Rhisiart II (1377–99), ond yn sicr nid cyn hynny.²³

Cerddi 4, 5 a'r ymryson: Erys dyddiadau Dafydd ap Gwilym yn ansicr, ond yr oedd yn fyw yn y 1340au.²⁴

Cerddi 6, 7 ac 8: Canwyd y cywydd i'r lleud yn ystod teyrnasiad y brenin Harri II o Gastil, sef rhwng 1369 a 1379, ac yn ôl pob tebyg yn 1376.²⁵ I'r cyfnod hwn y perthyn y cywydd i'r don hefyd. Am y cywydd i Fôn, gw. isod.

Cerddi 9 a 10: Nid oes modd dyddio'r rhain.

Cerdd 11: Gw. nodyn cefndir y gerdd ar gyfer yr englynion astrus hyn. Yno awgrymir dyddiad tebygol *c.*1330 × *c.*1350.

Gwelir bod Gruffudd Gryg yn ei flodau yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg. Awgryma Dafydd Wyn Wiliam osod ei eni *c.*1310, ond gallai fod wedi ei eni ynghynt. Gwelodd ddechrau teyrnasiad Rhisiart II (1377), ond ni wyddom pa mor hir y bu fyw wedi hynny.

¹⁸ *Id.*, 'Nodion am Fagad o Feirdd Cynnar Môn', AAST, 1985, 105.

¹⁹ A.D. Carr, 'Rhai Beirdd ym Môn', B xxviii (1978–80), 599.

²⁰ MAng 77.

²¹ Gw. GMBen 239–42 am y teulu.

²² Dafydd Wyn Wiliam, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern, Môn', 47–50.

²³ Gw. nodyn cefndir cerdd 3.

²⁴ Cynigir *c.*1350 fel dyddiad posibil; gw. R. Geraint Gruffydd, 'Dafydd ap Gwilym: An Outline Biography', *Celtic Languages and Celtic Peoples: Proceedings of the Second North American Congress of Celtic Studies*, ed. Cyril J. Byrne *et al.* (Halifax, Nova Scotia, 1992), 434–5.

²⁵ Gw. isod tt. 20–2 a hefyd 6.29n.

Gwerful/Goleuddydd

Enwir dwy ferch yng ngherddi Gruffudd Gryg. Yn 7.40 *Goleuddydd* yw enw'r ferch sy'n anfon y don i chwilio amdano, a dyna hefyd yr enw a rydd Dafydd ap Gwilym yn ei farwnad.²⁶ Gall yn hawdd fod y bardd yn chwarae ar yr un enw yn 9.36 *Gŵyl ddyn ar liw golau ddydd*. Ar y llaw arall, *Gweirful* yw enw'r ferch na chaiff Gruffudd ryddid i ganu iddi oherwydd ymosodiadau blinderus Dafydd yn yr ymryson:

Gweirful, wawr eddyl ryddoeth,
Gwae fi fod, cydwybod coeth,
Yn rhaid ym, yn rhyw dymawr,
Oedi dy wawd; ydwyd wawr.²⁷

Yn y cywydd blaenorol cymherir ei pherthynas hi â'r bardd â pherthynas Dafydd â Dyddgu.²⁸ Fe all mai ffugenw ar Weirful yw *Goleuddydd*, ond ni ellir bod yn sicr am hyn, a chofier bod Dafydd ap Gwilym wedi canu i fwy nag un ferch.

Gwaith Gruffudd Gryg

Fel un o'r Cywyddwyr cynnar y meddylir am Ruffudd Gryg gan amlaf, sef dyrnaid o feirdd a gydoesai'n fras â Dafydd ap Gwilym ac a ddefnyddiai'r un prif fesur ag ef, sef y cywydd, i ganu cerddi serch yn bennaf. Madog Benfras, Gruffudd ab Adda ap Dafydd a Llywelyn Goch ap Meurig Hen yw'r lleill yn y grŵp hwn, ynghyd â Gruffudd Llwyd ac Iolo Goch sy'n perthyn i gyfnod ychydig yn ddiweddarach. Cywyddau, bid sicr, yw'r rhan fwyaf o gerddi Gruffudd Gryg, ond ceir ganddo un awdl grefyddol ar fesur rhupunt (cerdd 10) ac un gyfres o englynion (cerdd 11). Pa mor newydd oedd y cywydd mewn gwirionedd pan ddechreuodd Gruffudd Gryg ar ei yrfa farddol, ni wyddys. Er gwaethaf y duedd gyffredin i ystyried Dafydd ap Gwilym fel arloeswr y mesur, y mae ein ffynonellau ar gyfer canu'r drydedd ganrif ar ddeg—sef Llawysgrif Hendregadredd, darn coll o'r llawysgrif honno a drawsysgrifiwyd yn LIGC 4973B, 1–49^v, a Llyfr Coch Hergest (y mae rhyw fath o gysylltiad rhyngddo a ffynonellau Llawysgrif Hendregadredd)²⁹—yn rhy gyfyng inni allu taeru gyda sicrwydd na cheid cywyddau cyn amser Dafydd. Nid yw cerddi Gruffudd Gryg ychwaith yn ategu'r theori fod y cywydd yn cael ei ystyried yn fesur israddol, anghymwys ar gyfer canu mawl 'ffurfiol', yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Eisoes yn ei waith ef cawn enghreifftiau o nifer o *genres* ar y mesur 'newydd': mawl (cerdd 1), cymod (cerdd 2), (ffug-)farwnad (cerddi 3, 4, 5), dychan (cerdd 6), serch (cerddi 7, 9), mawl i fro (cerdd 8), cywydd i Grist

²⁶ DG.net 22.20.

²⁷ *Ib.* 29.1–4.

²⁸ *Ib.* 27.47–52.

²⁹ Nerys Ann Jones, 'Ffynonellau Canu Beirdd y Tywysogion', SC xxxvii (2003), 81–125.

(Atodiad i—os yw'n ddilys), ac ymryson. Nid yw statws y cywydd yn bwnc sy'n cael ei wyntyllu yng nghorff yr ymryson ychwaith. Y mae'n wir fod y prif gasgliad o farddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg y gellir ei alw'n (lled) gyfoes, sef Llyfr Coch Hergest, yn cynnwys awdlau ac englynion bron yn ddiethriad, ond gorddehongli yw tybied ar sail y ffaith honno nad ystyridd y cywydd yn ddigon urddasol i'w gynnwys, chwaethach fod y beirdd wedi wynebu talcen caled wrth wneud y cywydd yn dderbyniol i noddwyr ceidwadol. Awgryma Daniel Huws mai cyfrwng cynhenid llafar oedd y cywydd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, a'r ffaith fod cywyddau'n cylchredeg mor fywiog ar lafar yn golygu na theimlid yr angen i'w gwarchod mewn llawysgrifau. Bid a fo am hynny, dylai prinder y llawysgrifau cyfoes sy'n cynnwys barddoniaeth o unrhyw fath ein rhybuddio rhag gorddehongli prinder y cywyddau ynddynt.

Fel y mae'n amhosibl dweud pryd y dyfeisiwyd y cywydd, felly hefyd ni ellir penderfynu pryd y dechreuwyd canu mathau unigol o gerddi ar y mesur. Collwyd cymaint o gerddi fel mai byrbwyll fyddai hawlio'r cywydd cymod cyntaf, dyweder, ar gyfer bardd unigol. Eto gallwn nodi mai eiddo Gruffudd Gryg yw'r cywydd cymod cyntaf sydd *ar glawr*, fel hefyd y cywydd cyntaf hysbys sy'n canmol bro.³⁰ Y mae 'I'r lleuad' yn gerdd anarferol o ran *genre*, hyd y gallwn farnu, yn cyfuno elfennau o gerdd ddychan a chywydd rhwystr yn un, ond eto heb gysylltiad â sefyllfa arferol y cywydd rhwystr, sef apwyntiad serch. Gellir canfod dyfeisgarwch yn y defnydd o *genre* yn 'I'r don' hefyd: dyma gywydd dychan sy'n troi'n ddisymwth yn gywydd llatai unwaith y mae'r bardd yn deall neges wirioneddol y don. Y mae'r gwrthgyferbyniad rhwng agwedd y bardd yn nau hanner y gerdd yn pwysleisio'n ddigri mor anwadal yw dyn dan ddylanwad serch. Ymddengys fod cyd-destun unigryw i'r englynion a olygydd fel cerdd 11. Y maent yn cwyno'n dost am ryw fath o achos llys, gan wneud defnydd celfydd o gonfensiynau marwnadol i gyfleu'r gŵyn—mor gelfydd, yn wir, nes peri trafferth i'r golygydd wrth iddo geisio pennu union bwnc yr englynion yn eu cyflwr gwael presennol. Yn y cywydd i'r ywen (cerdd 5), wedyn, cawn *tour de force* o chwarae generig. Ar y naill law, teimlir bod ei naws yn ddigon marwnadol i beri gofyn ai marwnad ddirifol ydyw (ac felly y mae llawer o ddarllenwyr wedi ei deall). Ar y llaw arall, y mae rhan olaf y gerdd yn pendilio'n fregus ar y ffin rhwng dwys-ddirifoldeb a dychan. Sonnir am lu o bethau distadl: geifr, crydd a'i fryd ar gyffeithio lledr (busnes hynod fudr a drewllyd), taeog a thorwyr coed, ond eto maentumir *nad* yw'r pethau hyn yn dwyn perthynas â'r gwrthrych. A phaham y bydd yr ywen yn ddiogel rhag y pethau distadl hyn? Nid esbonnir hyn yn y gerdd, ond byddai cynulleidfa ganoloesol wedi deall yn iawn: oherwydd ei bod yn wenwynig ac yn gysylltiedig ag angau! Dyma chwarae

³⁰ Gan Ddafydd ap Gwilym y ceir y cywydd hysbys cyntaf i dref, gw. DG.net cerdd 18 (Niwbwrch).

llynyddol penigamp. Fel y dadleuir yn fanylach isod, enghraifft arall o gellwair llynyddol yw cywydd cyntaf yr ymryson, lle y chwery Gruffudd y diniweityn wrth esgus camddeall ieithwedd drosiadol Dafydd ap Gwilym.

Fel sy'n gyffredinol wir am y cywydd, mae rhediad y meddwl yng nghywyddau Gruffudd Gryg yn llawer mwy unionsyth nag yn awdlau Beirdd y Tywysogion. Cymerwn yn enghraifft y farwnad i Rys ap Tudur (cerdd 3). Yn y pedair llinell agoriadol y mae'r bardd yn cyflwyno tair delwedd ar gyfer Gwynedd ar ôl marwolaeth Rhys. Â ymlaen yn systematig i ddatblygu'r tair, un ar ôl y llall (3.5–20). Yna cloir yr adran hon o'r gerdd trwy ailadrodd y sylw fod Gwynedd yn debyg i'r tripheth hyn yn sgil colli Rhys (llau. 21–2). Y mae'r cywydd i Grist (Atodiad i) yn adrodd hanes bywyd Crist a'r dioddefaint, gan ddechrau gyda rhagflaenydd Crist, Ioan Fedyddiwr, a gorffen gydag esgyniad Crist i'r nef. Rhagflaenir yr adran naratif hon gan gyfarchiad agoriadol a cheir gweddi i gloi. Elfennau strwythurol ganolog yng ngherddi Gruffudd Gryg yw'r rhestr. Rhestrir meibion Iorwerth ap Gruffudd fesul un, ac yn nhrefn oedran, yn y cywydd cymod (cerdd 2). Rhestrir cymydau Môn yn y cywydd o fawl i'r ynys (cerdd 8). Yng ngherdd 9 cawn ddisgrifiad trefnus o ferch, o'i gwallt hyd ei bronau, gan grybwyll (bron) pob rhan o'r corff yn ei phriod le. Yr oedd disgrifiadau trefnus fel y rhain yn gonfensiwn rhyngwladol, a gwawdir hwy yng nghywydd Gwerful Mechain i'r cedor.³¹ Ond yn yr awdl i Dduw gwelwn ddull hŷn o ganu. Dyma gerdd gwbl ogyfarddol ei naws a'i hieithwedd, ond yn fwy penodol y mae'n ymdebygu i awdlau'r Gogynfeirdd o ran ei hadeiledd hefyd. Er y ceir ynddi restrau, megis o bechodau yn llinellau 5–8, ac o briodoleddau Crist yn llinellau 20–8, y cymeriad geiriol a'r gynghanedd gaethiwus yn bennaf sy'n creu undod yn y gerdd. Ansystematig a digronoleg yw'r rhestrau (e.e. ll. 11 *Ti a'n prynaist, Ti a'n ffurfaist*). Os cymherir y gerdd hon â'r cywydd i Grist, gwelir y gwahaniaeth rhwng traddodiad Beirdd y Tywysogion a'r cywydd ar ei amlycaf. Gwyddai Cywyddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg sut i ganu yn y ddau ddull. Cofiw'n fod Gruffudd Gryg a Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, y mwyaf amlwg (i ni, o leiaf) o'r Gogynfeirdd Diweddar, yn gymdogion, yn ôl pob tebyg.

Barddoniaeth ffraeth, chwareus, hunanymwybodol a gawn gan Ruffudd Gryg, fel hefyd gan Ddafydd ap Gwilym. Yn wir, ymddengys fod y Cywyddwyr cynnar fel carfan yn arbrofi ac yn chwarae gyda'r *genres*, a bod y cywydd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyfrwng lle'r oedd *genres* yn eithriadol o hylifol. Gallai Gruffudd ganu'n fwy sidet hefyd, megis yn yr awdl i Dduw. Ond, ac ystyried gwaith Gruffudd Gryg yn ei grynswth, prin fod modd ei ddisgrifio fel amddiffynnwr rhyw ddelfryd o ganu mawl traddodiadol fel y gwnaeth sawl ysgolhaig wrth drafod ei safbwynt yn yr ymryson â Dafydd ap Gwilym. Dadleuir yn yr adran nesaf mai rhith yw'r delfryd hwnnw.

³¹ GGM cerdd 9.

Ymryson Gruffudd Gryg a Dafydd ap Gwilym

Darllenwyd llawer gormod i mewn i'r ddadl farddol hon gan ysgolheigion a ddymunai weld ynddi enghraifft o feirdd yr Oesoedd Canol eu hunain yn ymhél â beirniadaeth lenyddol. Bychan iawn, mewn gwirionedd, yw'r elfen o feirniadaeth lenyddol sydd ynddi, ac nid oes cyfiawnhad o gwbl dros y gred gyffredin fod y ddau fardd yn trafod priodolder y canu serch a pha faint o le y dylid caniatáu ynddo i ddylanwad *amour courtois* y Cyfandir. Y mae'r camddegongliad hwn wedi effeithio'n negyddol ar ddelwedd Gruffudd Gryg, oherwydd y mae'n creu gagendor amlwg rhwng y safbwynt yr honnir iddo ei arddel yn yr ymryson a'r hyn a welir yn ei waith go iawn. O'r herwydd, bu raid i ysgolheigion ei drin naill ai fel rhagrithiwr neu fel ceidwadwr cibddall na sylweddolodd mor wahanol oedd naws ei waith ei hun i'w egwyddorion. Y mae'n hen bryd i'r camddealltwriaeth hwn gael ei herio.

Y dehongliad traddodiadol

Y mae'r syniad fod gennym yn yr ymryson hwn dystiolaeth wiw am agweddau cyfoeswyr yng Nghymru at gonfensiynau *amour courtois* cyfandirol wedi bwrw gwreiddiau dwfn erbyn hyn. Yn wir, gall fod yn anodd cofio mai damcaniaeth a seiliwyd ar ddehongliad ydyw, yn hytrach na ffaith. Ond damcaniaeth ydyw, serch hynny, a dyfeisiwr y ddamcaniaeth, fel llawer un arall, oedd Saunders Lewis. Gwelodd ef yng ngwaith Dafydd ap Gwilym:

... a turning aside from the tradition of heroic panegyric in order to embrace what Dafydd himself called the 'art of Ovid'. This meant all the varieties of invented love lyric and 'feignings' that stemmed from the *Roman de la Rose* ... Dafydd ap Gwilym himself, very aware of the challenge he was involved in, proudly maintained the equal dignity and honour of the Ovidian tradition he had elected for his own.³²

Yna y mae Saunders Lewis yn cyfieithu dwy linell o gywydd cyntaf Dafydd ap Gwilym yn yr ymryson:

Nid llai urddas, heb ras rydd,
Na gwawd geuwawd o gywydd.

The dignity of feigned love-song, however resisted,
Is no less than that of panegyric.³³

Y mae ei gyfieithiad o'r cwpled unigol hwn wedi llywio'n gyfan gwbl bob

³² Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', adargraffwyd yn *Presenting Saunders Lewis*, ed. Alun R. Jones and Gwyn Thomas (Cardiff, 1973), 161; cyhoeddwyd yr ysgrif wreiddiol yn *Blackfriars*, March 1953.

³³ *Ib.* Dyfynnir y llinellau Cymraeg yn y ffurf a oedd yn gyfarwydd iddo ef.

dehongliad o'r gerdd oddi ar hynny. Yn yr un flwyddyn datblygodd ei syniadau am yr ymryson yn *Llên Cymru*. Maentumiodd fod dwy elfen yn yr ymryson, sef 'dadl farddol o bwys mawr' ar y naill law, a chyfnewid sarhadau, yr hyn a elwir yn *destuniaw*, ar y llall.³⁴ Yn y cyntaf yn unig yr oedd ei ddiddordeb. Dyma'r ffordd y mae'n dehongli safbwyntiau'r ddau fardd:

Truthiwr, prydydd sy'n bradychu ei benceirddiaeth drwy ganu celwydd yw Dafydd. Amddiffyn traddodiad Aberffraw yn erbyn 'Cerdd Ofydd' y mae Gruffudd.³⁵

I Saunders Lewis, y mae cyhuddiad Gruffudd Gryg fod Dafydd yn dweud celwydd yn adlais o'r gwaharddiad ar *gelwydd* yn y gramadegau barddol. Yn yr erthygl hon, ac yn enwedig yn y ffordd benodol y cyfieithodd Saunders Lewis y gair *geuwawd* a'i ddehongliad mentrus o natur y *celwydd* y cyhuddir Dafydd ap Gwilym o'i gyflawni, y cafodd Eurys Rowlands y man cychwyn ar gyfer ei drafodaeth ef.³⁶ Cydiodd Rowlands yn awgrym Saunders Lewis ynglŷn â'r gramadegau barddol, a datblygodd ddehongliad sydd, a siarad yn blaen, yn crwydro'n bell o'r ychydig linellau y seiliwyd ef arnynt:

Ni allai Gruffudd dderbyn fod mewn teuluwriaeth draddodiadol le i'r mynegiant agored bersonol a oedd mor amlwg yng nghanu Dafydd, ac a oedd yn peri fod yn ei gywyddau merch elfennau clerwriaethol o ddychan ac o hunan-ddychan.³⁷

Ac ystyried mai dychan yw sylwedd y rhan fwyaf o ganu Gruffudd yn yr ymryson, a bod Gruffudd yn ei eiriau ef ei hun, ac yng nghorff yr ymryson ei hun o bob man, yn dangos bod dychan yn fusnes priodol iddo ymhél ag ef,³⁸ gallwn weld bod Gruffudd yn cael ei drawsffurfio'n gynrychiolydd i safbwynt a orfodir arno gan yr ysgolhaig. Ac ni welir gair am *deuluwriaeth* nac ychwaith *glawriaeth*, sut bynnag y diffiniwn y cysyniadau hynod drafferthus hynny, yn yr un o gywyddau'r ymryson.

O erthygl Rowlands yn ei thro y cymerodd Rachel Bromwich ei dehongliad hi o'r ymryson (fel y mae'n cydnabod).³⁹ Nododd hi mor chwithig oedd y rheidrydd i feddwl am Ruffudd Gryg fel ceidwadwr:

³⁴ Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', LICy ii (1952–3), 207.

³⁵ *Ib.* 207–8.

³⁶ Eurys Rowlands, 'Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd*, cxxii (1967), 25–8 (a 27n22 am y ddyled i Saunders Lewis).

³⁷ *Ib.* 26.

³⁸ DG.net 29.9–12: ni chaiff Gruffudd amser i *brydu* na *dychanu* neb oherwydd bod Dafydd yn ei flino gan ei ymosodiadau. Petai Dafydd, felly, ond yn gadael llonydd iddo, gallai ddychwelyd i'w waith priodol: prydu a *dychanu*.

³⁹ Rachel Bromwich, 'Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym', adargraffwyd yn *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym: Collected Papers* (Cardiff, 1986), 68n47; cyhoeddwyd y papur gwreiddiol, nad yw'r nodyn hwn yn ymddangos ynddo, yn THSC, 1964.

But Gruffudd Gryg ... is a poet whose own surviving compositions hardly qualify him as a satisfactory exponent of the conservative bardic standpoint, since they are all *cywyddau*, and *cywyddau* which show at times a *finesse* and versatility in theme and treatment which rival Dafydd's own. It may be said of some of these poems, however, that the weightier character of the subject-matter dealt with throws a possible light on Gruffudd's criticism of Dafydd; moreover, they include no *fabliaux* or poems of love-escapades, and Gruffudd's *cywyddau* to girls are recognizably in the older tradition of the *rhieingerddi* composed by the court poets.⁴⁰

Ond hawdd y gellid galw 'I'r don' (cerdd 7) yn *love-escapade*. Yn sicr nid yw ei sylwedd yn fwy 'pwysfawr' na'r rhan fwyaf o gywyddau Dafydd ap Gwilym. Ceisiodd Bromwich gael gwared o'r broblem drwy awgrymu bod y cerddi 'anghyson' yn perthyn i gyfnod ar ôl yr ymryson—hynny yw, awgrymodd fod Gruffudd wedi newid ei feddwl. Ceisir dangos isod fod esboniad gorgymhleth fel hwn yn ddiangenraidd.

Ni fu erioed astudiaeth lawn o'r ymryson, fel y mae'r golygydd diweddaraf, Sara Elin Roberts, wedi nodi,⁴¹ ac felly y mae'r ddamcaniaeth mai *amour courtois* yw ei bwnc yn sefyll ar seiliau go simsan. Yn benodol, y mae lle i gwestiynu'n gryf ddehongliad Saunders Lewis o'r gair *geuwawd*, o bwysigrwydd y *celwydd*, a chyda hynny sylwedd yr ymryson cyfan, a'r safbwynt anghyson ac afresymegol a orfodwyd ar Ruffudd Gryg gan ddarllenwyr diweddar. Isod eir drwy'r testun yn fanwl er mwyn ceisio danganfod pa beth yn union oedd asgwrn y gynnen.

Ailystyried yr ymryson

Un darganfyddiad o'r gorffennol sy'n ymddangos yn ddiogel yw mai'r gerdd a ysgogodd feirniadaeth Gruffudd Gryg yn yr ymryson oedd cywydd Dafydd ap Gwilym, 'Gwayw serch'. Ymddengys fod Gruffudd yn adleisio darnau o hwn yng nghywydd cyntaf yr ymryson. Ond fe dâl ystyried llinell arall yn 'Gwayw serch' lle y mae Dafydd yn honni am ei nychdod ef ei hun:

Gwyn eiddigion gwlad Fôn fu.⁴²

Amhosibl, erbyn heddiw, yw gwybod beth oedd union ergyd y llinell hon. Gall mai lluosog *Eiddig, le jaloux*, y gŵr eiddigeddus, yw *eiddigion* yma, ac nad oes unrhyw fin arbennig ar y dewis o Fôn: y mae nychdod Dafydd yn newyddion da i wŷr ym Môn, un o'r lleoedd y digwyddai'r bardd daro heibio iddynt o dro i dro, gan nad oes angen bellach iddynt boeni am ddiweirdeb eu gwragedd. Ond os oedd eisoes ryw ddrwgdeimlad rhwng Dafydd a chylchoedd ym Môn, neu rhwng Dafydd a Gruffudd Gryg yn

⁴⁰ *Ib.* 65.

⁴¹ DG.net 23, nodiadau.

⁴² *Ib.* 127.14.

benodol, yna y mae'r llinell yn agored i'w dehongli'n finiocach.⁴³ Bid a fo am hynny, y mae'n debygol iawn fod Gruffudd wedi cydio yn y llinell hon wrth ganu cywydd cyntaf yr ymryson. Petai gwaywffon go iawn yn trywanu Dafydd, meddir, ni fyddai fyw i ganu amdani. A gŵr o Fôn yn benodol a allai fod yn dwyn y waywffon honno:

Och ym, pei brathai Gymro
Â gwayw, o Fôn,—on'd gwae fo?⁴⁴

Hawdd y gallem roi enw ar y Cymro glân gloyw o Fôn sydd ym meddwl y bardd. O'i gymharu â Gruffudd, tipyn o lipryn merchetaidd yw Dafydd, yn wahanol i'r gwŷr go iawn a geir ym Môn. Bydd yr ymgiprys rhwng De a Gogledd yn parhau drwy weddill yr ymryson, fel hefyd yr ansicrwydd am wryweidd-dra.

Camdehonglwyd cywydd cyntaf Gruffudd Gryg yn yr ymryson yn y gorffennol drwy ei ddarllen yn rhy wynepsyth a thrwy geisio canfod ynddo fwy nag a geir yno mewn gwirionedd. Y pwynt allweddol am y cywydd hwn yw mai enghraifft o dynnu coes ydyw, nid ymosodiad difrifol ar sail anghydfod athronyddol dwys. Rhaid pwysleisio'n gadarn nad oes ynddo unrhyw feirniadaeth ar ganu serch fel y cyfryw, nac ychwaith unrhyw gyfeiriad at *amour courtois*. Y cwbl sydd dan y lach yw'r ffaith fod Dafydd yn rhygnu hen dant saethau serch o hyd:

Gwewyr ganwaith a'i gwywawdd.

Es deng mlynedd i heddiw
Dafydd a ddywawd, wawd wiw,
Fod ynddo gant, ond antur,
O arfau, dyrnodau dur.⁴⁵

Gwnaeth beirniaid fôr a mynydd o'r ffaith fod Gruffudd yn galw'r ddelwedd hon yn *gelwydd* (ll. 35), fel petai'n rhy ddiniwed i ddeall beth yw trosiad. Wrth reswm y mae'r bardd a ganodd y cywyddau i'r lleuad ac i'r don yn deall beth yw trosiad: ond y mae'n tynnu coes Dafydd drwy gymryd ei drosiad ef yn llythrennol, a chwyno wedyn na all fod yn wir. Y mae'r ymdrech i ganfod rhyw anghydfod athronyddol a moesol rhwng y ddau fardd yn baglu ar ddau rwystr amlwg. Yn gyntaf, y mae canu dilys Gruffudd Gryg yn gwbl anghydnaws â'r delfryd yr honnir iddo ei gynrychioli yn y cywydd hwn. Ai amddiffynnwr digyfaddawd agwedd urddasol at ferched a welwn yn 'I'r don', ac yntau mewn gwewyr oherwydd bod arno ofn colli diddordeb Goleuddydd? Yn ail, ac yn fwy annerbyniol byth, y mae'n rhaid trin Gruffudd yn y cywydd hwn fel diniweityn llenyddol anhygoel. Y mae'r syniad y gallai trosiadau ffansiöol a gor-ddweud fod yn feini tramgwydd i

⁴³ Gw. D.J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', LICy viii (1964-5), 9n84.

⁴⁴ DG.net 23.45-6.

⁴⁵ *Ib.* 23.6, 27-30.

fardd yn y traddodiad barddol Cymraeg yn anghredadwy. Rhith yw delfryd y carwr urddasol, yn canmol merched heb ymgreinio o’u blaen. Ni fodola yn ‘I’r don’ ac ni fodolai yn y ‘rhieingerdd draddodiadol’ yr honnir i Ruffudd ei hamddiffyn.⁴⁶ Nis ceir ychwaith yn agwedd Gruffudd Gryg yn yr ymryson. Ni ddywed Gruffudd ddim am y pynciau y mae ysgolheigion wedi eu gorfodi arno. Y prawf amlycaf mai tynnu coes y mae yw ei ymateb syn, yn ei ail gywydd, i ffyrnigrwydd cywydd cyntaf Dafydd:

Bawddyn, pam na’ m rhybuddiai?

Ceisiodd fi, casaodd fudd,
Bribiwr y gerdd, heb rybudd.⁴⁷

Oni chymerwn fod Gruffudd Gryg yn rhagrithiwr penigamp, yna y mae’n rhaid deall nad oedd yn disgwyl i Ddafydd ateb yn ôl mor ffyrnig. Yn ei farn ef, cywydd cyntaf Dafydd yw gwir fan cychwyn yr ymryson. Sylwer yn arbennig ar y llinellau hyn:

Paham, ar gam Gymræg,
Na wyl mab Ardudful deg
Pwy yw ef, ddiglef ddeuglwyf,
A phwy wyf innau, hoff wyf.⁴⁸

Hoff wyf: cellwair cyfeillgar oedd ei gŵyn am undonedd canu Dafydd, ac nid yw’n haeddu ymateb mor gas o du’r bardd arall.

Gwir ddirgelwch yr ymryson, yn wir, yw ffyrnigrwydd y cywydd a ganodd Dafydd i ateb cywydd cyntaf Gruffudd. Paham y ffromodd Dafydd mor ddwfn? Ymddengys, unwaith eto, fod darllenwyr wedi camddeall ergyd ei ddieter. Dyma’r llinellau allweddol o ddechrau’r gerdd:

Nid mwy urddas, heb ras rydd,
Gwawd no geuwawd o gywydd,

⁴⁶ Â Hywel ab Owain Gwynedd yn wan oherwydd merch yn GLIF 9.13, gan sôn am gael ei *godd* (sef ei boenydio) ganddi. Yn *ib.* cerdd 8 cwyna nad yw’r ferch yn ateb ei ddeisyfiad taer. Yn *ib.* 10.2 ni all gysgu, fel hefyd yn 11.4, ac yn y gerdd olaf hon, dymuna gael ei ladd (11.16) oherwydd ei dristwch. Y mae Iorwerth Fychan yn *meddwi* o serch (GBF 29.1). Bu hefyd yn marw o serch ers blwyddyn (*ib.* 30.65). Cyll Prydydd y Moch ei liw ac y mae ei galon yn llosgi fel tân (GLIL 14.24, 33–4): hyn oll yn gwrthgyferbynnu’n chwerthinllyd ag ieithwedd arwrol yr awdl honno, fel y dadleuwyd yn Barry J. Lewis, ‘“Llafurfaith a Waith a Weinyddaf”’: Dulliau’r Gogynfeirdd o Agor Cerdd’, *LICy* xxviii (2005), 22. Ac y mae Cynddelw Brydydd Mawr, a ystyrir yn gyffredinol fel y mwyaf penstiff o’r Gogynfeirdd, yn defnyddio delweddau clwyfau serch a diffyg cwsig yn helaeth yn ‘Rhieingerdd Efa’ (GCBM i, 5.23–8, 33, 47–8, 63, 94, 99, 111, &c.). Nid oes rhaid poeni ai cerddi serch ‘difrifol’ ydyw’r rhain, ynteu cerddi mawl i ferched a gwagedd a luniwyd ar batrwm y canu serch, fel yr honnir weithiau. Dengys y defnydd o gonfensiynau fel y rhain eu bod yn hysbys iawn, hynny yw, y mae’n rhaid eu bod yn cael eu defnyddio mewn canu serch, hyd yn oed yn y 12g.

⁴⁷ DG.net 25.54, 57–8.

⁴⁸ *ib.* 25.47–50.

Cywair ddelw, cywir ddolef,
 Cywydd gwiw Ofydd, gwae ef!
 Un a'i cas, arall a'i cân,
 Enw gwrthgas, un a'i gwrthgan.⁴⁹

Y dehongliad arferol o'r llinellau hyn yw fod Dafydd yma'n amddiffyn ei gywyddau serch (*cywydd gwiw Ofydd*) yn benodol rhag ymosodiadau allanol. Y mae, felly, yn enwi dwy garfan: y rhai sy'n eu casáu (*un a'i cas*), ac eraill sy'n eu canu (ac felly yn eu cymeradwyo). Ond maentumia Dafydd, yn nannedd y gwrthwynebwyr hyn, nad yw urddas *gwawd* (canu mawl traddodiadol) yn fwy nag urddas y canu serch newydd (*geuwawd*). Y mae'r dehongliad hwn, sy'n deillio o waith Saunders Lewis fel y gwelwyd eisoes, yn ei dro wedi dylanwadu'n drwm ar y ffordd y darllenwyd cywydd cyntaf Gruffudd fel ymosodiad ar ganu serch llawn celwyddau. Nid oes tystiolaeth argyhoeddiadol dros y dehongliad hwn. Nid term cadarnhaol yw *geuwawd*. Gair negyddol iawn yw *gau*. Yn wir, yn llinell 52 y mae Dafydd yn cyhuddo Gruffudd o ganu [*c*]wydd *gau*. Go brin, felly, y byddai'n arddel y gair *geuwawd*—a hynny o fewn yr un gerdd—am ei waith ef ei hun. A fyddai Dafydd ap Gwilym yn fodlon galw ei ganu i Forfudd yn 'ffug' neu'n 'ffals'? A gair cwbl gyffredinol yw *gwawd*. Gallai gyfeirio at unrhyw fath o fawl, gan gynnwys mawl i ferched, neu'n wir unrhyw fath o ganu. Nid oes sôn yma am wrthgyferbynnu canu mawl 'traddodiadol' â chanu serch 'newydd' Dafydd ap Gwilym. Dehonglwyd y testun yng ngoleuni'r hyn a ysgrifennwyd mewn llyfrau hanes llenyddol am newydd-deb Dafydd ap Gwilym ac o dan ddylanwad y rhagdybiaeth y dylai Dafydd fod wedi ennyn gwrthwynebiad gan feirdd mwy traddodiadol eu hosgo. Ond nid oes dim yn yr ymryson, chwaethach yn ei waith arall, sy'n awgrymu bod Gruffudd Gryg yn geidwadwr gogynfarddol rhonc.⁵⁰

Am beth, felly, y mae Dafydd yn cwyno yn y cywydd hwn? Beth yw *gwawd* a *geuwawd* mewn gwirionedd? Gan nad yw Dafydd yn egluro ystyr *geuwawd*, y mae'n fwy diogel pwyso ar linell arall yn yr un gerdd na dyfalu (ar sail damcaniaethau haneswyr llên ynglŷn â newydd-deb canu Dafydd) mai term am ganu serch ydyw. Cymerwn yn hytrach ei gŵyn yn llinell 52 am *gywydd gau* Gruffudd Gryg: y mae'n ffug oherwydd i Ruffudd ddwyn ei ddefnydd o waith bardd arall. Hyd yn oed *A'i law ar ganllaw geinllwyr* (ll. 53), hynny yw, yn dilyn arweiniad bardd gwell nag ef (sef Dafydd), ni all Gruffudd ond baglu ymlaen fel hen garw musgrell (*R[h]ydain hen, y rhed yn hwyr*, ll. 54). Efelychwr eilradd ydyw.

A dyna allwedd y cywydd. Y mae'r efelychu hwn yn peri i ganu Dafydd

⁴⁹ *Ib.* 24.5–10.

⁵⁰ Gellid dadlau mai creadigaeth ysgolheigion yw'r creadur hwn, hefyd, o ystyried faint o feirdd yr awdl a ganai gywyddau hefyd: Llywelyn Goch ap Meurig Hen, Rhisieryn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed, Dafydd Ddu Hiraddug. A gallai Dafydd ap Gwilym, Gruffudd Gryg a Iolo Goch ganu awdlau go draddodiadol.

fynd yn sathredig. Cwyno y mae Dafydd fod apêl ei ganu ef yn pallu oherwydd fod eraill wedi ei feddiannu. Nid yw canu go iawn (*gwawd*), meddai, yn derbyn mwy o urddas na chanu ffug, efelychiadol (*geuwawd*). Nid oes dwy garfan, y naill yn cymeradwyo ei ddull newydd o ganu a'r llall yn ei ddwrddio. Llinell 9 yn fwy na dim sydd wedi creu'r argraff fod Dafydd yn trafod gwahanol garfanau o bobl. Y gair *cas* yw gwraidd y drwg. Hyd y gwyddys, ni cheir enghraifft o *cas* fel ffurf trydydd unigol presennol y ferf *casáu/casu*. Ffurf gywasgedig o *cafás* sydd yma.⁵² Cwyno y mae Dafydd fod pobl yn dwyn ei gerddi. Gellid aralleirio:

Un a'i cafodd, un arall sy'n ei ganu,
Enw cas, un [arall eto] sy'n ei ddynewared.

Nid oes dwy garfan yma, ond un garfan o ddatgeiniaid diegwyddor sy'n canu cerddi Dafydd heb ei ganiatâd, a hefyd feirdd eraill sy'n dwyn ei ddeunydd a'i ddynewared.⁵³ 'Dynewared ar gân' yw ystyr *gwrthgan*, fel y gellir dangos ar sail y cwpled hwn sy'n digwydd yn nes ymlaen yn yr un gerdd:

Ni *chano* Gruffudd, brudd braw,
Gwedd erthwch, gywydd *wrthaw*.⁵⁴

Y mae'n gwbl eglur o'r cyd-destun mai efelychu cerdd yn llên-ladrataidd yw ystyr *canu wrth* yma, ac os felly, dylid derbyn mai dyna ystyr *gwrthganu* yn llinell 10 hefyd.⁵⁵ A cherddi serch yn benodol y cyhuddir Gruffudd o'u dwyn (ll. 39 *Ni chân bardd i ail hardd hin*). O ddeall mai hynt a helynt ei gerddi wedi iddynt adael ei ddwylo ef yw testun pryder Dafydd yn y cywydd hwn, daw arwyddocâd y delweddu yn y llinellau nesaf yn eglur:

Telyn ni roddid dwylaw
Ar ei llorf, glaeargorf glaw,
Ni warafun bun o bydd
Ei cheuedd gyda chywydd.⁵⁶

Y mae merched yn hoffi sŵn telyn newydd sbon danlli (sef cywydd newydd Dafydd). Nid felly y mae hi, fodd bynnag, pan orddefnyddir y delyn gan

⁵² Dehongliad Thomas Parry oedd mai ffurf ar y ferf *casáu* yw *cas*, gw. GDG³ 549 (148.9n), a ddilynir yn DG.net 24.9. Gthg. GPC 435 d.g. *casaf*, lle y rhestrir tair enghraifft o *casa* fel y ffurf 3 un.pres.myn. Ceir enghreifftiau pendant o *cas* = *cafás* erbyn canol y 15g., cf. GGM 3.20 *Y gŵr ei gryfdrwr a gas* a GPhE 1.39–40 *A hwnnw gas yn heinif / Ei wŷr i'r lan o fawr lif*.

⁵³ Gall hefyd, fel yr awgrymodd Dr A. Cynfael Lake wrthyf, mai Dafydd yw goddrych arfaethedig *cas*: Dafydd a gafodd y deunydd yn wreiddiol, ac yna penderfynodd eraill ei ddynewared. Gall *cael* hefyd olygu 'cenhedlu ... cynhyrchu', gw. GPC 387.

⁵⁴ DG.net 24.41–2; myfi biau'r italeiddio.

⁵⁵ Cf. GPC 1722–3 d.g. *gwrthgan*, lle y nodir enghraifft o *gwrthgan* o 1592 yn golygu 'antiffon'. Pennill a genir gan gôr o gantorion mewn ateb i bennill a genir gan gôr arall yw antiffon. Gall fod arlliw o'r ystyr litwrgiaidd hon ar ddefnydd gwatwarus Dafydd ap Gwilym o'r geiriau *gwrthganu* a *canu wrth*. Gthg. yr hyn a ddywedir *ib.* d.g. *gwrthganaf*, sydd dan ddylanwad dehongliad traddodiadol llinell Dafydd ap Gwilym.

⁵⁶ *Ib.* 24.11–14.

chwaraewr gwael mewn amgylchiadau distadl:

Traethawl yw, o cheir trithant,
 Traethawr cerdd, truthiwr a'i cant
 Yn nhafarn cwrw anhyful,
 Tincr a'i cân wrth foly tancr cul.
 Hwn a'i teifl, hyn neud diflas,
 Hen faw ci, yny fo cas.⁵⁷

Nid ar y gerdd y mae'r bai, eithr ar y defnydd a wneir ohoni (*Beio cerdd lle ni bo cam*, ll. 28).

Trawodd Gruffudd Gryg ar fan gwan Dafydd ap Gwilym pan gwynodd fod ei ganu yn ailadroddus. Y mae'r ffaith fod Dafydd yn cyhuddo Gruffudd o efelychu ei gerddi ef yn dangos nad ystyriai mai *natur* y canu oedd asgwrn y gynnen rhyngddynt. Nid oes unrhyw ymdrech yn y cywydd i gyfiawnhau canu serch: nid dyna'r pwnc. Cymer Dafydd yn ganiataol fod y ddau'n cytuno ar hynny:

Caned bardd i ail harddlun,
 Gywydd o'i henwydd ei hun.⁵⁸

Yn hytrach, y mae'n beio Gruffudd am wneud i'w ganu ef (hynny yw, canu Dafydd) swnio'n ailadroddus, a hynny drwy ei efelychu byth a hefyd, ac mewn dull anysbydoledig. Dylai Gruffudd roi cyfran o'i ganu ef ei hun iddo yn gyfnewid am hyn:

Taled y mab ataliaith
 Tâl am wawd, talm ym o'i waith.⁵⁹

Y mae'r dehongliad traddodiadol o'r ymryson yn codi *non sequitur* anferth. Os cwyno am newydd-deb estron canu Dafydd a wna Gruffudd Gryg, yna sut yn y byd y gallai Dafydd ei gyhuddo o'i efelychu? Rhaid bod Gruffudd naill ai'n rhagrithiwr tan gamp, neu ynteu'n hollol anymwybodol o natur ei ganu ef ei hun. Ac ni facha Gruffudd o gwbl ar y cyfle i ymosod yn ôl yn ei ail gywydd drwy amddiffyn rhyw safon o ymddygiad urddasol mewn canu serch. Nid oes yma awgrym yn y byd fod canu'r ddau fardd yn wahanol: yn wir, byddai hynny'n gwneud y ddaol gyfan yn ddiystyr.

Dengys ail gywydd Gruffudd Gryg, yn ateb i'r uchod, unwaith yn rhagor mai ailadrodd, nid canu celwydd, yw byrdwn ei gyhuddiad yn erbyn Dafydd. Fe'i cymhara â dau beth a oedd yn dra phoblogaidd ar un adeg ond y mae eu bri wedi hen bylu: *hobi hors* (ll. 29) a'r *organ ym Mangor* (ll. 35). Y trydydd yw canu Dafydd ap Gwilym:

Hoff fu yng Ngwynedd, meddynt,
 Yn newydd ei gywydd gynt.

⁵⁷ *Ib.* 24.15–20.

⁵⁸ *Ib.* 24.55–6.

⁵⁹ *Ib.* 24.61–2.

Bellach, gwywach ei gywydd,
Aeth yng ngwyll ei waith yng ngwŷdd.⁶⁰

Nid oes sôn yma am gelwydd. Ailadrodd a rhygnu ymlaen yw'r cyhuddiadau. Rhaid pwysleisio: ni sonia Gruffudd air am ganu serch nac *amour courtois* yn y cywydd hwn.

Y mae gweddill y gerdd braidd yn hunandosturiol, wrth i Ruffudd gwyno na chafodd rybudd gan Ddafydd am ei fwriad i ymosod arno, llinellau a ddyfynnwyd uchod. Byrdwn cywydd nesaf Dafydd, er ei fod yn awgrymu'n ddigon swta ei fod yn barod i gymodi, yw fod cywydd Gruffudd ei hun yn ategu ei ddadl: dygodd Gruffudd ei enghreifftiau o gerdd gan ryw Dudur ap Cyfnerth.⁶¹ Nid yw'r ddadl yn symud ymlaen ryw lawer yma. Yn hytrach, brolio ei wlad a wna Dafydd yng ngweddill y cywydd, a herio Gruffudd i ymryson (neu hyd yn oed ymladd, os deellir yr ieithwedd filwrol yn llythrennol). Teg dweud bod gweddill yr ymryson yn cylchdroi o gwmpas yr un themâu: ymladd, ymfrost a sarhad personol (sy'n bersonol iawn erbyn y diwedd). Ond y mae'n werth nodi'r llinellau canlynol:

Trwch iawn y'th farnaf, Ddafydd,
Tristâu Dyddgu o'r dydd.
Didrwyd wyf, ffieiddwyf ffo,
Didrist Gweirful o'm didro.
Gwae Ddyddgu, ddyn gweddeiddgall,
Gwyn fyd Gweirful: ni wyl wall.⁶²

Y cyd-destun yw'r ymryson cyhoeddus arfaethedig rhwng y ddau fardd. Bydd Gweirful ar ben ei digon, yn ôl Gruffudd, o weld ei bardd yn rhagori, ond braw a gaiff Dyddgu. Sylwer mor ddidramgwydd y cyfosodir enwau'r merched, sef gwrthrychau canu'r ddau. Anodd yw gweld gwahaniaeth egwyddor yma. Cytunir ar natur y busnes, ond nid ar bwy sy'n ei gyflawni orau.

Ceir un awgrym olaf am agwedd Gruffudd at ei farddoniaeth ar ddechrau ei bedwerydd cywydd yn yr ymryson, sef yr un olaf. Cwyna na chaiff gyfle i ganu mawl i Weirful gan fod ymosodiadau anghynnes Dafydd ap Gwilym yn ei lesteirio, ac ymddiheura wrthi mewn ffordd sy'n awgrymu nad yw'n llwyr o ddifrif (e.e. ll. 16 *Dos yn iach, un dison wyf*). Yna â ymlaen i gwyno na all ganu dychangerdd i Dudur Goch, *cenau tom*: bydd rhaid iddo yntau aros ei dro hefyd (ll. 22 *Nochd ydwyd, yn iach, Dudur*—sylwer ar yr ieithwedd gyffelyb). O'r braidd fod y cyplysiad hwn yn gosod Gweirful ar ryw bedestal o urddas anghyraeddadwy. Cydnabyddiaeth ydyw o natur *lenyddol* y weithred o farddoni: bod canu i ferched, yn y bôn, yn ddigrifwch a seilir ar gonfensiwn a chwarae, yn yr un ffordd â dychanu cymeriadau fel

⁶⁰ *Ib.* 25.43–6.

⁶¹ Cymodi: *ib.* 26.5–6; Tudur ap Cyfnerth: *ib.* 13–24.

⁶² *Ib.* 27.47–52.

Tudur Goch. Go brin fod yr hyn a alwodd Saunders Lewis yn ‘[d]raddodiad Aberffraw’, rhyw ddelfryd o’r bardd mawl difrifol, aruchel, yn bodoli yn y lle hwnnw hyd yn oed yn y ddeuddegfed ganrif a’r drydedd ar ddeg, ac yn sicr tystiolaeth y cywydd hwn yw na fodolai yno yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Rhith ydyw a darddodd o gymryd delfrydau moesol y gramadegau barddol fel tyst i’r gwirionedd yn hytrach na’r hyn ydynt, sef gobeithion afrealistig clerigwyr.

Y mae’n dra thebygol mai cywydd cymod, mewn gwirionedd, yw cywydd marwnad Gruffudd i Ddafydd (cerdd 4). Perthyn i’r cyfnod ar ôl yr ymryson, oherwydd y mae Gruffudd yn sôn yn benodol am y ffrae a fu rhyngddynt. Syrthia Gruffudd ar ei fai, fwy neu lai, a chyfaddef, mewn llinell dra enwog, mai Dafydd a fu’n ysbrydoliaeth farddol iddo ef:

Disgybl wyf, ef a’ m dysgawdd.⁶³

Gellid dadlau bod y llinell hon yn ategu dadl Dafydd ap Gwilym yn yr ymryson, sef bod Gruffudd yn efelychwyr iddo. Bid a fo am hynny, y mae’n sicr yn hollol anghydnaws â’r dehongliad traddodiadol o’r ymryson. Os cydnebydd Gruffudd yma fod canu Dafydd yn ddigon da ganddo i’w efelychu, yna y mae’n rhaid mai rhagrith neu hunan-dwyll oedd y tu ôl i’w safbwynt yn yr ymryson, yn amddiffyn canu serch ‘urddasol’ yn erbyn *amour courtois* ymgreiniol. Ond fel y gwelwch, ni sonia air am urddas nac *amour courtois*. Ni wyddom i sicrwydd sut yr ymatebodd Dafydd i’r cywydd hwn, ac nid yw’n sicr a yw ei farwnad yntau i Ruffudd yn perthyn i’r cyfnod hwn, ynteu i’r cyfnod cyn yr ymryson;⁶⁴ dengys yr ymryson yn eglur fod y ddau yn adnabod ei gilydd cyn hynny. Ni wyddys ychwaith ymhle yn y dilyniant hwn y dylid gosod y cywydd i’r ywen, ond gall fod y sylw a rydd Dafydd i gladdedigaeth honedig Gruffudd mewn cist yn Llan-faes yn gysylltiedig â delwedd y bedd dan yr ywen yng ngherdd Gruffudd Gryg. Hynny yw, dichon fod un o’r cerddi hyn yn ateb uniongyrchol i’r llall, ond nid yw eu trefn gronolegol yn amlwg. Y mae’n bosibl, fodd bynnag, fod cywydd marwnad Dafydd i Ruffudd yn ateb marwnad Gruffudd iddo ef, ac mai ar ddiwedd y dilyniant y daw’r cywydd i’r ywen, gan gau pen y mwdwl. Y mae dwy gerdd Gruffudd yn anghytuno ynghylch man claddu Dafydd: mewn [c]ôr gwydr y’i cleddir yng ngherdd 4 (ll. 54). Siawns nad ymatebodd Dafydd i hyn drwy honni bod Gruffudd yn gorwedd yng nghôr Llan-faes ym Môn? Dyma adleisio’r hyn a ddywedodd Gruffudd, fel sy’n digwydd drwy gydol yr ymryson, ond gan sgorio pwynt ychwanegol drwy gyfeirio at gynefin y bardd arall. Wedyn gallai Gruffudd fod wedi claddu Dafydd yn Ystrad-fflur—yng nghyfefin Dafydd—ac adennill y rhagoriaeth drwy ddyfeisio ffantasi’r gladdedigaeth dan yr ywen. Er gwaethaf y cymodi, parhâi’r ymgiprys rhwng y ddau, hyd yn oed os oedd y cywair yn fwy tangnefeddus.

⁶³ 4.13.

⁶⁴ DG.net cerdd 22.

Ond ni ellir profi dim o hyn.

Daeth dwy gamdybiaeth ynghyd i ffurfio'r dehongliad cyfeiliornus o'r ymryson rhwng Gruffudd Gryg a Dafydd ap Gwilym sydd wedi teyrnasu hyd yma. Yr un fwyaf yw'r awydd dwfn i wrthgyferbynnu 'brodorol' ac 'estron', fel petai nid yn unig fodd i ni heddiw wahaniaethu rhyngddynt, ond hefyd fel petai pobl y cyfnod hwnnw yn rhannu ein diddordeb angerddol ni yn y gwrthgyferbyniad hwn. Mewn gwirionedd, prin yw'r dystiolaeth eu bod.⁶⁵ Yr ail gamdybiaeth yw fod gan gerdd dafod gyfundrefnau caeth ers y cyfnod boreol a adlewyrchir yn nisgrifiadau'r gramadegau barddol o'r tri math o farddoniaeth, a bod y gofynion moesol y mae'r gramadegau yn mynnu arnynt mewn gwirionedd wedi nodweddu'r prydydd urddasol, uchel ei statws o'i gymharu â'r beirdd israddol. O'r herwydd mynnir trin y disgrifiadau hyn fel rhai gwrthrychol, hynny yw, rhai sy'n dwyn perthynas agos â'r farddoniaeth a genid yn y byd go iawn. Yr awydd cyntaf a arweiniodd at gamgynrychioli safbwyntiau'r ddau fardd yn yr ymryson, er ei bod yn gwbl amlwg o'u gwaith nad oes rhithyn o wahaniaeth rhwng egwyddorion y ddau. Nid oes sail yn y byd dros wneud Gruffudd Gryg yn amddiffynnwr glew y 'traddodiad Cymraeg', chwaethach am y ddamcaniaeth mai Dafydd ap Gwilym oedd y bardd cyntaf yn y Gymraeg i brofi dylanwad canu serch cyfandirol. Y mae Gruffudd yn cydnabod bod Dafydd ap Gwilym yn sefyll yn llwyr yn olyniaeth Cynddelw Brydydd Mawr, Aneirin, Trahaearn Brydydd Mawr, Llywarch [ap Llywelyn], Casnodyn ac Adda Fras;⁶⁶ ac yn ôl Dafydd, *ofyddiaeth* yw celfyddyd Gruffudd.⁶⁷ Y mae'r syniad y ceid gynt y 'rheingerdd draddodiadol', a oedd rywsut yn fwy cynhenid a Chymreig ei naws, ac a oedd yn amddifad o'r agwedd ddarostyngol, honedig estron, a welir yn rhai o gywyddau Dafydd, yn syml iawn, yn anghywir. Nid amddiffynnwr y 'rheingerdd' urddasol mo Gruffudd Gryg, ac ni allai fod, am y rheswm syml mai dyfeisiad ysgolheigion yr ugeinfed ganrif yw'r rhith hwnnw. Y mae ymgreinio a chwarae rôl y carwr llipa, eiddil, yn rhan annatod o'r canu Cymraeg i ferched o'r enghreifftiau cynharaf sydd gennym ymlaen i amser Dafydd ap Gwilym a thu hwnt. Os bu erioed adeg yn hanes llên Cymru pan fyddai dadl o'r fath a ddychmygodd Saunders Lewis ac Eurys Rowlands yn amserol, *efallai* y ddeuddegfed ganrif oedd yr adeg honno. Ond nid oes awgrym yn ein ffynonellau fod y fath ddadl wedi digwydd yn y ganrif honno ychwaith. Ac nid yw'r un o'r beirdd ar unrhyw adeg yn bradychu mymryn o ddiddordeb

⁶⁵ Ystyrir problem y gwrthgyferbyniad rhwng 'brodorol' ac 'estron' gennyf eto yn 'Bardd Natur yn Darllen Bardd y Ddinas? Dafydd ap Gwilym, "Y Don ar Afon Dyfi" ac Ofydd, *Amores*, III.6', *LlCy xxxi* (2008), 1–22 ac yn 'Genre and the Praise of Place in Late Medieval Wales', *Kelten am Rhein: Akten des dreizehnten Internationalen Keltologiekongresses/Proceedings of the Thirteenth International Congress of Celtic Studies*, ii: *Philologie (Sprachen und Literaturen)*, gol. Stefan Zimmer (Mainz am Rhein, 2009), 147–58.

⁶⁶ 4.42–52.

⁶⁷ DG.net 22.60.

yn nharddiad y motiffau barddol a ddefnyddiai, boed yn ‘frodorol’ neu’n ‘estron’. Gwnaed Gruffudd Gryg a Dafydd ap Gwilym yn llefarwyr diarwybod i obsesiwn ein hoes ni.

O ran y duedd arall, sef i orbrasio tystiolaeth y gramadegau barddol: ystrydeb, erbyn hyn, yw cydnabod bod dychan yn gymaint rhan o waith hyd yn oed y mwyaf urddasol o’r beirdd ag yw canu mawl. Gan hynny, nid yw’r gwahaniaeth a geir yn y gramadegau rhwng *clerwriaeth*, *teuluwriaeth* a *penceirddiaeth* yn dal dŵr, heb sôn am y broblem amlwg fod y gwahaniaeth rhwng y ddau gategori olaf, fel y’i portreedir yn y gramadegau, mor dywyll ag unrhyw ddatganiad a ddaeth o oracl Delffi. Nid oes dim i’w ennill o ddwyn y geiriau hyn i mewn i’r drafodaeth ar destunau lle nas ceir yn y testunau eu hunain. Dyma’r sefyllfa gyda’r ymryson hwn. Effeithiodd y delfryd o’r prydydd urddasol yn andwyol ar ddehongliad Saunders Lewis o’r gerdd. Fel y gwelsom, gwahaniaethodd ef rhwng y ‘[dd]adl farddol o bwys mawr’ a’r cecru a’r cystadlu rhwng y beirdd nad ennynai unrhyw ddiddordeb ynddo.⁶⁸ Nid yw’n hawdd cyfiawnhau ei flaenoriaethau ef ar sail y cerddi eu hunain. Yn yr ymgiprys yr oedd diddordeb y beirdd a’u cyfansoddodd, ac ymroddodd y prydyddion urddasol hyn yn firwd i’r gwaith o ddychanu ei gilydd (a mamau ei gilydd o ran hynny).

I gynhoi: nid oes anghytundeb egwyddor rhwng Gruffudd Gryg a Dafydd ap Gwilym, a’r cwbl sydd gennym yma yw enghraifft o ‘chwarae’n troi’n chwerw’—fel y cydnebydd y ddau fardd eu hunain. Dyma Ruffudd yn gyntaf:

Dafydd, ponid edifar
Dyfu’r hyn a fu o fâr?⁶⁹

Ac yna Ddafydd yn ei ateb:

Trafferth flin yw yt, Ruffudd,
Chwyrn braw, od â’r chwarae’n brudd.⁷⁰

Pererindod Gruffudd Gryg

Dengys y cywyddau i’r lleuad ac i’r don (cerddi 6 a 7) fod Gruffudd Gryg wedi teithio fel pererin i Santiago de Compostela yn Sbaen, un o hoff gyrchfannau pererinion yn yr Oesoedd Canol gan y tybid mai yno y claddwyd esgyrn yr apostol Iago. O Brydain, gellid cyrraedd Santiago drwy hwylio o un o borthladdoedd y de (Bryste yn enwedig) i La Corunna, nid nepell o Santiago. Ffordd arall, fwy hirfaith, oedd mynd drwy Ffrainc. Gellid croesi’r Sianel a theithio’r holl ffordd i lawr i’r de, neu osgoi’r daith lafurus honno drwy hwylio i un o’r porthladdoedd yn ne-orllewin Ffrainc,

⁶⁸ Uchod, tt. 8–10.

⁶⁹ DG.net 27.1–2.

⁷⁰ *Ib.* 28.31–2.

Bordeaux neu Bayonne, a oedd ym meddiant brenin Lloegr. Eiddo coron Lloegr oedd yr ardal hon, Gwasgwyn a Gïen, ar y pryd, er bod disgwyl i'r brenin dalu gwrogaeth drostynt i frenin Ffrainc. Yn ystod einioes Gruffudd Gryg daeth y trefniant anghyfforddus hwn yn destun rhyfel, ac y mae pererindod Gruffudd Gryg yn codi problemau dyrys ynghylch ei dyddiad, y cyd-destun gwleidyddol a chydberthynas y ddwy neu'r tair cerdd sy'n ymwneud â hi.

Yn 'I'r Lleuad' y mae Gruffudd yn egluro bod tywydd gwael wedi gyrru ei long i'r arfordir:

Teflaist yng ngwar tir Harri
Ynglŷn fyth, fy ngelyn, fi.⁷¹

Credai Thomas Roberts mai arfordir Lloegr oedd hwn, ac mai'r brenin Harri IV (1399–1413) a enwir.⁷² Yr oedd y dyddiad diweddar hwn yn gyson â'i dybiaeth fod y farwnad i Rys ap Tudur (cerdd 3) yn farwnad ddifrifol a ganwyd 1411 × 1412. Os gwrthodir yr ail dybiaeth hon, yna nid oes dim i brofi bod Gruffudd Gryg yn fyw mor ddiweddar â dechrau'r bymthegfed ganrif. Gwelwyd uchod ei fod wedi cyrraedd oedran gŵr erbyn 1357 fan bellaf, a bod ei frawd yn ddigon hen i ymgymryd â gweithgarwch cyfreithiol yn 1334. Awgryma hyn fod Gruffudd yn perthyn i ganol y ganrif, ac er y gwyddom ei fod yn dal yn fyw pan ddaeth Rhisiart II i'r orsedd, ni wyddys faint yn union a welodd o deyrnasiad hwnnw (1377–99). Awgrymodd D.J. Bowen mai Harri II o Trastamara, brenin Castil (1369–79), yw Harri'r gerdd.⁷³ Yr oedd hefyd Harri arall, Harri III o Gastil (1390–1406), ond eto y mae hwnnw braidd yn ddiweddar oni chafodd y bardd oes hir iawn.

Ond os Harri II o Gastil a enwir yn y gerdd, yna y mae problemau mawr yn codi. Drwy gydol ei deyrnasiad yr oedd Harri yn gynghreiriad i'r Ffrancwyr ac yn elyn i Loegr, ac yn ystod yr amser hwn yr oedd sefyllfa'r Saeson yn ne-orllewin Ffrainc yn dirywio'n enbyd. Defnyddiai Harri ei lynges i dorri'r cysylltiadau rhwng Lloegr a Gwasgwyn, a dinistriodd lawer o longau Seisnig yn La Rochelle yn 1372.⁷⁴ Ar yr un pryd, ymosododd y Ffrancwyr ar Wasgwyn a chipio rhan helaeth o'r tir. Yn 1377 ymosododd llongau o Sbaen hyd yn oed ar arfordir Lloegr ei hun. Nid oes cofnod i gymaint ag un llong dderbyn caniatâd oddi wrth lywodraeth Lloegr i fynd â phererinion i Santiago (yng Nghastil) yn ystod y saithdegau.⁷⁵ Cafwyd cytundeb heddwch dros dro yn 1375–7, a cheir tystiolaeth fod o leiaf un garfan o bererinion o Loegr wedi teithio i Santiago yn 1375—ond daliwyd

⁷¹ 6.29–30.

⁷² DGG² xcvi–xcix.

⁷³ D.J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', *LlCy* viii (1964–5), 11n91.

⁷⁴ Gw. J.N. Hillgarth, *The Spanish Kingdoms 1250–1516*, i: 1250–1410: *Precarious Balance* (Oxford, 1976), 387–8.

⁷⁵ Constance Mary Storrs, *Jacobean Pilgrims from England to St. James of Compostella from the Early Twelfth to the Late Fifteenth Century* (London, 1998), 173.

hwy ar y ffordd yng Nghastîl a bu bron iddynt gael eu crogi.⁷⁶ Ar 26 Mai 1375 y cytunwyd ar y cadoediad, a daeth i ben ym mis Ebrill 1377.⁷⁷ Gan fod 'I'r Lleuad' yn sôn yn benodol am fis Ebrill, yr unig flwyddyn bosibl ar gyfer y bererindod yw 1376. Nid yw'n gredadwy fod pererinion o diroedd brenin Lloegr wedi mentro i Sbaen yn y saithdegau ac eithrio yn ystod yr ysbaid fer hon. Yn sicr, y mae'n eglur fod masnachu rhwng Lloegr a Sbaen wedi dod i ben yn ddisyfyd yn ystod y degawd hwn.⁷⁸ A go brin y byddai neb yn hwylio i dde-orllewin Ffrainc, ardal a oedd mewn perygl mawr o syrthio i'r Ffrancwyr, ac yna'n cerdded neu'n marchogaeth yr holl ffordd i Santiago drwy diroedd Harri II.

Dyddiad y bererindod, felly, oedd 1376, ac yn wyneb y peryglon gwleidyddol, byddai Gruffudd yn sicr wedi hwylio'n syth i ardal Santiago, gan dreulio cyn lleied o amser â phosibl yn nhiroedd Castîl, ac wedi hwylio'n syth yn ôl. Nid yw'n debygol o gwbl y byddai wedi mentro i Bordeaux neu Bayonne ac yna wedi dilyn llwybr enwog y pererinion ar draws gogledd Sbaen. Gwelir bod hyn yn gyson â thystiolaeth y cywyddau i'r lleuad ac i'r don. Yn 'I'r Lleuad' cwyna Gruffudd fod ei long yn gaeth rywle ar arfordir Sbaen. Nid yw'n hollol eglur pa ran o'r daith sydd dan sylw—y daith allan neu'r daith adref—ond awgryma'r llinellau canlynol mai ar ei ffordd allan yr oedd Gruffudd:

Torraist â Sain Siâm amod,
Tud y glaw, nid da dy glod.

Dwg fi uniawnffordd, deg fis,
Dwg elw Sain Siâm dy Galis.⁷⁹

Ni ellir gwrthod y posibilrwydd mai cytundeb rhwng Gruffudd a'r sant i'w ddiogelu ar y ffordd adref yw'r *amod* a dorrodd y lleuad, ond, ac ystyried mai mis Ebrill ydyw hi, ac mai Ebrill neu Fai oedd yr amser arferol i hwylio i Santiago,⁸⁰ y mae'n anodd credu bod Gruffudd eisoes ar ei ffordd yn ôl. Y daith allan i Santiago, felly, a ddarlunnir yma yn ôl pob tebyg. Gyrwyd y llong i arfordir Sbaen, ond nid i'r lle cywir na hyd yn oed i harbwr diogel, oherwydd y mae Gruffudd yn erfyn ar leuad Ebrill i'w arwain i *bill*, sef lloches, ac yna y mae'n gobeithio y bydd tywydd gwell mis Mai yn ei arwain i ben ei daith.⁸¹ Hyd yn oed os oedd Gruffudd am hwylio i Wasgwyn ac yna gerdded i Santiago, nid ymddengys iddo lwyddo. Y tebyg yw mai

⁷⁶ *Ib.* 79–80 a'r cyfeiriad yno 79n197.

⁷⁷ P.E. Russell, *The English Intervention in Spain and Portugal in the Time of Edward III and Richard II* (Oxford, 1955), 223, 225.

⁷⁸ Gw. Wendy R. Childs, *Anglo-Castilian Trade in the Later Middle Ages* (Manchester, 1978), 40–1.

⁷⁹ 6.27–8, 69–70.

⁸⁰ E.e., y mae Constance Mary Storrs, *op.cit.* 103 a 105, yn nodi teithiau i Santiago a wnaed ym mis Mai.

⁸¹ 6.63–72.

porthladd yn agos i Santiago oedd ei nod.

Y mae'r cywydd i'r don yn llai amwys. Yma y mae Gruffudd mewn porthladd yn Sbaen ac yn aros am dywydd ffafriol fel y gall fynd adref. Nid yw ei long yn symud ac nid yw ar y môr agored:

Na lestair mwy lestr i'r môr.⁸²

Y mae'r don yn taro creigiau ac angor y llong (llau. 4, 12, 23): dyma olygfa arfordirol. Cadarnheir hyn gan y ffaith fod y bardd yn ei gwyllo o *oror heli* (ll. 14). Y lleoliad yw arfordir Sbaen:

Diasbad o du Ysbaen.⁸³

Yn olaf, dymuna'r bardd fynd adref. Dyna holl bwynt y cywydd: cerdd o hiraeth am gartref ydyw. Bwriad Gruffudd, felly, oedd hwylio adref o rywle yng ngogledd Sbaen.

Fel y dywedwyd, y mae hyn oll yn ystyrllon: hwyliodd Gruffudd i La Corunna neu i un arall o'r porthladdoedd a wasanaethai Santiago, ac er gwaethaf peth helynt ar y ffordd, llwyddodd i gyflawni ei bererindod. Nid aeth ar gyfyl Gwasgwyn a threuliodd ychydig ddyddiau yn unig, gellir credu, yn nhiroedd anghroesawgar Harri II. Y broblem nesaf yw cysoni hyn â thystiolaeth y cywydd i Ynys Môn (cerdd 8), ac nid hawdd yw gwneud hynny. Taith o *nen Ffrainc*, sef Gïen neu Wasgwyn, yn ôl i Gymru a ddychmygir yno. Enwir *Nafarn* (Navarra) hefyd. Y mae'n wir nad yw'r cywydd yn dweud yn blaen fod Gruffudd wedi ymweld â Navarra, ond dyna'r awgrym. Sôn yn benodol am lwybr enwog y pererinion dros fynyddoedd y Pyreneau y mae'r gair *ceusarn*:

Da Nafarn geusarn gyson,
Deuwell ydyw meddgell Môn.⁸⁴

Ond os bu raid i Ruffudd lanio yng ngogledd Sbaen ar ei ffordd allan, go brin y byddai wedi mynd yn agos i'r llwybr hwnnw. Yn hytrach, os oedd yn fwriad ganddo gerdded drwy Sbaen, yna byddai wedi cychwyn allan o ba le bynnag y glaniodd ac ni fyddai wedi mynd yn agos i Navarra. Yn y cyfnod hwnnw nid oedd Navarra yn ymestyn mor bell â'r arfordir. Os teithiodd Gruffudd drwy Navarra, y mae hynny'n gofyn am fan cychwyn yn ne-orllewin Ffrainc. Ac y mae cywydd y don yn peri amau'r syniad fod Gruffudd wedi cerdded yn ôl i dde-orllewin Ffrainc drwy Navarra. Gallai fod wedi hwylio yn ôl o ardal Santiago i *nen Ffrainc*, ond ni fyddai wedi gweld Navarra. Y mae'r cywydd i Ynys Môn yn anghyson â'r ddau gywydd arall. Y mae'n anodd credu y byddai neb o ddarostyngedigion coron Lloegr wedi dewis gwneud y siwrnai hir o Wasgwyn drwy Navarra a Chastil yn y cyfnod hwn yn lle hwylio'n syth i ardal Santiago.

⁸² 7.68.

⁸³ 7.17.

⁸⁴ 8.11–12.

Efallai fod Gruffudd wedi byw yn hwy nag y dadleuwyd uchod a'i fod wedi pererindota yn ystod teyrnasiad Harri III o Gastil, yn y nawdegau, dyweder. Yr oedd y sefyllfa wleidyddol gryn dipyn yn dawelach yr adeg honno a phererinion o Loegr yn sicr yn heidio i Santiago. Ni fyddai mynd drwy Gïen a Navarra yn broblem yn y degawd hwnnw. Ond erys yn anodd cysoni 'I dir Môn' â'r ddau gywydd arall.

Beth, felly, am ateb mwy radical i'r broblem? Ai un daith a ddisgrifir yma mewn gwirionedd? Sylwer nad oes gair am Santiago nac am bererindota yn 'I dir Môn'. Nid oes ynddo ddim sy'n profi bod cysylltiad rhyngddo a'r cywyddau i'r lleuad ac i'r don. Yn 1366 diorseddwyd y brenin Pedr o Gastil, a oedd ar delerau da â'r awdurdodau Seisnig yng Ngwasgwyn, gan Harri o Trastamara (Harri II yn ddiweddarach). Arweiniodd y Tywysog Du lu o Saeson i Gastil i adfer Pedr i'r orsedd, ymgyrch a lwyddodd (1367). Gwyddys i fyddin Lloegr deithio ar lwybr enwog y pererinion dros y Pyreneau.⁸⁵ Dychwelodd i Wasgwyn ar ôl y frwydr fuddugoliaethus, unwaith eto drwy Navarra.⁸⁶ Tybed a gymerodd Gruffudd Gryg ran yn y rhyfel hwn? O ogledd Cymru y byddai canran dda o filwyr y Tywysog Du—Tywysog Cymru—wedi dod. Nid oes prawf fod Gruffudd yn filwr, ond ymddengys yn anodd gwrthod y posibilrwydd hwnnw. Y mae un pwynt pellach yn werth ei gofio. Byddai meddwl am Gruffudd Gryg fel saethydd yn cyfoethogi'n fawr ein dealltwriaeth o'r ymryson rhyngddo a Dafydd ap Gwilym. Ni fyddai'n syndod fod Gruffudd yn gwawdio'r bardd arall am ei eiddilwch yn wyneb saethau dychmygol serch. Y mae osgo filwrol i'r ddelweddaeth y mae'r naill fardd yn tynnu arni er mwyn herio'r llall i ymryson ar ffurf barddoniaeth, ond weithiau y mae'n bosibl fod Gruffudd yn crybwyll y posibilrwydd o ymladd go iawn:

Dewis, Dafydd, a dywaid
Ym beth a fynnych neu baid:
Ai ymsang, wr eang wg,
Am radd, ai ymladd amlwg?

Ni wŷs o gorff na orffwyf,
Neu o gerdd; aneuog wyf.

Down i gyd, diennig ym,
Â deugledd odidowglym;
Prifenw dysg, profwn ein dau
Pa wr ym mrwydr, pwy orau.

⁸⁵ P.E. Russell, *op.cit.* 83 a'r map gyferbyn. Y mae ar glawr adroddiad manwl am yr ymgyrch gan herald John Chandos a gymerodd ran ynddi. Yr oedd Gwilym ap Llywelyn, un o'r dynion a amddiffynnir gan Ruffudd Gryg yng ngherdd 11, yn ysgwïer i John Chandos yn 1361 (R.A. Griffiths: PW i, 380).

⁸⁶ P.E. Russell, *op.cit.* 125–7.

O thrawaf heb athrywyn
 Â min fy nghledd dannedd dyn.

Fy nghorff yn erbyn fy nghas
 A rof am na bûm ryfas,
 A'm cerdd fasw dan fedw laswydr,
 A'm callter, a'm hoywder hydr.⁸⁷

A beth am y ddelwedd hon o gywydd olaf Dafydd ap Gwilym?

Arblastr yw Gruffudd eirblyg,
 A bwa crefft, cyd bo cryg;
 Saethu y mae, wae wahawdd,
 Pob nod, nid rhydd i'r Pab nawdd,
 Ac odid, elyw-wrid liw,
 Un a fedr, anaf ydiw,
 Ond dwyn y gerdd wrthwyneb,
 Y glod yn anghlod i neb.⁸⁸

Dyma ddelwedd wych am Ruffudd fel bardd dychan piwis sy'n ymosod ar bawb o'i gwmpas heb allu taro neb; ond tybed a oedd Gruffudd yn *arblastr*, yn saethydd bwa go iawn?

Cerddi annilyys

Denodd enw Gruffudd Gryg swmp helaeth o gerddi na pherthynant iddo mewn gwirionedd. Isod rhestrir pob cerdd annilyys a briodolir iddo yn MCF, gan egluro paham nad ef a'u piau.

*Arglwydd rhwydd rhywiog, nerthog neirthiad*⁸⁹

Darn o awdl grefyddol gan Ruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed, gw. GSRh 158.

*Bûm annwyl lle bûm unnos*⁹⁰

Cywydd maswedus sy'n perthyn i Hywel Dafi, gw. CMOC² 58–61.

*Doe'n gyfflybrwydd y daw*⁹¹

Maredudd ap Rhys biau'r cywydd crefyddol hwn, gw. GMRh 10.

⁸⁷ DG.net 27.21–4, 35–6, 37–40, 61–2, 29.45–8.

⁸⁸ *Ib.* 30.1–8.

⁸⁹ MCF (2009) rhif 5915.

⁹⁰ *Ib.* rhif 9328.

⁹¹ *Ib.* rhifau 5926, 14568.

*Duw nef, Duw'n arfau, Duw Naf,—Duw'n eurgledd*⁹²

Yn ôl MCF priodolir hwn i Ruffudd Gryg yn Bangor (Mos) 6, 95^r, ond i Iolo Goch mewn mannau eraill. Y mae'n rhan o'r un gyfres â'r gerdd nesaf isod.

*Duw'n parch, Duw'n cyfarch, Duw'n cof*⁹³

Englyn crefyddol sy'n digwydd yn y llawysgrifau fel rhan o gyfres o dri neu bedwar (priodolir y lleill i Iolo Goch a Dafydd ap Gwilym). Y mae'r mesur a'r gynghanedd yn afreolaidd ynddynt oll. Go brin fod y cerddi hyn yn waith yr un o gywyddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg.

*Llym yw'r hawl lle mae rhaid*⁹⁴

Derbyniwyd y cywydd moesol hwn am gyflwr gwael y byd yn waith Gruffudd Gryg yn DGG 141–2 (cerdd LXXV), ond fe'i gwrthodwyd yn yr ail argraffiad ar sail gwendid y dystiolaeth llawysgrifol (gw. DGG² cii). Sylwer hefyd iddo gael ei gynnwys fel gwaith Siôn Cent yn IGE² 293–4 (cerdd XCVII). Dilynir yr arweiniad hwn yma.

*Llyma fyd ergryd oergrai*⁹⁵

Cywydd sy'n cwyno am gyflwr anfoesol y byd ac yn rhag-weld ei ddiwedd. Fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Gruffudd Gryg, er nad gyda sicrwydd llwyr, yn DGG a DGG².⁹⁶ Yr oedd Thomas Parry hefyd yn ansicr ynghylch enw'r awdur.⁹⁷ Mewn gwirionedd y mae pennu awdur a dyddiad y cywydd hwn yn anodd iawn. Fe'i ceir mewn pedair llawysgrif ar hugain; o'r rhain, tair sy'n ei briodoli i Ruffudd Gryg, un ar ddeg i Lywelyn ab Owain (yn ôl llawysgrif Bodley e.6 (John Jones, Gellilyfdy), Llywelyn ab Owain ap Cynfrig), pedwar i Dafydd Llwyd Mathafarn, un i Faredudd ap Rhys ac un i Robin Ddu. Dienw ydyw yn Card 3.4, y fersiwn cynharaf, a chollwyd y priodoliad yn y copi anghyflawn yn Llst 41, os oedd un. Dylid anwybyddu'r tair llawysgrif arall, y gellir eu holrhain yn ôl i gopiâu eraill. Perthyn y tri chopi sy'n enwi Gruffudd Gryg (Llst 155, BL Add 14893, Llst 53) yn agos i'w gilydd, er nad yw'r un ohonynt yn tarddu o'r lleill. Tarddant yn hytrach o gynsail gyffredin, sy'n gwanychu'r achos dros awduraeth Gruffudd. Sylwer hefyd fod llawysgrif Card 2.4, sy'n priodoli'r gerdd i Robin Ddu, yn aelod o'r un grŵp. Os tarddodd honno hefyd o'r un gynsail, yna y mae dilysrwydd y priodoliad i Ruffudd Gryg yn fwy simsan fyth. Y mae'r fersiynau sy'n tadogi'r cywydd ar Lywelyn ab Owain, ar y llaw arall, nid yn unig yn fwy niferus ond hefyd yn amrywiol iawn o ran trefn y llinellau, y cwpledi a

⁹² *Ib.* rhifau 5928, 10912.

⁹³ *Ib.* rhifau 5927, 10912, 30262.

⁹⁴ *Ib.* rhifau 5937, 12864, 20935.

⁹⁵ *Ib.* rhifau 2551, 5938, 14313, 14581, 27596.

⁹⁶ DGG 143–4 (cerdd LXXVI); DGG² ciii a 139–40.

⁹⁷ GDG lxxxi.

gynhwysant a'r darlleniadau, gan awgrymu bod mwy nag un ffrwd o drosglwyddo i'w gweld ynddynt. Nid oedd enw Llywelyn ab Owain yn adnabyddus iawn o'i gymharu â Gruffudd Gryg, ac y mae hynny hefyd o'i blaid. Gellid rhoi enw Robin Ddu neu Ddafydd Llwyd wrth gwt unrhyw gywydd brud neu led-frudiol ei natur, fel hwn, felly ni pherthyn llawer o awdurdod i'r priodoliadau iddynt hwy. Yr oedd Maredudd ap Rhys, yntau, yn hysbys fel bardd brudiol, ac ni cheir ei enw ond wrth un o'r copïau. O ran tystiolaeth y llawysgrifau, felly, Llywelyn ab Owain yw'r ymgeisydd gorau. Ni wyddys bron dim am y gŵr hwn, ond rhydd ByCy ef yn betrus *c.*1480.⁹⁸ Gwaetha'r modd, dryswyd rhyngddo a Llywelyn ap Cynfrig Ddu, bardd brudiol arall, yn MCF, gan ei gwneud yn anodd iawn nithio ei gerddi a defnyddio eu tystiolaeth hwy i bennu dyddiad iddo.

Canwyd dros hanner llinellau'r cywydd hwn ar y gynghanedd sain, a fyddai'n awgrymu dyddiad yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Eto, rhaid cofio'r canlynol: (i) bod cyfnod y gynghanedd gynnar, fel y'i diffiniwyd gan Dafydd Johnston, yn ymestyn ymhell i mewn i'r bymthegfed ganrif;⁹⁹ (ii) bod arferion bardd yn gallu amrywio'n fawr o gerdd i gerdd; (iii) y ceir cywyddau mwy diweddar ac ynddynt ganran helaeth o'r gynghanedd sain.¹⁰⁰ Y mae'n bosibl mai nodwedd ar ganu llai ffurfiol (megis brud a chanu crefyddol) oedd canu'n helaeth ar y gynghanedd sain ar ôl y 1440au.¹⁰¹ O ran arddull, mater goddrychol iawn yw penderfynu a yw'r ambell air cyfansawdd tua dechrau'r gerdd yn nodweddiadol o gyfnod cynnar. Gan fod nifer y llinellau yn amrywio'n ddifawr rhwng y gwahanol gopïau, y mae'n amlwg fod y gerdd wedi byw ar lafar, ac efallai, fel sy'n gyffredin gyda chanu brud a mathau pregethwrol o ganu crefyddol, ei bod wedi ei haddasu yn fwriadol fwy nag unwaith. Yn wyneb y posibilrwydd cryf hwn, y mae dadleuon a seilir ar arddull bron yn amhosibl eu harddel. Nid yw cyfartaledd y gynghanedd sain yn amrywio'n sylweddol rhwng y copïau, fodd bynnag.

Y brif ddatl dros ddyddiad yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac felly dros awduraeth Gruffudd Gryg yn hytrach nag unrhyw un arall o'r beirdd a enwir, yw'r cwpled canlynol:

Byd rhyfedd yw bod Rhufain,
Ben gorsedd, heb senedd sain.

Ceir y cwpled ym mhob copi cyflawn. Yn ôl DGG, DGG², GDG a LIU dyma gyfeiriad at y cyfnod 1305–78, pan oedd y pab yn trigo yn Avignon

⁹⁸ ByCy 567.

⁹⁹ LIU 99.

¹⁰⁰ E.e., yn achos Ieuan ap Rhydderch (*c.*1390–*c.*1470), y mae 41.7 y cant o'r llinellau yn ei gywyddau yn cynnwys cynghanedd sain (GIRh 22).

¹⁰¹ Sylwer ar gyfartaledd uchel y gynghanedd sain yn ASCent cerddi 5, 6, 7, i gyd yn gŵynion am y byd.

yn Ffrainc, yn hytrach nag yn Rhufain.¹⁰² Ond y mae posibilrwydd arall. Ar ôl 1378 yr oedd dau, ac weithiau dri, a ymhonnai eu bod yn bab. Rhoddodd yr ymgiprys rhyngddynt hwb i'r syniad mai Cyngor Cyffredinol, ac nid y pab, a ddylai fod yn ben ar yr eglwys. Cynhaliwyd Cyngor Constans 1414–17 a Chyngor Basel o 1431 hyd 1449. Gwrthwynebwyd ymdrechion y Cynghorau hyn i ennill y flaenoriaeth yn chwyrn gan y pabau, ac er bod Cyngor Constans wedi barnu y dylai'r pab alw Cyngor yn rheolaidd, nid dyna a ddigwyddodd. Parhaodd llawer o gefnogaeth i'r syniad ymhell ar ôl 1449. Tybed ai dyna yw ystyr *senedd sain* yn y gerdd hon? Y mae'n foddhaol ei ddeall fel trosiad am lys y pab, ond byddai'n well o lawer fel disgrifiad o Gyngor o esgobion. Dichon fod llawer un yn teimlo bod anfodlonrwydd y pab i gydweithredu â'r Cynghorau yn arwydd o fyd ac ynddo rywbeth mawr o'i le.

Yn wyneb yr ansicrwydd hwn, nid yw'n ddiogel cynnwys y gerdd fel gwaith Gruffudd Gryg. Yr awdur tebycaf, a barnu wrth y dystiolaeth lawysgrifol, yw Llywelyn ab Owain. Os cyplysir y cyfeiriad at Rufain â'r cyfnod pan oedd y pabau yn Avignon, yna erys yn bosibilrwydd fod cnewyllyn y gerdd, gan gynnwys y cwpled am Rufain, yn dyddio'n ôl i amser Gruffudd Gryg, a bod Llywelyn ab Owain wedi ei haddasu; ond nid yw'n ymarferol didoli 'cnewyllyn' hŷn o ddrysni'r llawysgrifau.

Mawredig Iddig Ieuan (ac amrywiadau eraill)¹⁰³

Englyn tywyll ei arwyddocâd sy'n rhestru enwau, efallai am resymau achyddol. Priodolir ef i Ruffudd Gryg yn BL Add 15059 yn unig. Dienw ydyw yn Bodewryd 2, Card 2.201 a LIGC 3039B. Llywarch Hen a'i piau yn ôl y ddau gopi yn CM 23. Gwan yw'r dystiolaeth lawysgrifol o blaid Gruffudd Gryg, felly.

*Meddylio 'dd wy', mau ddolur*¹⁰⁴

Rhys ap Cynfrig Goch, gw. Dafydd Johnston, 'Cywydd gan Ddisgybl Iolo Goch?', YB xviii (1992), 100–9.

Pwy yw'r gorau piau'r goron? (Atodiad i)¹⁰⁵

Cywydd i Grist ansicr ei awdurdod, gw. nodyn cefndir y gerdd.

Rhag cyfraith dewfaith Dafydd—wr beius (Atodiad ii)¹⁰⁶

Englyn ansicr ei ddilysrwydd, gw. nodyn cefndir y gerdd.

¹⁰² DGG xciv; DGG² ciii, 231; GDG lxxxi; LIU 230.

¹⁰³ MCF (2009) rhifau 5941, 14267, 48751.

¹⁰⁴ *Ib.* rhifau 5662, 19063.

¹⁰⁵ *Ib.* rhifau 1396, 32262, 48373.

¹⁰⁶ *Ib.* rhif 5946.

*Tri diofer clêr yw cloch—ac aberth*¹⁰⁷

Englyn yn canmol abad Llandudoch ac yn dychanu rhyw Byrs Goch. Fe'i priodolir i Ruffudd Gryg yn LIGC 9166B, i Ddafydd Nanmor yn LIGC 279D ac i Dudur Aled yn LIGC 719B. Dienw ydyw yn LIGC 644B. Ni ellir dweud bod y dystiolaeth dros awduraeth Gruffudd Gryg yn gryfach na'r beirdd eraill, ac ymddengys fod y darn yn un poblogaidd a ddenodd nifer o enwau adnabyddus. Sylwer bod pwt o hanes yn esbonio sut y digwyddodd i Dudur Aled ganu'r englyn yn LIGC 719B. Esbonia'r stori gynnwys yr englyn yn ddigon twt; ond, wrth gwrs, gall mai'r englyn a roes fod iddi yn hytrach na'r gwrthwyneb.

*Trindawd eglurffawd Agla—a'm llywio*¹⁰⁸

Darn o awdl grefyddol gan Ruffudd Fychan ap Gruffudd, gw. GSRh 158.

*Tŷ (Plas) mawr ym Maelawr wedi 'maelio—â choed*¹⁰⁹

Englyn am dŷ rhyw noddwr ym Maelor. Priodolir ef i nifer fawr o feirdd gwahanol, yn eu plith Tudur Penllyn, Morys ap Hywel ap Tudur a Siôn Brwynog. Fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Tudur Penllyn (yn betrus) yn GTP 63. Y mae'r priodoliad i *hittin Grydd* yn LIGC 3039B, 778 yn rhoi syniad go lew sut y gallai enw Gruffudd Gryg fod wedi ei gysylltu â'r englyn hwn. Byddai odli *bro ag iddo* yn anarferol iawn yn amser Gruffudd Gryg.

*Y byd wrth y pedwar ban*¹¹⁰

Fe'i derbyniwyd yn waith Gruffudd Gryg yn DGG 144–5 (cerdd LXXVII), ond fe'i gwrthodwyd yn yr ail argraffiad ar sail gwendid y dystiolaeth lawysgrifol (gw. DGG² cii).

*Y fun uchel o fonedd neu Y fun addwyn o Wynedd*¹¹¹

Cywydd serch yn darlunio'r bardd dienw yn ffarwelio â merch sydd wedi troi yn ei erbyn. Cyhoeddwyd y cywydd fel gwaith Gruffudd Gryg yn DGG a DGG², ond cred Dafydd Johnston, gan ddilyn awgrym Thomas Parry, mai cerdd o'r bymthegfed ganrif ydyw mewn gwirionedd.¹¹² Rhestrir 29 o gopiâu yn MCF, heb gyfrif y cofnodion hynny sy'n sicr yn cyfeirio at gerdd Gutun Owain, 'Y fun uchel o fonedd'.¹¹³ Ymddengys fod cryn ddrysau rhwng llinellau cyntaf y ddau gywydd. Llinell gyntaf cywydd Gutun yn wreiddiol oedd *Y fun uchel o fonedd*, yn ôl pob tebyg, ac y mae'n werth nodi bod y copi cynharaf o'r cywydd arall (sef Pen 76) yn agor â'r llinell *Y fun*

¹⁰⁷ *Ib.* rhifau 2921, 5948, 17149, 37300.

¹⁰⁸ *Ib.* rhif 5943.

¹⁰⁹ *Ib.* rhifau 5951, 7392, 15266, 20386, 25265, 38626.

¹¹⁰ *Ib.* rhifau 5952, 20997.

¹¹¹ *Ib.* rhifau 215, 308, 1513, 11015, 42279.

¹¹² DGG 134–6 (cerdd LXXII); DGG² 132–4 (cerdd LXXIII); LIU 153n39 (cf. GDG lxxxi).

¹¹³ GO 52–5 (cerdd iv).

addwyn o Wynedd. Priodolir y cywydd hwn i amryw awduron: Bedo Aeddren (gan gynnwys y copi cynharaf), Dafydd ap Gwilym, Gutun Owain, Iolo Goch a Bedo Brwynllys, ac mewn rhai llawysgrifau fe'i ceir yn ddiennw. O'r copïau sy'n ei dadogi ar Ruffudd Gryg (darganfuwyd un ar ddeg ohonynt), CM 5 yw'r cynharaf (c.1600). Ceir cywiriadau wrth y testun hwn sy'n awgrymu bod mwy nag un copi y tu ôl iddo. Y mae'r fersiwn yn LIGC 834B (c.1610 × 1620) yn unffurf â CM 5, ac eithrio'r darlleniad *fy non* (yn lle *fy nyn*) yn llinell 9. O graffu ar destun CM 5 gwelir sut y gellid camgopio *nyn* yno. CM 5 yw ffynhonnell LIGC 834B, felly. Bradychir tarddiad y copïau yn LIGC 5269B a Bangor 13512 gan y darlleniad *non* ynddynt. Ni ellir bod mor hyderus ynglŷn â CM 114 (c.1628–48), ond y mae'n debyg iawn i CM 5, ac eithrio lle y ceir llygru pellach. Tebyg iawn hefyd yw'r copi yn Ll1st 133. Testun cyfansawdd a geir yn Bangor 6, ac yn y mynegai nodir 'DG al: G.G'. Unwaith eto, tebyg iawn oedd y gynsail a enwai Ruffudd Gryg i'r copïau eraill sydd dan ei enw ef. Y mae'r ddau destun yn Pen 198 yn gysylltiedig â'i gilydd, ac yn dra thebyg i CM 5, fel hefyd y testun yn CM 10. Nid oes tystiolaeth, felly, fod yr un o'r copïau hyn yn annibynnol ar CM 5, ac felly y llawysgrif honno yw'r unig dystiolaeth annibynnol dros awduraeth Gruffudd Gryg. Bid a fo am hynny, y mae mynegiant y cywydd yn ei osod yn sicr yn y bymthegfed ganrif. Y mae'n gypledol a disangiad drwyddo draw, a'r iaith yn dra syml ac mewn manau braidd yn afrwydd (e.e. ll. 41 *Mogel dy farnu megis*).

1

Moliant Einion ap Gruffudd ap Hywel

Y post hardd hapus dewrddoeth,
 Wyd o frig gwaed difreg coeth,
 A gwrdd binagl gwraidd bonedd,
 4 Hir dy fawl o grud i fedd.
 Einion, dwg iawn enw digoll,
 Fab Gruffudd, uwch gwledydd oll;
 Oes gŵr well, ysgwier wyd,
 8 Yn geidwad iaith nog ydwyd
 Yn dy radd, hynod roddiad,
 I'th oes di drwy faith ystad?
 Gwyddost, walch oreugost wisg,
 12 Gael arian yn golerwisg,
 Wyr Hywel, gorff reiol gwych,
 Hil Fredudd, hael frau ydych.
 Clau wyd, eurwalch clod Urien,
 16 Call o iawn had Collwyn hen;
 O hwn dwg hy enw digoll
 Heb brinhau, a'i arfau oll.
 Aeth (dyro gwpl i'th darian)
 20 Â thri fflŵr-dy-lis i'th ran;
 Yn gydwnion eu gadu
 Y sydd iawn, mewn maes o ddu;
 Aeth y rhain (dal i'th ran di)
 24 O dad-i-dad i'w doddi.

Yng Ngwynedd nid rhyfeddod
 Oll uwchben eraill eich bod.
 Rhwng bonedd a rhinweddau
 28 Rhoed at hap y rhediad tau
 Wrth goffâu dy gampau di
 A'th enwog waith ddaioni.
 Dewr a doeth benadur dawn
 32 A diennig wyd, Einiawn,
 A glain nod, hael galon Nudd,
 Brau o fewn bro Eifionydd,
 A'th annedd, perffaith hynod,
 36 Yn Chwilog, lys uchel glod:

- Neuadd wen newydd annwyl,
 I hon down bob hynod wyl;
 Cwrt hir isllaw brodir Llŷn
 40 Yw yn cynnal naw kannyn.
 Llyna'r gaer llei llenwir gwin,
 Llys egored, lles gwerin,
 Llei'r oedd y tad llariaidd tau,
 44 Waed dethol, llei'r wyd tithau
 Yn rhannu, fy nêr hynod,
 Yma i glêr aur am glod,
 A diwarth roi da wrth raid
 48 A hir gynnal rhai gweiniaid,
 Ac yno rhowch gan a rhost
 I bawb, irbert bybyrbost.
- Rhwyddfrau gun wyd, rhoddfawr ged,
 52 Rhywiogwalch Urien Rheged.
 Dinam yw, mewn da enw mawr,
 Dy foliannus glod, flaenawr,
 A di-ball, enaid y byd,
 56 Y tyfodd gras yt hefyd
 O bob ffyniant ac antur
 Uwchlaw pawb yn awchlew pur.
 Hwyr weled dewr i'r wlad hon,
 60 Hael tyner, ail yt Einion,
 Yn wrol, anian eryr,
 Ar dy gas, goeth Felwas gwŷr,
 A gwn, yn oen gwyn i'n iaith,
 64 Anwylwych i'r gwan eilwaith.
 Cyfiawna' cun enwog coeth,
 Cryfddewr wyd, hawc arafddoeth,
 Brenhinol bôr iawn hynod,
 68 Brau at enw clau, Brytwn clod.
 Hawdd y cefaist, hydd cyfiawn,
 Arwydd ystad, urddas dawn,
 A'th raddio'n bennaeth rhwyddwych
 72 Ar bawb, a phoed hir y bych!

Ffynonellau

A—Bangor 704, 104 B—BL Add 14970, 142^r C—BL Add 31056, 193^v
 (*nifer o linellau'n annarllenadwy oherwydd traul*) D—BL Add 31062, 198^v
 E—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 317^v F—Brog (y gyfres gyntaf) 3, 98 G—
 Card 2.86 [= RWM 42], 14 H—Card 3.37 [= RWM 20], 1 (*llau. 69–72 yn*

unig oherwydd colli tudalennau) I—CM 11, 455 J—CM 27, 69 K—CM 312, 218 L—CM 454, 110 M—J 101 [= RWM 17], 418 N—LIGC 1246D, 82 O—LIGC 1980B [= Pant 11], 26^v P—LIGC 3048D [= Mos 145], 459 Q—LIGC 3051D [= Mos 148], 101 R—LIGC 9166B, 17 S—LIGC 20574A, 262 T¹—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlech], 666 T²—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlech], 922 U—Llst 30, 262 V—Llst 35, 187 W—Llst 133, 142^v [rhif 478]

Y mae'r llawysgrifau'n ymrannu'n ddau brif ddosbarth o ran darlleniadau, a gellir eu galw yma yn fersiynau *f* (FHIKLPQRT¹) a *β* (A–EGJMNST²–W). Ysgrifennwyd y gerdd mewn dwy o'r pedair llawysgrif gynharaf gan gopiïydd anhysbys yn ardal Caernarfon neu yn yr ardal gyferbyn â'r dref honno ym Môn (KQ), ac fe'i hysgrifennwyd yn y ddwy llawysgrif gynnar arall gan Wmffre Dafis yn Narowen (EV). Y mae fersiynau'r ddau gopiïydd hyn yn adlewyrchu'r ddau fersiwn uchod yn y drefn honno, a'r tebyg yw fod y mwyafrif helaeth o'r llawysgrifau eraill yn deillio naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohonynt neu o gynseiliau tebyg. Eiddo *f* yw'r darlleniadau anos a dilys ar y cyfan, a'r tebyg yw fod modd rhoi mwy o goel ar ddarlleniadau'r fersiwn hwnnw yn sgil y ffaith i KQ gael eu copïo yng Ngwynedd neu ym Môn, heb fod ymhell o gartref Einion yn Chwilog, nac ychwaith o Gaernarfon lle y bu'n siryf. Amheuir bod fersiwn *β*, yn fwy felly na fersiwn *f*, yn bellach o'r gynsail ac yn cynnwys addasiadau a wnaethpwyd i'r testun wrth iddo gael ei drosglwyddo. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–16.

Darlleniadau amrywiol

1–68 [H]. 1 *J* post aur. 2 *ABDMOT*² wyr o, *J* Gwr o, *N* wyd a; *FT*¹ efrog koeth. 3 *ABDJMOT*² a gardd, *CEGNSUVW* a gradd, *R* agwrdd. 4 *A–EGJMNST*²–*W* gyrr dy, *F* heyr dy, *T*¹ heuir dy; *FP* hyd fedd, (*F*) i fedd, *T*² dy fedd. 5 *P* dêg (*cywiriad*: dwg); *BD* dwg un, *LRT*² dwg fawl; *ACEGJMNST*²*UVW* vn digoll, *BD* iawn digoll. 7 *T*¹ [gŵr]. 8 *ABDGJ(M)OT*² well, *C* frv, *EMNSUVW* waith. 9 *F* hardd (*cywiriad*: radd). 10 *A–EJMNST*²–*W* Roes, *T*¹ iaith, (*U*) oes; *N* [drwy]; *A–EJM–PST*²–*W* waith, (*P*) iaith, *T*¹ fath; *N* rhiw ystâd; *G* Aethost di ar waith ystad. 11 *N* gwyddost waith; *J* goreugost, *LR* evrgost, *W* aergost. 13 *BD* Syr, *F* wrth (*cywiriad*: wyr), *N* Aer; *N* Howel gwalch; *FT*¹ y reiold. 14 *C* hir. 15 *N* carw hoff euraid corp Urien. 16 *D* Call iawn o hyd, *FPT*¹*U* call iawn had, *GN(U)* call iawn o had, (*P*) call o iawn had, *W* call o iawn waed. 17 *Q* honn; *I* [dwg] (*cywiriad*: dwg ar ôl dy); *BDI* dy, *PT*² [hy]; *BDI* henw. 18 *ABGJNW* ei, *CEMOST*²*UV* i, *D* er, *F* [a'i] (*cywiriad*: ai); *F* iachav (*cywiriad*: arfav), *S* gangau (*cywiriad*: arfav). 19 (*P*) ath; *FT*¹*T*² dyro gwbl, *IKLQR* daro cwpl, *N* dur o Gwpl, *P* dorog gwpl (*cywiriad*: dyre gwbl), *W* dyro cwpl. 21 *S* gadwynnion; *ABCEK MOPQSUVW* i gadv, *FJNRT*¹ iw gadu, *G* ei gadu, *LR* i gadav, *T*² ith Gadu,

(*W*) y gadu. 22 *G* ymaes. 23 *AJ* rhai'n; (*Q*) ranndi *dros air a ddilewyd*. 24 *P* i dad i=dad; *I* y doddi, *KLQR* i doddi, *P* oi doddi. 25 *W* nad. 28 *A-EGMNOST*²-*W* ytt, *J* y't; *N* hyn o rediad, *O* hap ir rhediad. 30 *S* ith, *T*¹ oth; *F* enfog (*cywiriad*: enwog); *FPT*¹ faith. 31 *T*² daeth; *ABDJ* iawn. 32 *ABDEMOST*²-*W* di einig, *JT*¹ di unig, *LR* di enning, (*R*) di enning; *A-EGJMOST*²-*W* waed, (*G*) ŵyd, *T*¹ nid. 33 *C* [a]; *S* glan; *T*² [nod]; *F* wyd (*cywiriad*: hael); *C* galon wyd nydd. 34 *NU(V)* [o]; *A-EGJMNST*²-*W* fanner. 35 *T*¹ Annaidd; *FLNOPR* berffaith, (*F*) perffaith, *T*¹ perffaidd. 36 *A-GI-PR-W* yw. 38 *T*² heb hynod. 39 *W* Gort; *IKNQT*¹ ir, *LR* [hir]; *A-DFJOPST*¹*T*² islaw, *IKLQR* a llaw, *U* is llaw r, *V* isllawr; *T*¹ brodyr; *Q* llynn. 40 *I* yn ein. 41 *ABDGIJKNSUVW* lle, *L(R)* y, *R* [lle]; *N* llenwer, *S* henwir. 42 *FKP* y gored, *S* egoryd. 43 *ABDIJLNPRW* lle roedd, *T*¹ lle i/r/ oed, *T*² llei roed; *EGMT*² [y]; *T*¹ llariadd, *T*² llaried. 44 *ABDGIJLNRW* lle'r. 46 *F* [aur] (*cywiriad*: avr); *C* a mawr glod, *FP* am y glod, (*F*) am glod, *T*¹ i glôd. 47 *L* diwerth; *R* [da] (*cywiriad*: da). 48 *FT*¹ i, *P* o; *A-EGJMNST*²-*W* rhyw gynnal. 49 *AW* yn', *BD* ynn y, *EM* vnn, *FT*¹ yno i, *J* y'n, *NPQ* yna, *SV* ynn, (*V*) yno; *LR* rhoech; *T*¹ gan y rhost. 50 *O* a bawb; *A-EGJMNST*²*UV* irber, *F* irbart (*cywiriad*: irbert), *W* i'r ber. 51 *A-EGIJMOT*¹-*W* rhwyddfawr, *S* rhyddfawr; *N* [wyd]. 52 *G* rhywogaeth, *P* rhowiogwaed, *Q* rrowiogwawalch, *T*² Rhowig walch; *FIKT*¹ ar fath alawnt ith weled. 53 *LNR* dinam wyd; *F* [mewn] (*cywiriad*: mewn); (*F*)*IKT*¹ [da], (*I*) dy. 54 *F* da flaenawr (*cywiriad*: glod flaenawr); *A-EGJMNST*²-*W* diflinwalch wyd o flaenawr. 56 *T*¹ A tyfodd. 57 *AEGJMST*²-*W* ai wrantur, *BD* ar wrantur, *N* a'i Antur, *O* o antur. 58 *A-EGJMST*²*VW* ywch pawb mewn gwych enw pvr, *N* uwch yna parch wych enw pur, *P* vwch law pawb mewn gwych enw pvr (*cywiriad*: vwch law pawb yn awchlew pvr), *U* vwch pawb mewn gwych enav pvr. 60 *F* hwyl (*cywiriad*: hael), *N* haul; *FN* tyner hael, (*F*) tyner ail; *F* wy (*cywiriad*: yt). 63 *A-GJM-PST*²-*W* ag yno yn, (*F*) a gwn /n/, *R* ag gwnn yn, *T*¹ Agawn; *GT*² gwyn unwaith. 64 *ABDJMT*² anwylwch, (*B*)*G* anwylach; *A-EGJM-PST*²-*W* i wann, *F* iawn (*cywiriad*: ir gwann). 65 *U* kyfiawn (*cywiriad*: kyfiawn y); *A-GJM-PS-W* kefnog, *I* enfog. 66 *T*² cryfder; *F* ag (*cywiriad*: hawg), *T*¹ hawdd. 67 *FPQ* bvr, (*F*) bor. 69 *T*¹ hÿd. 70 (*F*) arwydd (*cywiriad*: o rywbeth annarllenadwy); *A-EGJMST*² stad, *T*¹ o stâd; *F* ras (*cywiriad*: vrddas); *BDFG* a dawn, (*F*) dawn; *H* iraid ysdad yrdara dawn. 71 *A-GI-OR-W* Roddion; (*F*) dilewyd /n/ ar ôl roddion; *H* Rwyddwch. 72 *T*² i boed.

Teitl

A Cywydd i Einion ab Gruffydd o Efionydd, Brawd i Sr. Hywel y Fwyall, o waith Gr. Grÿg. y Bardd hwn oedd yn ei flodeu D.A. 1400. *BDM* Cowydd i Einion ap Griffith ô Evionyth Brawd i Sr Howell Y Bhwyall. *CVW* moliant eign ap gr ap holl ap medd ap eign ap gwgan ap merwydd. *F* ko: i Einion ap gruffydd. *G* Cowydd moliant i Einion ap Gruffydd brawd Howel y Fwyall, a thad Ifan ap Einion. *I* Cywydd Einion ap Gruff. ap Howel ap Mred. ap

Einion ap Gwgon ap Merwydd ap Collwyn ap Tagno. Gr.Gr. *J* Cywydd Moliant i Einion ap Gryffydd o Yfionydd—Brawd Sr Howel y Fwyall. Gr. Grŷg. *K* cowydd einion ap gruffydd ap howel ap mred ap einion ap gwgon ap merwydd ap collwyn (*ychwanegwyd*: Collwyn ab Tangno ab Cellan). *L* Cowydd moliant i Einion ap Gruffudd ap Hoel ap Meredydd ap Einion ap Gŵgan ap Merwydd ap Collwyn (*ychwanegwyd*: o Efionydd) o waith Gruffudd Grûg (*ychwanegwyd*: Tad oedd Einion ap Gruffudd i Sir Howel y Fwyall). *N* Cywydd Canmoliaeth Eneon ab Gruffydd. *O* A Cywydd or panegyric to Eneon ap Griffith brother to Sir Howel ap Griffith, and father to Ieuan ap Eneon before mentioned. *P* Cow: mol: Einion ap Gruffydd o Chwilog yn Yfionydd. *Q* cowydd i einion ap gr ap hoell ap mred ap einion ap gwgon ap merwydd ap collwyn. *R* [...]owydd moliant i [...]nion ap gruff ap hoell ap mdd ap einion ap gwgon ap merwydd ap kollwyn o waith grûff gryg. *S* 17 Awst 1652 / Moliant Eign ap gr. ap Eo ap mreidd ap Eign ap gwgan ap merfydd. *T¹* Cywydd i Einion ap Gruffydd o Chwilog. *T²* Cywydd i Einion ap Gruff brawd Sr. Howel a thâd Evan ap Einion. *U* Moliant Eign ap Gruff ap holl ap Meredith ap eign ap gwgan ap medd.

Olnod

BKR Gruff gryg ai cant. *CDH* Gryffyth gryg. *EO* gr grug ai kant. *FGNPT²VW* Grvffydd Gryg ai cant. *I* Gruffudd Grug âi Cant / Gruff. Grŷg oedd wr bonheddig o Aberffraw ym Môn ac ymrysonodd lawer â Dab.Gwilym am Gyffoden mewn Cywyddau da. *JS* Gr. Grŷg. *L* Gruffudd Grug ai cant 1420. *M* Gr. Grûg ai kant A.b. 1400. *T¹* Gruffydd Gryg ai Cant 1400. *U* Gruffydd gryg ai kant a.d. 1400: dubito.

Trefn y llinellau

B 1–36, 38–7, 39–72.

Moliant Einion ap Gruffudd ap Hywel

- Y cynheiliad hardd, hapus, dewr a doeth,
 Yr wyt yn hanfod o frig llinach ddi-dor [a] theg,
 A phen blaen grymus gwehelyth [dy] dras [wyt],
 4 Helaeth yw dy ganmoliaeth o grud i fedd.
 Einion ap Gruffudd,
 Dwg fri cyfiawn [a] di-fai uwchben [yr] holl wledydd;
 A oes gŵr gwell, ysgwier wyt,
 8 Yn geidwad cenedl nag yr wyt [ti],
 Yn dy safle, roddwr hynod,
 Yn dy oes di o ganlyniad i[‘th] statws helaeth?
 Yr wyt yn gyfarwydd, [un a chennyt] wisg werthfawr milwr,
 12 Â chael arian yn wisg o amgylch dy wddf,
 Wyr Hywel, gorff brenhinol [a] gwych,
 [O] hil Maredudd, hael [a] pharod ydych.
 Yr wyt yn ddiffuant, filwr gwych [sy’n haeddu] moliant [fel] Urien,
 16 [Gŵr] doeth o hil gyfiawn Collwyn hen;
 Dwg gan hwn fri dewr [a] di-fai
 Heb gyfyngu, a’i holl arfau.
 Aeth [ef] (rho gwpl ar dy darian!)
 20 Â thri fflŵr-dy-lis i’th ran;
 Eu gadael [yno] yn wyn i gyd
 Sy’n briodol, ar gefndir o [liw] du;
 Aeth y rhain, bydd yn driw i’th ran di,
 24 O dad i dad i’w trosglwyddo.
- Yng Ngwynedd nid [yw’n] rhyfeddod
 Eich bod uwchben pawb arall.
 Rhwng tras a rhinweddau
 28 Ychwanegwyd at lwyddiant dy hynt
 Wrth ddwyn ar gof dy gampau di
 A’th ddaioni enwog [yn dy] weithgarwch.
 Pendefig gras dewr a doeth
 32 Ac ewyllysgar wyt, Einion,
 A thrysor nodedig, calon hael Nudd,
 Parod ym mro Eifionydd,
 A’th gartref, perffaith [a] hynod,
 36 Yn Chwilog, llys uchel [ei] glod:
 Neuadd wen newydd annwyl,
 I hon y down [adeg] pob gŵyl hynod;
 Cwrt hir islaw iseldir Llŷn
 40 Ydyw [sy]’n cynnal naw cant o wŷr.

- Dyna'r gaer lle llenwir [gwydrau â] gwin,
 Llys agored, lles pobl y wlad,
 Lle'r oedd dy dad mwyn,
 44 Gwaed goruchel, lle'r wyt tithau
 Yn rhannu, fy arglwydd hynod,
 Yma i glêr aur am glod,
 A rhoi cyfoeth yn anrhydeddus yn ôl y galw
 48 A chynnal rhai gwan gyhyd,
 Ac yno rydych yn rhoi bara gwyn a [chig] rhost
 I bawb, gynheiliad llewyrchus, bywiog [a] phrydfertth.
- Yr wyt yn arglwydd rhwydd a pharod, anrheg mawr [dy] rodd,
 52 Milwr ardderchog Urien Rheged.
 Di-fai yw, o ran bri da [a] helaeth,
 Dy glod moliannus, arweinydd,
 Ac [yn] ddi-ball, anwylyd y byd,
 56 Y cynyddodd dy ras hefyd
 Yn sgil pob llewyrch ac antur
 Uwchlaw pawb yn llew awchus [a] phur.
 Nid yn fuan y gwelir yn y wlad hon w'r dewr
 60 Tebyg i ti Einion, w'r hael [a] thyner,
 Yn rymus, natur eryr,
 Ar dy elyn, Felwas teg [i] w'r,
 Ac fe wn, yn oen gwyn i'n cenedl,
 64 Yn annwyl a gwych i'r gwan wedyn.
 Yr arglwydd mwyaf cyfiawn, enwog [a] theg,
 Yr wyt yn gryf a dewr, hebog pwylllog a doeth,
 Arglwydd brenhinol cyfiawn [a] hynod,
 68 Parod am fri diffuant, Brython [sy'n haeddu] clod.
 Cefaist yn hawdd, hydd cyfiawn,
 Symbol [dy] statws [ac] urddas gras,
 A'th raddio'n bennaeth rhwydd a gwych
 72 Ar bawb, a boed iti fod felly am [amser] hir!

Cywydd cymod saith mab Iorwerth ap Gruffudd

Meibion, diwarth eu mebyd,
 Iorwerth ap Gruffudd, budd byd,
 Gwerin o hwylwin haelion,
 4 Gwŷr diwarth ym muarth Môn,
 Seithgarw gwaed agerw sythgad,
 Seiliaid a gwladychiaid gwlad,
 Angylion Môn mam ynys
 8 Ydych ym mhob llewych llys:
 Iorwerth ab Iorwerth gerth, goeth,
 Gu, gyweirddu, gywirddoeth;
 Grymusa' macwy trwyadl
 12 Gruffudd Dwn, ddidwn ei ddatl;
 Cynfrig fonheddig, hoywddu,
 Cymro ewybr mewn llwybr llu;
 Llywelyn, llywiau waladr,
 16 Ab Iorwerth, gydnorth gadr,
 Lliwon arf, llawen eurwalch,
 Lliwddu gwedd, llueddog walch;
 Rhys ysbys, rhoes i esbyd
 20 Rhudd ac aur yn rhwydd i gyd;
 Hywel o uchel iachau,
 Hael ac anwair, nid gair gau;
 Y seithfed yw Maredudd,
 24 Ys hen fo os iawn a fydd.
 Fy ngheirw haelion, fy ngheraint,
 Fy mraais ddillynion, fy mraint,
 Nis arganffo, brwydrdro brad,
 28 Draig o Loegr na drwg lygad.

Bei delwn lle bai deulu
 (Llwrgr Dduw ar wŷr Lloegr ddu)
 A lladd iarll, aed yn llaw ddiawl,
 32 Neu farwn balch niferawl,
 Mae rhagor (mi a'i rhygawn)
 Drannoeth ras drwy wneuthur iawn.
 Uchel yw dwyn cwyn cyni,
 36 Och wŷr! Pam y digiech chwi?

Er bod ffrathr yn camathrod
 Rhof a chwi—gwae fi ei fod!—
 Gwynedd fydd i'ch goganu,
 40 A Phowys, oleulwys lu,
 Nid am aur, nid am ariant,
 Nid er cas eneidwyr cant,
 Ond mor anfaith saith sythgar:
 44 Clywwch chwi! Cerwch eich câr.
 Saith a'm casaodd fal Sais,
 Suddwyf ar fôr os haeddais!
 Bach haearn gafaelgarn gŵr
 48 A throediog i'r athrodwr!
 Rhywiach i chwi, hil rhi rhydd,
 Garu pencerdd no'i gerydd:
 Oni chaiff gwas urddasryw
 52 Eich cerennydd, ni bydd byw.

Digon yw, pwnc dygn oedd
 Sorri uthr wrth saer ieithoedd.
 Beth bynnag, ddinag ddynion,
 56 A wnaethoch chwi i mi 'Môn,
 Ni ddoeth o'm pen air gweniaith,
 Ni wneuthum i i chwi chwaith.
 Dyn wyf a'ch dieniwa,
 60 Gruffudd iawn ei gorff a'i dda,
 Ac er tor a sor a som
 Ddwylo mwnwgl ydd elom.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 3, 53 B—BL Add 14978, 75 C—BL Add 15059, 195
 D—BL Add 31056, 181 E—BL Add 31062, 196 F—Bodley Welsh f 2, 34
 G—Brog (y gyfres gyntaf) 6, 148 H—Card 5.30 [= RWM 65], 71 I—LIGC
 1559B, 349 (*llau. 21–2 yn unig*) J—LIGC 1579C, 63 (*llau. 21–2 yn unig*)
 K—LIGC 6471B, 256 L—LIGC 8497B, 202 M—Llst 125, 35 N—Llst
 133, 663 O—Pen 81, 170 P—Pen 96, 302 Q—Pen 221, 176 (*llau. 1–2 yn unig*)

Seiliwyd y testun yn bennaf ar ddarlleniadau ABFLO, sef y llawysgrifau hynaf. Nid oes yr un ohonynt yn ddi-fai. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–16.

Darlleniadau'r llawysgrifau

2 *GJ* [ap]; *ABD–GKLO* y byd. 3 *AK* haelwin, *CMP* hevlwin, *FG* heilwin, *J* haelio (cywiriad: heilwin), *O* halion. 5 *CGMKP* a gwaed; *AMP* egarw, *BCFJ* agarw, *E* a garw, *GK* garaw, *H* eirw; *H* sythgalld (cywiriad: sythgad). 6 *BDEFH* seiliai, *CGMK* seilian, *N* saithrai, *O* sseliai, *P* seiliau; *BDEFHNO* wledychai, *CGMK* wladychan, *N* gwladychai (cywiriad: gwladychaid), *P* wlad ychae; *B–HMNKOP* wlad (cywiriad yn *N*: gwlad). 7 *G* engilion, *O* yngilion. 8 *CFMNP* ywch gwych ymhob; *AO* llewyrch llys (cywiriad yn *O*: llewich llys), *GK* llewyrch gwus, *NF* lle ich gwys. 10 *BDEFNO* [gu], *HL* ddu; *AC–HNKOP* gowirddv; *AGK* a geirddoeth, *BDE* gowir eirddoeth, *C* gowirddv gwirddoeth, *F* gyvywerddoyth, *N* gu fu wirddoeth, *O* gowir erddoeth. 12 *E* [Dwn], *F* ddwn, *J* wn; *IN* ddiddwn (cywiriad ddidwn yn *I*); *AB–EGMKOP* [ei]. 13 *B* kynferig, *D* kymro. 14 *P* kymro yw ewybr. 15 *BCE* llowiav, *DHP* lliwiav, *GN* llywieu; *B* waldr. 16 *AN* vab, *F* val; *CIP* gadrnerth, *FGJM* gadarnerth, *HLO* gydgerth. 17 *AHN* lleon, *DO* llewon, *P* lliwen; *A* llion evrwalch, *BE* llyna eurwalch, *G* llaw fam eurwalch, *K* llaw fain eurwalch; *H* eurfalch. 18 *BE* lliwddv gwin, *CP* lle 'dda gwaed, *FN* lle dda gwedd, *GK* lle da gwedd; *N* llwyddianawg, *P* lliwyddog. 19 *G* Rys e ysbys; *ADEHLO* y rhoes; *BDEHL* [i], *CMO* o; *DHL* oes-byd, *O* ystyd. 20 *A* rrod ag avr, *N* Rhuddawg aur, *O* rrvdda gair; *GK* yn rodd. 21 *FGJM* vchel i achau. 22 *H* haul diwair, *GM* hael myn mair, *B–FIJLOP* hael aniwair. 23 *A* [Y], *CFGKMNP* ar; *G* seith; *A* a ydiw, *B–GMKP* ydiw. 24 *A* i son fv; *F* ofiawn, *J* osiwn; *FN* [a]. 25 *B* hael Ion. 26 *H* vymrisg, *N* vymrisg (cywiriad: vymraigs), *O* fymrist, *CMP* fymhrif; *LO* dillymion. 27 *ACMNP* brwydr glo, *BE* brwydr bro, *F* brwyglo, *GK* brwydr fro, *J* brws glo. 28 *CMP* dreigiav; *D* no. 29 *CM* delen, *FN* daliwn, *P* delai; *G* bau i deulu. 30 *O* llawgwr; *GK* ddewr; *F* bobl, *N* holl; *D* lleyger. 31 *O* lladded; *DO* nyd yn llaw. 32 *FH* varw; *D* yn niferawl, *HL* yn anifeirawl, *O* yn anfiriawl. 33 *CKL* mav; (*N*) ragaw; *GL* mi a; *BEO* gorhvgawn, *C* orevgawn, *F* rogawn, *H* rugawn, *N* rhagawn, (*N*) ragawn, *P* revgawn. 34 *EN* ros; *N* Duw; *C* wythr iawn, *D* drwythr iawn. 36 *CGKMP* pam na chredwch, *FHLN* pam i kredwch, *O* pam idigiwch. 37 *A* fflathvr, *G* ffraethwr, *N* fraethir, *K* ffrath, *P* ffrethRr; *HL* kyvathrod, *O* kys athrod, *P* kam ethrod. 38 *CI* rho fi; *A* gwae fy fi; *FGK* oe vod, *DMO* [ei]. 39 *BE* sydd (cywiriad *E*: bydd), *HLP* fy. 40 *A–EG* olevlys, *B* o levlys. 41 *BE* er avr nid er. 43 *H* omfaith. 44 *A* klowchi i, *F* klwch i, *G* o klwch i, *N* Coeliwch y, *K* i klwch i; *D* acherwch. 46 *A* syddwn, *GOP* syddwyf. 47 *FJ* gafaelfarn. 48 *A* [i'r]. 49 *BE* iownach, *C* rrowia; *CGMK* hael rhi, *P* ail rri, *A* hil ril. 51 *G* i gwas. 52 *O* fydd fyw. 53 *FN* a phwnck. 54 *AFL* rvthr, *G* eithr, *N* aruthr; *F* faer yr jeith[], *O* faer ieithoedd. 55 *B* ddyf nion. 59 *D* wy fi; *A* di an-neva, *C* dienevwa, *D* diniwa, *M* dienwa (cywiriad: diniwa), *N* dienwa, *P* di enewa. 60 *C* gwir ffydd iawn, *GK* gryffudd wyf, *L* gair o ffydd, *M* gruffydd oll, *P* gair ffyth Jawn; *ACKMP* ai gorff, *HFLN* oi gorff. 61 *BE* [er]; *E* Jor; *A* na sorr na som, *E* a ffor a ffom, *F* ar y sor ar son,

GK ar sorr ar som, *MNP* ar sorr ar sôn. 62 *BDE* dwylo, *F* ddwylon; *FH* y mwnwgl, (*I*) 'm mwnwgl, *O* mwn wyl; *J* a; *BDE* i delom, *CFMNP* i ddelon.

Teitl

AI kowydd kymod meibion Jerwerth ap Gryffydd. *BCE* kowydd kymod Seith mab Ierwerth ab grvffyth. *D* Ko. i geisio cymod meibion Jer/ ap grd. *G* k: Moliant i feibion yr vn gŵr o lifon. *H* kowydd i geisio kymod gan Saith Mab Jerwerth ap Gruffydd. *J* Cywydd i feibion Iorwerth ab Gr. i edliw eu anghariad ac erchi cymod. *M* kowudd moliant (*llaw ddiweddarach*: i feibion *J* ap griff). *N* kywydd a wnaeth Gruffydd Gryc i geisio kymod—seithmab Jerwerth ap Gruffydd. *P* kowydd 7 mab Jerth ap gruff.

Olnod

ABGHMK grvffvdd gryc ai k. *C* Gruff Gryg ai kant. *DEKL* Gr. Gryg. *FP* Gruff Gryg. *J* Gruffydd Grug. *O* grvffvdd gryg ai kant [/] gryff ap Kynfrig ap gryff foel oedd yr hwn a elwid gryff gryg.

Cywydd cymod saith mab Iorwerth ap Gruffudd

- Meibion Iorwerth ap Gruffudd,
 Anrhydeddus eu magwraeth, cyfoeth byd,
 Tyrfa o wŷr hael a chanddynt win a dywelltir,
 4 Gwŷr anrhydeddus yng nghyrchfa Môn,
 Saith carw [o'r un] gwaed [ac sy'n] filain [mewn] brwydr galed,
 Sylfaenwyr a gwladychwyr gwlad,
 Angylion Môn mam ynys
 8 Ydych ym mhob disgleirdeb llys:
 Iorwerth ab Iorwerth cywir, lluniaidd,
 [Un] annwyl, tywyll ei lun [a] chywir a doeth;
 [Y] llanc deheuig mwyaf grymus
 12 [Yw] Gruffudd Dwn, diddiffyg ei ddad!
 Cynfrig foneddigaidd, [pryd] tywyll a heini,
 Cymro cyflym yn nhrywydd llu [o filwyr];
 Llywelyn ab Iorwerth,
 16 Cryf [a] grymus, curai bennaeth,
 Arf Llifon, milwr rhagorol [a] llawen,
 Tywyll [ei] wedd, milwr lluosog ei wŷr;
 Rhys enwog, rhoddodd i letywyr
 20 Wisgoedd coch ac aur i gyd yn rhwydd;
 Hywel [sy'n hanfod] o achau urddasol,
 Hael a ffyddlon, nid celwydd [yw hyn];
 Y seithfed yw Maredudd,
 24 Boed [iddo dyfu'n ŵr] hen os bydd tegwch.
 Fy ngheirw hael, fy mherthnasau,
 Fy anwyliaid nerthol, fy mraint,
 Hynt brwydr fradwrus, na fydded
 28 I ddraig o Loegr na llygad drwg eu canfod.
- Pe delwn [i'r] lle y byddai dau lu [o filwyr]
 ([Boed] melltith Duw ar wŷr Lloegr dywyll)
 A lladd iarll, aed [ef] i feddiant y diafol,
 32 Neu farwn balch a chanddo luoedd,
 Y mae ymhellach (fe'i cawn yn helaeth)
 Ras [i'w dderbyn] drannoeth drwy wneud yn iawn [amdani].
 [Gweithred] ddifrifol yw datgan cwyn [o] galedi,
 36 Och wŷr! Paham yr oeddech chi'n digio?
 Er bod bardd salw yn enllibio ar gam
 Rhyngof a chi—gwae fi ei fod!—
 Bydd [beirdd] Gwynedd yn eich dychanu,
 40 A [beirdd] Powys, llu disglair a theg,

Nid am aur, nid am arian,
 Nid oherwydd gelyniaeth cant o ddynion byw,
 Ond [oherwydd] mor annoeth [yw fy] saith perthynas galed:
 44 Clywch chi! Cerwch eich perthynas.
 Saith a'm casaodd fel [pe bawn yn] Sais,
 Boed imi suddo ar fôr os haeddais hynny!
 [Rhodded] bachyn haearn â charn gŵr
 48 A hual ar yr enllibiwr!
 Y mae'n fwy priodol i chi, [o] hil arglwydd hael,
 Garu pencerdd na'i geryddu:
 Oni chaiff llanc priodol ei urddas
 52 Eich cariad, ni fydd fyw.

[Dyna] ddigon, pwnc blin iawn oedd
 Digio enbyd yn erbyn saer ieithoedd.
 Beth bynnag a wnaethoch chi,
 56 Ddynion dinacâd, i mi ym Môn,
 Ni ddaeth o'm ceg air [o] weniaith,
 Ni wnes i [hynny] i chi ychwaith.
 Dyn wyf a'ch rhyddha o berygl niwed,
 60 Gruffudd gyfiawn ei gorff a'i ddaioni,
 Ac er gwaethaf rhwyg a dicter a thwyll
 Boed inni fynd [i roi ein] dwylo [o amgylch] gyddfau['n gilydd].

Marwnad Rhys ap Tudur

- Tebyg yw Gwynedd, meddir,
 Trwy naws gwyllt (truan os gwir),
 I grwth a chloch, dwyoch dyn
 4 O thâl bunnoedd, a thelyn.
 Y crwth lle bu'r mesur cryf,
 Carodd osod cerdd ddeisyf:
 Garw fydd, ai dydd, ai dau,
 8 Ei dyniad heb ei dannau.
 Y delyn o'r aur deulu,
 Dydd a nos fal eos fu,
 Heb ddwylo, gŵyr addo gwedd,
 12 Heb fusig cerdd, heb fysedd,
 Arnoddwaith ar ei naddwydd,
 Anniddan yn f'amcan fydd.
 Pob cloch blygain, damwain dig,
 16 O glos y gwŷr eglwysig,
 O thyr heb nidr ei thidraff
 A'i thafawd proffwydwawd praff,
 Dim ni thâl, arial oror,
 20 Ei chân rhwng letring a chôr.
 Felly (mawl a ddyly medd),
 Em y gwin, y mae Gwynedd
 Heb gun Môn, heb gân mynych,
 24 Heb glaim eglwys Duw, heb glych,
 Heb law Dduw Naf, heb dafawd,
 Heb gerdd dant, heb ffyniant ffawd,
 Heb wledd, heb gyfanheddrwydd,
 28 Heb Rys, iôr hael, heb ras rhwydd,
 Heb oleubryd, heb loywbrim,
 Heb ddawn, heb urddas, heb ddim,
 Heb ddiwyd mwy, mordwy mawr,
 32 O Risiart, eryr aesawr,
 Bryd naid, biler euraid bâr,
 Frenin, gwnaeth Eingl yn franar.
- Pand oedd eryrawl, mawl Môn,
 36 Ei loywgamp a'i olygon?

Peris ei gof ym ofal,
 Pôr chweg, pand oedd deg ei dâl?
 Pand oedd ddoeth, wingoeth wengainc,
 40 Ei ffrîw garbron teulu Ffrainc?
 Pand oedd ddigrif a difalch?
 Pwynt Elffin, rhoes win Rhys walch.
 Pand gwag (modd dinag yw'r mau)
 44 Gwynedd am eryr gwinau,
 Am Rys fab, diarab darf,
 Tid aur ochr, Tudur awcharf,
 Cwbl geidwad gwiw fad (gwae fi!),
 48 Curwr aer, ceirw Eryri?

Nid oes yng Ngwynedd, gwedd gwÿd,
 Ton gwÿr (on'd Duw a'n gweryd),
 Na nerth na chariad i ni,
 52 Na gwleddoedd nac arglwyddi
 Na chyngyd, heb wych angerdd,
 Na chân ymlyniaid na cherdd
 Na cheisio glân rianedd
 56 Na charu merch (ni chair medd)
 Nac oed â gwen i gadw gwÿdd
 Nac adar ym medw goedydd
 Na bron yn llawen na brig
 60 Na diddan neb ond Eiddig.

Gwynedd, fro annedd freiniawl,
 Gwrando hyn, a myn fy mawl;
 A llyma 'nghred, winged wedd,
 64 Wythliw enw, i'th law, Wynedd,
 (Gan lwyrlid gwn alarloes
 Nych) a thwng na chai i'th oes
 Ar gynllun aer ugeinllef,
 68 Eurfawl iôr, wra fal ef.

Ffynonellau

A—Bangor 6, 521 B—BL Add 14876, 20^r C—BL Add 14882 [= RWM 31], 121 D—BL Add 14940, 45^r E—BL Add 14976 [= RWM 22], 262
 F—CM 381, 92 G—LIGC 3057D [= Mos 161], 99 H—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 155 I—Llst 123, 202, J—Pen 63, 143 K—Pen 77, 206
 L—Pen 97, 282 M—Pen 99, 572

Copi o A yw F. Copïau o B yw AD. Copi o M yw B. Copi o G yw I. Ni ellir olrhain perthynas rhwng y copïau eraill, felly rhoddwyd ystyriaeth i bob un. Ymrannant yn ddau: H ar ei ben ei hun, a CEGJKLM. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. nodyn cefndir y gerdd a tt. 207–16.

Amrywiadau

3 C ne gloch; *EHL* ddwyoch ddyn. 4 H i thal, L a thal; *HL* bevnoeth, M bnuoedd. 5 CE lle bo, *HM* lle bo r, K llei bo'r; H niver; *CEGK(L)M* kry. 6 M osot; *CEGKLM* kerdd Jessy, H kerddysyf, J kerdd iesyf. 7 EH chwerw iawn vydd, J garw a ydd (*cywiriad*: garw a Udd), KL garw a vydd, M chwerw vydd; L oi dydd. 8 CEH oll heb danav, (K)M ar ei danaû. 9 C vel avr, H yr aur. 10 L fab. 11 M adaw. 12 EH krefft, M gwyr; *JL* vaswedd, (J) fysedd. 13 E Arnodd, H oer noddwaith, M Er noddwaith. 14 C yw famkan, H ar vamkan. 18 C ne i, L nai, M A; C prif wiwdawd, G praffowdward, J proffwydward, K prif awdurward, L briffwawd oedd (*cywiriad*: briffwawd oe); L braff. 19 *GJ-M* dyn ni char ariar oror. 20 E ni chân; *EK* letrin. 21 C ddylair, *GK* ddylai. 22 H + i; *EL* am; C gwynnedd. 24 *KM* glain, L glan; *CH* dduw, M Deo; L gylch (*cywiriad*: glych). 25 J heblaw; M Ddeo; *CH* nef, (H) nâf. 26 H heb ffawd (*tanlinellwyd* heb). 28 C havl, H hoff; *CG* les, L wres; K heb les y rhawc heb lys rhwydd. 29–32 [E]. 29 C liw bryd, *GK* oloywbryd, (K) oleubryd; C loyw brenin, G loywbreim, K lwybrim. 30 C heb ras heb vrddas. 31 H ddiwedd, K vrddas, M ddiwydd (*cywiriad*: ddiwyd); H mowredd mawr. 32 C or, J i; C oysawr. 33 E drvd. 34 L gwnai; C egil, *GHM* engyl, *JK* engl, (J) einkl, L eng. 35 H pan; H ddoeth, K [oedd]; C egyptrawl, H y eryrawl, (H) eryrawl; K a mawl. 36 E ai. 37 *CG* dy gof, J trwy gof. 38 H + ii; E per, L pur; C pan. 39–40 [C]. 39 J pan; M [ddoeth] (*cywiriad*: ddoeth); G wngoeth, J wyngoeth; *E(K)LM* iowngaink, *GJK* wingaink. 40 L brenin ffraink. 42 M walch (*cywiriad*: walch). 43–4 [C]. 43 *EGL* pand oydd gwag, H pand oedgwac (*cywiriad yn yr un llaw*: pand gwac), M pand wac; H medd; *EHL* [yw'r], J fvr. 44 E feryr. 45 C dihareb, *EG* diareb, J da arab; C ddart. 46 *HM* tad, L did; *HKM* aer; C awch, H orchwyl; L dudr; C awddart, H owchaf; E eryr o dvdyr dewfarf. 47 *CEGJ-M* [cwbl] keidwad; C gwiw arab; *EKL* a gwae, J dav gwae; M vy vi. 48 C avr; E caerav; C o ryri. 49 *HM* ni bydd; C yngwynnedd; M gwedd gwedd (*cywiriad*: gwedd gwydd). 50 H to; M Deo. 51 G no, *JKL* [na]; G no; *CGJKL* chydernid, H charad. 52 G no ... noc; J nac avr gwledd; E na gwledd fel gan arglwyddi. 53 G no; C trwy wych, E na gwych, H heb awch, J iownwych. 54 G no ... no; C melynïaid, H ymlid (*cywiriad*: nac ymlid), L ymlyniad. 55 G no. 56 G no. 57 E aed. 58 G noc; J ymh (*cywiriad*: ar vâ); *KL* goedwydd, (K) goedydd. 59 *GK* no bric. 60 H + iii; L diddim. 61 C gwynnedd; *EGJKM* fron, (E) fro. 62 H + iv; *CGJKL* y mawl. 63 H [a]; C llyna, *GL* llym; *CJM* yngred, *GHL* vynghred; C wnged, E wiwged. 64 E ith liw, L wrth liw; M vchlaw. 65 E gwn ... gan; C lawer loys. 66 E [nych]; C thyng, H thwc; M ni; C ith eynioes, K ith

ddwyoes (*cywiriad*: ith oes), *L* wyth oes. 67 *CGKL* geinllun, *E* []nllwyn, *HM* gynllwyn, *J* gwynllvn; *C* avr, *J* oer; *C* i ganllef, *G* i geinllef, *H* vgain lle. 68 *E* []awl, *H* evryrawl; *H* wr (*cywiriad*, *yn yr un llaw*, *o wra*, *fe ymdhengys*), *EM* aer, (*M*) wra.

Teitl

C barnad i Rys ap tudr ap gronw / ney gwynfan gwynedd am Rys guttor gl[], *E* *K*: marwnad Rhys o fon, *G* (*llaw wahanol*) kowydd marwnad i Rys ap Risiart o waith gruffydd gryg, (*llaw wahanol eto*) Rys ap tudyr ap gronwy oedd y gwr [] Rys ap Risiart, *H* *Rh* ap tudr vychan, *J* ko marwnad *Rh* ap tvdvr o von, *L* Marwnad Rys ap Tudur ap gronn[] ewythr frawd i dad i Owen Tudur.

Olnod

E Gruff: grÿg ai kant, *G* gryffydd gryc ai kant, *H* Jolo goch ai k / xl penill, *JKM* Gruff Gryc, *L* Gruffudd Gryg.

Trefn y llinellau

C 1–26, 29–30, 27–8, 31–8, [39–40], 41–2, [43–4], 45–68.

E 1–28, [29–32], 33–68.

GJ–M 1–68.

H 1–22, + *i*, 23–34, 39–40, 35–8, + *ii*, 41–60, + *iii*, 61–2, + *iv*, 63–8.

i

hwylodd goval drwyr galon
heddiw mae gwaiw briw im bron

ii

pand oedd pan vai gyoeedd gwyl
serchoc i ddewis orchwyl
pan oedd wr digrynwraidd
parod rym prydvyr wraidd

iii

na rrwydd glod na rrvddo glain
na dichell onid ochain
na chanv kyrn deyrn daid
na chynydd ond vchenaid

iv

pand wyd weddw dienw dyn
o Rys pand ydoedd ressyn

Marwnad Rhys ap Tudur

- Tebyg yw Gwynedd, meddir,
 Ar gyfrif [ei] naws afreolus (truan ydyw os gwir [hyn]),
 I grwth a chloch, ochenaid ddwbl [gan] ddy
 4 Os tâl bunnoedd [ar eu cyfer], a thelyn.
 Y crwth lle bu'r mesur cryf,
 Carodd ddatgan archiad cerdd:
 Garw fydd, boed am ddiwrnod, boed am ddeuddydd,
 8 Ei dyniad heb ei dannau.
 Y delyn o'r teulu ysblennydd,
 Bu fel eos ddydd a nos,
 Heb ddwylo, y mae'n gwybod sut i addo[r] dull [iawn],
 12 Heb gerddoriaeth cân, heb fysedd,
 Siâp arnodd ar ei brennau nadd,
 Anymunol fydd yn fy marn [i].
 Pob cloch blygain, damwain flin,
 16 O glos y gwŷr eglwysig,
 Os tyr ei rhaff heb rwystr
 A'i thafod [a ganai] gân gref addas i broffwyd,
 Ni fydd yn werth dim, terfyn [llawn] nwyf,
 20 Ei chân rhwng darllenfa a chôr.
 Felly (mawl sy'n haeddu medd),
 Drysor y gwin, y mae Gwynedd
 Heb arglwydd Môn, heb gân fynych,
 24 Heb yr un a hawlid gan eglwys Duw, heb glych,
 Heb law Duw[r] Arglwydd, heb dafod,
 Heb gerdd dant, heb ffyniant ffawd,
 Heb wledd, heb ddifyrrwch,
 28 Heb Rys, arglwydd hael, heb fendith rwydd,
 Heb [yr un] golau ei wyneb, heb [y] wawr loyw,
 Heb ddawn, heb urddas, heb ddim,
 Heb ddilynwr ffyddlon mwy, dilyw anferthol,
 32 I Risiart, eryr tarian,
 Meddwl sy'n neidio, cynheiliad euraid [ei] waywffon,
 Frenin, gwnaeth Saeson yn dir diffrwyth.
- Onid oedd fel eryr, [un a ddygai] fawl [i] Fôn,
 36 Ei wrhydri disglair a'i lygaid?
 Parodd y cof amdano ofid imi,
 Arglwydd hyfryd, onid oedd ei dalcen yn deg?
 Onid oedd doeth, un bendigaid ei gân [a] phur ei win,
 40 Ei wyneb o flaen gosgordd Ffrainc?

Onid oedd yn hyfryd ac yn hynaws?

[Un a chanddo] gyflwr Elffin, rhoddodd Rhys [y] gwalch win.

Onid gwag (dull dinacâd sydd gennyf i)

44 Yw Gwynedd oherwydd [marwolaeth yr] eryr browngoch,

Oherwydd Rhys fab, cynnwrf creulon,

Tudur llym ei arf, ochr [ac arni] gadwyn aur,

Ceidwad perffaith dedwydd a theilwng (gwae fi!),

48 Curwr [mewn] lladdfa, ceirw Eryri?

Nid oes yng Ngwynedd, wyneb [llawn] hiraeth,

Ddaear [sy'n magu] gwŷr (oni bai fod Duw yn ein harbed),

Na nerth na chariad i ni

52 Na gwleddoedd nac arglwyddi

Na phwrpas, heb [ei] angerdd wych [ef],

Na chân dilynwyr na cherdd

Na mynd ar ôl merched glandeg

56 Na charu merch (ni cheir medd)

Nac apwyntiad â merch i fynychu[r] coed

Nac adar mewn coedwigoedd bedw

Na bron yn llawen na changhennau'r coed

60 Na neb yn hapus ond Eiddig.

Gwynedd, wlad [ac ynot] drigfan freiniol,

Gwrando ar hyn, a deisyfa fy mawl;

A dyma fy ngwarant, gwedd hael o ran gwin,

64 Enw disglair, yn dy law, Wynedd,

(Yn sgil llid cyflawn yr wyf yn gyfarwydd â galarloes

Nychdod) a[m] llw na chei yn dy einioes

Ar batrwm [yr un a roddai] ugain bloedd [mewn] brwydr,

68 Arglwydd ysblennydd ei glod, wŷr fel ef.

Marwnad Dafydd ap Gwilym

- Dafydd fab Gwilym, ymy
 Y bu fraw am na bai fry
 Yn nhir Deheubarth yn hardd,
 4 Ac aerfa rhof a'm gwirfardd.
- Gwae'r beirdd am y penceirddwalch,
 A gwae'r byd am y gŵr balch;
 8 Gwae finnau, myn creiriau Cred,
 Troes boen dwfn tros baun Dyfed.
 Dewiswn ddychan glanbryd
 O ben Dafydd, brydydd bryd,
 Cyn prydu ym, gloywrym glod,
 12 O arall angall yngod.
 Disgybl wyf, ef a'm dysgawdd,
 Dysgawdr cywydd, huawdr cawdd.
- Cyn ei farw bu gyfarwas
 16 Rhof ac ef, neud rhyfu gas.
 Pwy bynnag, ddewin dinam,
 Ferw cerdd, a fu ar y cam,
 Maddau i'r prifardd harddfaeth
 20 HoywDduw nef heddiw a wnaeth.
 Rhof innau, gweddïau gwawd,
 Maddeuant am a ddywawd.
 Ar y gwir y bu hirynt,
 24 A minnau ar y gau gynt.
 Bûm, myn Cynddelw, ar gelwydd;
 Gwawr serch ar y gwir y sydd.
- Brenin haul a goleuloer,
 28 Bu nâd ac irad ac oer
 Dwyn Dafydd, dioer, dyn difai,
 Dwbiwr cerdd dau aber Cai,
 Fab Gwilym, wawdrym wiwdrafn,
 32 Fardd penceirddradd, lifnadd lafn.
 Un tlysair, enw Taliesin,
 Ynad gwŷr, enaid y gwin,

- 36 Cyw Merddin, cywiw mawrddof,
 Cadair y gerdd, cadr ei gof,
 Ymlyngof, aml ei angerdd,
 Angelystor, cyngor cerdd.
 40 Cyweirdant mwyn a gwynir,
 Colofn cerddau'r Deau dir.
 Cad o'i ben bob cymhendawd,
 Cynddelwaidd ei weddaidd wawd.
 Hoywlun wŵr, hael Aneirin,
 44 Hael o was a heiliai win.
 Dôr durarf, dewr a diriaid,
 Yn llwybr aer, yn lle bai raid.
 Maes o wawd, gŵr masw ydoedd,
 48 A doeth pan ofynnid oedd.
 Fal Trahaearn y'i barnwn,
 Neu fal Llywarch hirbarch hwn,
 Neu Gasnodyn, dyn difas,
 52 Neu Addaf frowysaf Fras.

- Cywraint y gwnaeth Mab maeth Mair
 Dan gôr gwydr dwyn gŵr gwawdair,
 A gado Bleddyn gidwm,
 56 Fforddrych truan, cryman crwm.
 Iawn y gwnaeth Crist Ddewistad,
 Ac yn cael, gafael a gad,
 Yn ddilys ddewis o'r ddau,
 60 Ddinag wŵr, ddwyn y gorau.
 Dewisodd Duw deuluwas,
 A gwrthod cydfod y cas.

- 64 Tristach weithian bob cantref,
 Bellach naw digrifach nef.

Ffynonellau

A—Bangor 6, xxxiv B—BL Add 14870 [= RWM 53], 71 C—BL Add 14890, 277 D—BL Add 14894 [= RWM 40], 54^r E—BL Add 14932, 3 F—BL Add 14969, 441 G—Bodley Welsh e 1, 100 H—Card 1.18, 245 I—Card 2.114 [= RWM 7], 880 J—Card 3.4 [= RWM 5], 90 K—Card 4.101 [= RWM 83], 155 L—Card 4.110 [= RWM 47], 83 M—Card 4.330 [= Hafod 26], 356 N—Card 5.11 [= RWM 33], xii O—Card 5.167 [= Thelwall], 372 P—CM 5, 347 Q—CM 14, 71 R—LIGC 670D, 221 S—LIGC 728D, 133 T—LIGC 3021F [= Mos 1], 208 U—LIGC 3047C [= Mos 144], 769 V—LIGC 3056D [= Mos 160], 47 W—LIGC 3057D [= Mos

161], 170 X—LIGC 3066E [= Mos 212], 99 Y—LIGC 3487E, 111 Z—LIGC 5283B, 53 a—LIGC 5475A [= Aberdâr 2], 69 b—LIGC 9048E [= copi ffootostat o lawysgrif Rhydychen, Coleg Balliol 353], 73 c—LIGC 11816B, 73 d—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 239 e—Llst 14, 95 f—Llst 118, 446 g—Llst 133, 1035 h—Pen 97, 74 i—Pen 124, 298 j—Pen 312, ii, 50 k—Wy 2, 143

Seiliwyd y golygiad ar lawysgrifau FGJMOTUZjk yn bennaf. Ni chynhwysir y llawysgrifau ABHNQRSYXacfgi yn yr amrywiadau, fel yr esbonnir isod, tt. 138–9. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. nodyn cefndir y gerdd a tt. 207–16.

Amrywiadau

1 *GKLbd* ap, *Vh* ab; *V* gwilym ni bv. 2 *IPWj* [y]; *D* frawd, *k* frad; *j* ym na; *V* oi farw ni bydda efrv. 3 *e* Deheubardd, *k* diheybarth. 4 *DI* ag arfaeth *C* ag ayrfaeth, (*I*)*Z* ag oerfa, *P* ag erfai, *L* a gyrfa, *V* ag vrfa; *CGIKVbe* rroff ag, *D* rhog ag, *F* rhof a; *CDGIKVbe* evrfardd; *W* ai gwir varw r y Ragorvardd, *d* y gloiwyw y golev vardd, *h* ai gwir marw rhagorfardd. 5 *L* penceirddfalch, *T* penkeirdd=balch. 6 *k* bryd am. 7 *h* kyweiriay. 8 *DJOPTWbdj* trais, *Vd* drais, *M* trois, *h* traws; *EIk* dyfn, *V* dwfr, *b* dyfwn, *h* dofn; *FITVd* ben dyfed. 9 *L* glanbrudd. 10 *O* i benn; *T* boenn (*cywiriad*: benn), *V* waith; *DEFIMNOT Ubdk* prydydd pryd, *L* prydydd prudd. 11 *d* kyd pryddai, *b* kyn kanei; *Vy* kynn kanv yngloywlyn; *D* klayrym klod, *Jj* gloyw lym glod. 12 *h* ingod. 13 *V* digabl; *D* [ef], *V* er; *V* digiawdd. 14 *D* dysgiawd, *Ge* desgiawdr, *JPWd* disgiad, *K* degawdl, *O* dysgiawdl, (*b*) dyscadr; *V* dysdyr hoff, *I* dysgadr koel; *CEGNTek* heawdr, *DKOWhj* hvawdl, *L* cy-awdr, *I* flingadr, *J* hvawdyd, *P* cerddiad, *V* penkeirddiad, *b* []vedawdr; *CDEGJKNWZhhk* hawdd, *U* hawdl. 15 *d* bv r garw gas, *h* kwyn kyfarwas; *IW* gyvarwas, *V* oferwas, (*b*) gyfargas. 16 *EN* rhwngo ag ef, *IWBh* rhoft ag ef, *J* yrhofy ag ef, *k* Rhygo ag ef; *b* [neud]; *ENk* rhyw ing o Gâs, *D* fy rhyw gas, *FT* y Ry fv gas, *LM* ni ryfy gas, *I* rrifwn gas, *JK* yrhw gas, *K* a rhyfv gas, *O* ay rryfv gas, *P* y bv rhyw gas, *Sd* rrwyf a gavas, *UZ* nid rhyfv gas, *V* rhy fawr gas, *Wh(b)* rhyw fawrgas. 17 *CGK* frenin, *DPWd(e)h* ddinac, *J* ddevnac, *V* bererin; *DEFJNOPTUWZdhj* ddinam; (*E*)*k* ddewin pwybynnag ddinam. 18 *CGKOeh* o ferw kerdd, *L* er cerdd, *Iv* verw kas, *d* verw gas, *W* verw koeth, *V* forûg kas; *CEGKNOVWZehk* [a]. 19 *K* mav ir prifardd, *V* madde wiwfardd, *h* hwn madde yw fardd; *d* im; *b* o brivardd. 20 *V* o ddûw nef; *D* dduw neb, *h* dduw ner; *T* deddyw. 21 *PX* rhof mav, *Vf* rhoddaf ine; *CDGIJKj* gweadav, *Oh* gywyddav, *P* gweav, *V* gwedde, *d* gwyndode; *b* gwawdey gwad. 22 *CFI JKOTUbk* maddeuaint, *PVWdj* faddevaint, *D* vaddeuant. 23 *IV* bv ef ar y gwir; *PUWZ* bv o hyrynt, *d* y bvr hirhynt. 24 *Vb* bym inney; *b* ar y gey gynt, *j* ar gamau gynt. 25–6 [*V*]. 25–8 [*h*]. 25 *Jbj* bum yn kynelw; *I* kynddelwy, *d* cyddelw; *W* ar y kelwydd. *KO* a gwawr serch, *W* gwar sserch, *O* a gwawr

serch, *d* gwawr y serch; *T* am y gwir, *d* ar y gwr; *L* Gwawr serch mae pob gwir o'i swydd. 27–8 [*d*]. 27 *GL* Duodd; *T* hael; *KUVZk* y golavloer, *T* y goleuoer. 28 *L* Bu nad ddig irad, *J* bu nad ac ir nad; *I* bv wlad tra girad tra goer, *V* by/r/ wlad ddigariad ag oer, *b* vyn gwlad ag euriad ag oer. 28–30 [*D*]. 29 *PW* davydd dewr, *V* davydd derfyn, *h* dd dewin; *b* dioerδyn. 30 [*F*]; (*E*) dan Abercai, *KW* hyd aber kai, *UZ* da abercai (*cywiriwyd yn U*: Da wobr), *b* deu ebyr kai; *L* Awdr y gerdd hoywder a gai. 31 *V* ab; *d* gwiw awdrym gwiwdrain; *IW* waywdrym; *EFLTk* wiwdrefn. 32 *FNU* pencerdd-radd, *IPWb* penkeyrddaid, *D* penkeirddiaidd, *L* pen-cerdd nadd, *J* penkeirddiaeth, *V* benkeirddiaid, *h* pen keir rad, *j* pencerdiaid; *EFLMOK* liwnadd, *D* lifaidd, *IPbj* lifaid, *J* liwiaith, *T* nadd, *W* llyfiad, *d* liwradd, *h* lifiad, *j* lifiaid; *EFLT* lefn, *W* llafn; *V* wayw lifaid lafn. 33 *CGK* Un tlws o enw; *Ek* tlyssaur, *D* tylevssawr, *Jb* tlyssaid, *d* tlyshael, *W* tylyssawr. 34 *AEN* *bd* ynod, *C* vnad, *Jj* enaid; *DEFKNOPTWbhk* gwiw, *L* gerdd, *UZ* gwir, *d* gwawd, *Jj* y gwyr; *Jj* ynnad gwin, *Ld* enaid gwin. 35 *CFGKLU* kv wiw, *DW(b)* kv fvm, *I* kyfiw, *Jdej* kywir, *P* cowio, *V* yw, *h* kenay; *DW(b)* erddof, *K* mowddof, *V* kowirddof. 36 *L(M)* cadr ei gerdd, *d* kadarn i gerdd; *ENk* ceid ar ei gof, *DLPUZ(b)* cedwir i gof, *I* kedrig of, *d* kedwy[] gof, *V* cadarn gof, *Wh* keidw ar go, *b* kad ar y gof. 37 *L* Ymlyngos, *K* mawl iowngof, *V* mawl o iowngof; *EMNk* aml iawngerdd, *b* o aml angerdd, *e* am ei angerdd. 38 *h* ingel ystor. 39–40 [*V*]. 39 *CEGKLNPTdehjk* cywirdant, *F* koweirdaint, *J* kyweiddant, *O* kyweirgorn, *P* cyw irdant. 40 *Fk* kolof, *IJW* kolon, *Pdj* calon; *d* byrddav yn dav dir. 41 *PVh* kaed oi ben, *F* kad o benn, *j* Cabden ar bob; *CGKe* kymhenwawd. 42–64 [*F*]. 42 *I* kynheilwydd, *J* kynddelwaith, *V* kyfanedd, *W* kynddaledd, *d* kynddeliaidd, *j* Cynddelw iaith; *Pbd* [ei]; *DW* i wedd ar wawd, *I* i wydd ai wawdd, *Jj* wiw daith wawd, *P* ddiwladaidd wawd, *V* i wedd ai wawd. 43–50 [*V*]. 43 *CEGLNOehk* hoywlan, *Ib* hael yn, *K* hoelwan, *j* hoywlin; *N* aur; *D* hael yn evrin, *I* hawl anevrin, *J* hylaw Evrrin, *d* hael ynevyn, *W* havl yn evrin, *b* hwyl anneyrin, *h* hael anerwin, *j* hylawn [Aneirin]. 44 *DKW* hael o walch, *P* hael eos, *b* hyloyw y wawd; *d* oi; *P* eos, *b* wawd; *T* i heliai wîn, *d* a heliai yn, *D* a hvliai win. 45–6 [*Ek*]. 45–50 [*I*]. 45 *L* Dir, *M* doi, *T* dô, *b* dioer; *J* dvrarfi, *d* dvra; *W* dewr i dyviaid; *K* dvriaid; *b* dioer a dewr a diraid, (*b*) y dewrwalch penawdryaid. 46 *b* a llwybyr; *CGe* yn llwybraw'r aer, *L* yn llwybr yr aeth, *h* yn llew byr arf, *j* yn llwybvr oer, *KOT* yn llwybyr yr aer, *W* yn llwybyr avr; *ACDgk-OTUWZbd* *eh* [yn]; *PWh* llei; *N* bu raid. 47–8 [*dh*]. 47 *Ub* moes; *b* [o]; *b* wr masswy. 50 *EJLNPTWj* vab; *Jj* hoywbarch, *ZU* hybarch, *d* hyvalch. 51–2 [*h*]. 51 *V* megis dwyn; *I* kefnewiddyn, *Te* gyfnodyn, *W* gyfnod vn, *b* gyfrennyn; *Db* dyn digas, *L* gerdd wynias. 52 *L* Neu awydd; *EKPk* fraw isa fras, *L* fryd Adda frâs, *I* frewyssa fras, *d* vyrawyssa vras, *Jj* vradycha vras. 53–4 [*IV*]. 53 *d* ond iawn a wnaeth, *b* dygyn y gwnaeth. 54 *CEN* dyn gwawdair (*E* *cywiriad*: gwr). 55 *CI* gadv, *DVW* gadel. 56 *ENTk* ffordd druan, *L* Ei hunan mal; (*E*)*Nk* y kryman. 57–62 [*V*]. 57–64 [*W*]. 57 *GJJKOdehj* a wnaeth; *Jd* ddiristad.

58–60 [D]. 58 *Ib* ag ef yn kaen; *Ib* [a]; *CEGMTUZehk* ygad, *N y glâd*. 59 *L* Gelwis ei ddewis; *IKb* o ddav, *h* ar dday. 60 *IKd* donioc, *CGJej* ddonnioc, *O* dinac; *I* gwr; *IOd* dwyn. 61–2 [b]. 61 *L* Dewis Duw; *DUZ* dylevwas, *h* dewiswas, *j* oleywas; *V* duw yn dwyn davydd dyn difas. 62 *L L* cyfnod, (*E*)*k* kyfod; *V* vn cydfod, *j* cyd orfod; *KVj* [y]. 63 *D* tristant fyddant, *b* Tristach vyddant, *IJhj* trisdach meddant, *V* tristach meddiant, *AN* tristwch weithan, *S* trist yw yn meddiant, *d* tristach yw meddiant; *Ph* y kan tref, *Jj* yw'r cantref, *d* pawb gartref. 64 *CGJKOPVdej* llawenach, *MT* ddigrifach, *I* nigrifach; *h* []llawen hadd nowradd nef. nowradd.

Teitl

CDEGI(J)NPTWbdek k: marwnad i dd ap Gwilim. *F* kowydd marwnad i dd ap gwilim pann dygasav gruffydd gryg i farw fo. *LMOh* kowydd marwnad i Dafd ap Gwilim ag ef yn fw. *UZ* llyma farwnad A wnaeth Davydd ap gwilym I ruffudd gryg, ag vn a wnaeth gruff i dd.; A phob vn yn fyw yn Anwybod iw gilydd, yn calyn. *j* Cowydd marwnad Dafydd fab Gwilym gam ac yntau yn fyw ond wrth glowed dywedyd ei farw.

Nodiadau rhagarweiniol

CGLRe nid oes gida myfi ond hyn or kywydde ymryson a fv rhwng dd ap gwilym a grvffydd gryg mi a welais dav arhigen o honvn hwy ag roedd pob vn wedi rhoi i fryd na chaer llall y diwaetha Ag a ddoeth bol abaeol ag a dda[l]iodd gynglwyst a gwr bonheddig a gwnai fo nhw yn ffre[i]ns ag addoeth i wynedd ag [a] ddywad i rvffvdd gryg farw i feistr dd ap gwilym ag a wnaeth yntav gywydd barnad iddo fo ag a ddoeth yni ol i ddehevbarth ag a ddywawd farw grvff gryg ag a wnaeth yntav grvffvdd marwnad iddo yntav da ag yno wedi dalld gwaith bola bav[o]l A chlywed marwnad i gilidd nhw Aethant yn ffreins. *V* ag arol y kowydde hynn [sef cywyddau'r ymryson] i daeth boly bayol gwas davydd ap glm at Rffydd grûg dan wylo ag a ddwedawdd farw i feistir, ag yno i canodd gryffydd grûg y cowydd yma yn farwnad i dd ap glm (*nodyn gan yr un llaw yn dilyn y cywydd*: arol hynn fo a ddaeth boly bayol adre at i feistir dd ap glm ag a ddowad farw gryffydd grûg ag yno i canodd davydd ap glm y barnad sydd yn canlyn, ag ar hyny hi aeth yn heddwch).

Olnod

CGKMTj Grûffûdd Gryg. *DEIJLNPUVZbdek* Gruffyth gryc ai kant. *O* Gruffudd Gryc ai kanodd.

Trefn y llinellau

D 1–27, [28–30, *rhwyg*], 31–57, [58–60 *rhwyg*], 61–4.

Ek 1–44, [45–6], 47–64.

F 1–29, [30], 31–41, [42–64].

- I* 1–12, 15–16, 13–14, 17–32, [33–4], 35–40, 43–4, [45–50], 57–60, 55–6, 51–2, [53–4], 41–2, 61–4.
- V* 1–12, 15–16, 13–14, 17–24, [25–6], 27–32, [33–4], 35–8, [39–40], 61–2, 55–6, 51–2, 41–2, [43–50], 63–4.
- W* 1–56, [57–64].
- b* 1–16, 27–8, 23–6, 17–22, 57–60, 29–32, 35–6, 33–4, 37–40, 45–6, 43–4, 47–8, 53–6, 49–52, 41–2, [61–2], 63–4.
- d* 1–26, [27–8], 29–46, 49–64.
- h* 1–24, [25–8], 29–42, 15–18, 43–6, [47–8], 49–50, [51–2], 53–64.

Marwnad Dafydd ap Gwilym

- Dafydd ap Gwilym, imi
 Y bu braw am na fai [ef] uchod
 Yn nhir Deheubarth yn hardd,
 4 A brwydr rhyngof a'm bardd dilys.
- Gwae'r beirdd o achos [colli'r] milwr o bencerdd,
 A gwae'r byd o achos [colli'r] gŵr balch;
 Gwae finnau, myn creiriau'r byd Cristnogol,
 8 [Oherwydd] trodd poen ddwfn dros baun Dyfed.
 Byddwn i'n dewis [derbyn] dychan prydfferth ei wedd
 O geg Dafydd, [yr un a chanddo] ymddangosiad bardd,
 Cyn [derbyn] canu mawl i mi, mawl llachar ei rym,
 12 Gan [fardd] ffôl arall draw.
 Disgybl wyf, ef a'm dysgodd,
 Athro[r] cywydd, crëwr digofaint.
- Cyn iddo farw bu ymryson
 16 Rhyngof ac ef, yn wir bu'n [ymryson] cas.
 Pwy bynnag, ddewin gwych,
 Fwrlwm barddoniaeth, a fu ar fai,
 Maddau i'r prifardd da ei fagwraeth
 20 A wnaeth Duw gwych [y] nef heddiw.
 Rhoddaf innau, gweddiâu mawl,
 Faddeuant am yr hyn a ddywedodd.
 [Dweud] y gwir y bu [ef am] amser hir,
 24 A [bûm] innau [yn dweud] anwiredd gynt.
 Myn Cynddelw, bûm [yn dweud] celwydd;
 Arglwydd [canu] serch sydd ar y gwir.
- Brenin [yr] haul a[r] lleuad llachar,
 28 Bu llef a galar ac oerfel
 [O achos] dwyn Dafydd, [a oedd,] Duw a wŷr, [yn] ddyn difai,
 Paentiwr barddoniaeth [y tir rhwng] dau aber Cai,
 Fab Gwilym, arglwydd rhagorol [a chanddo] rym barddonol,
 32 Bardd o radd pencerdd, [ac a oedd fel] llafn wedi'i hogi gan lif.
 Un tlws ei air, [o] enwogrwydd Taliesin,
 Ynad [ar] wŷr, enaid y gwin,
 Disgybl [i] Fyrddin, [yr un] bonheddig iawn [a] theg,
 36 Pennaeth barddoniaeth, grymus ei gof,
 [A hwnnw'n] gof sy'n glynu, aml ei gyneddfau,
 Efenglydd, [un a oedd yn rhoi] cyfarwyddyd barddoniaeth.

- Galerir [o achos colli] prif dant addfwyn y delyn,
 40 [Ef,] gynheiliad barddoniaeth tir y Deheubarth.
 Cafwyd pob doethineb o'i ben,
 [Ac yr oedd] ei farddoniaeth weddus fel [barddoniaeth] Cynddelw.
 Gŵr gwych ei wedd, [fel] Aneirin fonheddig,
 44 [A] llanc hael a ddarparai win.
 Amddiffynnydd [a chanddo] arf dur, un dewr ac ofnadwy,
 Ar hynt brwydr, [ac] yn lle [bynnag] y byddai cyni.
 Maes o farddoniaeth, gŵr llon ydoedd,
 48 Ac un doeth oedd pan ofynnid [iddo].
 Fe'i hystyriwn [ef yn ŵr] tebyg i Drahaearn,
 Neu'n debyg i Lywarch hir ei barch [oedd] hwn,
 Neu Gasnodyn, [a oedd yn] ddyn galluog iawn,
 52 Neu Addaf Fras, y mwyaf bywiog.

- Yn gelfydd y gwnaeth Mab maeth Mair
 Ddwyn gŵr mawl dan gôr gwydr,
 A gadael Bleddyn [y] dihiryn,
 56 Crwydryn truenus, [siâp] cryman crwm.
 Yn gywir y gwnaeth Crist [y] tad hoff,
 Ac [yntau] yn cael, meistrolaeth a gafodd,
 [Yr hawl] ddilys [i] ddewis o blith y ddau,
 60 Ŵr dinacâd, [i] ddewis yr un gorau.
 Dewisodd Duw deuluwr,
 A gwrthod cyfeillachu gyda'r [un] cas.

- 64 Tristach yn awr yw pob cantref,
 Bellach naw gwaith hapusach yw'r nef.

I'r ywen uwchben bedd Dafydd ap Gwilym

- Yr ywen i oreuwas
 Ger mur Ystrad-fflur a'i phlas,
 Da Duw wrthyd, gwynfyd gwýdd,
 4 Dy dyfu yn dŷ Dafydd.
 Dafydd Llwyd a'th broffwydawdd
 Er cyn dy dyfu rhag cawdd;
 Dafydd, gwedi dy dyfu,
 8 A'th wnaeth, o'i fabolaeth fu,
 Dy urddo, yn dŷ irddail,
 Tŷ â phob llwyn yn dwyn dail;
 Castell cudd meirw rhag eirwynt
 12 Cystal â'r pren gwial gynt;
 Dy leau bu deuluaidd,
 Dy wrysg, dy gangau, dy wraidd.
- Mae danad ym mudaniaeth
 16 Bedd rhwym, nid o'm bodd yr aeth,
 Bydaf englynion bydoedd,
 Bu ddewr ef, mewn bedd yr oedd,
 A synnwyr cerdd a synnud,
 20 A gwae Ddyddgu pan fu fud.
 Gwnaeth ei theuluwas lasryw
 I'w hael dyfu tra bu byw;
 Gwna dithau, geiniau dethol,
 24 Gywirder i Nêr yn ôl.
 Addfwyn warchadw ei wyddfa,
 Drybedd yw, fodrabaidd dda.
- Na ddos gam, na ddysg omedd,
 28 Ywen, odduwch ben y bedd.
 Geifre ni'th lwgr nac afrad
 Dy dwf yng ngwendre' dy dad.
 Ni'th lysg tân, anian annerch,
 32 Ni thyr saer, ni'th ddyfriw serch;
 Ni'th bilia crydd, mewn dydd dyn,
 Dy dudedd yn dy dyddyn;

- 36 Ni'th dyr hefyd, rhag bryd braw,
 Â bwyell rhag ei bwyaw
 (Ir dy faich i ar dy fôn)
 Taeog na chynuteion.
- 40 Dail yw'r to, da le yw'r tau,
 Diwartho Duw dy wyrthiau.

Ffynonellau

A—Bangor 6, xliii B—BL Add 14991, 248 C—Card 1.550, 4 D—Card 3.4 [= RWM 5], 69 E—LIGC 2010B [= Pant 42], 10 F—Pen 56, 52

Y mae'r ddwy llawysgrif gynharaf (D ac F, hanner cyntaf yr 16g.) yn cynrychioli dwy ffrwd annibynnol (o ran trefn llinellau a rhai darlleniadau) a adlewyrchir yn y llawysgrifau eraill. Gellir eu rhannu'n ddau grŵp: ABD a CEF. Y mae B yn gopi o D. Yn A nodir *Y Cywydd uchod a ysgrifennais allan [o] Lyfr a fenthycais gan RRd. o'r Faner*; ni ddaethpwyd o hyd i'r llawysgrif hon. Nododd Evan Evans iddo gopiō cerddi E o *Lyfrgrawn y parchedig Mr. Powel o Lan Haran*, sef Card 5.44 (Llyfr Hir Llanharan), a ysgrifennwyd gan Lywelyn Siôn yn 1613 ac a aeth i feddiant teulu'r Poweliaid maes o law. Fodd bynnag, ni cheir y cywydd hwn yn Card 5.44, ac y mae'n annhebygol ei fod yno'n wreiddiol gan na ddaethpwyd o hyd iddo yn y rhestr gynnwys ar ddechrau'r llawysgrif. Dichon i Evan Evans ddefnyddio ffynhonnell wahanol ar gyfer y cywydd hwn, a phery cysail E, felly, yn ddirgelwch. Felly hefyd yn achos C, gan nad yw'n ymddangos ei fod yn gopi uniongyrchol o F. Nid yw testunau llawysgrifau cynnar D ac F yn rhagori ar y lleill, ac nid yw un o'r llawysgrifau eraill (ail hanner y 18g.) yn ddi-lwgr. Seiliwyd y golygiad ar destunau llawysgrifau AC–F. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–16.

Amrywiadau

1 *F* or ewwass. 2 *BDF* gaer, *C* gadr. 3 *B* gwydd gwynfydd, *D* gwydd gwynfyd (*gyda* gwydd wedi ei ychwanegu). 6 *DF* ir kyn. 7 *CE* wedi. 9 *C* dy irddail (*defnyddir* *ŷ yng ngweddill y testun*). 10 *EF* ti. 11 *D* Errwynt. 12 *C* gwyaill. 13 *B* fu; *D* delvaidd. 13–14 [*CEF*]. 16 (*A*)*BCD* beth; *AD* rwym, *B* rhwyn; *C* ydd aeth. 17 *A–E* byda, *F* bydd; *ABD* oenglynion, *CE* engylyion, *F* yng ylion. 18 *AB* mewn rhieni rhodd, *C* mewn rhiniau rhodd, *D* mewn rieni rodd, *E* mewn bedd ir oedd, *F* mewn rrin nef rroydd. 19 *A* naws unud, *BDF* asymvd. 20 *B* ddygum, *D* ddygv. 21 *CEF* yw. 23 *ABCE* geingciau, *D* geingkie. 24 *F* kywirder; *E* ir ner, *F* i nef. 25 *BCDF* addwyn. 26 *CEF* vodrabedd dda, *BD* vodrabaidd adda. 28 *F* oddwrh ben. 29 *C* Geifrau, *E* geifr; *F* lwgwr. 29–30 [*ABD*]. 30 *F* yngwedre. 32 *A–F* nithdyrr; *ACEF* dyfriw. 35 *AB* Ni thyr; *AF* mewn bryd. 36 *ABCE* bwyall, *D* bwall, *F* bwyail; *CE* eu beiau, *F* i beiau. 38 *F* nacynd teion. 40 *ABD* wrthiav.

Teitl

A Cywydd i'r Ywen oedd uwchben Bedd Dafydd ab Gwilym (*llaw ddiweddarach*: Ymonwent Ystrad-fflur. Strata Florida, rhan o Blwyf Tref Garon Yngheredigion, lle mae Murddyn o Fanachlog yn sefyll), *B* I'r Ywen a dyf uwch ben Bedd Daf Gwilym, *CE* Cywydd yr Ywen, *D* I'r Ywen a oedd uwch ben Bedd D. Gwilym.

Olnod

A–F grvffyth gryc ai kant.

Trefn y llinellau

ABD 1–4, 7–8, 5–6, 9–28, [29–30], 31–40.

CEF 1–12, [13–14], 15–40.

I'r ywen uwchben bedd Dafydd ap Gwilym

- Yr ywen ar gyfer y gŵr gorau
 Wrth ymyl mur Ystrad-fflur a'i phlasty,
 Bendith Duw arnat, paradwys [i] goed,
 4 Dy fod wedi tyfu yn dŷ [i] Ddafydd.
 Gwnaeth Dafydd Llwyd dy broffwydo
 Rhag trallod ers cyn i ti [ddechrau] tyfu;
 Wedi iti dyfu, Dafydd
- 8 A'th luniodd, ers ei ieuencid y bu [hynny],
 yn dŷ o ddail ffrwythlon, dy ddyrchafu,
 Tŷ â phob llwyn yn dwyn dail;
 Castell cuddiedig [i'r] meirw rhag gwynt rhewllyd
- 12 Cystal â'r pren gwaiail gynt;
 Bu dy leoliadau yn fonheddig,
 [A]’th wrysg, dy ganghennau [a]’th wraidd.
- Y mae oddi tanat ym mudandod
- 16 Bedd caeth, nid o'm bodd yr aeth [ef yno],
 [Yr un a fu'n] nyth gwenyn gwyllt englynion [y] bydoedd,
 Bu ef yn ddewr, mewn bedd yr oedd,
 A doethineb barddoniaeth a deimlet,
- 20 A gwae Ddyddgu pan aeth yn fud.
 Gwnaeth natur ifanc ei bardd [hi]
 Achosi i'w [gariadferch] hael ffynnu tra bu byw;
 Gwna dithau, [yr un â'r] canghennau arbennig,
- 24 Ffyddlondeb i Dduw yn gyfnewid [am hynny].
 Gwarchod ei fedd yn dyner,
 [Ti'r] ywen [sydd fel] trybedd, peth da o natur modryb.
- Paid ti â symud [yr un] cam, na ddysga sut i[w] wrthod,
- 28 Ywen, o'r [fan] uwchben y bedd.
 Ni fydd gyr o eifr yn dy ddifetha ac nid diras
 Dy dyfiant yng nghartref hardd dy dad.
 Ni fydd tân yn dy losgi, cyfarchiad natur,
- 32 Ni fydd saer yn [dy] lifio, ni fydd serch yn dy falu;
 Ni fydd crydd byth [yn llythr. ym mywyd dyn] yn pilio oddi arnat
 Dy fantell yn dy gartref;
 Rhag ofn syniad arswydus, ni fydd taeog ychwaith yn dy dorri
- 36 Â bwyell rhag iddo gael ei guro
 (Y mae dy lwyth yn ffrwythlon oddi ar dy foncyff)
 Nac ychwaith y rheini sy'n hel coed tân.

40 Dail yw'r to [sydd arnat], lle da sy'n eiddo i ti,
Boed i Dduw anrhydeddu dy wyrthiau.

I'r lleuad

Lleuad Ebrill lliw dybryd,
Ffriw drist ydyw'r dau ei phryd,
Nobl o wydrin wyneblas,
4 Noeth loer, ar fryd dyn neu'th las.
Symudo lliw siomedig
A wnai bob dydd, wyneb dig:
Cochi cyn gwynt, hynt hyntiaw,
8 Llwyd a glas a llidio glaw.
Cron drymlaw, crawen dremlwyd,
Curio'dd wyf: ai caru'dd wyd?
Clwt awyr, clod yt dewi,
12 Ai claf wyd, fursen? Clyw fi!
Pwy o'th genedl, rwystrchwedl restr,
A gollaist, fflwring gallestr?
Nid oes dydd, un dremydd drych,
16 O ruddiau iâ na roddych,
Awch nidr, o ucheneidiau,
Ai mil, ai teirmil o'r tau.
Pob uchenaïd, rynnaïd ran,
20 A dorrai graig yn deïrran,
A pheunoeth, lwythboeth letbai,
Olwyn oer, wylo a wnai.
Planed rhuthr angherdded rhus,
24 Plater, lwfer wylofus,
Pa ryw wylaw yn awyr
Yr wyd, gwrrach minllwyd gŵyr?
Torraïst â Sain Siâm amod,
28 Tud y glaw, nid da dy glod;
Teflaïst yng ngwar tir Harri
Ynglŷn fyth, fy ngelyn, fi.
Pani bai nerth, iawnferth ynn,
32 Siacob, fi a'm gwas Siencyn,
Ni ddeuym (cyd nofym nef),
Drychaf nidr, drachefn adref.
Prudd yw'r unben a'th gennyw,
36 Prid ym dy lid, ym Duw Lyw.
Troaïst fi, ymwng truan,
Oerffwrdd lif, o i ar ffordd lân,

- Tröell y llanw a'r treiau,
 40 Traean henfaen breuan brau,
 Tywyll gwfert, twyll gyfoeth,
 Tân Mihangel o bêl boeth,
 Lledfen o'r awyr llidferw,
 44 Llydan gwmpas chwafan chwerw:
 Llugorn fuost yn llwygaw,
 Llygad glas, maen cafad glaw,
 Caer Droea wynt bellynt bill,
 48 Carn wybren, corun Ebrill,
 Buarth baban yr annwyd,
 Bwced plwm gwanwyn llwm llwyd,
 Desgl o dymestl mewn dwysglwyf,
 52 Digwyddo'dd wyd; digio'dd wyf.
 Dysgaist am fy mhen dwysgaw;
 Disgyn i lawr, glawr y glaw,
 A gad heb arnad orne,
 56 Oerllith loer, arall i'th le.
 Diennill, Ebrill wybroer,
 Amod yw ymy dioer:
 Ni luniwyd o elyniaeth
 60 I was diwedd gwanwyn waeth.
 Arwydd yr anhylwydd hynt:
 Irwarth i'r gwanwyn oerwynt!

- Deuruddloyw fis dewisaf,
 64 Dyred â'r haul, daradr haf!
 Dwg unllong i deg iawnllwybr,
 I bill, yr Ebrill oer wybr,
 A Mai, hutGai ehetgoed,
 68 Er mwyn fy ngherdd yt ermoed,
 Dwg fi uniawnffordd, deg fis,
 Dwg elw Sain Siâm dy Galis,
 Llonydd heb Ebrill anardd,
 72 Lleuad Fai, llywia dy fardd!

Ffynonellau

A—BL Add 14866 [= RWM 29], 194^v B—BL Add 14907, 210^v C—BL
 Add 31062, 182^r D—Card 2.40 [= RWM 26], 94 E—Gwyn 3, 123^r F—
 LIGC 642B, 24^r G—Pen 51, 46 H—Pen 64, 46 I—Pen 221, 17

Tardda B—F o A. Copi o G yw H. Y cwpled cyntaf yn unig a geir yn I:
 cytuna â GH yn hytrach nag A. Amheuir yn gryf fod A yn tarddu o H, ac

felly seiliwyd y golygiad ar G, ond gan nodi amrywiadau o A isod. Y mae G yn anodd ei ddarllen oherwydd difrod, a thynnwyd ar H lle na ellid darllen G. Ni nodir darlleniadau anghyflawn o G yn yr amrywiadau oni cheir rheswm i gredu eu bod yn wahanol i H. Ni nodir amrywiadau o B–FI.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–16.

Amrywiadau

2 *A* trist i ffrîw trosti ai phryd, *G* []iw r dav ai ffryd, *H* ffrîw drist ydyw r dav ai ffryd. 3 *A* wydryn. 8 *A* cyn lldio. 9 *GH* kronn drvmlaw. 13 *A* rhwystr ... rhestr, *G* rrwystr ... restr. 14 *H* *A* gollaistr. 19 *G* rynaïd. 25 *G* wylaw. 26 *A* fal gwraçh, *G* gwraçh; *A* gwÿr. 27 *A* famod. 30 *A* yn glun. 31 *A* pa na ... iownwerth. 32 *A* ef am; *AH* ssiëkyn. 33 *A* ddofym cyn. 37 *H* y mwc. 43 *G* lldivarw. 44 *A* chwaerfan, *G* chwaraen. 50 *A* gwayniwn. 58 *H* a dioer. 60 *A* gwaniwyn. 61 *A* ir. 62 *A* hirwarth; *A* gwaynwyn. 70 *A* hyd Galis.

Teitl

AH ir llevad.

Olnod

A Gruffydd Grug ai cant, *G* Gruffudd gryc, *H* Gruffy gryc.

I'r lleuad

- Lleuad Ebrill [o] liw ffiaidd,
 Wyneb trist ei olwg yw'r eiddot ti,
 Darn aur o wydr gwelw ei wyneb,
 4 Lleuad noeth, yng ngolwg dyn fe'th laddwyd.
 Newid [dy] liw twyllodrus
 A wnei [di] bob dydd, wyneb dig:
 Cochi cyn gwynt, gwibio gwib,
 8 [Troi'n] llwyd ac [yn] welw ac ysgogi glaw.
 Llaw drom gron, crystyn llwyd dy olwg,
 Dihoeni'r wyf: ai caru'r wyt?
 Clwt [yr] awyr, anrhydeddus yw iti dewi,
 12 Ai sâl wyt [ti], ferch anwadal? Clyw fi!
 Pwy o'th berthnasau, rhes [sy'n destun] adroddiad blinderus,
 A gollaist, ffloring [o] gallestr?
 Nid oes dydd, [ti sydd o'r] un wedd â drych,
 16 Nad wyt yn rhoi o[’th] ruddiau [o] iâ,
 Rhwystr [i] fywiogrwydd, o ochneidiau,
 Naill ai mil, ynteu tair mil o'r eiddot.
 Byddai pob ochenaid, cyfran a anedlir allan,
 20 Yn torri craig yn dair rhan,
 A phob nos, un llwyd a ffyrnig ar ogwydd,
 Olwyn oer, wylo a wnei [di].
 Planed [ar] ruthr [i] grwydriad [sy'n peri] llyffethair,
 24 Dysgl, twll mwg wylofus,
 Pa fath o wylo yn [yr] awyr
 Yr wyt [yn ei wneud], hen lyfr troëdig llwyd ei ymylon?
 Torraist gytundeb â Sant Iago,
 28 Gwlad y glaw, nid da yw dy enwogrwydd;
 Teflaist fi ar ymyl tir Harri
 Yn sownd am byth, fy ngelyn.
 Pe na bai nerth, tra hyfryd inni,
 32 Iago, fi a'm gwas Siencyn,
 Ni fyddem wedi dod (byddem yn nofio ar y cyd i[r] nef),
 Adref eto, rhwystr tra anffodus.
 Trist yw'r pennaeth sy'n dy weld,
 36 Costus yw dy ddiacter imi, myn Duw[r] Arglwydd.
 Troist fi, un disymwth [a] thruenus,
 Llif oer ei hynt, oddi ar [y] ffordd gywir,
 Tröell y llanw a chiliadau'r llanw,
 40 Trydedd ran hen faen bregus melin law,

Cysgod tywyll, teyrnas dwyllodrus,
 Tân Mihangel o bêl boeth,
 44 Llechen o'r awyr lidiog ei bwrlwm,
 Olwyn chwerw lydan ei chwmpas;
 Lantern fuost yn dioddef eclips,
 Llygad gwelw, maen cawod glaw,
 48 Cadarnle pell ei grwydr [y] gwynt [sy'n troelli megis] drysfa,
 Carnedd [yr] wybren, corun Ebrill,
 Cylch baban yr oerfel,
 Tarian gron blwm [y] gwanwyn llwm llwyd,
 Dysgl o ddrycin mewn salwch dwys,
 52 Cwympo'r wyt; digio'r wyf.
 Dysgaist sut i dywallt ar fy mhen;
 Disgyn i lawr, glawr y glaw,
 A gad heb [fod] arnat wrid,
 56 Lleuad oer dy bregeth, [i] un arall [ddod] yn dy le.
 Ebrill oer dy wybren,
 Bargen wael sydd imi yn ddiamau:
 Ni luniwyd [erioed] drwy elyniaeth
 60 Ddiwedd gwanwyn gwaeth i w'r ifanc.
 Arwydd o'r daith aflwyddiannus:
 [Boed] gwarth di-ball i'r gwanwyn oer ei wynt!

64 Fis gorau gloyw dy fochau,
 Tyrd â'r haul, tyllwr yr haf!
 Dwg [yr] un llong [hon] i[r] llwybr union teg,
 I loches, O Ebrill oer [dy] wybr,
 A Mai, [megis] Cai hudol sy'n hedfan dros y coed,
 68 Er mwyn fy marddoniaeth i ti erioed,
 Dwg fi [ar] ffordd unionsyth, fis teg,
 Dwg fudd Sant Iago o Galisia,
 [Yn] llonydd heb Ebrill hyll,
 72 Lleuad Mai, llywia dy fardd!

I'r don

Y don ewynlon wenlas,
 Raeadr graen a red i'r gras,
 Hir yw yno ei herynaig,
 4 Y hi yn ymgrogi am graig,
 Amhuredd o berfedd berw
 Cylla eigion, cell agerw;
 8 Gwelwglawdd a dryfriwawdd fry,
 Gwe hirerw (gwae a'i hery!),
 Gweli canol gweilgi cain,
 Gwely morfeirch a gwylain,
 Gwreichion dwys drochion distrych,
 12 Gwraig a gur craig â geirw crych.
 Gwae a wyl o'i hymyl hi,
 Geir yr hwyl, goror heli.
 Gan ei hafn drud (gwn ei hofn draw)
 16 Gwae'r undyn a fai'n gwrandaw
 Diasbad o du Ysbaen,
 Mynydd grawth mân eddi graen,
 Mam aig, hyd ei ffaig ni pheirch
 20 Mawrfurm newyddgwrw morfeirch,
 Drwyth yn ewynnu am drwyn,
 Mawr ferw am wallt môr-forwyn.
 Ei mwng a fwrw am angor,
 24 Ymennydd merwerydd môr.
 Amau nidr, a mi'n edrych
 Llid (oer ei gwrid) ar ei gwrych,
 Yna doeth enaid y don
 28 A'i dyfredd am ei dwyfron
 I'm cyrchu'n uthr, dallruthr dwyll,
 Megis sarff, megais orffwyll.
 Rhestr o boer, rhwystr aberoedd,
 32 Rhoes hwrdd i'm llong, rhoes flong floedd.

Dywad yna yn dawel,
 'Dyn gain a'm gyrrodd dan gêl
 I ofyn bardd bun hardd-dlos,
 36 Nac ofned neb gyfnod nos.

Nid ystig hi, nid ystyr,
 Onis gwyl, un eos gwyr.
 Cennad wyf er cyn y dydd,
 40 Cynnil leddf, cain Oleuddydd,
 I geisio Gruffudd ruddgroen
 Gryg, os byw, gorug ais boen.'

'Hardd-ddyn wyl hirddawn olwg,
 44 Hiraeth a deigrfaeth a'm dwg.
 Dywaid, don lwysgron lasgreg,
 Chwedl da am ferch wiwdal deg.'

'Gorlliw lloer, gerllaw ei llys
 48 Y'm ganed, mam aig ynys.
 Anial wst yn ôl ystum
 Wyneb oer, yno y bwm.'

'Beth hynny bu i'th annerch?
 52 A saif lle rhoes gynt ei serch?'

'Serch ac annerch a gynnail;
 Saif, o doi adref â sail.
 Oni ddeui yn ddiwyd
 56 Ar oed byr o rodio byd,
 Na chais, er dy farddlais fudd,
 Ymddiried i em ddeurudd.
 Dirmycid merch, draserch dro,
 60 Orne wyl, wr ni welo.'

'Clawdd Offa, yrfa erfid,
 Caer Gwydion, mŷr longwyr lid,
 Clod fawrgrair, lwybr clwyd forgrainc,
 64 Claer archlen, clyw, f'ancr wen, f'ainc:
 Cwys o wynnedd Caswennan,
 Cais fy nwyn, lawforwyn lân,
 Ar dy gefn, eirw dygyfor,
 68 Na lestair mwy lestr i'r môr.
 Pe cawn, don feinwen, gennyd,
 Unwaith o'th nerth, brydferth bryd,
 Fy hebrwng i deilwng dir
 72 Ger llys fain geirllaes feinir,
 A gweled gwen, gwyliad gwiw,
 Gwyal unllun gwylanlliw,

Drimis, ni cheisiwn dramwy,
76 Nawdd Duw a Mair, un dydd mwy!'

Ffynonellau

A—Bangor 14677, 3 B—BL Add 9817, 121^r C—BL Add 14882 [= RWM 31], 66^v D—BL Add 14978, 60^v E—BL Add 31062, 190^v F—Bodewryd 1, 423 G—Bodley Welsh e 7, 1^r H—Brog (y gyfres gyntaf) 4, 70 I—Card 2.114 [= RWM 7], 911 J—Card 4.10 [= RWM 84], 1161 K—CM 5, 261 L—Gwyn 4, 120 M—Gwyn 9, 21 N—J 139 [= RWM 14], 483 O—LIGC 834B, 97 P—LIGC 13078E, 64 Q—Llst 54, 44 R—Llst 120, 32^r [rhif 137] S—Llst 168, 8 T—Pen 54, ii, 346 U—Pen 77, 193 V—Pen 78, 148 W—Pen 112, 264 X—Pen 312, iii, 4

Copi o B yw J. Copi o D yw A gydag amrywiadau o K. Copi o D yw E gydag amrywiadau o C a Q. Copi o I yw N. Copi o K yw M. Copi o I yw K. Copi o R yw Q. Ymddengys mai testun cyfansawdd yw R o L gyda B neu I. Tardda L o I, ond nid yn uniongyrchol, efallai. Testun annibynnol a geir yn I ond daw'r amrywiadau a gofnodwyd yno o B neu ei gynsail. Copi o C yw H. Bron yn unffurf yw O a thestun sail W; tardda'r ddau o B ond nid yw eu cydberthynas yn eglur. Ymddengys mai tarddiad yr amrywiadau yn W yw X neu ei gynsail, yn hytrach na bod X yn gopi o W a'r amrywiadau wedi eu hymgorffori yn y testun. Trinnir X yn annibynnol isod ac anwybyddir W. Tardda P o B neu o'r un gynsail; ni chynnig ddim nas ceir yn B. Erys, felly, y canlynol: BCDFGIS–VX. Hynod ddryslyd yw perthynas y rhain ac ni lwyddwyd i leoli'r un ohonynt mewn stema. Rhoddir ystyriaeth i bob un isod.

Amrywiadau

1 *S* ewinlonn, *T* ewyn ewynnlon, *X* wennlon; *X* emlas. 2 *B* rrvadr, *F* rhayadr, *TX* reydr, *U* o raydr, *V* Ryadr (*cywiriad*: Ryadar); *F* byw, *S* gwnn (*cywiriad*: gron), *U* grwyn, *V* groen; *BFGSV* [a]; *F* bas; *D* red ir gro readr gras, *I* rred ir gro reyradr y gras. 3 *CUV* hir iawn ym, *D* hir yw yna, *F* hwyr iawn ym, *S* hir iawn /n/, *T* hir yw ynn, *X* hir yō ym; *CD* [ei]; *B* heranaig, *C* hyrianaig, *D* arianaig, *F* hwyr wen aig, *G* heranaig, *I* hyranaig, *U* harynaic, *V* hyrymaig, *X* hir annaig. 4 *FT* hi, *S* a hi; *BCDFGSX* ar. 5 *V* berfed. 6 *D* gylla ... gell; *G* eigian; *B* ag erw, *FSV* hagerw. 7 *C* gwilgi glawdd, *D* gwelwn glawdd, *FSUV* gweilgi clawdd, *I* gwelgi glawdd; *SU* [a]; *B* ddevfawdd, *CI* dyrvriawdd, *D* fristiawdd, *F* ddiferawdd, *G* ddavriawdd, *SU* dryverawdd, *T* dra vriwiawdd, *V* dyfnawdd (*cywiriad*: dyfrawdd), *X* dar vriwaōd. 8 *G* glod; *CU* hir eirw, *F* hir arw. 9–10 [*D*]. 9 *B* gwe llif (*cywiriad*: gweli), *CFS* geli, *G* gwelli, *I* gelyn; *X* ganol; *SX* gain 10 *CI* gwalav, *S* gwelav, *U* gwelae, *X* gwalfa; *T* morvoch. 11 *S* gefreichion; *D* dwysc; *D* grochan, *V* dorchion. 12

(B)CFISUV draig; BD ag erw, I egyr, CSU ai geirw, F deigr, X o gor; S gyrch (cywiriad: gryx). 13–14 [CFSUV], ychwanegwyd yn IT. 14 BDG(T) gaer, X garō yō. 15 F ag o fonn, I gan hafn, S gan ofn; FS [ei]; S ofni, U hofni. 16 BG bie i gwrandaŵ, C a vai yn i gwrandaŵ, D biav gwrandaŵ, T ay gwarandaŵ, X e biau ei gōrandaō. 17 C dai ddiabod odv ysbayn, D diesbyd o dv ysbaen, F diasbode dwys bydaen, S diasbad ysbadaden, V diasadle ysbydaen, X diasbad o dy yr ysbaen. 18 B mennydd, V ymynydd; B grwth, CX grawdd, D garw, F graean, I grawnt; BG mynyddav graen, C man idd grayn, D y mynydd graen, F ddydd i graen, T mynayddeg rayn, V mam eddi graen, X mynyāiaō graen. 19–22 [CFSV], ychwanegwyd yn I. 19 T aig y lle ffaig 20 B(I) mor vvrvm, D mowrfryn, GX mowrfvrm, T mowrverm; BG(I) newydd kwrw, T koff (aneglur) newydd, X gōrō newyā. 21 DUX trwyth; B(I) yn tywynv, D yn ewyn, G yn a ewynnv, U yn []y, X ynovynu; DX trwyn. 22 T a gwallt. 23 BG ai mwng, D amwg, S a mwng, T y mwng, X mōng ; C i; (U) veirw; D a mogvr. 24 F mynydd, SV ymynydd; BG ymerwydd, CIU marwferydd, D mawr werydd, F goferydd, S farw ferydd, X marō weryā; F gav for. 25 B mynedr, (B)CI mae neidr, D emyn eidydr, FSU y mae neidr, G [] neidr, (U) em i nidr, V ymae niidir, X am i nidyr; V am yn; I endrych. 26 BDX i llid, C lled, G []d; F i gwraidd, T y gwrid, V agwrid; BDGX ai gwrych, T y gwrych. 27–8 [CFSUV], ychwanegwyd yn I. 27 BG(I)X yna i doeth. 28 T a. 29 BG a dwyn, D a dwyr; BDG rvthr dal vthr dwyll, C neiythyr dallithyr dwyll (cywiriad: neiythyr dalleithr dwyll), F rhythr dall ythr dwyll, I neithr dalleithrdwyll, SUV 'n rhûthr dall vthr dwyll, X yn uōur dan uōur bōyē. 30 S megais (cywiriad: megis), T mesgys; DV arff, I sarffwen; T megys. 32 B groes flong, I rrois flong. 33 B yno i dowod, CFS yno dowad, D yno dyfod, G yna i dywawd, IU yno i dowad, V yno i dowaid, X dyfod yna. 35 BG er synu, CFISUV i geissio, X Novlin; CFISUV dyn, T vvn. 36 C y nos. 37 dilewyd yn V. 37 B nid ystyg anwyd estyr, D nid ysgyd anwyd esgwyr, GX nid ysgig anwyd esgyr, T nyd ysgag onyd ossgyr. 38 [V]. 38 F nis; CU yn oes gwyr, F hyn oyd oes y gwyr, IX vn oes gwyr, (I) mwy vn oes gwyr, S hi/n/oes gwyr. 39–40 [T]. 39 S ŵyl; I [er]. 40 BCI gynil leddf, D gain oleddf; BG gain, CDIX gan, F kynn. 41 BDG yn ceisio, T wrth ovyn; G rwdgrogen, V rydd graen. 42 BCDFGISTUX gorugeis, V gorav ais. 43 CFISUV hwyrdlyn; CFISUV hardd iawn, T hyddawn. 44 D digfaeth ai. 45–6 [DTX]. 45 BG ym don; C lasgraeg, V lasgraig. 47 FUV gorlliw'r; CTX y llys. 48 FSUV mewn aig. 49–50 [CFSUV], ychwanegwyd yn I. 49 D am dwst yn ol y destyn. 50 X wyneb arō. 51 CFISUV yno; BG byth yw, CFIS o bv ith, DO bvn ith, V i by ith; BG hanerch. 52 I o; BG sa, CDFISUV ssai; DV llei; BG rhoddais, D roddaist, T roed, X rodeāēā; BG [gynt], F arnad, SUV arnai; DFSUVX [ei]. 53 V ag ynail. 54 B sa, CDGI sai, F a svn, SV asson, U svn; BG odai, V i doi; S [adref]; BDGX ar sail, CI oth sail, F ath sail, S i dan sail (cywiriad: i dai sail), U os ail, V o ssail. 55 B ddyfi, CISO ddewi; C ddewyd, I ddywid. 56 V bvr; BDSV i rodio, G o rodiawr. 57 UV

vydd; *V* farddais fydd; *B* na chais hardd er dy fardd fvdd, *G* na chais er dy vardd fvdd. 58 *D* i wen; *SUV* ddeûrydd. 59 *BC* dirmyced, *D* dirmygv; *B* dreigserch, *DG* dreiglserch, *S* drasseirch. 60 *B* ormail, *CFIS* ornai, *D* arnai, *G* or ail, *U* orn ni, *V* orn ais, *X* or nef; *V* gwyl; *B* wr niw, *S* er na, *T* ar ny, *V* wr nis; *X* ãelo. 61 *C* offo; *BCFISUV* oerfa, *G* i yrfa, *X* aerfa. 62 *T* karr; *BDSU* mûr, *C* y myrdd, *F* fy/r/, *G* myrr, *I* myrdd (*cywiriad*: myr), *X* byr; *BDGS* llongwyr llid, *F* langwyr lid, *I* longwyr llid. 63 *dilewyd yn V*. 63 *B* fowrgrai, *CFISUV* fevrgrai; *DFX* forgranck, *I* forgaink, *T* vrograingk. 64 [*V*]. 64 *BCGX* varchlen, *D* verch llen, *I* farchwen, *T* varklen; *BG* lyw; *F* fangkwen, *X* vyrwen; *X* vanc. 65 *BDIVX* wynedd, *CS* wnedd, *F* winoedd, *U* weûnoedd. 66 *BG* cai; *BG* loyw forwyn, *D* low forwyn. 67 *B* erw digyfor, *FSUV* aûr dy gyfor, *I* er dy gyfor. 68 *D* na lestyr (*cywiriad* o na lestair, *efallai*), *V* na lesder; *BD* lestair, *V* lesder; *CDI* [i'r]. 69 *U* bei; *V* don fain don, *X* donn finwen. 70 *V* brydwerth. 71–2 [*X*]. 71 *T* hebrwng vi. 72 *BDG(U)* geirllaes fvn, *F* gar llaw/r/ fvn, *I* ger llys faen; *BD* gar llys, *CI* gir llais, *FS* Jarlles, *G(U)* gaer llys, *U* irllaes, *V* garlles. 73 *TX* [a]; *B* gweliad, *F* gowlaid, *G* gwelaeid, *SV* golyd, *T* gwylyeid, *U* gwilid, *X* gwelediad. 74 *BCISUV* gwaiail, *D* gwialen; *D* llyn, *F* vnlyn, *T* enllvn; *BDG* gorff gwylanlliw, *V* gwilianlliw, *X* gwylan anlið. 75 *DT* trimis ... tramwy, *X* trimis ... dramwy; *T* cheisid. 76 (*BI*) idvedd mor vndydd mwy.

Teitl

B cowydd y donn o waith gruff gryg, *C* kowydd []on, *D* []ydd y don, *F* k. ir don, *G* y don, *I* kowydd ydon i mofvn am i gariad, *S* kowydd y donn.

Olnod

B gruffydd gryg, *C* 1400 gryffyth Gryg ai kant, *DFIV* gruffudd gryg ai kant, *G* gruff gryg ai kant, *S* Gr. Gryg ai kt, *T* Gr gryg, *U* Gruff Gryg, *X* Gruffyã Grug a.c.

Trefn y llinellau

BG 1–12, 15–16, 13–14, 17–38, 43–6, 39–42, 47–76.

CF 1–12, [13–14], 15–18, [19–22], 23–6, [27–8], 29–36, 39–44, 47–8, 45–6, [49–50], 51–2, 37–8, 53–76.

D 1–8, [9–10], 11–12, 15–16, 13–14, 17–38, 43–4, [45–6], 39–42, 47–76.

I 1–12, 15–16, (*ychwane gw yd* 13–14), 17–18, (*ychwane gw yd* 19–20), 23–4, (*ychwane gw yd* 21–2), 25–6, (*ychwane gw yd* 27–8), 29–36, 39–44, 47–8, 45–6, (*ychwane gw yd* 49–50), 51–2, 37–8, 53–76.

S 1–12, [13–14], 16, 15, 17–18, [19–22], 23–6, [27–8], 29–36, 39–44, 47–8, 45–6, [49–50], 51–2, 37–8, 53–76.

T 1–38, [39–40], 41–4, [45–6], 47–68, 71–2, 69–70, 73–6.

U 1–12, [13–14], 15–18, (*ychwane giad, yr un llaw* 19–22), 23–6, [27–8], 29–36, 39–44, 47–8, [49–50], 45–6, 51–2, 37–8, 53–76.

V 1-12, [13-14], 15-18, [19-22], 23-6, [27-8], 29-36, 39-44, 47-8, 45-6,
[49-50], 51-2, 37 (*dilewyd*), [38], 53-62, 63 (*dilewyd*), [64], 65-76.
X 1-12, 15-16, 13-14, 17-38, 43-4, [45-6], 39-42, 47-70, [71-2], 73-6.

I'r don

- Y don wenlas lawen ei hewyn,
 Rhaeadr aruthr sy'n rhedeg i'r cawn sych,
 Hir yw yno ei harswyd,
 4 Hyhi'n ymgrogi o gwmpas craig,
 Llygredd o berfedd byrlymus
 Bol [yr] eigion, cell ffyrnig;
 Aeth [y] clawdd gwelw yn chwilfriw uchod,
 8 Gwe [sy'n ymestyn dros] ardal eang (gwae'r sawl sy'n ei disgwyl!),
 Clwyf [drwy] ganol hardd [yr] eigion,
 Gwely morfilod a gwylanod,
 Gwreichion [o] ferw dwys [yr] ewyn,
 12 Gwraig sy'n curo craig â thonnau crychedig.
 Gwae'r sawl sy'n gweld o'i hymyl hi,
 Wrth yr hwyl, oror [yr] heli.
 Oddi wrth ei hollt ffyrnig (yr wyf yn gyfarwydd â'i hofni draw)
 16 Gwae unrhyw un sy'n gwrando
 Bonllef o du Sbaen,
 Mynydd llamsachus [o] fân edafedd erchyll,
 Mam [i] haig, ar hyd ei chwrs nid yw'n arbed
 20 Burum cryf cwrw newydd [y] morfilod,
 Trwyth yn codi ewyn o amgylch trwyn [o dir],
 Berw mawr o amgylch gwallt môr-forwyn.
 Y mae'n bwrw ei mwng o amgylch angor,
 24 Ymennydd ymchwydd y môr.
 Amau magl, a minnau'n gwylio
 Oer ei gwridd, y gynddaredd ar ei hewyn,
 Yna y daeth enaid y don
 28 A'i dyfroedd o amgylch ei dwyfron,
 I fy nghyrchu'n aruthr, twyll rhuthr dall,
 Megis sarff, meithrinais wallgofrwydd.
 Ffrwd o boer, rhwystr aberoedd,
 32 Rhoddodd hwrdd i'm llong, rhoddodd floedd ddig.

 Dywedodd yna'n dawel,
 'Merch hardd a'm hanfonodd yn ddirgel
 I holi am fardd merch hardd a thlws,
 36 Na foed i neb ofni cyfnod [y] nos.
 Nid egniol ydyw hi, nid yw'n ystyried [dim],
 Oni wêl hi ef, eos unigryw [y] dynion.
 Cennad wyf er cyn y dydd,
 40 Un dyner [a] doeth, [oddi wrth] Oleuddydd hardd,

I chwilio am Ruffudd Gryg coch ei groen
Os byw, y mae wedi gwneud poen [i'm] hasennau.'

44 'Merch hardd wylaidd [a'i] golwg [yn] estyn bendith
bellgyrhaeddol,
Hiraeth a deunydd dagrau sy'n fy meddiannu.
Dywed, don gron hardd las a chryg,
Newyddion da am [y] ferch deg hyfryd ei thalcen.'

48 [Yr un a chanddi] ddisgleirdeb [y] lleuad, gerllaw ei llys
Y'm ganwyd, mam [i] haig [yr] ynys.
Llafur llym yn sgil ystum
[Ei] hwyneb oer, yno y bûm.'

52 'Beth yw hynny y bu yn ei ddweud wrthyf?
A erys ei serch lle y[i] rhoddodd gynt?'

56 'Y mae'n cynnal serch a chyfarchiad [iti o hyd];
[Ie.] fe erys, os doi [di] adref â sail [iddo].
Oni ddeui [di] yn selog
Mewn dim o dro [yn ôl] o grwydro[r] byd,
Paid â cheisio, er gwaethaf dy fudd [o'th] farddlais,
Ymddiried yn [yr un a'i] dwy rudd [megis] gem.
Y mae merch yn dirmygu, anffawd [i] serch ffôl,
60 [Un â'i] gwedd [yn] wylaidd, ddyn nad yw'n ei weld.'

64 'Clawdd Offa, hwrdd rhuthr y tonnau,
Llwybr Llaethog, dicter [yn erbyn] llongwyr [y] moroedd,
Trysor mawr enwog, llwybr clwyd [y] môr-grancod,
Corff disglair, clyw, f'ancres wen, f'awydd:
Cwys o wynder Swnt Enlli,
Ceisia fy nghludo, lawforwyn bur,
Ar dy gefn, crychau ymchwydd y môr,
68 Paid â rhwystro[r] llong [rhag mynd] i'r môr mwyach.
Pe cawn, don fain a gwyn, gennyf,
Unwaith drwy dy nerth, [ti â'r] wedd brydferth,
Fy hebrwng i[r] tir teilwng
72 Ger llys maen [y] ferch fain a thal [a] mwyn ei lleferydd,
A gweld [y] ferch, gwyllo gwych,
[Un] o'r un wedd â gwrysg [ac] o liw gwylan,
Am dri mis, ni cheisiwn deithio,
76 [Boed] nawdd Duw a Mair, am un dydd mwy.

I dir Môn

- O nen Ffrainc i Nanffrancon,
 Hawddamawr, llawr gwlad fawr Fôn!
 Neuaf o'r Gïen bennon,
 4 Nod gwallaw medd, neud gwell Môn.
 Rhydda ym serch a rhoddion,
 Rhysfa'r medd, Rhosfyr ym Môn.
 A ddeuaf, gwaraf gwirion,
 8 I'm oes i Gaergybi 'Môn?
 Da yw'r Ysbaen, dewr osbion,
 Os gwallaw medd, ys gwell Môn.
 Da Nafarn geusarn gyson,
 12 Deuwell ydyw meddgell Môn.
 Dof gymwd, dros dwf gwymon,
 Menai, lle aml mwnai Môn.
 Dianc a wnaF Fodeon
 16 Malltraeth, lle yw maeth llu Môn.
 I gymwd af dros afon
 Lliwan, maeth llawen ym Môn.
 Dêl y bel Dalybolion,
 20 Delwyf—fan y hanwyf—Fôn.
 Âf i Dŵr, ofwy dewrion,
 Celyn, maenol unbyn Môn.
 Mynnwn, oror cerddorion,
 24 'Y mod yn Nhindaethwy 'Môn.
 Byr yw'r awr gan burorion
 O glybod fy mod ym Môn.
 Dwysgwblach fydd disgyblion,
 28 Da fyd fydd o'm dyfod Fôn.
 Hawdd fyd, gyfoeth y doethion,
 Fam Gymry, i fyny Fôn!
 Hawdd fyd, wastatir tirion,
 32 I gorsydd a mynydd Môn!
 Hawdd fyd, ffrwyth hoywlwyth haelion,
 Brig yd maes a bragod Môn!
 Hawdd fyd, lle cyfyd cofion,
 36 Gwŷr a gwagedd a medd Môn!

Ffynonellau

A—BL Add 14964, 44^r B—BL Add 14967, 42^r C—BL Add 14970, 66^r
 D—BL Add 14978, 137^r [= rhif 107] E—BL Add 31062, 427 F—LIGC
 1024D, 18 G—LIGC 6499B, 680

Tardda G o F. Tardda AEF o D. Tardda C o B. Ceir amrywiadau o C yn E. Yr unig destunau annibynnol yw BD, ac arnynt hwy y seiliwyd y testun golygedig. Rhagora B ar D yn gyson, ac nid yw D yn hawdd ei ddarllen mewn manau. Ni chodwyd amrywiadau o'r llawysgrifau eraill.

Amrywiadau

2 *D* hawdd a mawr. 4 *D* ai gallv mawr gwell yw mon. 6 *B* rysa r (*ychwanegwyd v uwchben yr a*), *D* ryssavr; *BD* rosavr. 7 *D* garaf. 8 *D* ymon. 10 *D* os gwllav medd gwell yw mon. 13 *D* daf. 15 *B* vodavon (*B*) vodeon, *D* vadavon. 19 *D* i dal y bolion. 20 *D* delwy y fan a fynwy i von. 26 *D* wybod. 28 *D* i von. 30 *D* i von. 33 *D* howlwyth. 34 *D* mars. 35 *D* vydd llei.

Teitl

B i Ynys Fôn (*mewn llaw arall*), *D* kowydd i dir mon.

Olnod

B Gruff gryc ai kant, *D* Gryffyth gryc ai kant.

Trefn y llinellau

B 1–36.

D 1–9, 12, 11, 10, 13–36.

I dir Môn

- O ben eithaf Ffrainc i Nant Ffrancon,
 [Fy] nghyfarchion [iti], dir gwlad fawr Môn!
 Cwynaf [fod] penwn o'r Giën,
 4 Arwydd [o] weini medd, y mae Môn yn well.
 Da iawn i mi yw serch a rhoddion,
 Cyrchfan y medd, Rhosyr ym Môn.
 A ddof, un ffyddlon [a] thra addfwyn,
 8 Yn fy myw i Gaergybi ym Môn?
 Da yw Sbaen, estroniaid gwych,
 Os [am] weini medd [y mae'r sôn], gwell yw Môn.
 Da yw ffordd geuog ddiwyro Navarre,
 12 Dwywaith gwell yw seler fedd Môn.
 Dof, dros dwf [y] gwymon, i gwmwd
 Menai, lle toreithiog trysor Môn.
 Dianc a wnaif i Fodeon
 16 Malltraeth, lle y mae maeth lliaws Môn.
 Af dros afon i gwmwd
 Llifon, maeth llawen ym Môn.
 Boed i'r rhagoriaeth ddod i Dalybolion,
 20 Boed imi ddod—lle y dof ohono—i Fôn.
 Af i Dwrcelyn, ymweliad â gwŷr dewr,
 Tiriogaeth penaethiaid Môn.
 Byddwn yn dymuno, bro cerddorion,
 24 Fy mod yn Nindaethwy ym Môn.
 Byr yw'r awr i gerddorion
 O glywed fy mod ym Môn.
 Mwy trwyadl ymroddedig [fyth] fydd disgyblion,
 28 Bydd llawenydd yn sgil fy nyfodiad i Fôn.
 Cyfarchion, teyrnas y gwŷr doeth,
 Mam Cymru, i fyny at Fôn!
 Cyfarchion, dir gwastad hyfryd,
 32 I gorsydd a rhostir Môn!
 Cyfarchion, gynnrych torf lawen [y] gwŷr bonheddig,
 Tywys yd tir â'r bragod Môn!
 Cyfarchion, lle y cyfyd atgofion [yn ei gylch],
 36 Wŷr a gwragedd a medd Môn!

Disgrifiad o ferch

Hawddfyd (amgen nog echdoe!)
 I'r ddyn a welais i ddoe!
 Doe y gwelais un deg wiwlamp,
 4 Un dyn goeth yn dwyn y gamp.
 Gwiwlwys haf, gwelais hefyd
 Rhianedd a bonedd byd.
 Llyma'n gadr, brofi adrodd,
 8 Pabl bryd fy myd a'i modd:
 Ar ei hiad, lleuad lluoedd,
 Siaffyr, fain riain, yr oedd;
 Paentiwyd uwchben gem Gymru,
 12 Pwynt sêr, sidan friger fry;
 Mererid dâl mawr araul,
 Meillion, calch hoelion, cylch haul;
 Edau sidan gron ydiw
 16 Ei dwy ael, gwen, ar dâl gwiw;
 Dwyn hefyd, deunaw hafoedd,
 Golygon dduon ydd oedd,
 Muchudd liw, mygr gyfliw ged,
 20 Mawreiddfyw, mwyar addfed.
 Cwrel ac aur goreurym
 Yw troellau ei gruddiau grym;
 Genau coeth, gair doeth didrwbl,
 24 Dewis gamp dwy wefus gwbl,
 A dannedd, trosedd traserch,
 Teg cyfagos, feindlos ferch,
 A phêr dafod parodiaith,
 28 A thrwyn addwyn mwyn maith;
 Gyfion aelgeth ogyfuwch,
 Wastadfron o loywfron luwch;
 Deufraich fwyn dan faich o fawl
 32 A mwnwgl, cylch gwyn manawl.
 Gwynnach yw ei rhyw a'i rhan
 Nog alarch blu, a gwylan,
 No goliw, mwy no'i gilydd,
 36 Gŵyl ddyn ar liw golau ddydd.

Ac er na ddoetwy' ar gân
 Ei henw bedydd ei hunan,
 Dodaf rhyw henw didwyll
 40 Ar ddienn bach, aur ddyn bwyll:
 Hael yw growndwal ei chalon,
 Haul y Fêl Ynys yw hon.

Ffynonellau

A—Bangor 13512, 142 B—BL Add 14999, 68^r C—Card 2.114 [= RWM 7], 299 D—J 139 [= RWM 14], 193 E—LIGC 834B, 142 F—LIGC 5269B, 160 G—Pen 112, 380

Y mae EF yn unffurf ac yn yr un llaw. Tardda A o un ohonynt. G yw ffynhonnell EF. Ystyrir, felly, BCDG. Y mae CDG yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn gwrthgyferbynnu â B, sydd fel arfer yn rhagori arnynt yn sylweddol. Fodd bynnag, y mae diwedd B yn eisiau ar ôl ll. 26, diau yn sgil colli dalen. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–16.

Darlleniadau amrywiol

1 *D* hawdd amgen fû da heno. 2 *B* dyn; *B* welis ir; *B* doe, *D* ddo. 3 *D* do; *B* [y]; *B* n, *D* [un]. 4 *D* i gamp. 5 *CG* gwelais i gwiwlwys hefyd, *D* gwelais hüf gwiwlwys hefüd. 6 *BC* y byd. 7 *C* gadar, *D* gad ar, *G* gadarn. 8 *CDG* gwbl bryd; *CG* y myd, *D* i müd. 9 *BCD* had; *C* y llvoedd. 10 *B* Raff hir. 11 *D* ywch ben (*cywiriad*: ywch lem). 12 *C* pwynt feinder friger fry, *G* pwynt ffeinder friger fry, *D* pwynt feinder i friger frü. 13 *B* myryrid tal, *C* maer tal, *D* i maer tal, *G* mae ar y tal; *D* mawr i araül. 15 *CDG* gern. 16 *CG* [ei], *D* a. 18 *B* ydoedd. 19 *C* mvchwydd; (*C*)*DG* o liw; *CDG* [mygr]. 20 *B* mawr eiddvwy, *CDG* moreiddfyw; *D* aeddfed. 22 *B* y gruddiav. 23 *D* gair (*cywiriad*, *yr un llaw*: a gair); *BCG* doeth dibwl, *D* doeth dwbl. 24 *B* delusgamp; *B* wefusgwbl, *CG* wefus gwbl. 26 *CG* kyfangos, *D* kyfagoes; *D* feindloes. 27–42 [*B*]. 28 *D* fwyn o faith. 30 *G* wastadion. 32 *CDG* kylcheugwyn; *G* maenawl. 33 *CDG* gwnnach. 34 *D* nag wylan. 35 *CDG* nag o liw; *D* [i].

Teitl

C kowydd merch, *D* kowüdd merch, *G* kowydd moliant i ferch a thraethiad oi phryd ai glendyd.

Olnod

C gruff gryg ai kant, *D* gryffydd grüg ai kant, *G* Gruffydd Gryg: ai kant.

Disgrifiad o ferch

- Bendith (gwell nag echdoe!)
 Ar y ferch a welais i ddoe!
 Ddoe gwelais un lamp ddisglair deg,
 4 Un ferch hardd yn dwyn y rhagoriaeth.
 [Amser] haf tra disglair, gwelais hefyd
 Ferched a phendefigaeth [y] byd.
 Dyma'n wych, profi [fy] adroddiad,
 8 Ymddangosiad ffyniannus fy anwylyd a'i dull:
 Ar ei phen, lleuad [y] lluoedd,
 Yr oedd padell dân, ferch fain;
 Paentiwyd uwchben gem Cymru,
 12 Gwedd lewyrchus [y] sêr, [ei] gwallt sidan[aidd] uchod;
 Talcen uchel hardd [o] berlau,
 Blodau'r meillion, hoelion [ac] owmal [arnynt], cylch [yr] haul;
 Edau sidan gyflawn ydyw
 16 Ei dwy ael, [y] ferch, ar dalcen hardd;
 Dwyn hefyd, deunaw haf [oedd ei hoed],
 Llygaid du yr oedd [hi],
 O liw muchudd, bendith wych,
 20 Bywiog ac ysblennydd, unlliw â mwyar aeddfed.
 [Coch fel] cwrel ac aur gorau ei rym
 Yw cylchoedd ei gruddiau gwych;
 Genau hardd, gair doeth didrafferth,
 24 Camp ddethol dwy wefus gyflawn,
 A dannedd, goruchafiaeth serch mawr,
 Teg [a] chymen, merch fain a thlws,
 A thafod melys parod ei leferydd,
 28 A thrwyn hardd, mwyn [a] hir;
 Gên gymesur [a] lluniaidd,
 Bron lefn o [liw] lluchiad eira [ar] allt ddisglair;
 Dwy fraich hardd dan faich o fawl
 32 A mwnwgl, cylch gwyn cywrain.
 Gwynnach yw ei math a'i rhan [gan natur]
 Na phlu alarch, a gwylan,
 Nag arlliw, mwy na'i chymar,
 36 [Unrhyw] ferch wylaidd ar [amser] lliw diwrnod golau.
 Ac er na ddywedaf ar gân
 Ei henw bedydd ei hun,
 Dodaf ryw enw didwyll
 40 Ar [yr] un deg fach, [a chanddi] feddwl merch euraid:

Hael yw dyfnder ei chalon,
Haul y Fêl Ynys yw hon.

10
Awdl i Dduw

- | | | |
|--|--|---|
| Iôr nef a'i chrair,
Â throed a llaw
Gwarandaw haid | ac eury'n Mair,
ac arf aelaw
bechaduriaid | y Gŵr a'n medd
a gorfoledd,
baich o daeredd, |
| 4 A maddau ynn
A'n camlyau
A'n casgl olud
A'n goganwaith | ein llusg dremyn
a'n llid frodiau
a'n cam ehud
a'n cyfrwysiaith | a'n llesg drymedd
a'n lledfrydedd
a'n cymwedd
a'n cyfrysedd |
| 8 A'n gwag falched
Ti yw'n Llywiawdr
Ti yw ein Iôr,
Ti a'n prynaist, | yn anward
a'n Ymerawdr
Ti yw'n trysor,
Ti a'n ffurfaist, | a'n enwiredd.
yn y mawredd,
Ti yw'n trosedd,
Ti yw'n ffyrfedd, |
| 12 Ti ym mhob pwnc
Ti yw ein Gwawr,
Tostion erchyll,
Ti yw'r gorau, | yn rhy ymwnc
Ti a'n diddawr,
Ti yn nhywyll,
Ti yng ngolau, | ni'n rhyomedd,
Ti yw'n dewredd,
Ti yn hoywedd,
Ti yng ngwyledd, |
| 16 Ti yw ein Tad
Ti a'n bendig,
Ti, Fab Mair wen,
Ti yw'r Gŵr hael, | a'n gwâr Ynad
Ti yw'n rhyfyg,
o Eurddonen,
Ti yn Israel, | a'n gwirionedd,
Ti yw'n rheufedd,
a urdd Wynedd,
Ti o Nasredd. |
| 20 Er Dy gethdraed,
Er Dy fawdranc,
Er Dy fawrglod,
Er Dy hoelion, | er Dy raenwaed,
er Dy ddianc,
er Dy gyfod,
er Dy goron, | er Dy rinwedd,
Ŵr diddyedd,
Ŵr digyfedd,
Ŵr digaredd, |
| 24 Er Dy feddiant,
Er Dy gariad
Er Dy leindyd,
Er Dy ddechrau, | er Dy fwyniant,
a'th enw rhediad
eurdwf iechyd,
er Dy ddwywau, | er Dy fonedd,
o'th anrhydedd,
er Dy fuchedd,
er Dy ddiwedd, |
| 28 Er Dy grychlam,
Erbyn, Arglwydd,
Y daearblant,
Rhaid cael gan Bedr | er Dy lwysfam,
erom Gulwydd,
yrdang nwyfiant,
rhyd id hyfedr | er Dy loesfedd,
i'r amgeledd
i'r dangnefedd.
rhad etifedd, |
| 32 Ein Rhwyf a'n Corf,
(Ein rhodd mawr oedd)
Yn nhraed Serubin,
Yng nghôr Ysbryd, | yn rhydd gantorf
yn rhif milioedd
yn rhòl Farthin,
yng nghof ennyd, | yn rhwydd gyntedd,
Ein Rhwyf moledd,
yn rhwyl ferthedd,
yng nghyfannedd, |
| 36 Yng nghaer addas,
Ym mhêr greifiaint
Ym mherffeithgwys,
Yn rhwym Gabriel | yng nghae mawr-ras,
Ymher eursaint,
ym mharadwys,
a Mihangel | ynghymyredd,
ym mhur orsedd,
ym mharodedd,
am eu hyngedd, |
| 40 Yn rhes nefol | yn rhagorol | yn nhrugaredd. |

Ffynonellau

A—BL Add 14869 [= RWM 19], 132 B—J 111 [= RWM 1], 1297 C—LIGC 1981B [= Pant 12], 223 D—LIGC 6680B ‘Llawysgrif Hendregadredd’, 91^r, 90^v E—Llst 31, 276 F—Llst 133, 267^v [rhif 807] G—Llst 145, 151 H—Llst 147, 183 I—Pen 118, 235 J—Pen 119, 399

Seiliwyd y golygiad ar B a D, y copiâu canoloesol, ac yn bennaf ar D, y copi cynharaf (sylwer bod y testun yn D yn parhau ar waelod f. 90^v). Y mae’r holl gopiâu diweddarach yn tarddu o BD, ac felly ni nodir amrywiadau ohonynt. Y mae D bellach yn anodd ei ddarllen, ac ymddengys mai felly yr oedd pan wnaed y trawsysgrifiad ohono a geir yn A. Llwyddwyd i ddarllen D ar gyfer y golygiad hwn, ac nid yw A yn cynnig unrhyw ddarlleniad na ellir ei ddarllen yn D. Y mae A hefyd yn wallus yn yr achosion lle y mae D yn arbennig o anodd ei ddarllen. Am y rhesymau hyn ni fu modd defnyddio A i wirio D. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–16.

Amrywiadau

1 *B* ar gŵr. 4 *B* llese ... llusc. 5 *D* llet lyeu. 7 [*B*]. 8 *BD* anwaeret. 11 [*B*]. 12 *B* nyn rŷyomed, *D* ychwanegwyd nyn ryomed *gan law arall ar ben ysgrifen dreuliedig*. 13 [*D*]. 14 *B* Destyon; *B* yŷ yn hoewed. 16 [*B*]. 18 *B* vrdonen[*n*]. 19 *B* ti ynazared. 20 *B* dygythydraet. 21 *B* yr dianc; *D* yr dy ddyed. 22 [*D*]. 25 [*B*]. 28 *B* gythrylam. 30 *D* ddaearblant; *B* eir dangnhouyant. 31 *BD* gael. 32 *B* Yrŷyf, *D* yn rwy. 33 [*B*]. 35 [*B*]. 36 *B* ygkae mawrblas ygor adas. 37 *B* ympor eurseint ymhir orsed. 38–40 [*B*].

Teitl

B Gruffud gryc ae kant, *D* gruff’ Gryc.

Trefn y llinellau

B 1–6, [7], 8–10, [11], 17, 15, [16], 14, 19, 12–13, 18, 20, 23–4, [25], 26–8, 21–22, 29–32, [33], 34, [35], 36–7, [38–40].
D 1–12, [13], 14–21, [22], 23–40.

Awdl i Dduw

- Arglwydd [y] nef a'i thrysor, ac anwylyd Mair, y Gŵr a'n rheola
 Â throed a llaw ac arf cyfoethog a gorfoledd,
 Gwrandawa ar haid o bechaduriaid [a chanddynt] faich o
 ystyfnigrwydd,
- 4 A maddau inni ein cwrs anfoddog a'n syrthni diog
 A'n llwon ffals a'n dedfrydau diellon a'n digalondid
 A'n cyfoeth wedi ei bentyrriu a'n drygioni ynfyd a'n hymaldod
 A'n gwaith dychan a'n hiaith gyfrwys a'n cynnen
- 8 A'n gwag falchder yn ddi-droi'n-ôl a'n hanghyfiawnder.
 Ti yw'n Llywydd a'n Hymerawdwr yn y gogoniant,
 Ti yw'n Harglwydd, Ti yw'n trysor, Ti yw'n goruchafiaeth,
 Ti a'n prynodd, Ti a'n creodd, Ti yw'n cadernid,
- 12 Ni elli Di ein gwrthod yn rhy ddisymwth mewn unrhyw fater,
 Ti yw ein Harglwydd, Ti sy'n gofalu amdanom, Ti yw'n dewrder,
 Clwyfau tost, Ti mewn tywyllwch, Ti mewn ysblander,
 Ti yw'r gorau, Ti mewn goleuni, Ti mewn rhadlonrwydd,
- 16 Ti yw ein Tad a'n Barnwr caredig a'n gwirionedd,
 Ti sy'n ein bendithio, Ti yw'n hyder, Ti yw'n cyfoeth,
 Ti, Fab Mair fendigaid, o [Afon] Iorddonen, sy'n urddo Gwynedd,
 Ti yw'r Gŵr hael, Ti yn Israel, Ti o Nasareth.
- 20 Er mwyn Dy draed a hoeliwyd, er mwyn Dy waed erchyll, er mwyn
 Dy rinwedd,
 Er mwyn Dy farwolaeth aruthr, er mwyn Dy ddihangfa, Wŵr
 tangnefeddus,
 Er mwyn Dy glod mawr, er mwyn Dy atgyfodiad, Wŵr digymar,
 Er mwyn Dy hoelion, er mwyn Dy goron, Wŵr dilychwin,
- 24 Er mwyn Dy rym, er mwyn Dy fudd, er mwyn Dy fonedd,
 Er mwyn Dy gariad a'th enw sy'n rhedeg [yn eang] yn sgil Dy
 anrhydedd,
 Er mwyn Dy burdeb, iachawdwriaeth wych, er mwyn Dy fywyd,
 Er mwyn Dy ddechrau, er mwyn Dy dduwiau, er mwyn Dy
 ddiwedd,
- 28 Er mwyn Dy naid egnïol, er mwyn Dy fam ddisglair, er mwyn Dy
 fedd llawn cyni,
 Derbynia, Arglwydd, [sy'n] Frenin er ein mwyn, i'r ymgeledd
 Y plant daearol, rhyfeddod [sy'n] llawenydd, i'r tangnefedd.
 Rhaid cael gan Bedr ryddid galluog etifedd gras,
- 32 Ein Harglwydd a'n Cynheiliad, yn gan torf rydd yn [y] cyntedd
 cysurlon,

(Ein rhodd fawr fyddai [hynny]) yn rhif miloedd ein Harglwydd
mawl,

Yn ôl traed [y] Sierwbim, yn rhòl Marthin, mewn gwycheder
disglair,

Yng nghôr [yr] Ysbryd, ar eiliad [y] cofio, mewn cyfannedd,

36 Yn [y] gaer gymwys, yng nghae [y] gras mawr, mewn anrhydedd,

Ym maddeuant hyfryd Ymerawdwr [y] seintiau gwych, yn [y]
cynulliad pur,

Ar [y] tir perffaith, ym mharadwys, mewn ewyllysgarwch,

Yn rhwymiad Gabriel a Mihangel o amgylch eu sffêr gyfagos,

40 Yn [y] rhes nefol yn rhagorol mewn trugaredd.

Englynion o Lawysgrif Hendregadredd

- Am Ieuan truan treiodd chwerthin—clêr
 Gorywch claerGaer Ferddin,
 Am wasgod heirdd feirdd feithrin,
 4 Am weilch lwyddianusfeilch lin,
- Am Wilym hwylrym haelrin—llewolwg,
 Fab Llywelyn heilwin,
 Aml fedd i'w ymyl fyddin
 8 Yng nghalch lys ynghylch ei lin,
- Am ŵr lliwdeg du, am iôr Lladin—byd,
 Am ddiwyd, am ddewin,
 Llyw iawn ei fyd, llawen fin,
 12 Llywelyn, f'eurddyn Ferddin,
- Am dllysau Cynon, am Daliesin—ferw,
 Farwn teg dilibin,
 Am Ruffudd trywenydd trin,
 16 Elyn aer, ail Aneirin,
- Am [] fawr, ym wawr, am werin—falchdlos
 Yn agos am egin,
 Ditiad garw, datod gerwin,
 20 Ditio gweilch undawtai gwin.
- [] da y[]tant yn rhad
 A wnaethant rhyw dditmant rhwd,
 Affyr[] arnun, hun hud:
 24 Un, dau, tri, pedwar[]rwyd,
 Pymmp, chwech, saith, wyth, ffrwyth llwyth llid,
 Naw, deg, un ar ddeg ddiglod,
 Deuddeg []dded.
- []dwy[]wer ffloc wag,
 28 Diddyudd, medd Gruffudd Gryg,
 Fuant o grud, fintai grog.

32 Doddyw o'u gwag d[]ddwg
 Diddestl arwyddon duddig;
 Diddawn gyngor a'u dyddug,
 Diddim o nef fo'r deuddeg!

36 Dialo Duw diolud,
 Diwylwir pei dielid;
 Dilwm y cawn dalm o'u ced,
 Ditio pedwar, cydio cad!

Ffynhonnell

LIGC 6680B [Llawysgrif Hendregadredd], 31^v

Un copi yn unig a gadwyd o'r gerdd hon. Y mae'r testun yn anodd iawn ei ddarllen. Mewn manau, ni ellir ei ddarllen o gwbl. Llanwyd y bylchau lle y bu modd awgrymu darlenniad tebygol. Yn lle nodi darlenniadau'r llsg., rhoddir trawsysgrifiad diplomatig llawn isod. Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 213.

Teitl

Gr gry[] ae cant (*llaw arall, gyfoes*)

Olnod

Gruff' gryc (*llaw y testun*)

Englynion o Lawysgrif Hendregadredd

- Oherwydd Ieuan truan pallodd chwerthin beirdd
 Uwchben Caerfyrddin ddisglair,
 Oherwydd [yr] amddiffynnwr [a fyddai'n] meithrin beirdd hardd,
 4 Oherwydd [yr un o] linach gwŷr gwych llwyddiannus a balch,
- Oherwydd Gwilym grymus ei hynt [a chando] gynneddf hael [a]
 golwg llew,
 Fab Llywelyn yn dosrannu gwin,
 Llawer o fedd i'w fintai agos
 8 Yn [ei] lys gwyngalchog o amgylch ei ben-glin,
- Am ŵr du [ei wallt] teg ei liw, am arglwydd [dysgeidiaeth] Ladin y
 byd,
 Am un ffyddlon, am un doeth,
 Arweinydd da ei fyd, [a chando] enau llawen,
 12 Llywelyn, fy Myrddin [sy'n] ddyn gwych,
- Oherwydd [un a chando] drysorau Cynon, oherwydd [un a
 chando] gyffro Taliesin,
 Barwn teg nad yw'n llipa,
 Oherwydd Gruffudd trywanwr [mewn] brwydr,
 16 Gelyn [mewn] ymladdfa, un tebyg i Aneirin,
- Oherwydd [] fawr, [yn] arglwydd imi, oherwydd pobl wych a
 hardd
 Yn agos o amgylch egin,
 Cyhuddiad creulon, datglymiad cas,
 20 Cyhuddo gwŷr gwych tai cytûn [y] gwin.
- [] yn rhad,
 A wnaeth ryw gyhuddiad diurddas,
 A [] arnynt, cwsg hudol:
 24 Un, dau, tri, pedwar [],
 Pump, chwech, saith, wyth, ffrwyth baich [o] ddicter,
 Naw, deg, un ar ddeg anghlodfawr,
 Deuddeg [].
- 28 [] praid di-werth,
 Digysur, medd Gruffudd Gryg,
 Fuant ers [y] crud, mintai grogedig.

Daeth o'u [] gwag
 32 Arwyddion afluniaidd du a diellon;
 Cyngor drwg a'u harweiniodd,
 Boed i'r deuddeg fod heb gyfran o[r] nef!

Boed i Dduw ?digyfoeth ddial,
 36 Cyfiawnder dewr [fyddai hynny] pe dielid;
 Yn ddigrintach y cawn gyfran o'u haelioni:
 Cyhuddo pedwar, [dyna] ddechrau brwydr!

Testun y llawysgrif

Argreffir yma destun LIGC 6680B, 31^v. Fe'i gosodwyd ar ffurf englynion a rhifo'r llinellau.

Arwyddion a ddefnyddir yn y testun—

- ital.* Y mae llythyren wedi ei hitaleiddio yn dynodi darlleniad ansicr; hynny yw, credir mai dyna sydd yno.
- Rhoddir dot am bob llythyren y gellir ei gweld ond na lwyddwyd i'w hadnabod. Mewn manau ni ellir bod yn sicr pa faint o lythrennau sydd yno.
- [...] Y mae tri dot mewn bachau petryal yn dynodi nifer amhendant o lythrennau na ellir eu darllen.

Gr gry. ae cant

- Am ieuan truan treiawdd chwerthin cler
 gorywch claergaer verddin
 4 am wasgawt heirdd veirdd veithrin
 am weilch lwyddyanussueilch lin
- Am wilym hwlrym haelrin llewolwc
 vab llywelyn heilwin
 8 amyl vedd yw emyl vyddin
 yghalch lys yghylch y lin
- Am wr lliwdec du am ior lladin byt
 am diwyt am dewin
 12 llyw yawn y vyd llawen vin
 llywelyn veurddyn oerdin
- Am dlysseu Cynō am dalyessin verw
 varwn tec dilibin
 16 am ruffydd .ywenydd trin
 elyn aer eil aneirin
- [...]r vawr ym wawr am werin valchdlos
 yn agos am egin
 20 ditiat garw datawt gerwin
 ditiaw gweilch vndawt.. gwin
- [...] da y...tant yn Rat
 awnaethant rryw ditmant Rwt
 24 affyr[...] arnun hun hut
 vn dev tri pedwar[...]rwynt
 pypm chwech seith wyth ffrwyth llwyth llit
 naw dec ynardec ddiglot
 deudec [...]det
- 28 [...] dwy.wer ffloc wac
 diddyvd med gruffud gryc
 vvant o *grut* vintai groc.
 32 doddyw oe gwa. d[...]ddwc
 diddestyl erwyddon duddic
 diddawn gyghor ae dydduc
 diddim onef vor deudec

36 Dialo duw diolut
diwylwir pei dielit
dilwm y kawn dalym .. ket
ditiaw pedwar kydyaw kat

gruff gryc

*Atodiad i
Cywydd i Grist*

- Pwy yw'r gorau piau'r goron,
Y Gŵr a'i friw ger Ei fron?
Crist nefol, freiniol frenin,
4 A'i bur gorff o'r bara a'r gwin,
Hwn a ddylem Ei henwi
O'n iaith rwydd yn Un a Thri;
Tad a Mab, ym mhob aberth,
8 Ac Ysbryd, uniawnbryd nerth.
Arglwydd yr holl arglwyddi
A Thad a nerth wyd i ni.
- 12 Diamau mai gorau gŵr
A da oedd Ei fedyddiwr.
Da forwyn difai, arab,
A fu'n Ei fagu yn fab
Mewn gofal, yniol ennyd,
16 Cyn Ei loes dros bumoes byd.
Suddas ydoedd ddiraswr
Pan werthai er a gâi'r Gŵr,
A Suddas, er nas haeddai,
20 Am Ei werthu fu ar fai.
Iddewon a wnaethon' oll
Amherchi Ei bum harcholl:
Dwylo a thraed cynghydlyn,
24 Pawb a wyl briwo pob un;
Rhoi am y tâl, rhwymiad dig
O gwmpas, y drain ganpig,
A gwaedu pob pigoden,
28 A briwo ais Mab Mair wen;
Torri'i rydweli deilwng,
Dioddef Ei ladd—on'd oedd flwng?—
A'i gorff oll yn archollion
32 Gyda'i friw, a gwaed o'i fron,
A'i dynnu wedi'i einioes,
Dduw orau'i gred, oddi ar y groes,
A Christ, yno bu dristedd,
36 A roed heb oed yn y bedd,
Ac eilwaith pedwar gelyn
A gaed i wyllo Duw gwyn.

- Er hyn, o Fair yr henyw,
 40 O'i fedd y cododd yn fyw.
 Llawen fu Ei lu a'i wlad,
 O Fair! cadarn fu'r codiad.
 Gwnaeth ollwng, ac ni thwyllai,
 44 O gaethion 'n rhyddion bob rhai.
 Tynnodd Addaf a Dafydd
 O ffwrn gaeth uffern, o gudd,
 Pan aeth i'w wlad dreftadol,
 48 Llawen iawn, â'r llu 'n Ei ôl,
 A ninnau, pawb yn unnod,
 Llawen fyth y gallwn fod
 Gweled nerth, golud i ni,
 52 Un Duw gwyn yn digoni.

- Archaf i'r uchel Geli
 A'r Iesu nef ras i ni.
 Er Ei ddolur o'i ddwyllaw,
 56 Ac er troi o'r gwryd draw,
 Archaf i'r Tad, ceidwad cu,
 Rasol a elwir Iesu,
 Dwyn rhag y dicllon boene,
 60 Dan Ei nawdd, f'enaid i ne'.

Ffynonellau

A—Bangor 6, 483 B—BL Add 12230 [= RWM 52], 163 C—BL Add 14870 [= RWM 53], 112 D—BL Add 14879 [= RWM 38], 96^v E—BL Add 14966, 20^v F—BL Add 14971 [= RWM 21], 105^v G—BL Add 14979, 222^v H—BL Add 14984, 157 I—BL Add 15027, 36 J—BL Add 31060, 99^r K—Brog (y gyfres gyntaf) 3, 50 L—Card 2.5 [= RWM 11, ii], 203 M—Card 2.68 [= RWM 19], 71 N—Card 2.615, 175 O—Card 2.616, 46 P—Card 2.624 [= Hafod 10], 31^v Q—Card 4.10 [= RWM 84], 497 R—Card 4.156 [= RWM 64], 72 S—Card 5.10i [= RWM 48], 165 T—CM 10, 65 U—CM 11, 15 V—CM 22, 215 W—CM 27, 14 X—CM 381, 38 Y—Gwyn 13, 60 Z—HCad, 59 a—J 137 [= RWM 12], 116 b—LIGC 95B, 190 c—LIGC 436B, 50 d—LIGC 642B, 52^r e—LIGC 643B, 88 f—LIGC2692B [= Llyfr Cwmbychan], 27 g—LIGC 3021F [= Mos 1], 247 h—LIGC 3049D [= Mos 146], 15 i¹—LIGC 3066E [= Mos 212], 82 [rhif 86] i²—LIGC 3066E [= Mos 212], 161 [rhif 171] j—LIGC 5273D, 14^r k—LIGC 5475A [= Aberdâr 2], 317 l—LIGC 6706B, 139 m—LIGC 7191B, 52 n—LIGC 11087B, 98^r o—LIGC 12873D, 56 p—LIGC 19901B [= J. Gwenogvryn Evans 1], 59 q—LIGC 21700D [= Heythrop], 13 r—Llst 53, 477 s—Pen 66, 70 t—Pen 72, 407 u—Pen 112, 10 v—Pen 198, 64 w—Pen 221, 197 (*llau. 1–2*) x—Pen 312, iii, 31

Codwyd amrywiadau o destunau llawysgrifau AD–GJLMPVWadh–jlnrst. Anwybyddwyd tystiolaeth BCHIKNOQ–UXYZbcefgkmpoqu–x am mai copïau ydynt, ond codwyd y teitlau a'r olnodiadau ohonynt er diddordeb. Y mae nifer o ddarlleniadau yn llawysgrif d yn eisiau oherwydd rhwyg. Ni nodir hyn yn arbennig ac eithrio lle nad oedd yn amlwg beth a oedd ar y rhan golledig. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. nodyn cefndir y gerdd a tt. 207–16.

Amrywiadau

1 *ADGr* pwy, (*A*) Pwy; *ADGr*s [yw'r], (*A*) yw'r; (*A*)*EFJLMPVWadi*¹*lrt* gwr; *V* gore pie, *r* a piavr. 2 *r* frath; (*A*) Duw myn ei friw dan i fronn, *EW* Duw fru ai frath dan i fron, *FPadlt* duw wyn ai vrath dan i fron, *J* dwv gwyn ai frath dan i fron, *M* duw fru aith frath dann i fron. 3 *h* duw. 4 *Gn* ar bara, (*A*)*rt* yw r bara; *EMr* agwin. 5–6 [*DGPVh–jn*]. 5 *s* A hwn; *at* addylm, *r* a ddylen, *s* a ddylnw; *L* henwini. 6 *r* wrdd. 7 *r* yn dad; *DGn* [a], (*D*) a; *EFJLM Wadhi*¹*lt* yn yraberth, *r* or aberth. 8 *AD–GLMPVWadhi*¹*i*²*lnrt* kowirbryd kerth, *J* kowirbrid gerth, *j* cyweirbryd certh. 11 *P* garav. 12 *W* dy fedyddiwr. 13 *ADGn* diwair. 14 *s* fai; *ADGPVh–jn* dy fagy, (*A*) yw fagu; *ADGPn* [yn], (*A*) yn, *n* di. 15 *EFJLMWadlrt* dwyn gofal. 16 *EMW* cyn i groes, *r* kai oer loes, *s* gan loes; *i*² bvnoes. 17–18 [*EFJLMWadlrt*]. 17 *s* a svddas oedd; *ADG PVi*¹*i*²*jn* anraswr, *h* anrasaswr. 18 *DGn* am y gwr, (*D*)*PVi*² mor gwr; *A* pan werthai [] gwr (*bwlch bwriadol*). 19 *DPn* [A], (*D*) a, *Vi*² *y*, *W* O, *d* [] (*rhwyg*), *l* a; *EFJMWadlrt* am nas; *GV* haddai. 20 *EFJMWadlrt* i bv r bai, *Ls* bv ar y bai, *PVi*² a fv arfai. 21–4 [*EFJLMWadlrt*]. 21 [*P*] (*rhwyg*). 22 *i*² am i herchi. 23–4 [*ADGPVh–jn*]. 23 *s* kynhydlun. 25 *G* Rhai; *F* y tad, *L* i dal, *M* y dâl. 26 *ADGPVi*¹*i*²*jn* [O] gwmpas, *EFJLMWadlrt* yn gwmpas, *h* [O] gwmas; *ADGPVhi*¹*i*²*jnr* oddrain, *El* [y] ddrain, *FJdt* [y] drain, *La* [y] ddr, *M* dduw, *W* Goron, *s* y drang (*cywiriad*: y dran); *AD–GJLMPVadh–jlnt* yn ganpig, *s* kannpig. 27 *J* pol, *h* pob pob; *d* pigogen (*cywiriad*: pigoden), *j* pigiaden, *r* pigaden. 28 *FLdlrt* a briwo iad, *J* a briwi iad, *P* oi friw ais, *a* a briwo/*J*/ais; *F* mab y wry wen. 29–40 [*i*²]. 29–32 [*ADGPV hi*¹*jn*]. 29–30 [*EFJLMWadlrt*]. 29 *s* teilwng. 30 *s* a diodde i ladd; *s* lwng. 31 *s* a christ oll. 32 *W* [a]; *EMWl* gwaed i fron, *JLadt* gwaydv i vron. 33–4 [*EFJLMWadlrt*]. 33 *n* A dynny; *A*(*D*) gwedi *DGPVhi*¹*jn* wedi r. 34 *A* 'n graff ddiar Groes, *DG* o ddyno /n/ graff o ddiar groes, *PVhj* oddiyno yn graff oddiar y groes, *i*¹ dduw/n/ graff oddiar y groes, *n* Oddiyno graff oddiar y groes. 35 *ADGPVhi*¹*jn* ag am grist y bv, *EFJLMadlt* am grist yno vyr, *W* Am Grist yno bu r tristedd, *r* yno am grist i bv/*r*/, *s* a christ yno i bydd. 36 *EMa* i rhoed, (*E*)*FJdlrt* pan roed, *L* yr hoed, *W* Ai roi. 38 *A*(*D*) fv yno'n gwilio, *DGVn* A fu yn gwilio, *EFJL MWadlrt* oedd yno yn gwilio, *P* a fv yn chwilio, *h* o gef yn gwilio, *i*¹ ai gwilio (*cywiriad*: ai gwaith oedd gwilio), *j* a gof yn gwilio. 39–40 [*EFJL MWadlrt*]. 40 *V* fodd. 41 *W* A llawen; *E* y fy (*cywiriad*: fy), *FLMa*(*l*) afv; *AEVWj* i, (*E*)*FJLadlt* [Ei]; *J* tv; *ADGPVi*² yn y wlad, *EFJMadlt* i wlad, *L*

iowlad, *W* r wlad, *hi*¹*j* yn i wlad. 42 *A(D)* mor gadarn mawr i godiad, *DGP* mor gadarn fv i godiad, *E* o Fair cadard fv/r/ codiad, *Vhi*¹*i*²*j* mor fawr gadarn fv i godiad, *W J Fair Cadarn Fu Codiad*, *d* [] kadarn fy/r/ kodiad, *l* i fair kadarn fv /r/ kodiad, *n* mor gadarn fy o godiad, *r* o fair kadarn fv/r/ keidwad, *s* a nef kadarn fv r kodiad, *t* o vai gadarn vyr codiad. 43–50 [*i*²]. 43–8 [*AD–GJLMPVWadhi*¹*jlnrt*]. 47 *s* tredadol. 49 *i*¹ mine; *EFJLMWadlrt* oll yn, *s* fydd yn vnod; *n* unoed. 50 *V* llawen fv y. 51–4 [*r*]. 51–2 [*EFJLMWadlt*]. 52 *A(D)j* ein duw, *DGPVhi*²*n* yn dwv; *n* in digoni. 53 *ADGPVhi*²*jn* mi archaf, *EFJLMWalu* archwn, *d* [] (*rhwyg*); *ADP* r, *EFJLMWadlt* in. 54 *AD* lle i pvrodd ef nef i ni, *EJLMWan* lle prynnodd ef nef ini, *FVhi*¹*i*²*jlt* lle i prynodd ef nef ini, *G* lle pevrodd ef nef ini, *P* lle parodd ef nef ini, *d* []ynnodd ef nef ini (*rhwyg*). 55–8 [*DGPVh–jn*]. 55–6 [*A*]. 55 *s* ai ddwyllaw. 56 *W* [*er*]; *EM* y gweryd, *FLadlt* y gwryd, *J* y gwaed, *W* ir gweryd. 57 *AEFJLMWadlrt* archwn. 58 *F* rassol er mwyn yr Jessv. 59 *A* Dwyn dann y digllon, *DG* dwyn dann y digllon boenef, *EW* Ein edrych an dwyn adref, *FJLat* duw yn edrych an dwyn adref, *M* yn hedrych an dwyn adref, *P* dwyn dan i digllon poenef, *V* dwyn dan y digllon boene, *d* []n edrych an dwyn adref (*rhwyg*), *hi*¹ dwyn o dan digllon boenef, *i*² dwyn dan y ddigllon boene, *j* dwyn o dân ddigllon boenef, *n* Dwyn dan y diglon boenef, *r* dwv vn edrych down adref, *s* ddwyn Rag ddiellon boene. 60 *EMWa* [*Ei*]; *ADGPhj* fenaïd inef, *ELMWa* bob enaid inef, *FJdi*¹*lrt* bob dyn i nef, *n* fenaïd i'r nef.

Teitl

ABEQVXffjnp Cowyd i Grist, *CDG* Cowydd i dduw, o waith davydd ap gwilim, *FJKLOSZabdgi*¹*i*²*kqr* kywydd i ddvw, *H* Cowydd ir Jessu o waith Gruffyth Gryg, *IMTe* kywydd i dduw o waith gr gryg, *R* Cowydd duwiol ir Jachawdwr, *W* Cowydd I Dduw a'i anrhydedd, *Y* Co: ir Drindod, *l* kowydd i ddvw (*llaw ddiweddarach*: Cowydd J dduw o un da), *m* Cywydd i Iesu Chrïst, *o* Cywydd i Dduw o waith y Bardd Chamolad[...] Gruffydd Gryg, *u* kowydd santaidd i Ddvw.

Olnod

A Ggryg medd ll: arall: ac mêdd MWms a'i cant, *BFIK–ORTXWabdefmqtvu* Gryffydd Gryg ai kant, *C* Gruff. Gryg medd llyfr arall, *EHJSlo* Gruffydd Gryg, *PVcpw* david ap gwilim ai kant, *Q* Dr John Cent neu Dafydd ap Gilim, *U* Cywydd i Dduw o waith Daf ap Gwilym yn ôl yr Han[...] a gefais i, ond braidd y gallaf goelio i'r gŵr hwnnw wn[...] Cywydd ar y testun hwn (*llaw ddiweddarach*: Ie D ab Gwilym ai gwnaeth), *Y* Gryffydd Grug 1400, *Z* Griffith Gryg ai cant, yn dda ragorol, o gylch y Flwyddyn 1400, *g–k* dafydd ap gwilym, *n* Doctor Sion kent ai kant, *r* Sion kent medd rhai ni choeliaf i mai ef.

Trefn y llinellau

A 1-4, 9-10, 5-8, 11-16, 19-20, 17-18, 21-2, [23-4], 25-8, [29-32], 33-40, 49-50, 41-2, [43-8], 51-4, [55-6], 57-60.

DGPVhi^ljn 1-4, [5-6], 9-10, 7-8, 11-16, 19-20, 17-18, 21-2, [23-4], 25-8, [29-32], 33-40, 49-50, 41-2, [43-8], 51-4, [55-8], 59-60 (*collwyd ll. 21 yn P oherwydd rhwyg*).

EFLMadlt 1-16, [17-18], 25-8, [29-30], 31-2, [33-4], 35-8, [39-40], 41-2, [43-8], 49-50, [51-2], 19-20, [21-4], 55-6, 53-4, 57-60.

J 1-16, [17-18], 25-8, [29-30], 31-2, [33-4], 35-8, [39-40], 41-2, [43-8], 49-50, [51-2], 19-20, [21-4], 55-8, 53-4, 59-60.

W 1-16, [17-18], 25-8, [29-30], 31-2, [33-4], 35-8, [39-40], 42, 41, [43-8], 49-50, [51-2], 19-20, [21-4], 55-6, 53-4, 57-60.

i² 1-4, [5-6], 9-10, 7-8, 11-16, 19-20, 17-18, 21-2, [23-4], 25-8, [29-40] (*gadawyd bwlech yn y llsg.*), 41-2, [43-50], 51-4, [55-8], 59-60.

r 1-16, [17-18], 25-8, [29-30], 31-2, [33-4], 35-8, [39-40], 41-2, [43-8], 49-50, [51-4], 19-20, [21-4], 57-8, 55-6, 59-60.

s 1-60.

Cywydd i Grist

- Pwy yw'r rhagoraf biau'r goron,
 Y Gŵr a'i friw ger Ei fron?
 Crist nefol, frenin urddasol,
 4 A'i gorff pur [wedi'i greu] o'r bara a'r gwin,
 Hwn a ddylem Ei alw
 Â'n hiaith glir yn Un a Thri;
 Tad a Mab, ym mhob aberth,
 8 Ac Ysbryd, gwedd gyfiawn [ar Ei] rym.
 Arglwydd yr holl arglwyddi
 A Thad a grym wyt i ni.
- Nid oes amheuaeth nad y gŵr mwyaf rhagorol
 12 A da oedd Ei fedyddiwr.
 Morwyn dda, ddi-fai, dirion,
 A fu'n Ei fagu [pan oedd] yn fab [ifanc]
 Â gofal, ysbaid ryfeddol,
 16 Cyn Ei loes ar gyfer pum oes [y] byd.
 Yr oedd Suddas yn ŵr di-ras
 Pan werthai'r Gŵr am yr hyn a gâi,
 A bu Suddas, oherwydd na haeddai [Ef] hynny,
 20 Ar fai am Ei werthu.
 Amharchodd yr holl Iddewon
 Ei bum clwyf:
 Dwylo a thraed [o'r un wedd] gyd-derfynol,
 24 Y mae pawb yn gweld [ôl] clwyfo pob un;
 [Ac ôl] rhoi am y talcen, rhwymiad blin
 O amgylch, gan pig y drain,
 A phob pwynt blaenllym yn tynnu gwaed,
 28 A chlwyfo ochr Mab Mair wen;
 Torri Ei rydveli weddus,
 Caniatáu Ei ladd—onid oedd [yn] greulon?—
 A'i gorff yn glwyfau i gyd
 32 Ynghyd â'i friw, a gwaed o'i fron,
 A'i dynnu wedi [darfod] Ei einioes,
 Dduw rhagoraf Ei ffydd, oddi ar y groes,
 A Christ, bu tristwch yno,
 36 A roddwyd heb oedi yn y bedd,
 A phedwar gelyn drachefn
 A gafwyd i oruchwyllo Duw sanctaidd.
 Er hyn, y mae'n hanfod o Fair,
 40 O'i fedd atgyfododd yn fyw.

Bu Ei ddilynwyr a'i wlad yn llawen,
 O Fair! bu'r atgyfodiad yn rymus.
 Gollyngodd, ac ni thwyllai,
 44 Bob un o'i gaethiwed yn rhydd.
 Tynnodd Adda a Dafydd
 O ffwrnais gaeth uffern, o le dirgel,
 Pan aeth i'w wlad dreftadol,
 48 [Yn] llawen iawn, â'r dilynwyr ar Ei ôl,
 A ninnau, pawb o'r un bwriad,
 Gallwn fod yn llawen iawn o hyn ymlaen
 [O achos] gweld grym, cyfoeth i ni,
 52 Un Duw sanctaidd yn diwallu.

Gofynnaf i'r Duw aruchel
 Ac i'r Iesu [o'r] nef [roi] gras i ni.
 Oherwydd Ei ddolur yn Ei ddwylo,
 56 Ac oherwydd [iddo] droi ymaith o'r [fan lle y crogai gerfydd Ei]
 ddwyfraich draw,
 Gofynnaf i'r Tad, gwarchodwr annwyl,
 Graslun a elwir Iesu,
 Ddwyn fy enaid oddi wrth y poenau blin
 60 I'r nef, drwy Ei gynhaliaeth.

Atodiad ii
Cynghori Dafydd ap Gwilym

Rhag cyfraith dewfaith, Dafydd,—ŵr beius,
A'r Bwa, llym gigydd,
Gorau i ti, rhag garw oed dydd,
Ymarfer peidio â Morfudd.

4

Ffynhonnell
LIGC 1578B, 400

Olnod
Gr: Gryg

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 212.

Cynghori Dafydd ap Gwilym

Rhag ofn cyfraith hir a gorthrymus, Dafydd, ddyn camweddu,
A'r Bwa [Bach], [y] cigydd llym,
Gorau i ti, rhag ofn [cael] apwyntiad llym,
Ddysgu cefnu ar Forfudd.

4

Nodiadau

1

Cywydd moliant yw hwn i Einion ap Gruffudd ap Hywel o Chwilog yn Eifionydd.¹ Yr oedd yn briod â Nest ferch Gruffudd ab Adda o Ddôl-goch yn Nhywyn (ef oedd ei thrydydd gŵr), a chawsant dri o blant. Cadwyd cerddi gan Iolo Goch, Rhisierdyn a Gruffudd ap Maredudd i'w hanner brawd iau, ac enwocach, Syr Hywel y Fwyall,² ond Einion oedd mab hynaf Gruffudd ap Hywel, ac ymddengys mai ef oedd yr unig fab a anwyd o'i briodas gyntaf ag Angharad ferch Tegwared y Baiswen.³ Ef, felly, oedd prif ddisgynydd Collwyn ap Tangno yn ei oes, ac etifeddodd ef, ynghyd â merch o'r enw Lleucu ferch Ieuan, gyfran helaeth o dir yn 1352.⁴ Yr oedd y gyfran o dir rhydd (a elwid Gwely Gwgan) a roddwyd i Einion yn cynnwys tir yn nhrefgorddau Chwilog, Glasfryn, Cadair Elwa, Rhwng Dwyfor a Dwyfech a Phencoed.⁵ Yn Chwilog yr adeiladwyd ei lys, oherwydd

¹ Am ei ach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 1, 4 a 6. Nodir yn *ib.* 'Gollwyn' 1 fod gŵr o'r enw Caradog yn rhan o'r ach hon er na cheir ei enw mewn rhai llawysgrifau, ac y mae'n ddi-ddorol nad yw ei enw yn ymddangos ychwaith mewn unrhyw fersiwn o ach Einion a geir wrth y gerdd hon yn y llawysgrifau (CIKLQRSUVW; cf. hefyd ei absenoldeb o ach y teulu wrth gerdd Owain Waed Da i Ieuan ab Einion yn llawysgrif LIGC 16B, ac o gywydd Owain i Fadog ab Ieuan ab Einion, gw. GMBen td. 246, 16.10). Yr oedd Einion yn olrhain ei ach i Gollwyn ap Tangno, arglwydd Eifionydd a rhannau o Lŷn yn y 12g., gw. ll. 16n.

² Canodd Iolo Goch gywydd mawl i Syr Hywel (GIG 6–12 (cerdd II)) a chanodd Gruffudd ap Maredudd a Rhisierdyn awdlau marwnad iddo (GGMD iii, cerdd 2; GSRh cerdd 6). Y mae'n bosibl mai ar gais Einion, neu ar gais un o'i feibion, y canwyd cerddi marwnad Gruffudd a Rhisierdyn i Syr Hywel, gw. GGMD iii, 139. Ond y mae'n fwy tebygol mai un o feibion Einion (Rhys, o bosibl) a gomisiynodd y marwnadau hyn, gan fod ŵyr Einion, Hywel ap Rhys ab Einion, yn ddigon hen i etifeddu llys Bron-y-foel gan hanner brawd Einion, Syr Hywel, c.1359, ac y mae'n annhebygol, o ganlyniad, fod Einion yn fyw adeg marwolaeth Syr Hywel c.1381.

³ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 4. Y tebyg yw mai Gwerful ferch Tegwared ab Iorwerth oedd mam ei ddau hanner brawd iau, sef Ieuan a Hywel, gw. GGMD iii, 138n21.

⁴ Gw. Colin A. Gresham, *Eifionydd: a Study in Landownership from the Medieval Period to the Present Day* (Cardiff, 1973), 193–4, 214, 241. Yn ôl Gresham, *ib.* 194, gall fod Lleucu yn ferch i Ieuan ap Gruffudd, ac felly'n nith i Einion, ond ni nodir yn yr achresi fod gan Ieuan ferch o'r enw hwnnw, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 5. Mwy tebygol yw naill ai: (i) Lleucu, gwraig Syr Hywel y Fwyall; (ii) merch ddiennw i ewythr Einion, sef Ieuan ap Hywel; (iii) wyres i'r un Ieuan o'r enw Lleucu ferch Ieuan ap Gruffudd, gw. *ib.* 'Gollwyn' 4, 8; 'Rhirid Flaidd' 8.

⁵ Enwyd y gwely, yn ôl pob tebyg, ar ôl Gwgon ap Merwydd Goch, ŵyr i Gollwyn ap Tangno, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 1; Colin A. Gresham, *op.cit.* 147. Am fap yn dangos yr amrywiaeth eang o diroedd yng Ngwely Gwgan, gw. *id.*, 'Townships in the Parish of Llanystumdwy', TCHSG xix (1958), 9.

ansawdd da y pridd yno, yn ôl pob tebyg.⁶

Yr oedd hefyd ym meddiant Einion dir yn ardal orllewinol trefgordd Gest, trefgordd Abercain ym mhlwyf Llanystumdwy, Gwely Gwyn ab Ednowain,⁷ trefgorddau Trefan, Treflys a Phennarth ac yn ardal Talhenbont.⁸ Ef oedd siryf Caernarfon rhwng 1351 a 1359, a dylid dyddio'r cywydd hwn yn ystod y cyfnod hwnnw yn ôl pob tebyg.⁹ Ceir yr argraff fod Gruffudd yn annog Einion i feddiannu ei etifeddiaeth a bod Einion wedi esgyn i ris uwch ar yr ysgol gymdeithasol.¹⁰ Yr oedd ei fab Ieuan ab Einion yntau yn siryf Caernarfon o 1385 i 1390, a chadwyd cerddi iddo gan Iolo Goch a chan Owain Waed Da.¹¹ Canodd Owain Waed Da gywydd arall i'w fab yntau, Madog ab Ieuan.¹²

Hon yw'r unig gerdd fawl secwlar a gadwyd wrth enw Gruffudd Gryg. Y mae'n werth tynnu sylw at y ffaith fod cyswllt teuluol rhwng Einion ac aelod o deulu enwog Penmynydd ym Môn y canodd Gruffudd ffug-farwnad iddo, sef Rhys ap Tudur Fychan ap Goronwy.¹³ Ymddengys i feirdd eraill elwa ar y cysylltiadau teuluol hyn rhwng dau o deuluoedd mwyaf dylanwadol Môn ac Eifionydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹⁴

Egyr Gruffudd y gerdd drwy bwysleisio safle anrhydeddus Einion ym mharhad ei linach, ac olrheinir ei ach hyd at ei hendaidd cyn crybwyll enwau dau arall o aelodau enwocaf y teulu (llau. 1–18). Yna manylir ar arfbais y teulu (llau. 17–24) ac ar statws Einion (llau. 25–34) cyn rhoi sylw helaeth i'w lys newydd yn Chwilog (llau. 35–50). Y mae'r ffaith fod un llinell ar bymtheg wedi eu neilltuo i'r gorchwyl hwn yn awgrymu, o bosibl, fod y cywydd wedi ei ganu ar ymweliad cyntaf Gruffudd â'r llys newydd.¹⁵ Eir ymlaen i foli Einion ymhellach ac i bwysleisio ei gasineb tuag at ei elynion

⁶ Gw. Colin A. Gresham, *op.cit.* 242; ll. 36n.

⁷ Yr oedd Gwyn Ddistain ab Ednowain yn orwyr i Gollwyn ap Tangno, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 3; Colin A. Gresham, *op.cit.* 147.

⁸ Gw. *ib.* 182, 187, 194, 241, 270, 341.

⁹ Gw. Edward Breeze, *Kalendars of Gwynedd* (London, 1873), 49; llau. 5n, 9n, 10n, 11–12n, 25–6n.

¹⁰ Gw. llau. 5, 17–18 *dwg iawn enw digoll a dwg hy enw digoll / ... a'i arfau oll*, sef arfau (arfbais) Collwyn ap Tangno. Gallai hyn gyfeirio at Stent 1352 pryd yr etifeddodd Einion diroedd helaeth yn Eifionydd, ond arwyddocaol hefyd yw'r cyfeiriad yn y cwpled clo at Einion yn *[g]raddio'n bennaeth rhwyddwch* (ll. 71). Gall fod Einion wedi ei benodi neu ei ailbenodi yn siryf Caernarfon yn yr un flwyddyn, gw. ll. 9n.

¹¹ Gw. GMBen 239–42, cerdd 15; GIG 13–15 (cerdd III). Fel y nododd Henry Lewis, IGE xxxii, ceir tebygrwydd agos mewn manau rhwng cywydd Gruffudd Gryg a chywydd Iolo Goch i Ieuan ab Einion, gw. llau. 3n, 7n, 8n, 11–12n, 23n, 28n, 39n a 52n.

¹² Gw. GMBen cerdd 16. Am grynodeb o hanes y teulu yn ardal Chwilog hyd at farwolaeth y tirdeiliad olaf yn llinach Einion ap Gruffudd yn 1730, gw. Colin A. Gresham, *art.cit.* 10.

¹³ Gw. cerdd 3. Yr oedd Einion ap Gruffudd yn perthyn i deulu Penmynydd drwy Gwenllïan ferch Gruffudd ab Ednyfed Fychan, ei nain ar ochr ei dad, gw. GGMD iii, 138, a'r achres a geir yno.

¹⁴ Gw. *ib.* 138–9.

¹⁵ Rywbryd yn ystod pumdegau'r ganrif o bosibl, os dechreuodd Einion adeiladu neu ailadeiladu'r llys pan etifeddodd ei diroedd yn 1352.

a'r cymorth a rydd i'r gwan, cyn dod â'r gerdd i ben drwy ei longyfarch am ryw anrhydedd a ddaeth i'w ran a dymuno hir oes iddo (llau. 51–72). Ceir cymeriad cyfnewidiol agos gyflawn gydol y gerdd.¹⁶

Y mae'n werth nodi'r hyn a geir wrth droed y cywydd yn llawysgrif I (CM 11, a ysgrifennwyd gan David Ellis ym Môn yn 1777): *Gruff. Grŷg oedd wr bonheddig o Aberffraw ym Môn ac ymrysonodd lawer â Dab. Gwilym am Gyffoden mewn Cywyddau da.*¹⁷ Y mae'r llawysgrif yn rhy ddiweddar i roi rhyw lawer o goel ar yr olnod hwn, ond y mae'r ffaith fod y copi'ydd yn tynnu ar draddodiadau o fro'r bardd ei hun yn sicr yn ddi-ddorol. Copiwyd y gerdd o lawysgrif y tybir iddi gael ei hysgrifennu gan Siôn Brwynog, bardd o Fôn a ganai yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg. Gall fod a wnelo'r ffaith i Ruffudd Gryg gyfeirio at ei gariad Gweirful ac at Ddyddgu yn nau o'i gywyddau ymryson â Dafydd ap Gwilym gryn dipyn â'r olnod hwn.¹⁸

Golygwyd y cywydd yn DGG 142–4.

Cynghanedd: croes 41 ll. (57 y cant);¹⁹ traws 20 ll. (28 y cant); sain 8 ll. (11 y cant);²⁰ llusg 3 ll. (4 y cant). Y mae'n bosibl fod un gynghanedd groes o gyswllt yn llinell 65n. Y mae'r cywydd yn neilltuol hefyd o ran canran isel ei gynganeddion sain, a'r ffaith fod pob un ohonynt, heblaw llinellau 24 a 68, yn gynganeddion sain gadwynog.²¹ Gall fod hyn yn sail i amau awduraeth y cywydd hwn.

1 Y post hardd hapus dewrddoeth Y mae lle i gredu nad oedd y beirdd wastad yn cydnabod effeithiau'r anadliad caled ar rai cytseiniaid yn ystod cyfnod cynnar y cywydd. Ceid eithriadau rhesymol i'r arfer gyffredin weithiau (cf. ll. 17n), ond nid yw'n amlwg am ba reswm y'i hanwybyddid bryd arall; e.e. Owain Waed Da yn ei gywydd i Fadog ab Ieuan ab Einion, GMBen 16.72 *A blaenor pob haelioni*. Felly hefyd yn y ll. hon, lle, yn unol â'r arfer gyffredin, y ceir calediad (*st > sd + h > st*, gw. J. Morris-Jones: CD 209, lle y dyfynnir enghraifft debyg gan Ddafydd Nanmor *Nes cael y ddyn eurwisg hon*), ond rhaid anwybyddu'r anadliad caled er mwyn ateb *d* yn ail hanner y ll. Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i ddwy gytsain feddal galedu yn yr achos hwn 'am na seinir cytsain yn ddwbl pan fo ynghyswllt â chytsain arall', gw. *ib.* 210, lle y dyfynnir ll. arall gan Ddafydd Nanmor: *Ai dellt aur yw dy wallt di? A ddisgwylid, felly, i gytsain feddal galedu bob tro dan ddylanwad 'h' pan*

¹⁶ Torrir ar y patrwm yn llau. 31, 34, 37 a 39.

¹⁷ Ar *cyffoden*, gw. GPC 730: 'o olygu'n wr. benwisg nodweddiadol o ferched fe aeth yn gyfystyr â "merch" (cf. defnydd y gair "pais" yn Gym. a'r S. *petticoat*, *skirt*) ac yna llithrodd yn ei ystyr o ddrwg i waeth.'

¹⁸ Gw. DG.net 27.47–52, 29.1–16.

¹⁹ Gw. ll. 68n.

²⁰ Gw. ll. 24n.

²¹ Gw. llau. 6n, 11, 18n, 29n, 39 a 62.

fyddai ynghlwm wrth gytsain arall? Ar y llaw arall, ceir enghreifftiau o gytsain dawdd yn caledu'r gytsain ar ei hôl yng ngwaith beirdd diweddarach (*hapus + dewrddoeth > t*), ond go brin y'i ceid yng ngwaith y Cywyddwyr cynnar, gw. *ib.*

2 **Wyd o frig gwaed difreg coeth** Nid oedd dwy gytsain feddal yn caledu o angenrheidrwydd yn yr orffwysfa, gw. J. Morris-Jones: CD 217; cf. ll. 17n. Y mae hyn yn rhyw gymaint o ateg i'r ffaith y byddai'r datgeiniad neu'r bardd yn gorffwys ei lais, yn llythrennol, yn yr orffwysfa wrth berfformio'r gerdd ar lafar.

3 **pinagl** Dyma'r enghraifft gynharaf o'r gair yn ôl pob tebyg, er nas cynhwysir yn GPC 2806, cf. ll. 28n. Ceir yr enghraifft gynharaf a nodir yno yng nghywydd Iolo Goch i Ieuan ab Einion, lle y'i deallir yn ddelwedd o bensaernïaeth y cestyll, gw. GIG 13 (III.6) a'r nodyn ar *ib.* 192–3. Fodd bynnag, efallai mai gwell yma fyddai'r ystyr ffig. a geir yn OED² xi, 876 d.g. *pinnacle*: '*A high or lofty place or situation; the highest point or pitch; the culmination or point of perfection; the acme, climax. (Sometimes applied to a person.)*'. Y mae'n amlwg fod Gruffudd Gryg yn ymwybodol o'r ffaith mai Einion oedd prif ddisgynydd ei linach, a phwysleisir ei safle blaengar yn y llinellau agoriadol. Ceir nifer o ddeongliadau posibl ar gyfer [*b*]/*rig*, ond y mae ystyr lythrennol y gair, 'canghennau eithaf', yn gydnaws ag ystyron llythrennol *post*, *pinagl* a *gwraidd* (llau. 1 a 3), ac yn cyd-fynd â'r ffaith fod Einion *uwch gwledydd oll* (ll. 6), *oll uwchben eraill* (ll. 26) ac *uwchlaw pawb* (ll. 58). Cf. y modd y mae Iolo Goch yn gwneud defnydd o'r gair *coed* yn yr ystyr 'hil' yn ei gywydd i Ieuan ab Einion, GIG 13 (III.23) a'r nodyn ar *ib.* 193, a delwedd debyg yng nghywydd Owain Waed Da i Fadog ab Ieuan, GMBen 16.17n. Efallai fod Einion yn w'r arbennig o dal ac yn llythrennol *uwchben eraill*, cf. disgrifiad Owain Waed Da ohono yn ei gywydd i Ieuan ab Einion, *ib.* 15.57n: [*c*]/*aer dal*.

gwraidd Fe'i deallir fel 'gwehelyth' yn yr aralleiriad, ond dichon ei fod yn dwyn yr ystyr 'cnewyllyn, rhan hanfodol' hefyd, gw. GPC 1697–8.

4 **Hir dy fawl o grud i fedd** Ceir gwell cynghanedd yn fersiwn ß (*Gyr dy fawl o grud i fedd*), ond amheuir bod y fersiwn hwnnw'n adlewyrchu hoffter beirdd a chopiwyd y 15g. o gynganeddion cytsain cyflawn. Y mae *hir* yn gydnaws â'r modd y pwysleisir safle uchel Einion neu, yn syml, ei daldra, yn y gerdd hon (gw. ll. 3n), ac fe'i cyrchir, yn fras, yn y diweddglo (gw. ll. 72: *a phoed hir y bych*).

5 **iawn enw digoll** Deallir *enw* yn syml fel 'bri, clod mawr' yma, gw. GPC 1220–1. Fodd bynnag, y mae'r defnydd mynych a wneir o'r gair yn y cywydd hwn yn sail i gredu y gall fod iddo ystyr fwy penodol, megis 'teitl anrhydeddus, term yn dynodi awdurdod', gw. *ib.*; cf. *hy enw digoll* (ll. 17), *da enw mawr* (ll. 53), *enw clau* (ll. 68). Ai cyfeiriadau at

siryfiaeth Einion yng Nghaernarfon yw'r rhain? Ymhellach, gw. y nodyn cefndir uchod, troednodyn 9.

- 5–6 **Einion ... / fab Gruffudd** Einion ap Gruffudd ap Hywel o Chwilog. Am ei ach, gw. y nodyn cefndir uchod. Cyfeirir at Ruffudd ei dad eto yn ll. 43.
- 6 **Fab Gruffudd, uwch gwledydd oll** Y gyntaf o chwe chynghanedd sain gadwynog a geir yn y cywydd hwn. Y mae hon yn neilltuol gan fod aceniad ail ran y ll. yn syrthio ar air cymharol ddibwys (*uwch*), yn wahanol, er enghraifft, i'r pedwar curiad cyson a geir yn llau. 11 a 39, *Gwyddost, walch oreugost wisg; Cwrt hir isllaw brodir Llŷn*. Ar y llaw arall, gall mai ffurf ar gynghanedd sain drosgl yw hon gan na ellir clywed ond tri churiad yn y ll., gw. *ib.* 171–2. Sylwer ar enghreifftiau eraill o'r gynghanedd hon gan Ruffudd Gryg, gw. llau. 18n, 29n, 3.10.
- 7 **oes gŵr well** Treiglir yr a. cmhr. mewn cwestiwn y disgwylir ateb neg. iddo; gthg. Iolo Goch yn ei gywydd i Ieuan ab Einion, GIG 13 (III.11) *oes gŵr gwell?*
- 8 **iaith** 'Cenedl', gw. GPC 1999; cf. ll. 63 ac Iolo Goch yn ei gywydd i Ieuan ab Einion, GIG 13–14 (III.1, 23, 69) a'r nodyn ar *ib.* 192.
- 9 **dy radd** Gw. GPC 1518–19 3(a) 'safle gymdeithasol' yn ôl pob tebyg (cf. y gred yn ystod yr Oesoedd Canol mewn naw gradd o angylion, GMBen 8.11n), ond o bosibl 1(c) 'cam neu bwynt mewn llinach' o ystyried y pwyslais a rydd Gruffudd ar dras Einion yn llau. 1–18, cf. ll. 10n. Y mae'n gyfeiriad amwys iawn yn absenoldeb unrhyw gyfeiriad penodol yn y cywydd hwn at Einion yn siryf Caernarfon. Fodd bynnag, y mae'n debygol iawn mai at y swydd honno, yn anad yr un *radd* arall y gwyddys i Einion ei derbyn, y cyfeirir yma, cf. llau. 10n a 71–2. Ai at benodi Einion yn siryf yn 1351 y cyfeirir yn y llau. hyn, ynteu at ei benodi i'r swydd honno eto rywbryd rhwng 1351 ac 1359? Penodid rhai i'r swydd am oes, ond ceir tystiolaeth fod eraill, megis Einion, wedi gwasanaethu am wahanol gyfnodau penodedig, gw. Edward Breeze, *Kalendars of Gwynedd* (London, 1873), 48–9. Nodir yn HPF v, 290 fod Einion wedi ei benodi, neu ei ailbenodi, yn siryf am dair blynedd yn 1352. Ai at yr achlysur hwnnw y cyfeirir yn y cywydd hwn, ynteu at ei benodiad tybiedig eto yn 1355? Posibilrwydd arall yw fod Gruffudd yn cyfeirio at statws Einion fel tîrfeddiannwr yn Eifionydd adeg Stent 1352, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 10 **maith ystad** 'Safle helaeth, gradd o bwys', gw. GPC 3859 d.g. *ystad*^l (a), (b). Er na cheir unrhyw gyfeiriadau digamsyniol at siryfiaeth Einion yng Nghaernarfon yn y cywydd hwn, go brin fod Gruffudd yn cyfeirio at unrhyw swydd neu safle gymdeithasol arall o bwys yma.
- 11–12 **Gwyddost ... / Gael arian yn golerwisg** Cf. Owain Waed Da yn ei gywydd i Fadog ab Ieuan ab Einion, GMBen 16.59–68 *Ysgwier gwrdd*

hyder gwych, / Graddol yw'r llew g'reiddwch / Ag arian dorch, gwir nod iawn, / A gafas—hyn oedd gyfiawn— / Ac ar hynt i'm hygar hawg / O urdduniant gradd enwawg, / Oll ar lled gweled a gair / Ar ei fwnwgl aur fynwair, / A'i roi, deiliog aur dilin, / I'm iôn llwyd am y naill lin. Dywed y bardd fod Madog wedi derbyn coler arian (gan un o frenhinoedd plaid Lancastr yn ôl pob tebyg), a'i fod yn dymuno ei urddo wedyn â choler aur marchog ac arwyddwisg aur Urdd yr Ardas am ei goesau, gw. *ib.* 16.61n, 67–8n. Fodd bynnag, ni cheir cofnod o goler arian SS plaid Lancastr cyn chwarter olaf y 14g., ac nid oes lle i gredu bod Einion yn gysylltiedig â'r blaid honno. Mwy perthnasol yw'r hyn a ddywed Iolo Goch yn ei gywydd i Ieuan ab Einion, GIG 14 (III.57–60) *Tor di gŵys mewn troedog aur, / Tad arwyddion, tid ruddaur, / Teŷrnedd Gwynedd i gyd; / Tro'r fei trwy wŷr o fywyd.* Yn ôl Dafydd Johnston, *ib.* 195–6, y mae Iolo'n cyfeirio at ddau driawd a allai ddeillio o un gwreiddiol, sef *Tri Hualabg Enys Prydein* a *Tri Hualhogeon Deulu Ynys Brydein*, gw. TYP³ 32, 176 (triawdau 17 a 62). Fe'u cysylltir â Gwynedd yn benodol, gan awgrymu y gall fod *hual* y trioedd a *t[h]roedog aur* y cywydd yn dynodi arwydd traddodiadol y deyrnas honno. Gall *hual*, yn ei dro, olygu torch herodrol (gw. *ib.* 32), sy'n caniatáu uniaethu'r golerwisg arian yng nghywydd Gruffudd â theyrnas Gwynedd. Ai cyfeiriad yw at wisg draddodiadol siryf Caernarfon? Mae'n ddiddorol fod tri bardd gwahanol wedi crybwyll gwisg arbennig mewn cerddi i dair cenhedlaeth o'r un teulu, ac y mae'n amlwg bod Einion a'i ddisgynyddion wedi ymhyfydu yn yr arfer o wisgo eu statws.

- 13 **Hywel** Hywel ap Maredudd (gw. ll. 14n), taid Einion ap Gruffudd; am ei ach, gw. y nodyn cefndir uchod. Yn P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 4, fe'i cysylltir â Bron-y-foel yng nghwmwd Treflys, sef prif lys y teulu, yn ôl pob tebyg. Y mae'n ddiddorol mai â thri gŵr o'r enw Hywel y cysylltir Bron-y-foel yn hanes y teulu yn ystod y 14g. a dechrau'r 15g. Etifeddodd Hywel, wŷr Einion ap Gruffudd, y llys gan frawd ei daid, Syr Hywel y Fwyall, yn sgil penodi Syr Hywel yn gwnstabl castell Cricieth oddeutu 1359, gw. Colin A. Gresham, *Eifionydd: a Study in Landownership from the Medieval Period to the Present Day* (Cardiff, 1973), 187; GGMD iii, 137n8 (yr oedd Hywel yn fab i Rys ab Einion, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 6). Yn ôl Gresham, *op.cit.* 151: 'It is not possible to say whether there was a house on the site of Bron-y-foel before Howel's arrival there about the year 1400.' Fodd bynnag, y mae'r cyswllt rhwng y tri Hywel a'r fan yn rhyw gymaint o ateg i'r ddadl fod adeilad yno eisoes yn y 14g. Ymhellach ar y llys, gw. RCAHM (Caernarvonshire), ii, 248.

- 14 **Mredudd** Yr oedd Maredudd ab Einion yn hendaidd i Einion ap Gruffudd ac yn dad i Hywel (gw. ll. 13n); am ei ach, gw. y nodyn cefndir uchod.

- 15 **clau** Cf. ll. 68 ac Owain Waed Da yn ei gywydd i Fadog ab Ieuan, GMBen 16.8n.
- Urien** Cf. ll. 52n. Urien ap Cynfarch, arglwydd teyrnas Rheged yn y 6g. Y mae un fersiwn o ach Collwyn ap Tangno (gw. ll. 16n) yn ei olrhain i Urien drwy ei fab Pasgen ab Urien, gw. P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylchg LIGC xiii (1963-4), 109.
- 16 **Collwyn** Collwyn (neu Gollwyn) ap Tangno, arglwydd Eifionydd a rhannau o Lŷn yn y 12g. Arno, gw. Colin A. Gresham, *op.cit.* xvi-xvii, lle y'i cysylltir â man o'r enw Cefn Collwyn ychydig i'r dwyrain o Afon Dwyfor. Am achau ei ddisgynyddion, a elwid yn Llwyth Collwyn neu Wehelyth Ardudwy mewn rhai llsgrau., gw. y nodyn cefndir uchod; EWGT 118. Fe'i gelwir yn *Collwyn ab Tangno ab Cellan* yn llsgr. K, ond gthg. Collwyn ap Tangno ap Cadfael yn P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 1; *id.*, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylchg LIGC xiii (1963-4), 109.
- 17 **hwn** Sef Collwyn ap Tangno. Y mae Gruffudd yn annog Einion i ddilyn yn ôl traed ei hynafiad, a fu'n arglwydd pwerus yn ystod y 12g., gw. ll. 16n.
- O hwn dwg hy enw digoll** Ceid eithriad i'r arfer gyffredin o galedu dwy gytsain feddal mewn rhai achosion (e.e. yn yr orffwysfa mewn cynganeddion croes a thraws, gw. ll. 2n), a gall mai amrywiad ar yr eithriad hwnnw a geir yma yn achos yr anadliad caled, gw. J. Morris-Jones: CD 217-18; cf. ll. 1n.
- 18 **Heb brinhau, a'i arfau oll** Naill ai cynganedd sain anghytbwys ddyrchafedig, neu, yn sgil y ffaith mai un gynganedd sain lefn yn unig a geir yn y cywydd hwn (ceir ansicrwydd ynghylch honno hefyd, gw. ll. 24n), cynganedd sain gadwynog sy'n ymdebygu i gynganedd sain drosgl, cf. ll. 6n.
- 19-24 **cwpl ... fflwr-dy-lis ... maes** Disgrifir arfbais y teulu a phwysleisir ei phwysigrwydd o safbwynt etifeddol, a'r tebyg yw mai dyma'r cyfeiriad Cymraeg cynharaf ar glawr at arfbais herodrol, gw. DWH i, 39. Yr oedd yn cynnwys *cwpl* gwyn (S. *chevron*) a *thri fflwr-dy-lis* gwyn mewn *maes* (cefnidir) o liw du, gw. DWH ii, 171. Cyfeirir ati yng nghywydd Iolo Goch i Syr Hywel y Fwyall, GIG 6 (II.23-6) a 7 (II.47-52) *Ac ystondardd hardd hirddu / Yn nhâl tŵr, da filwr fu, / A thri blodeuyn gwyn gwiw / O'r unllun, dail arianlliw. / ... / Tau olwg, ti a welud / Ystondardd — ys hardd o sud; / Pensel Syr Hywel yw hwn; / Myn Beuno, mae'n ei benwn / Tri fflwr-dy-lis, oris erw, / Yn y sabl, nid ansyberw.* Cyfeiria Owain Waed Da yntau at y *fflowr d'lis* yn ei gywydd i Ieuan ab Einion, gw. GMBen 15.11, a'r tebyg yw mai at yr arfbais hon y mae Gruffudd yn cyfeirio eto yn ll. 70 *Arwydd ystad*. Ceir yr arfbais ym mynwent Llanybi ar garreg fedd gŵr o'r enw Thomas Wynne (*ob.*

1747), a ddisgynnai o Ieuan ap Gruffudd (brawd Einion), gw. Colin A. Gresham, *op.cit.* 280–2; am ach ei hynafiaid hyd at ei hen hen hendaidd, gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Gollwyn’ 5; P.C. Bartrum: WG2 ‘Gollwyn’ 5B¹. Ymhellach ar yr arfbais yng nghyswllt adeiladau yn sir Gaernarfon, gw. RCAHM (Caernarvonshire), ii, *passim*.

- 21 **Yn gydwnion eu gadu** Ar *gwnion*, amr. ar *gwynion*, gw. GPC 1770 d.g. *gwyn*¹. Syrth yr acen yn yr orffwysfa ar [*c*]yd, blaenddodiad a chanddo acen annibynnol yn yr achos hwn, gw. J. Morris-Jones: CD 268, lle y dyfynnir y ll. hon fel enghraifft. Ceir enghraifft fwy persain o’r math hwn o gynghanedd gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen, GLIG 11.26n, *Nac anfonheddig ynfyd*.

gadu Gw. GPC 1367 d.g. *gadaf* (a) ‘caniatáu (i un) i aros yn yr un lle neu yn yr un cyflwr’.

- 23 **dal i’th ran di** Cf. ll. 20 ac Iolo Goch yn ei gywydd i Ieuan ab Einion, GIG 14 (III.68) *dos â’th ran di*.

- 24 **O dad-i-dad i’w doddi** Cynghanedd sain, mae’n debyg, lle y syrth yr acen yn yr ail ran ar yr arddodiad *-i-*, gw. J. Morris-Jones: CD 268; *id.*, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913), 62; cf. DG.net 52.28n *O-lwyn-i-lwyn anialwch*, 116.39n *O don-i-don*, *edn sugndraeth*, 118.30n *O-law-i-law*, *loyw eilun*; GPC 3408 d.g. *tad*. Ond gall mai cynghanedd groes sydd yma gydag un *d* yn ateb dwy.

- 25–6 Y cwpled hwn yw’r dystiolaeth gryfaf o blaid cysylltu’r gerdd hon â chyfnod Einion yn siryf Caernarfon. Yn Eifionydd yr oedd holl diroedd Einion ac yno yr oedd ei hynafiaid wedi ymgartrefu, ond ni chyfeirir yn benodol at yr ardal honno tan yn nes ymlaen yn y gerdd (ll. 34n). Nid oes lle i gredu y byddai Gruffudd wedi dewis crybwyll Gwynedd yn gyntaf pe na bai Einion yn siryf ar ganolfan y dalaith honno ar y pryd.

- 28 **hap** ‘Ffawd dda, ffyniant’, gw. GPC 1822, a cf. GIG 13 (III.3); ll. 3n.

y rhediad tau Cyfeiriad annelwig, ond y tebyg yw y dylid ei gysylltu â’r hyn a ddywedir yn llau. 25–6n.

- 29 **Wrth goffáu dy gampau di** Cf. ll. 6n.

- 32 **Einiawn** Cf. ll. 60 *Einion*. Dilysir y gwahanol ffurfiau ar yr e. gan y brifodl yn y ddau achos. Cf. y modd yr enwir Ieuan ab Einion yn *Ifan*, *Ievan*, *Ieuan* ac *Iwan* yn y llsgrau., gw. GMBen 15.1n.

- 33 **Nudd** Nudd ap Senyllt, un o’r Tri Hael, gw. TYP³ 5–7, 464–6; WCD 509. Y ddau arall oedd Rhydderch Hael a Mordaf Hael.

- 34 **Eifionydd** Cwmwd yng nghanntref Dunoding neu Wynedd Uwch Conwy, a bro mebyd hynafiaid a disgynyddion Einion ap Gruffudd, gw. WATU 65. Yr oedd Collwyn ap Tangno yn arglwydd yno yn ystod y 12g., gw. ll. 16n.

- 36 **Chwilog** Trefgordd ym mhlwyf Llanystumdwy yn Eifionydd, gw. WATU 55. Yn ôl GGMD iii, 139n26, y mae'n bosibl mai Chwilog oedd enw llys Einion yn ogystal, ond gall mai ffurf dalfyredig ydyw ar enw llawn y llys, sef Plas yn Chwilog, gw. Colin A. Gresham, *op.cit.* 341 (efallai fod Gruffudd yn adleisio'r enw hwnnw yn y llau. hyn: *annedd ... / Yn Chwilog*). Y mae'n bosibl i Einion fynd ati ar ei liwt ei hun i adeiladu'r llys (gw. ll. 37 *Neuadd wen newydd annwyl*), ond y mae'r cyfeiriad at dad Einion yn ll. 43 yn awgrymu nad ef oedd y cyntaf i ymsefydlu yno. Un posibilrwydd cryf yw fod Einion wedi mynd ati i ailadeiladu neu adnewyddu'r llys yn helaeth yn ystod ei gyfnod ef. Yr oedd Chwilog yn ardal lewyrchus iawn yn yr Oesoedd Canol a chanddi felin ar lan ddwyreiniol Afon Carrog (neu Afon Wen, fel y'i gelwir heddiw), gw. *id.*, 'Townships in the Parish of Llanystumdwy', TCHSG xix (1958), 35. Etifeddwyd y llys a'r ardal gan Ieuan ab Einion ac yna gan Rys ab Ieuan, cyn eu trosglwyddo i feddiant disgynyddion Robert ap Maredudd pan briododd Rhys â Gwladus ferch Rhys, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 6; Colin A. Gresham, *art.cit.* 9 (map yn dangos y tiroedd a oedd ym meddiant wyrion Einion yn 1400), 11–12. Gall fod Syr Hywel y Fwyall wedi ymadael â chastell Cricieth ac ymsefydlu yn y llys yn Chwilog ychydig cyn iddo farw oddeutu 1381, gw. H. Lewis, 'Gruffudd ab Maredudd ab Dafydd a Rhisieryd', B i (1921–3), 132. Y mae olion y llys bellach wedi diflannu, gw. Colin A. Gresham, *art.cit.* 11.
- 38 **pob hynod wyl** Cynhelid tair prif wyl yn ystod y flwyddyn yn yr Oesoedd Canol, sef Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn. Gwahoddid y beirdd i lysoedd yr uchelwyr i ddathlu ac i dderbyn anrhegion, gw. LIB 5 (ll. 21), 2 (ll. 1); R.L. Thomson: Gereint 1 (llau. 7, 20); Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 32.
- 39 **Cwrt hir isllaw brodir Llŷn** Dilynwyd darlleniad fersiwn ß, sy'n cydyfynd â'r hyn a ddywed Iolo Goch yn ei gywydd i Ieuan ab Einion, GIG 14 (III.43) *Cwrt hynod is Llŷn frodir*. Y mae'r darlleniad a geir yn y rhan fwyaf o lsgrau. fersiwn f, *Cwrt ir a llaw brodir Llŷn*, yn awgrymu bod gan Einion, o'i lys yn Chwilog, awdurdod ar Llŷn er mai yn Eifionydd y safai ei lys. Yn ogystal â hyn, er bod *ir*, 'newydd ei wneuthur, ffres', yn gydnaws â'r modd y geilw Gruffudd y llys yn *Neuadd wen newydd annwyl* yn ll. 37, y mae'n annhebygol y defnyddid *ir* i ddisgrifio gwrthrych nad oedd yn beth byw.
- Llŷn** Cantref ar y ffin â chymydau Eifionydd ac Uwch Gwyrfaei ym mhentir gorllewinol sir Gaernarfon, gw. WATU 146.
- 42 **llys egored** Cf. Llywelyn Goch ap Meurig Hen yn ei awdl i Oronwy ap Tudur o Benmynydd, GLIG 5.5 *Egored frys lys*. Y mae hefyd yn werth tynnu sylw at ddarlleniad llsgrau. FKP *llys y gored*. Gw. GPC 558 d.g.

- cored*, eb. ‘argae i ddal pysgod’. Y tebyg yw fod Einion wedi gwneud defnydd o Felin Chwilog a safai ar lan Afon Carrog (neu Afon Wen) yn ne-orllewin y drefgordd, a bod ganddo hawl hefyd i bysgota ar ei diroedd yn yr ardal honno, gw. Colin A. Gresham, *op.cit.* 341; ll. 36n.
- 52 **Rhywiogwalch Urien Rheged** Ceir yr un ll. yn union yng nghywydd Iolo Goch i Ieuan ab Einion, a cheir yr un nawws i’r ddau gwpled ar eu hyd, gw. GIG 13 (III.25–6) *Rhwydd a gwych y rhoddi ged, / Rhywiogwalch Urien Rheged*. Am Urien Rheged, gw. ll. 15n d.g. *Urien*.
- 59 **gweled** Disgwyliid ‘gwelid’, ond y mae’r llsgrau. oll yn unfrydol o blaid [*g*]/*weled*. Am enghreifftiau prin o ferfau amhff. amhrs. yn dwyn y terfyniad *-ed*, gw. GMW 129.
- 61–4 Ceir disgrifiadau tebyg o allu confensiynol yr uchelwr delfrydol i guro’r cryf a charu’r gwan yng nghywydd Owain Waed Da i wŷr Einion, Madog ab Ieuan, GMBen 16.25–8, 53–6 *A rhoi gyda hir godiad / I wan a llesg dawn wellhad, / A gostwng, hardd ddiflwg hawg, / Wŷr geirwon anhrugarawg. / ... / Draw yn y gad dewr enwog wŷr / Yw hwn, fal yr hen filwr, / Ac oen Duw, gwiw hynod iôn, / Er hyn, gwâr i’r hen gwirion*.
- 62 **Melwas** Cymeriad chwedlonol na chadwyd yr holl draddodiadau Cymreig amdano. Ymddengys fod ei swyddogaeth ef yn y chwedlau Arthuraidd yn cyfateb i’r swyddogaeth a lenwid gan Lancelot mewn ieithoedd eraill, sef carwr godinebus Gwenhwyfar, gwraig Arthur. Ystyridd ef yn safon o ddewrder yng nghanu’r beirdd. Arno, gw. WCD 469–70; Evan D. Jones, ‘Melwas, Gwenhwyfar, a Chai’, B viii (1935–7), 203–8; *The Arthur of the Welsh: The Arthurian Legend in Medieval Welsh Literature*, ed. R. Bromwich, A.O.H. Jarman and B.F. Roberts (Cardiff, 1991), 58–61; TYP³ 379–80; Ian Hughes, ‘Camlan, Medrawd a Melwas’, *Dwned*, xiii (2007), 33–42.
- 65 **Cyfiawna’ cun enwog coeth** Ansicr. Dilynir darlleniad *f*, sy’n rhoi cynghanedd groes o gyswllt ac *f*berfeddgoll yn hanner cyntaf y ll. Ar yr olwg gyntaf, rhydd ß linell haws i’w derbyn o safbwynt cynganeddol, gw. DGG 144 *Cyfiawna ‘cun cefnog coeth [sic]*. Serch hynny, ni cheir enghraifft o’r gair *cefnog* yn GPC 448 cyn yr 16g., ac y mae dilysrwydd nifer o’r darlleniadau amgen a geir yn fersiwn *f* yn sail i dderbyn y *lectio difficilior*, o safbwynt cynganeddol, yn yr achos hwn hefyd. Ni wrthwynebid uno dwy o’r un gytsain pan fyddai un yn yr orffwysfa a’r llall ar ddechrau’r ail ran os na cheid cytsain wahanol rhyngddynt (*cun enwog* > *n*). Ar y math hwn o gyfatebiaeth, gw. J. Morris-Jones: CD 221–3. Ar y llaw arall, gall mai ffurf ar *n* ganolgoll sydd yma. Os gellir derbyn y gynghanedd groes o gyswllt hon dichon mai hi yw’r enghraifft gynharaf o’r gynghanedd honno. Y mae’n werth nodi bod canran y gynghanedd groes yn y cywydd hwn yn anarferol o uchel (60 y cant), a bod ei wead cynganeddol yn gaeth iawn ar ei hyd. Ymhellach ar y groes

o gyswllt yng ngwaith beirdd ail hanner y 14g., gw. nodyn cefndir yr Atodiad.

68 **Brau at enw clau, Brytwn clod** Cynghanedd seingroes, gw. J. Morris-Jones: CD 182. Cf. ll. o gynghanedd seingroes gadwynog yng nghywydd Owain Waed Da i Fadog ab Ieuan, GMBen 16.11n *Mae arwydd gwaed Merwydd gu*. Fe'i cyfrifir yn gynghanedd sain yn yr ystadegau.

71–2A **'th raddio'n bennaeth rhwyddwch / Ar bawb ...** Gw. ll. 9n.

2

Cywydd yw hwn i erchi cymod rhwng y bardd a saith mab Iorwerth ap Gruffudd: Iorwerth, Gruffudd Dwn, Cynfrig, Llywelyn, Rhys, Hywel a Maredudd.¹ Fe'u henwir yn y drefn hon, o'r hynaf i'r ieuengaf yn ôl y patrwm arferol, yn llinellau 9–24. Er nad enwir llys Prysaeddfed, y tebyg yw mai yno yng nghartref y gwelyth yng nghwmwd Llifton ym Môn y datganwyd y gerdd hon am y tro cyntaf. Disgynnai'r teulu o linach enwog Hwfa ap Cynddelw, pennaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd a swyddog yn llys Owain Gwynedd, ac nid bychan oedd nawdd y llinach i'r beirdd.²

Y tebyg yw mai'r cywydd hwn yw'r cywydd cymod cynharaf ar glawr, a'i fod yn dilyn yn nhraddodiad cerddi dadolwch y Gogynfeirdd.³ Y mae'n sicr gryn dipyn yn nes, o ran agwedd a chynnwys, at awdlau ac englynion Beirdd y Tywysogion na'r cywyddau cymod mwy cyfarwydd a ddaeth yn boblogaidd yn ystod y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg.⁴ Ceir elfen o ymddiheuro neu o ymgreinio yn y rhan fwyaf o'r cerddi cymod diweddarach, ond ni cheir dim o'r fath yng nghywydd Gruffudd. Yn wir, y mae rhannau o'r gerdd (llau. 35–44) yn debycach i'r hen gerddi bygwth nag i'r cerddi dadolwch.⁵ Yr oedd y bardd ei hun yn un o dirfeddianwyr Môn

¹ Am eu hach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Hwfa 7'. Eu mam oedd Gwladus ferch Hywel Goeg, ac yr oedd ganddynt ddwy chwaer, Gwerful a Morfudd, ac un brawd, Dafydd, nas enwir yn y cywydd hwn. Am y posibilrwydd fod ganddynt frawd arall o'r enw Einion, gw. DGG 234.

² Am arolwg o'r canu i'r teulu, gw. D.W. Wiliam, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern, Môn', AAST, 1969–70, 41–70. Canodd Bleddyn Fardd farwnad i dad Iorwerth ap Gruffudd, sef Gruffudd ab Iorwerth ap Maredudd, a chadwyd cywydd o waith Rhisieryd yn fab Hywel ab Iorwerth (gw. ll. 21n), sef Hwlcyn, gw. GBF cerdd 56; GSRh cerdd 8. Yr oedd Guto'r Glyn a Hywel Cilan ymhlith y beirdd a ganodd i wyrion Hwlcyn yn ystod y 15g., gw. GGI² 38–40 (cerdd XIV); GHC 32–4 (cerdd XIX).

³ Cf. GMB cerdd 17 (Elidir Sais); GDB cerddi 6 (Einion Wan) a 12 (Phylip Brydydd); GLIF cerddi 3 (Llywelyn Fardd I) a 28 (Gwilym Rhyfel); GCBM ii, cerddi 9 a 10 (Cynddelw Brydydd Mawr).

⁴ Cf. GHD cerdd 24; GLMorg 1 cerdd 2; GMBr cerddi 2 a 9; GSC cerdd 43; GSdT cerdd 2.

⁵ Cf. cerddi bygwth Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch' i Ddafydd ab Owain ac i Ruffudd ap Cynan o Wynedd, gw. GLILI cerddi 2 ac 8; hefyd englyn dychan gan Gynddelw Brydydd Mawr i'r Arglwydd Rhys, gw. GCBM ii, Atodiad. Ymhellach, gw. Catherine McKenna, 'Bygwth a Dychan mewn Barddoniaeth Llys Gymraeg', BaTh 108–21.

(gw. y rhagymadrodd), a'r tebyg yw y byddai llunio cerdd i'w gymdogion yng nghwmwd Llifon wedi bod yn fodd naturiol ac effeithiol iddo gymodi â hwy. Ond beth oedd natur y gynnen? Fel yn achos y rhan fwyaf o gerddi cymod, nid yw'r bardd yn manylu ar yr union reswm dros yr anghydfod gwreiddiol. Ymddengys mai rhyw fath o enllib yn erbyn Gruffudd gan fardd nas enwir yw asgwrn y gynnen (llau. 37–8), ynghyd â'r ffaith fod saith mab Iorwerth ap Gruffudd wedi rhoi coel ar yr enllib hwnnw.

Y mae union natur yr enllib yn ddibynnol ar y modd y dehonglir *cyni* yn llinell 35.⁶ Un posibilrwydd yw fod y bardd dienw y cyfeirir ato yn llinell 37, yn gam neu'n gymwys, wedi lledaenu'r stori fod Gruffudd yn anfodlon â'r nawdd a gâi gan deulu Prysaeddfed. Posibilrwydd arall, ac un sydd mewn gwirionedd ynghlwm â'r cyntaf ac a drafodir yn fanylach isod, yw mai Dafydd ap Gwilym yw'r bardd dienw a barodd anhawster i Ruffudd yn sgil yr ymryson rhyngddynt. Nid yw'n gwbl eglur a yw Gruffudd yn gwadu'r honiadau hyn yn llwyr ai peidio, gan ei bod yn ymddangos fel pe bai ei anogaeth a'i barodrwydd i faddau ac anghofio yn llinellau 55–8 yn broses dwyochrog.⁷ Fodd bynnag, yr hyn sy'n werth tynnu sylw ato yma yw'r modd y mae Gruffudd yn mynd ati'n ddeheuig iawn i sicrhau bod ganddo reolaeth lwyr ar y sefyllfa. Neilltuir ganddo wyth llinell ar hugain ar ddechrau'r gerdd ar gyfer moli'r saith brawd, gan eu gosod yn ei ddyled cyn cychwyn.⁸ Y mae'r mawl yn ddigon confensiynol ac yn dilyn y patrymau arferol: haelioni'r meibion yn bennaf, ynghyd â'u gallu i ymladd (proc arall i'r tân efallai). Pwysleisia Gruffudd ei eirwiredd yn hyn o beth, *nid gair gau* (ll. 22), ond y mae lle i gredu ei fod yn defnyddio technegau cynilach hefyd er mwyn tanlinellu ei neges. Defnyddir yr ansoddair *du* yn bwrpasol deirgwaith i ddisgrifio pryd a gwedd tri o'r meibion (sef Iorwerth, Cynfrig a Llywelyn, llau. 10, 13 a 18) ac unwaith i ddisgrifio Lloegr (ll. 30). Y tebyg yw y byddai'r meibion a gweddill y gynulleidfa wedi gwahaniaethu rhwng gwahanol ystyron yr ansoddair ym mhob achos, ac na fyddai fawr neb wedi uniaethu *Lloegr ddu* â'r disgrifiadau cynharach o walltiau'r meibion. Fodd bynnag, y mae'r ffaith ei bod yn debygol iawn fod o leiaf dri o feibion Iorwerth ap Gruffudd wedi arddel *Du* fel ail enw yn awgrymu y gall fod Gruffudd yn eu rhybuddio'n dawel y gallai, pe mynnai, eu darlunio yn yr un modd â'r Saeson atgas.⁹ Ceidw Gruffudd reolaeth ar y sefyllfa hyd ddiwedd

⁶ Gw. ll. 35n. Yn y ll. hon yn unig y cyfeirir at y cyhuddiadau yn erbyn Gruffudd yn ôl pob golwg, oherwydd er bod Gruffudd yn gwadu gweniaith yn ll. 57, nid yw'n ymddangos fel pe bai hyn yn gyfeiriad at y cyhuddiadau cynharach yn ei erbyn, eithr at ei fawl i'r meibion ar ddechrau'r gerdd.

⁷ Gw. hefyd ll. 59n.

⁸ Cf. y modd y mae Manawydan fab Llŷr yn gorfodi Llwyd fab Cil Coed, pan fo hwnnw yn rhith offeiriad, i roi ei fendith iddo ar ddiwedd trydedd gainc y Mabinogi, gw. PKM 63; Gwyn Thomas, *Gair am Air* (Caerdydd, 2000), 30–1.

⁹ Enwir Iorwerth Ddu, Cynwrig Ddu a Hywel Ddu yn achresi Bartrum, gw. troednodyn 1 uchod; hefyd llau. 12n, 15–16n. Am enghreifftiau eraill posibl o chwarae ag ystyron geiriau wrth eu hailadrodd yn y cywydd hwn, gw. llau. 1n, 5n d.g. *sythagad*, 21n d.g. *uchel* a 49n.

y cywydd, gan mai ef sy'n gweld yn dda i faddau i feibion Iorwerth yn y pen draw (llau. 53–8), ac ef sy'n cynnig unioni'r cam drwy ddiogelu'r meibion (ll. 59).¹⁰ Ei gerdd ef yn unig a all amddiffyn y saith mab rhag sgil-effeithiau ehangach eu hymlyniad wrth y *camathrod*, megis pardduo eu henw da yn y teyrnasoedd y tu hwnt i'r Fenai. Ganddo ef y mae'r gallu i atgoffa'r noddwyr o rym y bardd.

Pwy, felly, yw'r *ffrathr* a fu'n *camathrod*? Naturiol yw pwyntio bys at y bardd a ystyrir yn elyn pennaf i Ruffudd adeg yr ymryson enwog a fu rhyngddynt, sef Dafydd ap Gwilym. Er bod y cyhuddiad hwn yn ymddangos yn oramlwg ar un olwg, y mae digon o le i gredu bod a wnelo'r bardd o Geredigion gryn dipyn â'r trybini hwn a ddaeth i ran Gruffudd ym mro ei febyd. Y mae gallu traddodiadol y bardd i beri niwed yn rhan amlwg o'r bygythiadau y mae'r ddau fardd yn eu hyrddio at ei gilydd ar ddechrau'r ymryson, ac y mae'n sicr y bwriadent i oblygiadau'r dychanu cyson fod yn fwy pellgyrhaeddol na phardduo enw da'r bardd arall yn unig.¹¹ Rhaid cofio bod dychan yn arf grymus iawn yn ystod yr Oesoedd Canol, ac nad yn ddisail, yn ôl pob tebyg, y dywedir i Rys Meigen syrthio'n farw wedi iddo glywed yr awdl ddychan a ganodd Dafydd iddo.¹² Y tebyg yw fod Gruffudd wedi derbyn ymateb llymach nag yr oedd wedi ei ddisgwyl yn wreiddiol i'w gywydd dychan cyntaf i Ddafydd. Amddiffynnodd y bardd o Geredigion ei hun yn ei ymateb i gerdd Gruffudd drwy ymosod yn hallt ar y bardd o Fôn, gan honni ei fod yn llên-ladratwr.¹³ Onid oedd hyn yn gymaint gwarth ar Ruffudd ag yr oedd ei feirniadaeth yntau o ganu serch Dafydd, ac yn fodd i lusgo ei enw drwy'r baw yn rhai o lysoedd Môn? Ymddengys fel pe bai'r holl beth wedi troi'n dipyn o hunllef i Ruffudd, gan fod enwogrwydd yr anghydfod, ac, o ganlyniad, enwogrwydd cyhuddiadau Dafydd yn ei erbyn, wedi tyfu erbyn iddo ateb Dafydd am y trydydd tro:

Rhoed ethrod, annod ynni,
 Rho Duw mawr, yrhod a mi.
 Credaist ef, croywdyst ofer,
 Crediad yw a glyw y glêr.¹⁴

Onid yr un yw'r *ethrod* uchod â'r *camathrod* yn llinell 37 y cywydd hwn?¹⁵ Y mae cynddaredd Dafydd yn cyrraedd ei anterth yn ei bedwerydd cywydd ymryson, lle y mae'n mynd ati'n ddidrugaredd i felltithio Gruffudd ac i hawlio ei le ym mro mebyd y bardd.¹⁶ Fodd bynnag, y mae'n bosibl fod y drwg wedi'i wneud eisoes:

¹⁰ Ar wahanol ystyron *dieniwa*, gw. ll. 59n.

¹¹ Gw. DG.net 24.29–30, 33–8, 25.21–4.

¹² Gw. *ib.* nodiadau cerdd 31; Gruffudd a Dafydd yn yr ymryson, *ib.* 27.65–6, 28.53–6.

¹³ Gw. *ib.* 24.39–62, a'r rhagymadrodd tt. 14–15.

¹⁴ Gw. DG.net 27.3–6.

¹⁵ Gw. hefyd *ib.* 27.9–10, 28 (*syml dy ffug*).

¹⁶ Gw. *ib.* 28.3–4 (*Mefl ar dy farf yn Arfon, / Ac ar dy wefl mefl ym Môn*), 33–40.

Dianc rhag clêr yn eres
Ydd wyd, taw lysfwyd di-les. ...

Diwyl dy hwyl i hoywlys,
Dielw ddyn, dy alw ydd yŷ
Draenen gwawd, druenyn gwedd,
Neu eithinen iaith Wynedd.
A chadw cam, o chydce mir
Â thi ar fordwy a thir,
Daith draws, ni wnei dithau draw
Amgenach nag ymgeiniaw. ...

Tithau, o'r lle'th amheuir
O doi di i'r Deau dir ...¹⁷

Er y dylid gochel rhag llyncu honiadau Dafydd yn ddigwestiwn, dengys y llinellau hyn yn eglur fod Gruffudd wedi dioddef ergyd i'w enw da.¹⁸ Etyb Gruffudd drwy restru'r mathau o ganu na all ymhél â hwy rhagor gan ei fod yn gorfod neilltuo ei amser i ganu dychan i Ddafydd, a bron nad yw fel pe bai'n dyheu am gael dychwelyd i'r mathau diogel hynny o ganu y bu'n eu harfer cyn yr ymryson, megis canu serch i Weirful a chanu dychan i Dudur Goch ab Iorwerth.¹⁹ Er na chrybwyllir canu mawl i uchelwyr yn benodol, gellid disgwyl bod yn rhaid i Ruffudd esgeuluso'r agwedd hon ar ei waith hefyd yn sgil yr ymryson.²⁰ Yn wir, y mae'n berffaith bosibl fod diben y cywydd cymod hwn yn adlewyrchu'r math o anhawster a ddaeth i'w ran. Yn ei bedwerydd cywydd ymryson ymetyb Gruffudd fel hyn i'r ffaith fod Dafydd yn hawlio ei le ym Môn:

Mae saith o gymydeithion
I mi'n Aberffraw ym Môn,
Aml ym roddiad profadwy,
Am un i Ddafydd, a mwy.²¹

A oes arwyddocâd arbennig i'r modd y mae Gruffudd yn honni bod ganddo saith cyfaill yn Aberffraw am bob un sydd gan Ddafydd? Er nad oes modd profi i sicrwydd mai at saith mab Iorwerth ap Gruffudd y cyfeirir yma, erys yn bosibilrwydd cryf yn sgil tystiolaeth y cywydd cymod hwn a'r ffaith fod tref Aberffraw yn ganolfan i gymydau Llifon a Malltraeth yn ystod yr Oesoedd Canol.²² Byddai cysylltu teulu Prysaeddfed ag enwogrwydd a

¹⁷ Gw. *ib.* 28.7–8, 21–8, 41–2.

¹⁸ Cf. *ib.* 28.31–2, 61–2.

¹⁹ Gw. *ib.* 29.1–22.

²⁰ Cf. *ib.* 29.9–12.

²¹ Gw. *ib.* 29.33–6.

²² At gantref Aberffraw yn benodol, yn hytrach na'r dref o'r un enw, y cyfeirir yma yn ôl E.D. Jones, 'Cartre Gruffudd Gryg', *Cylchg LIGC x* (1957–8), 230.

statws Aberffraw yn debygol o'u plesio hwy ac o ddynodi arwyddocâd pellgyrhaeddol i gynulleidfaeoedd ledled y wlad (ac yng Ngheredigion yn benodol efallai). Os felly, y tebyg yw fod y cywydd cymod wedi'i ganu yn sgil tri chywydd dychan cyntaf Dafydd i Ruffudd (a'r trydydd cywydd yn arbennig), a chyn neu ar ôl i Ruffudd ganu ei bedwerydd cywydd. Ar y naill law, go brin y byddai Gruffudd wedi dewis cyfeirio at y saith mab pe na bai eisoes wedi cymodi â hwy ac wedi sicrhau eu cefnogaeth. Ar y llaw arall, ac er mwy o embaras i Ruffudd, gall fod ei anghydfod â'r meibion wedi deillio o'r ffaith iddo grybwyll eu cefnogaeth iddo yn ddi-sail yn ei bedwerydd cywydd ymryson. Bid a fo am hynny, erbyn i Ddafydd ganu ei bedwerydd cywydd y mae'n ymddangos fel pe bai statws Gruffudd fel bardd wedi newid, a bod rhywrai a chanddynt awdurdod (ym Môn o bosibl) bellach yn gefn iddo:

O chafas y gwas, wg wên,
Urdd newydd ar ddwyn awen ...²³

Nid yw'n eglur pa *urdd newydd* sydd wedi dod i'w ran, ond gall fod ateb yn llinellau 49–50 y cywydd cymod:

Rhywiach i chwi, hil rhi rhydd,
Garu pencerdd no'i gerydd.

Byddai wedi bod yn *rhywiach* i Ruffudd yntau grybwyll ei statws newydd mewn cywydd cymod, a gellir ymdeimlo â rhywfaint o falchder yn y llinellau hyn o ganlyniad.²⁴ Ai balchder bardd ifanc yw hyn? Fel y gwelir isod yn y nodiadau gyferbyn ag enwau'r meibion, y mae enwau'r rheini sy'n cael eu crybwyll mewn cofnodion o'r cyfnod yn digwydd yn fras rhwng c.1340 a c.1355. Rhoddodd Ifor Williams y meibion yn eu blodau rhwng 1350 ac 1360, ac awgrymodd D.W. Wiliam i'r cywydd hwn gael ei ganu c.1350.²⁵ Un mab i Iorwerth ap Gruffudd nas enwir gan Ruffudd yw Dafydd, a fu farw'n fuan cyn 19 Medi 1346.²⁶ Gan ei bod yn debygol iawn y byddai Gruffudd wedi enwi Dafydd pe bai wedi canu'r cywydd cyn 1346, ni ellir gwell ar hyn o bryd na chytuno ag awgrym D.W. Wiliam. Y mae'n dilyn hefyd fod yr ymryson rhwng Gruffudd a Dafydd wedi'i gynnal c.1350.²⁷

²³ Gw. DG.net 30.15–16; cf. hyn â chyfeiriadau'r ddau fardd at ennill gradd farddol yn sgil yr ymryson, gw. *ib.* 27.13–14, 23–4, 29.27–8.

²⁴ Efallai fod hyn yn rhyw gymaint o ateg o blaid dadlau i Ruffudd ganu'r cywydd cymod ar ôl iddo ganu ei gywydd olaf yn yr ymryson, gan nad yw'n cyfeirio at ei radd newydd yn y cywydd hwnnw. Ymhellach ar statws pencerdd, gw. 4.32n.

²⁵ Gw. Ifor Williams, 'Dafydd ap Gwilym a'r Glêr', THSC, 1913–14, 204 (rhoddodd 1360–70 yn wreiddiol, gw. DGG 234); D.W. Wiliam, *art.cit.* 50.

²⁶ Gw. troednodyn 1 uchod; D.W. Wiliam, *art.cit.* 48–9. Y mae'n bosibl fod enw Dafydd yn absennol gan na thramgywyddodd Gruffudd yn ei erbyn (gw. *ib.*), neu gan fod Dafydd yn fab i fam wahanol i'r saith arall. Y mae'r posibiladau hyn, fodd bynnag, yn annhebygol iawn.

²⁷ Am y dadleuon yn erbyn dyddio'r ymryson cyn 1346 (fel yr awgrymodd D.J. Bowen), gw. nodyn cefndir cerdd 4. Y gred ddiweddaraf yw na bu Dafydd fyw yn hwyrach nag 1350, gw. LIU 111, lle y derbynnir awgrymiadau R. Geraint Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym* (Caernarfon, 1987), 21–

Ceir cymeriad llythrennol cyfnewidiol agos gyflawn o'r dechrau hyd linell 28, ac y mae'n ddiddorol mai yn y llinellau hyn hefyd y ceir mawl confensiynol Gruffudd i'r meibion. Ni wneir rhyw lawer o ddefnydd o'r addurn hwn yng ngweddill y gerdd, lle y mae Gruffudd yn mynd i'r afael â'r gynnen yn ei erbyn ac yn gwneud defnydd helaeth o frawddegau estynedig.

Golygydd y cywydd hwn yn DGG 145–7.

Cynghanedd: croes 15 ll. (24 y cant); traws 15 ll. (24 y cant); sain 27 ll. (44 y cant); llusg 5 ll. (8 y cant).

1 **diwarth** Cf. ll. 4. Ceir dwy ystyr yn GPC 1055: (a) 'heb ymdeimlad o gywilydd neu wyleidd-dra, digywilydd'; (b) 'di-fai, gweddus'. Nid oes lle i gredu y byddai beirdd y 14g. yn ailadrodd yr un gair o fewn ychydig lau. yn ddibwrpas, felly ai chwarae ar wahanol ystyron *diwarth* y mae Gruffudd yn y llau. hyn?

2 **Iorwerth ap Gruffudd** Tad y saith mab a gyferchir yn y cywydd hwn, a phatriarch y teulu ym Mhrysaeddfed ar ddechrau'r 14g. Am ei ach, gw. y nodyn cefndir uchod. Ceir cyfeiriadau ato mewn cofnodion rhwng 1284 ac 1294 ac yn 1316, ac y mae'n bosibl iddo gael ei adnabod fel Iorwerth Wystl am gyfnod, gw. D.W. Wiliam, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern, Môn', AAST, 1969–70, 46n26. Y mae'n annhebygol iddo fyw i glywed y gerdd hon.

Iorwerth ap Gruffudd, budd byd Ceir ll. wythsill ym mhob un o'r llsgrau. cynnar: *Iorwerth ap Gruffudd, budd y byd*. Er bod y fersiynau seithsill o'r ll. hon, nas ceir ond mewn nifer bychan o llsgrau. diweddar, yn ymddangos fel diwygiadau gan gopiŵyr yr 16g., dewiswyd y darlleniad uchod yn absenoldeb enghreifftiau digamsyniol o lau. wythsill yng ngwaith Gruffudd a'i gyfoeswyr; cf. DG.net 139.18n.

3 **hwylwin** Llsgrau. cynharaf: A *haelwin*, BLO *hwylwin*, F *heilwin*. Gwelir bod *haelwin* yn rhy debyg i *haelion*, ac er bod y darlleniad a geir yn llsgr. F yn bosibl, dewiswyd darlleniad llsgrau. BLO, gan gynnig bod *hwylwin* naill ai'n dwyn yr un ystyr â *heilwin* ('gwin a ddarperir neu a dywelltir', gw. GPC 1840; cf. *ib.* 1940 d.g. *hwyliaf* 2(a), 'gosod allan; cyflenwi'), neu'n syml 'gwin y wledd' (gw. *ib.* 1938 d.g. *hwyl*²) neu 'sy'n gweini gwin'.

4 **buarth Môn** 'Cyrchfa Môn'. Cf. Iolo Goch yn ei gywydd i feibion Tudur o Fôn, GIG 23 (V.45) *Buarth clyd i borthi clêr* hefyd Dafydd ap Gwilym yn ei gywydd i Niwbwrch ym Môn, DG.net 18.18n *Pentan, buarth baban beirdd*.

5 **seithgarw** Cf. ll. 25 *Fy ngheirw haelion*; hefyd Hywel Cilan a Guto'r

2. Seiliwyd y ddadl honno ar y ffaith fod y dymaid prin o gerddi sy'n eiddo i Ddafydd y gellir eu dyddio ag unrhyw sicrwydd yn perthyn i dridegau a phedwardegau'r ganrif. O ganlyniad, gellid, pe mynnid, ddyddio'r cywydd hwn rhwng 1346 ac 1350.

Glyn i orwyrion Hywel ab Iorwerth (ll. 21n), GHC 33 (XIX.46) *Mae y gair mawr i geirw Môn*; GGI² 40 *pum karw y glod*.

sythgad ‘Brwydr galed’. Ceir ystyron negyddol a chadarnhaol ar gyfer *syth* yn GPC 3400, ond y mae’n anodd peidio â rhoi ystyr negyddol iddo yn y cyd-destun hwn. Cf., felly, *sythgar* yn ll. 43, gair cyfansawdd tebyg i *sythgad* a gynganeddir â’r un gair yn fras (*seithgarw / saith*). Er y gellid rhoi ystyr gadarnhaol i *sythgar* yn ll. 43, fe’i hystyrir yn negyddol yn unol â’r modd y defnyddir *sythgad* yn ll. 5 (*sythgar* > ‘perthynas / cyfaill caled / ystyfnig’). Ymhellach ar ddefnydd cynnil y bardd o eiriau a chanddynt wahanol ystyron yn y gerdd, gw. y nodyn cefndir uchod.

7 **Môn mam ynys** Ar yr e. traddodiadol ar yr ynys, gw. 8.30n. Cf. Iolo Goch yn ei gywydd i feibion Tudur o Fôn, GIG 23 (V.39–41) *Môn ... // Mam Wynedd*.

9 **Iorwerth ab Iorwerth** Mab hynaf Iorwerth ap Gruffudd yn ôl y rhestr hon. Am ei ach, lle y’i gelwir yn Iorwerth Ddu, gw. y nodyn cefndir uchod. Enwir ef yn dyst i weithred ynghylch tiroedd ym Môn yn 1336/7, ac fe’i gelwir yn Iorwerth Ddu mewn rhai cofnodion eraill, gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 49. Y tebyg yw fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ll. 10 mewn rhai llsgrau.

10 **Gu gyweirddu gywirddoeth** Ni cheir darlleniad boddhaol ar gyfer y ll. hon yn yr un o’r llsgrau. cynharaf. Y mae darlleniadau BFO yn amlwg lwgr, er bod y ffaith eu bod yn mynnu ailadrodd *cywir* yn rhyw gymaint o ateg o blaid *gyweirddu gywirddoeth* ar draul yr amrywiadau ar *geirddoeth* a geir ar ddiwedd y ll. hon yn llsgrau. ABO. Ceir *ddv gywairddv* yn llsg. L, o bosibl yn sgil y ffaith y gelwid gwrthrych y mawl yn y ll. hon yn Iorwerth Ddu (gw. ll. 9n), ond nid oes lle i gredu yr ailadroddai’r beirdd yr un a. o fewn yr un ll. fel hyn. Ymddengys fod darlleniad llsg. A, *gv gowirddv*, yn nes ati, gan gynnal y cymeriad llythrennol â llau. 11–12 a’r cyflythreniad yng ngweddill y ll. hon ac ar ddiwedd ll. 9. Yn llsg. L y ceir yr unig ddarlleniad boddhaol ar gyfer gweddill y ll. (*gywairddv gywirddoeth*), sydd fel pe bai’n adlewyrchu’n gywir yr hyn y mae nifer o’r llsgrau. eraill yn ymgynraedd tuag ato.

12 **Gruffudd Dwn** Gruffudd Dwn ab Iorwerth, yr ail fab yn ôl y rhestr hon. Am ei ach, gw. y nodyn cefndir uchod. Cyfeirir ato mewn cofnodion yn 1339, 1343 ac 1346, ac ymddengys ei fod yn weithgar iawn yn llysoedd Llifon a Thwrn Mawr Llifon yn ystod y cyfnod hwn. Y mae’n bosibl iddo ymgartrefu yn Chwaen Ddu ym mhlwyf Llantrisaint yng nghwmwd Llifon (gw. WATU 139) neu yng Ngheidio yn sir Gaernarfon (gw. DGG 234; WATU 39). Arno, gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 49, lle’r awgrymir mai at weithgarwch Gruffudd Dwn yn y llysoedd y cyfeirir yn y ll. hon: *ddidwn ei ddadl*. Dengys ei ail enw fod ganddo, fel nifer o’i frodyr, bryd tywyll, a’r tebyg yw fod chwarae geir-

iol pwrpasol yn y modd y mae Gruffudd Gryg yn negyddu'r a. yn *didwn*, gw. GPC 1105 d.g. *dwn* a'r nodyn cefndir uchod.

Gruffudd Dwn, ddidwn ei ddadl Ceir ll. chwesill, *Gruffudd Dwn, ddidwn ddadl*, yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. cynharaf, a gall fod peth sail i'r fersiwn hwnnw o'r ll., cf. ll. 16n. Fodd bynnag, derbyniwyd y ll. seithsill a geir yn llsgrau. F ac L ar gyfer y golygiad hwn.

13 **Cynfrig** Cynfrig ab Iorwerth, y trydydd mab yn ôl y rhestr hon. Am ei ach, lle y'i gelwir yn Gynfrig Ddu (cf. *hoywddu* yma), gw. y nodyn cefndir uchod. Y tebyg yw mai ato ef y cyfeirir (wrth ymyl ei frawd, Hywel, gw. ll. 21n) fel 'Ken Duy' mewn gweithred sy'n trafod tir yn Nhregwehelyth yn 1355, gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 50.

15 **llywiau waladr** Gw. GPC 2288–9 d.g. *llywiau* (a) 'rheoli, arwain'; (b) 'pennu cwrs neu gyfeiriad'; (c) 'curo, dyrnu'. Y drydedd ystyr sydd fwyaf priodol yn y cyd-destun hwn, 'curai bennaeth', er na cheir enghraifft ohoni cyn y 15g. yn ôl GPC. Fodd bynnag, gall hefyd fod y ddwy ystyr arall yn berthnasol fel disgrifiad o wasanaeth Llywelyn i'w arweinydd (y brenin?) mewn byddin.

15–16 **Llywelyn ... / Ab Iorwerth** Y pedwerydd mab yn ôl y rhestr hon. Am ei ach, gw. y nodyn cefndir uchod. Y mae'n bosibl ei fod yn cael ei alw yn Llywelyn Ddu, gw. ll. 18 *Lliwddu gwedd*; cf. llau. 9n, 13n, 21n. Ef yw'r unig un y rhydd y bardd ddau gwpled o fawl iddo, a thynnodd D.W. Wiliam sylw at y ffaith fod hyn yn mynd 'yn groes i arfer diwedd-arach pryd y rhoddai'r beirdd bwyslais ar gymesuredd allanol eu gwaith', gw. *art.cit.* 52. Yn wahanol i Guto'r Glyn, a luniodd ddau gwpled o fawl yr un i bum orwyr Hywel ab Iorwerth (gw. ll. 21n), rhydd Gruffudd gwpled yr un i bob un o feibion Iorwerth ac eithrio Llywelyn, gw. GGI² 38 (XIV.9–28). Ceir cyfeiriadau at Lywelyn mewn cofnodion yn 1337–57/8 ac yn 1352, gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 49–50. Nodir hefyd ei fod yn dyst i weithred yn 1336 ac yn 1338 a oedd yn ymwneud ag un Iorwerth ap Cynfrig ap Gruffudd, sef brawd i Ruffudd Gryg yn ôl pob tebyg, gw. E.D. Jones, *Cylchg LIGC x* (1957–8), 230–1. A yw hyn yn awgrymu bod gan Ruffudd a'i deulu berthynas agosach â Llywelyn nag â'r chwe brawd arall, ac mai o achos hynny y rhoddodd gwpled ychwanegol o fawl iddo?

16 **Ab Iorwerth, gydnerth gadr** Fel yn achos ll. 12n ceir sillaf gadarnleddf yn safle'r brifodl mewn cynghanedd sain anghytwys ddyrchafedig, ynghyd ag ansicrwydd ai ll. chwesill neu seithsill yw hi. Fodd bynnag, yn wahanol i l. 12, ll. chwesill yw hon yn y llsgrau. bron yn ddieithriad, ac ni ellir ei diwygio'n foddhaol (e.e. E.D. Jones, *art.cit.* 231, 'Ap Iorwerth [sydd] gydgerth gadr'). Er mai prin yw'r enghreifftiau o ystyried sillaf gadarnleddf yn ddeusill, a bod yr odl (*[g]waladr* yn yr achos hwn) yn dilysu'r ffurf *gadr* i raddau helaeth, rhaid ystyried y

posibilrwydd y gallai rhai geiriau cadarnleddf fod yn acennog ac yn ddiacen yr un pryd yng nghyfnod cynnar y cywydd. Ymhellach ar y sillaf gadarnleddf, gw. J. Morris-Jones: CD 150–1, 167; ll. 30n.

17 **Lliwon** Cwmwd Llifton yng nghantref Aberffraw ym Môn, lle y safai prif lys teulu Iorwerth ap Gruffudd ym Mhrysaeddfed, gw. WATU 145; D.W. Wiliam, *art.cit.* 40 (map). Ymddengys i'r enw beri trafferth i rai o gopiŵyr y llsgrau. hynaf: AL *lleon*, B *llivon*, F *lliwon*, O *llewon*. Gan nad yw darlleniadau llsgrau. A a B ar gyfer gweddill y ll. yn argyhoeddi, a chan ei bod yn debygol iawn mai at y cwmwd lle y safai cartrefi'r meibion y cyfeirir yma, ochrwyd â darlleniad llsgr. F (gthg. 8.18: *Lliwan*). Fodd bynnag, y mae'n werth sylwi ar ddarlleniadau llsgrau. A ac L, a thynnu sylw at y ffaith fod Lleon, a gysylltid â Chaerllion ar Wysg, a Lleon Gawr, a gysylltid â Chaer (S. *Chester*), yn gymeriadau chwedlonol a ddefnyddid gan rai beirdd mewn cerddi i noddwyr nad oedd ganddynt unrhyw gyswllt amlwg â'r trefi hynny, gw. GDC 12.40n (Ieuan Llwyd ab y Gargam i Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan); GGMD i, 4.95n a GGMD iii, 1.63n (Gruffudd ap Maredudd i Oronwy Fychan ap Tudur ac i Owain Lawgoch); GGDT 11.17n (Trahaearn Brydydd Mawr i Hywel o Landingad); ar y ddau gymeriad, gw. WCD 407, 414 (d.g. *Llion Gawr*).

19 **Rhys** Rhys ab Iorwerth, y pumed mab yn ôl y rhestr hon. Am ei ach, gw. y nodyn cefndir uchod. Ceir cyfeiriadau ato mewn cofnodion yn 1343 ac 1346, gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 50. Roedd ei orwyr, Huw ap Morgan, yn Archddiagon Môn ac yn Ddeon Bangor, gw. DGG 234; Dafydd Wyn Wiliam, 'Deoniaid Bangor ac Archddiaconiaid Môn rhwng 1450 a 1500', *Tlysau'r Hen Oesoedd*, 21 (2007), 9–10.

20 **rhudd ac aur** '[Gwisgoedd o liw] coch ac aur', cf. GGMD iii, 5.45n.

21 **Hywel** Hywel ab Iorwerth, y chweched mab yn ôl y rhestr hon. Am ei ach, lle y'i gelwir yn Hywel Ddu, ynghyd â'r cerddi a ganwyd i'w orwyrion gan nifer o feirdd yn ystod y 15g., gw. y nodyn cefndir uchod. Ceir cyfeiriadau ato mewn cofnodion yn 1339, 1346 ac 1355, gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 50. Canodd Rhisierdyn gywydd mawl i'w fab, Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed, a'r tebyg yw ei fod yntau wedi parhau ag arfer ei dad a'i ewythredd o ddadlau â thrigolion Môn: *Digiwr wrth ei gymdogion, / Da wrth ddieithriaid o dôn*, gw. GSRh 8.31–2. Y mae'n bosibl i Hywel gael ei enwi ar ôl ei ewythr Hywel ap Gruffudd, neu Syr Hywel y Pedolau fel y'i gelwid, gw. GSdT 16.31n.

Hywel o uchel iachau Cf. GSRh 8.7 *Ap Hywel uchel iachoesedd* (Rhisierdyn i Hwlcyn ap Hywel). Y tebyg yw fod Rhisierdyn wedi mynd ati'n fwriadol i adleisio ll. benodol o gywydd enwog Gruffudd wrth foli mab Hywel.

uchel Defnyddir yr a. ddwywaith yn y cywydd hwn, gw. ll. 35. Gellid

yn hawdd ddehongli ystyr *uchel* yn y ll. hon yn gadarnhaol, ond nid felly yn achos yr ail enghraifft, cf. llau. 5n a 49n. Y tebyg yw mai ‘difrifol, pwysig’ yw’r ystyr fwyaf addas ar gyfer y ddwy enghraifft, a gall fod hyn yn fodd i Ruffudd ddangos ei fod yn pwyso ei fuddiannau ef a phwysigrwydd llinach ei noddwyr yn yr un glorian.

22 **hael ac anwair** Dilynir darlleniad llsgr. O *hael anwair*, a droes yn *hael aniwair* (gw. GPC² 339 d.g. *anniwair* (a) ‘anfoesol’; (b) ‘anwedus’; (c) ‘anffyddlon’) mewn nifer o lsgrau. cynnar eraill. Y tebyg yw fod y copïwyr wedi mabwysiadu’r darlleniad anghywir hwn yn sgil agwedd Gruffudd at y meibion yng ngweddill y cywydd. Ceir *diwair* mewn rhai llawysgrifau eraill.

23 **Maredudd** Maredudd ab Iorwerth, y seithfed mab, a’r ieuengaf, yn ôl y rhestr hon. Am ei ach, gw. y nodyn cefndir uchod.

27 **brwydrdro** Nis ceir yn GPC, nac yn nifer o’r llsgrau. cynharaf, cf. A *brwydr glo*, B *brwydr bro*, F *brwyglo*. Ymddengys fel pe bai *brwydrdro* (LO) yn fwy addas, sef ‘hynt brwydr’ neu ‘argyfwng treisgar’, gw. GPC 3602 d.g. *tro*¹.

28 **draig o Loegr** Tybed ai hon yw’r ddraig wen a ymladdai yn erbyn draig goch y Cymry ac a gynrychiolai genedl y Saeson yn ôl y chwedlau? Ceir un fersiwn o’r firwydr yn chwedl ‘Lludd a Llefelys’, ac un arall yn ‘Historia Brittonum’, gw. *Cyfranc Lludd a Llefelys*, ed. Brynley F. Roberts (Dublin, 1975), 4 (llau. 92–110), 5 (llau. 129–38); BD 100–4; TYP³ 99–101.

drwg lygad Ceir sôn am lygaid a chanddynt bwerau difaol anhygoel mewn chwedlau ledled y byd. Am y cyd-destun Celtaidd, gw. James MacKillop, *Dictionary of Celtic Mythology* (Oxford, 1998), 174, 314–15. Cf. Gwydd. *drochshuil*; Gael. yr Alban *droch shùil*; Manaweg *drogh hooil*, gw. *ib.* 174. Y cymeriad unllwygeidiog enwocaf mewn mytholeg Geltaidd yw’r cawr Gwyddelig Balor, a cheir cysylltiadau rhyngddo ac Ysbaddaden Bencawr, gw. *ib.* 29; CO³ 124 (517n). Am enghreifftiau eraill o *drwg lygad*, gw. GPC 1089 d.g. *drwglygad*.

29 **deulu** Cyfuniad o *dau a llu*, yn hytrach na ffurf dreigledig *teulu*.

29–34 Ceir tebygrwydd rhwng neges sylfaenol y stori drosiadol a ddarlunnir yn y llau. hyn ac agwedd Gruffudd at yr anghydfod rhyngddo a Dafydd ap Gwilym; er iddo ladd ar ganu serch Dafydd ni ellir gwadu’r ffaith iddo gymodi ag ef yn y pen draw, gw. cerdd 4. Ond nid yw’n eglur paham y mae Gruffudd yn dewis cyfeirio at *wŷr Lloegr ddu*, gan ddymuno [*g*]/*wneuthur iawn* am ladd un ohonynt er ei fod wedi melltithio’r Saeson ddwywaith eisoes yn llau. 30 a 31. Efallai mai’r pwynt yw: petai Gruffudd mewn ysgarmes yn lladd Sais—yr hen elyn—câi bardwn ond gwneud iawn. Pam felly, meddai, yr oedd y saith mab yn dal dig (36)?

- 30 Ll. chwesill yn ôl y dull arferol o gyfrif sillafau, ond y tebyg yw y gellid yngan naill ai *llwgr* neu *Lloegr*, sillafau cadarnleddf ill dau, yn ddeusill ar lafar, cf. llau. 16n a 53n.
- 33 **mi a'i rhygawn** Am y gystrawen, cf. GMB 33.89 *Creawdr a'i rhygreas*. Ceir *rhygafas* yn GLILL 17.44. Nid yw'n syndod fod y ffurf hynafol hon wedi peri trafferth i gopiŵyr diweddarach.
- 35 **cwyn cyni** Ceir dau ddehongliad posibl: 'cwyn [o] galedi [ariannol]' neu 'cwyn [o achos] brwydr, dadlau'. Y mae'r dehongliad cyntaf yn hwyluso'r dasg o esbonio anfonlonrwydd meibion Iorwerth ap Gruffudd â Gruffudd Gryg, ond y mae'r ail ddehongliad fel pe bai'n cysylltu'r cywydd ag ymryson Gruffudd â Dafydd ap Gwilym. Y mae'n bosibl fod Gruffudd ei hun yn gwneud defnydd o *cyni* yn yr ystyr 'brwydr, dadlau' yn ei bedwerydd cywydd ymryson er mwyn disgrifio'r anghydfod rhyngddo a Dafydd: *Cwynaf na chaf, rhag cyni, / Cenau tom, canu i ti*, gw. DG.net 29.19–20. Ceir 'gofid' a 'distress' am *cyni* yn yr aralleiriad a'r cyfieithiad o'r gerdd ar y wefan, ac fe'i cyfieithir fel 'conflict' gan Gwyn Thomas, *Dafydd ap Gwilym, His Poems* (Cardiff 2001), 302 (cerdd 153, ll. 19); cf. 'hardship', *ib.* 180 (cerdd 89, ll. 35); 'fighting', *ib.* 254 (cerdd 129, ll. 32). Y mae'n berffaith bosibl fod y ddwy ystyr yn ddilys, a bod y naill wedi deillio o'r llall beth bynnag yn achos Gruffudd yn y cywydd hwn. Ar y llaw arall, gall mai at ei gŵyn ef ei hun yn erbyn y saith mab y mae Gruffudd yn cyfeirio yn y ll. hon.
- 37 **ffrathr** Amr. ar *ffradr*, 'brawd crefyddol', yn ôl GPC 1308. Awgrym-odd Ifor Williams fod y beirdd yn arfer *ffrathr* am fath o fardd eilradd, gw. DGG 235; cf. GLGC 146 (63.23–4) *Ni charai ef yn iach rydd / ffrathr mwy no pherthi'r mynydd*; GTP 62 (36.II.35–6) *Chwithau, wythwyr, ewch weithian, / Na theriwch mwy, ffrathrach mân*. Y mae'n bosibl i fardd dienw ddefnyddio *ffradr* yn y cyd-destun hwn mewn cerdd ddychan i ŵr o'r enw Bleddyn a gadwyd yn Llyfr Coch Hergest, gw. GPB 8.36 *Gwar ffradr mul anghadr, myn Melangell*. Ar y tebygolrwydd mai at Ddafydd ap Gwilym y cyfeirir yma, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 43 **anfaith** Gw. GPC² 274, 'byrhoedlog, darfodedig; ?anwadal'. Y drydedd ystyr sy'n gweddu orau yn y cyd-destun hwn, ond efallai fod 'annoeth' yn nes ati mewn gwirionedd, gw. GPC 2325 d.g. *maith* (c) 'doeth, hirben, call'.
- 46 **suddwyf ar fôr** Dywediad digon cyffredin ar yr olwg gyntaf, ond y mae'r cerddi diweddarach a ganodd Gruffudd adeg ei bererindod i Santiago de Compostela yn tystio i'w hoffter a'i gynefindra â delweddau a geirfa forwrol, gw. cerddi 6 a 7. Cf. hefyd yr hyn a ddywed Dafydd ap Gwilym am Ruffudd yn y trydydd a'r pedwerydd cywydd a ganodd iddo yn yr ymryson, DG.net 28.25–8 *A chadw cam, o chydce mir / Â thi ar fordwy a thir, / Daith draws, ni wnei dithau draw / Amgenach nag*

ymgeiniaw, *ib.* 30.25–8 *Haws oedd yng Ngwynedd weddu / Tad i Fleddydd o'r dyn du, / Nag efô, hwylio heli, / O dud Môn yn dad i mi* (cf. hefyd *ib.* 29.9–12). Efallai y dylid cofio hefyd fod Môn yn ynys na ellid mynd iddi yn ystod yr Oesoedd Canol ond ar gwch neu long.

- 47 **Bach haearn gafaalgarn gŵr** Cf. DG.net 81.11n *Bach haearn gafaalgarn gael*. Ceir *gafaelfarn* mewn nifer o'r llsgrau. cynharaf yn achos cerdd Dafydd, ond llsg. F yw'r unig lsg. gynnar sy'n cynnwys y darlenniad hwnnw yn achos y gerdd hon. Os Dafydd a gyfansoddodd y ll. yn wreiddiol yn ei gywydd ysgafn ynghylch gwewyr serch, 'Saethu'r Ferch', gall fod Gruffudd wedi ei hadleisio'n fwriadol yn y cywydd cymod hwn er mwyn dymuno caethiwed gwirioneddol i Ddafydd (y tebyg yw mai at Ddafydd y cyfeirir yn ll. 37, gw. y nodyn cefndir uchod). Dylid cadw mewn cof mai yn sgil anfodlondeb Gruffudd â cherddi tebyg i 'Saethu'r Ferch' y lluniodd ei gywydd dychan cyntaf i Ddafydd.
- 49 **rhywiach** Sylwer ar y modd y mae Gruffudd yn ei ddisgrifio ei hun fel *gwas urddasryw* yn y ll. nesaf ond un. Y mae'n bosibl fod ymgais i uniaethu'r bardd â'i noddwyr yn y modd y mae Gruffudd yn defnyddio'r un e. i gyfarch y meibion ac i'w ddisgrifio ef ei hun, cf. llau. 5n a 21n.
- 50 **pencerdd** Yn ôl pob tebyg y radd farddol a enillodd Gruffudd yn sgil ei ymryson â Dafydd ap Gwilym, gw. y nodyn cefndir uchod; 4.32n.
- 53 **Digon yw, pwnc dygn oedd** Ll. chwesill, cf. ll. 30n. Y mae'n bosibl yr yngenid *dygn*, sillaf gadarnleddf, yn ddeusill yn yr achos hwn.
- 54 **saer ieithoedd** Ar hoffter y beirdd, a Dafydd ap Gwilym yn arbennig, o gplysu eu crefft â chrefft y saer, gw. 5.4n.
- 55–8Y tebyg yw y dylid cysylltu'r hyn y mae Gruffudd yn gwadu iddo ei wneud yn ll. 58 (*Ni wneuthum*) â'r hyn y mae'n honni i feibion Iorwerth ap Gruffudd ei wneud yn llau. 55–6 (*Beth bynnag ... / A wnaethoch*). H.y., y mae Gruffudd yn cynnig anghofio am yr holl beth a chychwyn o'r newydd: 'Beth bynnag a wnaethoch chi i mi, ni wnes i i chi ychwaith.' Bron na ellir dychmygu Gruffudd yn rhoi winc fach i'w noddwyr wrth yngan y groeseb hon.
- 56 **A wnaethoch chwi i mi ym Môn** Ll. wythsill yn ôl y llsgrau., ond gellid cywasgu *ym Môn* > 'm Môn neu *chwi i mi* yn ddeusill.
- 59 **dieniwa** Gw. GPC 974 d.g. *dieniwaf* 'gwneud iawn i, digolledu, rhyddhau o berygl niwed, diogelu'. Y mae'r ddwy ystyr gyntaf yn gweddu os ystyrir bod Gruffudd yn syrthio ar ei fai ac yn cydnabod iddo wneud rhywbeth o'i le, ond y mae'r ddwy ystyr arall yn cyd-fynd â phortread Gruffudd ohono'i hun fel bardd grymus a saif ysgwydd wrth ysgwydd â'i noddwyr ar yr un haen gymdeithasol. Gall fod ychydig o'r ddwy

elfen yn ymhlyg yn y ll. hon. Ymhellach, gw. y nodyn cefndir uchod.

60 **Gruffudd** Gruffudd Gryg. Ni cheir darlleniad DGG 146 (LXXIX.60) *Gryfffydd* yn yr un llsgr.

62 **dwylo mwnwgl** Ymadrodd serch yn darlunio cariadon yn cofleidio drwy roi eu dwylo o amgylch gyddfau ei gilydd. Cf. Dafydd ap Gwilym yn ei gywydd i freichiau Morfudd, DG.net 93.7–8 *Ddwylaw mwnwgl dan ddeiloed / Ydd aeth i anghengaeth hoed*; Dafydd Llwyd yn ei gywydd mawl i Werful Mechain, GGM 6.35–6 *Da waith oedd, heb adwyth hir, / Ddwylaw mwnwgl ddaly meinir*; am enghreifftiau eraill, gw. Treigliadau 249 a GPC 1110 d.g. *dwylo*. Y mae hanfod dadl Gruffudd o blaid cymodi yn seiliedig ar y berthynas gyd-ddibynnol hon, cf. ll. 44 *Cerwch eich câr*; llau. 49–52 *Rhywiach i chwi ... / Garu pencerdd ... / Oni chaiff ... / Eich cerennydd, ni bydd byw*. Ar y llaw arall, ni raid diystyru'r posibilrwydd fod agweddau eraill ar y ddelwedd hon yn agos i'r wyneb yma hefyd; cf. y modd y mae Dafydd ap Gwilym yn chwarae ar wahanol ystyron posibl y ddelwedd yn ei gywydd i freichiau Morfudd er mwyn rhoi awgrym o gaethiwed serch, DG.net 93.45–8 *Wedy cael ymafael mwy, / Wawr euraid—wi o'r aerwy!—/ Teg oedd weled mewn rhedyn / Tegau dwf yn tagu dyn*. Fel yng ngweddill y cywydd cymod hwn, gall fod y ll. rhwng cofleidio cariadus a thagu bygythiol yn un ddigon tenau.

3

Marwnad i ryw Rys ap Tudur yw hon. Cysylltir ef â Môn yn y gerdd ei hun, ac yn ôl y teitlau llawysgrifol Rhys ap Tudur Fychan ap Goronwy yw'r gŵr a goffeir.¹ Mab ydoedd hwn i Dudur Fychan ap Goronwy (*ob.* 1367), tirdfeddiannwr pwysig ym Môn a disgyfnydd i Ednyfed Fychan. Yr oedd Tudur a'i frawd Hywel yn noddwyr i'r beirdd, yn eu plith Gruffudd ap Maredudd, a pharhaodd meibion Tudur y traddodiad hwnnw. Canodd Iolo Goch iddynt cyn 1382, gan enwi'r tai y trigent ynddynt. Yn y cywydd hwnnw y dysgwn fod Rhys wedi ymgartrefu yn Erddreiniog yng nghantref Dindaethwy.² Yr oedd Rhys yn siedydd sir Fôn yn 1382–4 ac yn rhaglaw cwmwd Dindaethwy yn 1386–96.³ Ceir cofnod o'r flwyddyn 1377 amdano'n erlyn rhyw Iorwerth Ddu ab Ednyfed ynglŷn â chludo coed yn ardal Beddgelert:⁴ dyma awgrym go bendant ei fod yn dal swydd fforestwr Eryri, fel y cesglir o'r gerdd hon (llau. 47–8), mor gynnar â'r flwyddyn honno.

¹ Nid ymddengys fod gan gopiyydd E fwy o wybodaeth am y gwrthrych nag a geir yn y testun. Diau fod hynny'n wir hefyd am y sawl a ychwanegodd enw Rhys ap Rhisiart yn llsgr. G. Ffrwyth camddeall llau. 28–32 yw'r enw hwn.

² GIG 23 (V.61–2).

³ AWH 252.

⁴ *Ib.* 202.

Gwasanaethai Rhys y brenin Rhisiart II (1377–99), fel yr awgrymir yn y gerdd (ll. 32). Yn 1398 ymrwymodd i aros yn barhaol yng ngwasanaeth y brenin am daliad o #10 y flwyddyn.⁵ Ni olyga hyn fod rhaid dyddio'r cywydd mor ddiweddar â hynny, oherwydd dichon fod Rhys yn gwasanaethu Rhisiart II cyn hynny. Dengys y gerdd hefyd fod Rhys wedi bod yn Ffrainc (ll. 40). Ni ellir dyddio ei ymweliad â'r wlad honno o gwbl. Gallai fod wedi digwydd cyn i Risiart esgyn i'r orsedd, neu yn ystod ei deyrnasiad. Bu cytundeb heddwch rhwng Lloegr a Ffrainc yn 1396.

Ffug-farwnad yw hon. Dienyddiwyd Rhys ap Tudur yn 1411 am ei ran flaenllaw yng ngwrthryfel Owain Glyndŵr,⁶ a chwbl anghredadwy fyddai canu cerdd ffraeth ac ysgafn fel hon ar ôl dienyddiad arteithiol bradwr, cf. ll. 60 yn arbennig. Awgryma llinellau 31–4 fod Rhisiart II ar yr orsedd o hyd, er nad yw'r awgrym mor ddiamwys yn y golygiad hwn o'r testun ag y mae yn ôl fersiwn yr hen olygiad yn DGG² 148. Drwy gydol y gerdd disgrifir Rhys fel carwr ac fel bardd serch, ac y mae'n bosibl iawn fod un o'i gerddi serch wedi goroesi.⁷

Egyr y cywydd â delweddau estynedig am gyflwr Gwynedd ar ôl colli Rhys. Y mae hi fel crwth (math o offeryn cerdd) heb ei dannau, fel telyn heb ddwylo i'w chwarae ac fel cloch eglwys y torrwyd ei rhaff. Eglur a diwastraff yw adeiledd y rhan gyntaf hon o'r cywydd, ac nid ar hap y dewisodd Gruffudd gymharu ei noddwr ag offerynnau cerdd, bid sicr, os oedd hwnnw'n fardd serch ei hun (gw. isod). Yna ceir rhestr o bethau a gollwyd wrth golli Rhys, gyda chymeriad geiriol cryf ar *heb* (llau. 23–34). Gorffennir gyda'r arwydd pwysicaf o statws Rhys, sef y ffafr yr oedd yn ei mwynhau o du Rhisiart, brenin Lloegr. Yn yr adran nesaf, atgoffeir y gynulleidfa o gyneddfau da y dyn 'marw': ei olwg hardd, ei ymddygiad mewn brwydr ac mewn llys. Ailgydir yn y thema fod Gwynedd ar ei cholled (llau. 43–8), gan gyfeirio at un o'r swyddi a ddaliai Rhys (llau. 47–8). Parheir â'r thema yn yr adran nesaf: y mae Gwynedd bellach yn amddifad, yn enwedig o ran barddoniaeth serch. Ymddengys yn sicr ar sail y llinellau hyn fod Rhys ei hun yn ymhél â'r canu serch. Yn yr adran olaf, anogir Gwynedd i gydnabod na chaiff byth eto ŵr cystal â Rhys.

Ceir dau fersiwn lled wahanol o'r gerdd hon yn y llawysgrifau, sef fersiwn hir yn llawysgrif H (80 llinell), lle y priodolir y gerdd i Iolo Goch, a fersiwn byrrach sy'n cynnwys 68 llinell yn y lleill, wedi ei briodoli i Ruffudd Gryg. Y fersiwn byr a olygwyd yn DGG² 147–9, ac nid ystyriwyd H o gwbl wrth ei lunio. Yn Bl B XIV 86–8 ychwanegodd Dafydd Johnston rai o'r llinellau a geir yn H (ond nid pob un) at y testun fel y saif yn DGG², gan greu fersiwn ac ynddo 76 o linellau. Y mae'n dra ansicr a yw'r deunydd ychwanegol yn H yn ddibynadwy. Nodir yn GIG xxix fod 'rhai o'r copïau'

⁵ *Ib.* 201.

⁶ *Ib.* 203.

⁷ Gw. GMBen cerdd 14.

yn H yn ‘bur wallus’, a sylwer hefyd fod Daniel Huws yn ddiweddar wedi cywiro’r dyddiad ‘cyn 1512’ a roddodd Eduard Bachellery i’r llawysgrif a’i gosod bellach oddeutu 1560.⁸ Y mae’n cydoesi, felly, â llawysgrif G, y copi nesaf ac un nad yw’n cynnwys y llinellau ychwanegol. O ran y llinellau hyn, braidd yn llipa yw cwpled *i*, ac y mae’n torri ar draws rhediad llyfn yr ystyr lle y saif yn H. Eto nid yw hyn, yn wyneb arddull y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn rheswm anorfod dros ei hepgor. Y mae’r llinell olaf yn *ii* yn rhy fyr o sillaf a’r gair *prydvyr* yn ansicr (ai *prydwyrr*?). Amheus braidd yw’r ailadrodd yn *iii*, lle y ceir *ochain* ac *vchenaid* ar ddiwedd y ddau gwpled, ac y mae *deyrn daid* yn anodd ei gysoni â’r darlun o Rys yng ngweddill y gerdd, lle y’i portreedir fel dyn ifanc serchog. Eto, y cwpled olaf (*iv*) sy’n codi’r amheuan cryfaf. Y mae’n anodd derbyn y ll. *pand wyd weddw dienw dyn* yn gynnyrch cywyddwr da o’r bedwaredd ganrif ar ddeg. Y mae naill ai’n fyr o sillaf neu, os cyfrifir yr *w* yn *weddw* a *dienw*, yn rhy hir o sillaf (onid aberthir cysondeb a chyfrif un yn unig yn sillafog, er eu bod yn odli â’i gilydd); ac y mae’r odl hon, sy’n angenrheidiol ar gyfer y gynghanedd sain, yn annhebygol iawn o ddigwydd mor gynnar ag amser Gruffudd Gryg. Fe all, wrth gwrs, fod *rhai* o’r llinellau ychwanegol yn H yn ddilys, ond yn wyneb y pryderon hyn, diogelach yw eu gwrthod i gyd.

Un pwynt olaf: pe derbynnid bod H wedi cadw llinellau dilys, byddai’n rhaid derbyn bod y copïau eraill i gyd yn tarddu o un gynsail, gan eu bod oll wedi colli’r un llinellau yn union. Golygai hynny, yn ei dro, amau cywirdeb y priodoliad i Ruffudd Gryg, gan y byddai’r dystiolaeth yn gyfartal: un llawysgrif (H) yn pleidio Iolo Goch, ac un arall (cynsail CEGJ–M) Gruffudd Gryg. Y cywydd hwn yw’r unig dystiolaeth fod Gruffudd wedi canu i unrhyw aelod o deulu Penmynydd, ond gwyddys yn dda fod Iolo wedi canu i’r tad ac i’r brodyr, a Rhys yn eu plith.⁹ Po fwyaf yr ymddiriedir yn H, mwyaf y mae’n rhaid ystyried Iolo Goch fel awdur posibl y gerdd. Gallwn anwybyddu, ar y llaw arall, y priodoliad i Guto’r Glyn yn llsgr. C. Y mae dyddiad y cywydd yn rhy gynnar iddo ef, a diau mai camgopïo rhyw fersiwn talfyredig o enw Gruffudd Gryg a wnaed. I grynhoi: nid yw na thestun nac awduraeth y cywydd hwn mor ddiogel ag y byddid yn dymuno.

Golygwyd y gerdd yn DGG² 147–9 a Bl B XIV 86–8. Cyfieithwyd y gerdd i’r Saesneg gan Joseph Clancy, gw. MWP 212–14.

Cynghanedd: croes 19 ll. (28 y cant); traws 19 ll. (28 y cant); sain 23 ll. (34 y cant); llusg 7 ll. (10 y cant).

3 **crwth** Math o offeryn cerdd ac arno dannau ac a genid â bwa, gw. GPC 616; OED² iv, 67 d.g. *crowd*.

4 **o thâl bunnoedd** Amwys. Deellir bod y dyn yn ochneidio am iddo dalu

⁸ Am farn Bachellery, gw. GO 21–2 (gelwir H wrth ei hen enw, Gwysanau 25, yno); daw’r wybodaeth oddi wrth Mr Daniel Huws (gohebiaeth bersonol).

⁹ GIG cerddi IV, V a VI.

- crocbris am offerynnau nad ydynt yn dda i ddim (gw. isod); posibilrwydd arall, a gefnogir yn DGG² 236, yw ‘os yw’n werth punnoedd’; gw. GPC 3425–6 am wahanol ystyron *tal*u.
- 6 **gosod** Ymddengys fel petai’n derm technegol yma; fe’i cyplysir yn betrus â’r ystyron ‘ordeinio ... cyhoeddi’, gw. GPC 1512 d.g. *gosodaf* 4(a).
- cerdd ddeisyf** Y mae trwch y llsgrau. fel petaent yn awgrymu *cerdd Iesu* yma, ond nid yw *Iesu* yn odli â *chry(f)*, gw. D.J. Bowen, ‘Pynciau Cynghanedd: Odli *I, U* ac *Y*’, LICy xx (1997), 142, ac nid yw’r ffurf *Iesy* yn hysbys. Am *deisyf*, gw. GPC 925, a noder yno yr enghraifft o’r 16g. lle y ceir yr orgraff *dysyf*: gellid dehongli llsgr. H *kerdddysyf* yn *kerdd ddysyf*, a dyna a wneir yn y testun golygedig.
- 7 **garw fydd** Y mae’r darlleniad yn ansicr yma. Y mae’r ll. yn fyr o sillaf, ond gellid cyfrif *garw* yn ddeusill, cf. GGMD i, 1.16n. Nid oes rhaid wrth y geiryn *a* ac ymddengys mai ymgais i gywiro rhif y sillafau a geir yn llsgrau. JKL.
- ai dydd, ai dau** Sangiad braidd yn annelwig, ac ni chyfranna fawr at yr ystyr.
- 8 **tyniad** Term technegol, gw. GPC 3680 d.g. *tyniad*¹ (b) ‘y weithred o dynnu (tant neu dannau), math o gord (yng nghyfundrefn draddodiadol cerdd dant)’.
- 9 **aur deulu** Annelwig: gellid ‘teulu ysblennydd’ neu ‘gosgordd ysblennydd’. Sonnir, efallai, am deulu Rhys ap Tudur, er na chrybwyllwyd Rhys eto. Gall hefyd fod yn gyfeiriad at yr hyn a gofnodir yng nghyfraith Hywel ynghylch y ‘bardd teulu’: *Pan el bard teulu yn y swyd y keiff telyn y gan y brenhin, a modrwy eur y gan y vrenhines. A’r telyn nys gat y wrthaw vyth* (LIB 22 (llau. 26–8)).
- 11 **Heb ddwylo, gŵyr addo gwedd** Y mae’r sangiad braidd yn annelwig, ond dilynir DGG² 147 o ran deall *gŵyr*, nid *gwŷr*. Ymddengys fod y delyn yn gallu cynnig gwedd addawol, h.y. y mae’n edrych fel petai’n gallu cyflawni ei swyddogaeth, ond bod y dwylo angenrheidiol yn eisiau. Posibilrwydd arall yw darllen *Heb ddwylo gwŷr, addo gwedd*. Yr un fyddai ergyd y sangiad.
- 12 **cerdd** Gallai olygu ‘cân’ neu ‘crefft’ yma, gw. GPC 465 d.g. *cerdd*¹ (a) (b), a sylwer mai *kreff*t yw’r darlleniad yn llsgrau. EH.
- 13 **arnoddwaith** GPC² 474 ‘gwaith (tebyg i) arnodd’, ac *ib.* d.g. *arnodd*¹ ‘trawst neu far canolog ar aradr y cysylltir y prif rannau eraill ag ef’. Deellir, felly, fod y bardd yn disgrifio siâp y delyn (felly hefyd DGG² 236). Am lun o aradr sy’n dangos yr arnodd, gw. F.G. Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1954), ffigur 1 (ar ddechrau’r gyfrol).
- 15 **plygain** Gwasanaeth eglwysig (Llad. *matutinae*, S. *matins*) a gynhelid gyda’r wawr, gw. GPC 2832.

- 17 **nidr** Hoff air gan y bardd hwn, cf. 6.17, 34, 7.25.
tidraff Cyfansoddair o *tid* ‘cadwyn’ (GPC 3497) a *rhaff*.
- 18 **proffwydwawd** Sef cân a weddai i broffwyd, cân gref a swnllyd. Gthg. DGG² 147 lle y darllenir *proffwydawd*. Llsgr. J yn unig sy’n cynnig y darlleniad hwn, ac ni cheir enghraifft arall cyn yr 20g. (GPC 2907), felly fe’i gwrthodir yma. Am *gwawd* yn eg., gw. GPC 1603 a cf. GGLI 16.61 *Llawn yw o’r gwawd, llwyn aur gwiw*.
- 19 **arial** Derbynnir darlleniad llsgrau. CEH. Ni cheir enghraifft arall o *ariar* (llsgrau. GJKLM) er ei dderbyn yn GPC² 467 a chynnig ‘?swnllyd’ ar ei gyfer. Sylwer bod GPC yn dilyn arweiniad DGG² 147. Dylanwad *r* ddwywaith yn *oror* a roes fod i’r llygriad, gellid tybio. Cyfeiria *arial* (GPC² 462 d.g. *arial*¹) at sŵn bywiog y gloch (cyn iddi golli ei rhaff a’i thafod).
- 20 **letring** GPC 2162–3 d.g. *lletring* ‘darllenfa neu gadair ddarllen (mewn eglwys)’. Dyma’r enghraifft gyntaf ar glawr. Ni cheir sail lawysgrifol dros ddarllen *lletring*, fel yn DGG² 147, a chan mai benthycair ydyw o’r S.C. neu’r Ffr., hawdd yw cyfrif am *l-* ddechreuol. Gw. ymhellach OED² viii, 784 d.g. *lectern*.
- 21 **mawl a ddyly medd** Sangiad yn brolio ansawdd canu’r bardd, fe ymddengys. Efallai fod yr awgrym cynnil hwn yn arwydd nad yw’r gwrthrych yn farw wedi’r cwbl.
- 22 **gem y gwin** Sangiad arall, yn cyfeirio at Rys, bid sicr.
- 23 Y ll. hon sy’n dilyn ll. 22 yn yr holl gopïau ac eithrio llsgr. H, lle y ceir cwpled ychwanegol (sef *i*). Er bod y cwpled yn ystyrlon ac y gellid gwneud achos dros ei dderbyn, byddai’n torri ar draws rhediad naturiol yr ystyr: dywedir yn llau. 21–2 fod Gwynedd yn debyg i dri offeryn cerdd nad ydynt yn gweithio oherwydd absenoldeb rhan allweddol, ac y mae angen bwrw yn syth ymlaen i ddweud bod ar Wynedd eisiau Rhys.
cân mynych Gw. D.J. Bowen, ‘*Cân fel Enw Gwrywaidd*’, LICY xii (1972–3), 122; at ei enghreifftiau ef ychwaneger hon a GSDT 9.35 *Wrth fodd Siôn, cyfion fo’r cân*. Ond gallai *mynych* fod yn ll. *mynach*, cf. *eglwys Duw a clych* yn y ll. nesaf.
- 24 **claim** Am yr ystyr ‘un a hawlr’, gw. GPC 489 a cf. DN 13 (V.11–12) *Owain, Gruffudd, ac Einionn, / A Gwilim Hen sydd glaim honn* (sc. y llys).
- 25 **llaw Dduw** Gw. Treigladau 106; yn ll. 24 *eglwys Duw* ataliwyd y treiglad ar ôl *-s*.
- 27 **cyfanheddrwydd** Gw. GPC 678; gellid hefyd ‘mintai’ neu ‘preswylwyr’.
- 29 **gloywbrim** Gw. GPC 2872 d.g. *preim, prim*. Awr weddi ganonaidd oedd prim, yn wreiddiol tua’r wawr. Cyffredin yn y farddoniaeth yw cymharu arglwydd â’r wawr.

31 **diwyd** Am yr ystyr 'dilynwr ffyddlon', gw. GPC 1062 a cf. GHS 3.33–4 *Diwyd dy dad wyt â dart, / Dy dad yw diwyd Edwart*.

mordwy mawr Sangedd yn ymgorffori topos cyffredin mewn marwnadau, sef dymuniad fod y môr yn llyncu'r tir, neu ddifaterwch yn wyneb y cyfryw drychineb, gan fod y gŵr arbennig hwn wedi marw, cf. GGMD i, 3.101–4. Gthg. DGG² 236 'llifeiriant mawr o urddas'.

32 **Rhisiart** Rhisiart II, brenin Lloegr 1377–99.

eryr aesawr Rhys, yn ôl pob tebyg, er bod Rhisiart hefyd yn bosibl.

33 **bryd naid** Annelwig. Deallir *naid* yn yr ystyr 'llam': y mae meddwl chwim Rhys yn llamu. Yn DGG² 236 cynigir 'nawdd', cf. GPC 2550 d.g. *naid*¹ (c). Byddai 'tynged, ffawd, siawns' yn bosibl, efallai. O ddeall *bryd* yn ffurf dreigledig *pryd*, ceir 'ar amser tynged[fennol]'.

piler Delwedd gyffredin iawn oedd cymharu noddwr â philer neu golofn, gw. T.J. Morgan, 'Trosiad y Golofn', YB x (1977), 94–105.

34 **brenin** Cydier wrth *Risiart* yn ll. 32—enghraifft o drychiad.

gwnaeth Eingl yn franar Nid Rhisiart a wnaeth hyn, gellir tybio, ond Rhys. Y mae'r eironi o ganmol noddwyr o Gymry am ladd y Saeson, a hwythau'n gwasanaethu brenhinoedd Lloegr yn ffyddlon, yn drwch yng nghanu'r 14g. a'r 15g., gw. GGMD i, 2.8n. Nid yw'r ll. hon yn sail i ddyddio'r cywydd ar ôl dechrau gwrthryfel Owain Glyndŵr (1400).

Eingl Ceir amryw ffurfiau yn y llsgrau.; cf. GGMD i, 2.8n am y posibilrwydd fod *Engl* neu *Engyl* yn ffurfiau dilys ar y gair.

branar Tir â'r a adewir heb ei blannu dros dro er mwyn i'r pridd gael hoe, cf. GGMD i, 3.38n.

35 **mawl Môn** Neu 'un a fu'n wrthrych mawl Môn [gyfan]'.

39–40 Dilynir trwch y llsgrau. o ran rhoi'r cwpled hwn yma, yn groes i dystiolaeth llsg. H lle y mae'n dilyn ll. 34 (ac felly'n cyflwyno'r adran hon o'r gerdd).

39 **gwingoeth** Gw. GPC 1664 'pur neu goeth fel gwin', lle y dyfynnir yr enghraifft hon. Gwell ei ddeall fel canmoliaeth i'r gwin a weinyddai Rhys, cf. llau. 41–2, 56.

gwengainc Yn llsg. H yn unig y ceir y darlleniad hwn. Byddai *iawn-gainc* (cf. llsgrau. EL) yn bosibl hefyd, a dyna a dderbyniwyd yn DGG² 148.

40 **teulu Ffrainc** Gw. y nodyn cefndir.

42 **pyynt** GPC 2950–1 d.g. *pyynt*¹ (e); DGG² 236.

Elffin Elffin ap Gwyddno Garanhir, arwr a ystyrir yn batrwm o ddewrder, yn ôl y beirdd; gw. GGMD iii, 1.21n ac ymhellach TYP³ 501 a WCD 237–8. Efallai fod cymhariaeth yn ymhlyg yma rhwng 'marwol-

aeth' Rhys a charcharu Elffin gan Faelgwn Gwynedd.

- 45 **Rhys fab** Cydier wrth *Tudur* yn y ll. nesaf.
- 46 **tid aur** Cf. GIG 14 (III.57–8) *Tor di gŵys mewn troedog aur, / Tad arwyddion, tid ruddaur*, a'r esboniad *ib.* 196, lle y'i deellir yn rhyw fath o arwydd traddodiadol o frenhiniaeth Gwynedd. Yn wyneb y lliaws cyfeiriadau eraill at *tid aur* gan y beirdd, y mae achos cryf dros ei uniaethu â'r goler aur a gysylltid â gwasanaeth brenhinoedd Lancastr ac yn nes ymlaen â gradd marchog, gw. yr ymdriniaeth fanwl yn GMBen 16.66n. Y mae'r ddelwedd yn gyffredin yn y 15g. a'r 16g.: e.e. GHS 1.27–8; GLMorg 70.15; GMBr 11.6; GSC 5.36, 7.37–8; GHD 13.21 *Doed ar y corff did aur coch*; GLM 110 (XXX.59–60), 116 (XXXII.40) *a maint dy draul, mewn tid rudd*, 201 (LVII.33–4) *Aur goler ar gywely / ac aur yw tid gŵr y tŷ*. Rhisiart II oedd y brenin cyntaf i ddisbarthu'r cyfryw goleri ymhlith ei gefnogwyr, ac nid cyd-ddigwyddiad, felly, yw'r cyfeiriad at wasanaethu Rhisiart yn llau. 31–4.
- ochr** Annelwig: gwisgid y goler am y gwddf. Efallai mai 'plaid, tu' yw'r ystyr yma, fel yr awgrymir yn GPC 2615 (b) (er yr anghytunir yno ynghylch yr atalnod). Perthynai Rhys i blaid y goler Lancastraidd.
- 47 **cwbl** Darlleniad llsgr. H yn unig. Dengys y copïau sawl ymgais wahanol i gael y nifer cywir o sillafau yn y ll. (gw. y darlleniadau amrywiol), ac ni ellir bod yn sicr mai'r fersiwn hwn sy'n gywir.
- 48 **curwr** Gw. GPC 631 'un sy'n cadw twrw er mwyn cyffroi (wrth hela creaduriaid)'.
ceirw Eryri Cydier wrth *ceidwad* (ll. 47). Swydd fforestwr oedd gofalu am geirw'r fforest.
- 49 **gwŷd** Am yr ystyr, gw. GPC 1750 2(b); GGrG 6.44 *Gwŷd a'm ergyd o'i mawrgudd* (Mab Clochyddyn).
- 50 **ton** Gw. GPC 3520 d.g. *ton*² (a) 'tir heb ei aredig, gwyndwn; tywarchen; grin, lawnt; wyneb (y ddaear)'; Proinsias Mac Cana, 'Ton Teithiawc', B xix (1960–2), 114–16. Fe'i deellir fel sangiad sy'n cyfeirio'n ôl at *Gwynedd*. Gthg. DGG² 237 lle y darllenir *tôn gwŷr*, gan esbonio mai 'dyna fyrdwn pawb', gw. GPC 3520 d.g. *tôn*¹ (a), lle y cynigir 'meddylfryd, tymer, hwyl, anian'. O dderbyn un o'r ystyron hyn gellid dehongli *tôn gwŷr* yn gyfeiriad annelwig at deimpladau'r bobl wedi colli Rhys.
- 51 **cariad** Dilynir llsgrau. EHM, sef y *lectio difficilior* yn wyneb y gair *nerth* ar ddechrau'r ll.
- 54 **ymlyniaid** Gw. GPC 3792 d.g. *ymlyniad*². Gall fod hyn yn cyfeirio at ddilynwyr Rhys yn ymuno yn ei ganu, ond yr ystyr arferol yw 'cŵn hela', cf. DG.net 60.45–6 *Rhodiwr coch, rhydaer y'i caid, / Rhedai mlaen rhawd ymlyniaid* (i'r llwynog); GLMorg 100.55 *Y carw ymlaen*

cri ymlyniaid. Cf. y cyfeiriad at hela ceirw yn ll. 52. Ai cri cŵn hela yw *cân ymlyniaid* yma, ynteu cân a genid wrth hela, neu sŵn corn hela?

57 **cadw** Am yr ystyr, gw. GPC 379 d.g. *cadwaf* 1(b).

59 **bron** Amwys: gellid hefyd ‘bryn’ neu ‘allt’, a fyddai’n cyd-fynd â’r nodwedd naturiol *brig* yn ail hanner y ll.; ond gan fod *brig* yn gallu cyfeirio at wallt, efallai fod y bardd yn cyfeirio at ddwy ran o’r corff yma, sef y fron a’r pen.

60 **Eiddig** Y gŵr eiddigus, cymeriad stoc yn y canu serch. Gall lawenhau yn sgil marwolaeth Rhys oherwydd nad oes rhaid iddo bellach ofni am ddiweirdeb ei wraig.

64 **wythliw enw** Braidd yn annelwig. Disgrifiad cadarnhaol yw *wythliw*, ond fe’i ceir fel arfer mewn cymariaethau, e.e. DG.net 72.50 *wythliw dydd*, 128.4 *ddyn wythliw ton*; DGG² 6 (III.8) *wythliw sêr*. Yma nid enwir dim y cymherir enw Gwynedd ag ef. Cymerir yn betrus mai ‘disglair’ yw’r ystyr.

67 **cynllun** Ni cheir y darlleniad hwn yn y llsgrau., ond awgrymir mai llygriadau o *gynllun* yw *gynllwyn*, sy’n ddiystyr, a *geinllun*, sy’n rhy debyg o ran sain i *ugeinllef* yn ail hanner y ll.

68 **gwra** Gw. GPC 1695; gthg. DGG² 149 lle y darllenir *wr afal ef*, a ddilynir yn Bl B XIV 88.

4

Cerdd farwnad yw hon i Ddafydd ap Gwilym, bardd a gysylltir â Brogynin ym mhlwyf Llanbadarn Fawr, a’r enwocaf o feirdd yr Oesoedd Canol. Yn wahanol i’r cywydd marwnad a ganodd Gruffudd Gryg i’r ywen uwchben bedd Dafydd (cerdd 5), na wyddys ai marwnad ffug ynteu marwnad ddifrifol ydyw, nid oes unrhyw anghytundeb yn achos y cywydd hwn, gan fod ychydig llai na hanner y llawysgrifau yn nodi naill ai yn nheitl y cywydd neu mewn rhagymadrodd iddo fod Dafydd yn fyw adeg ei ddatgan. Gall yr hyn a elwir gan ysgolheigion yn ‘ffug-farwnad’ ymddangos yn rhyfedd i ddarllenwyr heddiw, ond y tebyg yw mai un o’i phrif ddibenion oedd talu teyrnged mewn modd amgenach a mwy chwareus nag a ganiateid mewn cerdd fawl draddodiadol. Nid ar chwarae bach y profir bod marwnad yn un ffug, ond ceir rhai meini prawf y gellir eu hystyried. Fel y nododd Dafydd Johnston wrth drafod ffug-farwnad Iolo Goch i Ithel Ddu, ‘y gair allweddol yw *digrif*’, a gellir defnyddio’r un maen prawf ar gyfer y ffug-farwnad hon a’r ffug-farwnad a ganodd Dafydd i Ruffudd.¹ Fel y nodir yn y rhag-

¹ Gw. GIG 313. Ceir y gair *digrif*, mewn gwahanol ffurfiau, ymron ym mhob ffug-farwnad a ganodd Dafydd (neu farwnadau yr amheuir eu bod yn rhai ffug), gw. marwnad Gruffudd Gryg, DG.net 22.8, 28; marwnad Angharad ferch Rhisiart, *ib.* 9.29; marwnad Rhydderch ab Ieuan Llwyd, *ib.* 10.36; marwnad Gruffudd ab Adda, *ib.* 21.46; marwnad Madog Benfras, *ib.* 20.16. Fe’i ceir

ymadrodd (tt. 17–18), y tebyg yw mai cerdd gymod yw hon mewn gwirionedd. Y mae'r teyrngedau y mae Gruffudd yn eu talu i'w gyfaill yn gwrthygyferbynnu â'i elyniaeth agored yn yr ymryson enwog a fu rhwng y ddau fardd, ac yn awgrymu mai bwriad Gruffudd oedd y byddai ei gyfaill yn medru clywed y gerdd yn uniongyrchol. Y mae'r ffaith fod Gruffudd yn rhyw alaru hefyd na fyddai Iesu Grist wedi cipio bardd eilradd o'r enw Bleddyn yn lle Dafydd yn rhyw gymaint o ateg i'r gred fod tafod Gruffudd yn ei foch wrth farwnadu ei gyfaill yma.²

Dengys wyth cywydd yr ymryson a fu rhwng Gruffudd a Dafydd fod y ddau fardd yn gyfarwydd iawn â'i gilydd ac â gwaith ei gilydd. Er i'r ymryson droi'n ddadl ddigon ciaidd ar adegau, a bod modd ymglywed â rhagor na thynnu coes yn y rhan fwyaf o gyhuddiadau'r ddau, y mae'r cywydd hwn yn awgrymu eu bod wedi cymodi yn y pen draw.³ Y tebyg yw fod y ffug-farwnad hon wedi ei chanu ychydig ar ôl yr ymryson, a bod ffug-farwnad Dafydd i Ruffudd wedi ei chanu yn ei sgil.⁴

Awgrymodd D.J. Bowen fod cywyddau'r ymryson wedi eu canu cyn 1346.⁵ Fodd bynnag, y mae'r ddadl honno'n seiliedig ar y gred fod Dafydd wedi mynd i Forgannwg at Ifor Hael yn sgil llofruddiaeth Llywelyn ap Gwilym yn ei lys yng Nghastellnewydd Emlyn yn fuan wedi 1346. Awgrymwyd na fyddai Dafydd wedi cyfeirio ato ef ei hun fel brodor o Ddyfed, fel y gwnaeth yn yr ymryson, pe bai'n byw ym Morgannwg ar y pryd. Credir bellach fod Llywelyn wedi'i lofruddio yn sgil anghydfod teuluol, ac y mae ceisio pennu dyddiad ei farwolaeth, o ganlyniad, yn anos fyth.⁶ Nid yw'n eglur ychwaith ai o ganlyniad i farwolaeth Llywelyn ynteu oherwydd helynt a ddaeth i ran y bardd yn sgil ei gariad tuag at Forfudd y ffodd i lys Ifor.⁷ Yn ogystal â hyn, y tebyg yw y byddai Dafydd, wrth ymrafael â bardd o Fôn, wedi cyfeirio ato ef ei hun fel brodor o Ddyfed, pe bai croeso iddo yn rhai rhannau o'r hen fro honno ai peidio, gan mai yno yr oedd ei wreiddiau teuluol. Fel y dadleuir yn y nodyn cefndir i gerdd 2 uchod, y mae'n bosibl fod yr ymryson wedi'i gynnal c.1350.

Y nodiadau rhagarweiniol

Er y dylid gochel rhag rhoi gormod o bwys ar yr hyn sy'n cael ei nodi mewn

hefyd yn y cywydd hwn (gw. ll. 64), yn (ffug-)farwnad Rhys ap Tudur (3.41), ac ym marwnadau Madog Benfras ac Iolo Goch i Ddafydd, GMBen 4.53; GIG 90 (XXI.11).

² Gw. llau. 55–64, 55n. Ar gonfensiwn y ffug-farwnad, gw. Huw Meirion Edwards, 'Murnio Marwnadau: Golwg ar y Ffug-farwnad yng Nghyfnod y Cywydd', *Dwned*, v (1999), 47–70; Jerry Hunter, 'Cyd-destunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Cipolwg ar yr "Ysbaddiad Barddol"', *Dwned*, iii (1997), 33–52; GMBen, nodyn cefndir cerdd 4.

³ Am ymdriniaeth newydd â'r ymryson, gw. tt. 10–19. Am destun yr ymryson, gw. DG.net cerddi 23–30.

⁴ Gw. tt. 17–18. Am ffug-farwnad Dafydd i Ruffudd, gw. DG.net cerdd 22.

⁵ Gw. D.J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', LICy viii, 10–11n91.

⁶ Gw. DG.net, nodyn cefndir cerdd 6.

⁷ Gw. LIU 113.

rhai llawysgrifau am gefndir y gerdd, nid doeth fyddai diystyru'r dystiolaeth honno'n llwyr. Deillia'r hanesyn a geir yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau hyn o'r fersiwn o'r hanes a geir gan Ifan ap Siôn yn llawysgrif G (c.1612 x 1632), sydd hefyd yn nodi iddo unwaith weld dau ar hugain o gywyddau ymryson rhwng y ddau fardd. Er ei bod hi'n bosibl fod mwy nag wyth o gywyddau yn rhan o'r ymryson yn wreiddiol, y mae'n annhebygol iawn fod cynifer â dau ar hugain.⁸ Gellid, felly, esbonio gweddill yr hanes yn fymppy Ifan ap Siôn neu gopiyydd arall yn yr un modd. Fodd bynnag, ceir yr un hanes mewn ffurf ychydig yn wahanol mewn llawysgrif arall annibynnol a chymharol gynnar, sef llawysgrif V (c.1600). Y mae hyn, ynghyd â chyfeiriadau unigryw yng ngwaith dau fardd o'r bymthegfed ganrif, yn awgrymu bod rhywfaint o sail i'r hanes apocryffaidd sy'n gysylltiedig â'r cywydd.

Sonnir mewn chwe llawysgrif fod gan Ddafydd was o'r enw Bol y Baeol a gymerodd ran yn y modd y cymododd Gruffudd a Dafydd.⁹ Er bod ystyr yr enw, '*pot-belly*', yn ymddangos fel pe bai'n tanseilio'r hanes, y mae ei natur ddychanol yn cyd-fynd â natur ffug y farwnad hon.¹⁰ Ac er y gellid ystyried Bol y Baeol yn gymeriad stoc oherwydd ei enw, dylid cofio bod cyfenwau a llysenwau sy'n ddifriol yr olwg i ni heddiw yn gyffredin iawn yn yr Oesoedd Canol. Credir bellach nad cymeriadau gwneud eithr pobl o gig a gwaed oedd yr unigolion eraill y rhoddwyd iddynt enwau difriol ac a ddychanwyd gan feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, megis y Gwyddelyn, Hersdin Hogl a Mald y Cwd.¹¹ Dengys ymryson rhwng Huw ap Rhisiart ac Ifan Delynor fod beirdd yr unfed ganrif ar bymtheg yn ystyried y Gwyddelyn yn fardd hanesyddol.¹² Y mae'n ddiddorol, o ganlyniad, mai felly yr

⁸ Gw. Sara Elin Roberts, 'Cwpled Coll o Waith Dafydd ap Gwilym', *Dwned*, xi (2005), 67–9, lle y gwrthodir honiad Ifan ap Siôn (dyfynnir Samuel Williams ac Iaco ab Dewi yn llawysgrif Ll1st 133 (g), llawysgrif sy'n deillio o lawysgrif G yn achos y gerdd hon, gw. isod). Fodd bynnag, ystyrir cywydd Dafydd i wayw serch yn gychwyn anuniongyrchol i'r ymryson (DG.net cerdd 127), a'r ffug-farwnad hon a'r ffug-farwnad a ganodd Dafydd i Ruffudd yn glo cymodlon iddo. Awgrymir yn y rhagymadrodd uchod fod cywydd Gruffudd i'r ywen yn Ystrad-fflur (cerdd 5) yn gysylltiedig â ffug-farwnad Dafydd i Ruffudd, ac y mae lle i gredu bod y cywydd cymod a ganodd Gruffudd i saith mab Iorwerth ap Gruffudd (cerdd 2) wedi ei ganu yn sgil effeithiau andwyol yr ymryson ar enw da Gruffudd. O ganlyniad, gellid ystyried bod cyfanswm o dri chywydd ar ddeg naill ai'n rhan o'r ymryson neu'n gysylltiedig ag ef.

⁹ Gw. nodiadau rhagarweiniol y gerdd. Gelwir gwas Dafydd yn *bol abaeol* a *bola bav[ol]* yn fersiwn llawysgrif G o'r hanes, ac yn *boly bayol* yn fersiwn V. Y tebyg yw mai yn fersiwn V y ceir y ffurf gywiraf, ac y ceid y ansillafog yn *boly* yn wreiddiol, cf. DG.net 122.23–4 *Di-isel ddirgel ddurgoly*, / *Dilon Dŵr Babilon boly*; ar *boly* a *bola*, gw. GCC 7. Fodd bynnag, y mae'r enghreifftiau isod yng ngwaith beirdd eraill yn awgrymu mai *Boly* y *Baeol* oedd ffurf wreiddiol yr enw, a bod y fannod wedi llyncu y yn *Boly* wrth i gopiyydd diweddarach gofnodi'r enw yn y llawysgrifau.

¹⁰ Gw. GPC 296 d.g. *bol*. Defnyddir *boly* yn ddychanol gan Ruffudd yn ei bedwerydd cywydd ymryson, gw. DG.net 29.18.

¹¹ Gw. R. Iestyn Daniel, 'Y Gwyddelyn: Cymeriad Dychmygol ynteu Bardd Hanesyddol?', *Dwned*, xii (2006), 107–11; Dylan Foster Evans, '*Goganwr am Gig Ynyd*': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996), 32; cf. ll. 55n.

¹² Gw. R. Iestyn Daniel, *art.cit.* 109–10.

ystyrir Bol y Baeol yntau mewn ymryson arall, y tro hwn rhwng Dafydd Llwyd, Gwerful Mechain a Llywelyn ap Gutun yn y bymthegfed ganrif. Tarddiad yr ymryson yw cywydd Dafydd Llwyd i anfon Llywelyn yn llatai at Werful, lle y dychenir Llywelyn fel pe bai'n was diddim i'r bardd:

Llywelyn gerdded-ddyn gwael
 A ddanfonaf, ddyn feinael,
 Gŵr a fedr wrth roi dedryd,
 Meddan', bedwar ban y byd.
 Ceinioca bu'n gynta' gwaith,
 Yta ac wyna ganwaith.
 Ef a ddaw, er anfodd un,
 Ag ateb, Fab y Gutun.
 Diwydiach, felly dwedynt,
 Fydd gwas wedi'i faeddu gynt.
 Y cenau gyda'r cynydd,
 Ei arfer, pan faedder, fydd
 Caru'r meistr a'i curo
 A'i ganlyn a fyn efô.
 Fal hyn, Lywelyn lew iawn
 Delynor heb awdl uniawn,
 Ni bu wawdydd llonydd llwyd
 Ufuddach er pan faeddwyd.
 Ni fyn elw ond fy nilid,
 Ar f'ôl, bol y baeol, bid.¹³

Y mae'n arwyddocaol fod Dafydd Llwyd yn cyhuddo Gwerful Mechain ar ddechrau'r cywydd o wneud cam ag ef drwy dorri rhyw gytundeb a fu rhyngddynt, ac yn pwysleisio'r pellter daearyddol rhyngddynt fwy nag unwaith.¹⁴ Cais Dafydd ddatrys yr anghydfod drwy anfon llatai ati, yn yr un modd ag y mae Bol y Baeol yntau'n gweithredu fel negesydd cymodlon rhwng Dafydd ap Gwilym a Gruffudd yn ôl yr hanes. Ond dychan, yn hytrach na chlod, sydd gan Ddafydd Llwyd ar gyfer ei latai, Llywelyn, ac esgorodd ei gywydd ar ryw fath o ymryson estynedig rhwng y tri bardd.¹⁵ O ystyried y tebygrwydd rhwng Bol y Baeol a Llywelyn o safbwynt swydd y negesydd, ynghyd â'r ffaith fod Dafydd Llwyd yn rhannu'r un enw â Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam,¹⁶ anodd yw peidio ag ystyried *bol y baeol* uchod yng nghywydd Dafydd Llwyd yn gyfeiriad at berson go iawn, un y ceid traddodiad amdano yn ystod y bymthegfed ganrif ei fod naill ai'n was i Ddafydd ap Gwilym neu'n negesydd enwog yn ei rinwedd ei hun.

Gwelir mewn cywydd arall sy'n bwrw sen ar Lywelyn ap Gutun, y tro

¹³ GGM 5.25–44 (lle na ddeallir Bol y Baeol yn enw priod).

¹⁴ Gw. *ib.* 5.5–6, 17–18.

¹⁵ Gw. *ib.* cerddi 5–8.

¹⁶ Gw. 5.5n.

hwn gan Lewys Môn, mai â Dafydd ap Gwilym yn benodol yr oedd Bol y Baeol yn gysylltiedig. Lluniodd Lewys gywydd yn amddiffyn enw da Rhisiart Cyffin, deon Bangor, wedi i Lywelyn ganu cywydd yn honni bod y deon wedi dwyn merch o'r enw Alswn oddi arno.¹⁷ Yn ei gywydd i'r deon aeth Lewys ati i gymharu Llywelyn â Dafydd ap Gwilym a'i was:

Mab Gwilym gynt heb glaim gwŷr
 a garasai gwawr Rhosyr:
 fo wybu ffair am fab ffôl,
 fal y bu i fol y baeol.
 O doeth dyn ffals at Alswn
 i neges ail y gwas hwn,
 a beio fyth na bai Fôn
 gwedi'i glosio'n goed gleision,
 pe câi'r ferch i 'mannerch mwy,
 gwd meddw, yn Nugoed Mawddwy,
 ni ddô i Wynedd, na'i ddyinion,
 os rhô i ben ei fys ar hon.¹⁸

Y mae Lewys yn cyfeirio at anffawd sy'n destun un o gywyddau Dafydd, 'Sarhau ei Was', lle y mae Dafydd yn anfon ei was ag anrheg o win at ferch brydferth a welodd adeg gwylmabsant yn Rhosyr.¹⁹ Pan glyw'r ferch pwy a'i hanfonodd y mae'n tywallt y gwin dros ben y gwas, a thebyg, yn ôl Lewys, fyddai'r croeso a gâi Llywelyn gan Alswn pe bai'n mentro dod i Wynedd i'w hannerch. Y mae'r ffaith fod Lewys yn adleisio cywydd gan Ddafydd nad oedd a wnelo ddim byd â'r ymryson nac â Gruffudd Gryg yn awgrymu bod beirdd y bymthegfed ganrif yn gyfarwydd â thraddodiad ehangach a oedd yn cysylltu Dafydd yr uchelwr â Bol y Baeol ei was. Nid yw'n syndod fod gan feirdd cefnog fel Dafydd a Gruffudd weision yr oedd eu henwau'n hysbys i'w cynulleidfaoedd, a'u bod wedi gwneud defnydd llenyddol ohonynt o ganlyniad.²⁰

O safbwynt y ffug-farwnad hon, y mae'n ddigon posibl fod yr hanes am Fol y Baeol yn ymgais ar ran datgeiniaid neu gopiŵyr diweddarach i resymoli'r wybodaeth a oedd yn hysbys iddynt fod y farwnad i Ddafydd, ynghyd â marwnad Dafydd i Ruffudd, wedi eu canu pan oedd eu

¹⁷ Am gywydd Llywelyn, gw. GLIGt cerdd 8.

¹⁸ GLM 54–5 (XV.55–66); fe'i hatgynhyrchwyd yn GLIGt, At. i. Ceir y darlleniad cywir ar gyfer y llinell gyntaf yn y dyfyniad uchod yn yr amrywiadau i gerdd Lewys, GLM 56 *Mab Gwilym Gam heb glaim gwŷr*.

¹⁹ Am gywydd Dafydd, gw. DG.net cerdd 74. Y mae'n amlwg fod Lewys yn gyfarwydd iawn â chywydd Dafydd, cf. GLM 54–5 (XV.29–42) a'r tebygrwydd rhwng *fo wybu ffair* yn y dyfyniad o gywydd Lewys uchod ac yn y *ffair* yng nghywydd Dafydd, DG.net 74.10.

²⁰ Y mae Gruffudd yn cyfeirio at ei was Siencyn yn ei gywydd i'r lleuad (6.32n), ac y mae'n bosibl y bwriadai Dafydd yntau i'w gyfeiriad at ei *hardd wreang* yn ei gywydd ysgrif enwocaf fod yn goeglyd os nad oedd y gwas hwnnw'n hardd o gwbl (fel yr oedd Dafydd ei hun, efallai), eithr yn magu bol cwrw, gw. DG.net 73.2.

gwrthrychau'n fyw. Ar y llaw arall, y mae'n werth cadw mewn cof mai creadigaeth i'w datgan yn gyhoeddus oedd cerdd yn yr Oesoedd Canol ac y câi ei pherfformio o flaen cynulleidfa. Nid er difyrwrch i Ddafydd yn unig y canodd Gruffudd y ffug-farwnad hon, ac y mae'n sicr fod ymateb y gynulleidfa i fawl chwareus a ffug-alar y gerdd yn rhan allweddol o'r hwyl wrth iddynt wyllo ymateb y bardd 'ymadawedig' i'w farwnad ef ei hun. Sut, felly, y pontiai'r bardd y gagendor rhwng y ffaith fod y gwrthrych yn amlwg yn fyw a llwyddiant y gerdd fel marwnad? Gall fod yr arfer wedi sefydlu eisoes ac yn gyfarwydd i'r gynulleidfa, neu gall fod mynych gyfeiriadau Dafydd ato ef ei hun yn 'marw' o achos poenau serch yn gwarantu canu cywydd marwnad o'r math hwn. Ar y llaw arall, y mae'n werth ystyried y posibilrwydd fod y bardd wedi creu cyd-destun dychmygol ar gyfer y ffug-farwnad fel y gwneid yn nefod y cyff clêr, lle y canai'r glêr ar destun dychmygol er mwyn dychanu bardd uwch ei statws na hwy, defod a ddisgrifiwyd gan Huw Meirion Edwards fel 'bizarre practice'.²¹ Gellid disgrifio confensiwn y ffug-farwnad yn yr un modd ond, fel y dangosodd Jerry Hunter, yr oedd gosod testun dychmygus yn sail i'r holl rialtwech yn golygu 'bod rhyw fath o synnwyr a rhesymeg y tu ôl i'r ddefod ryfedd'.²²

Awgrymodd Huw Meirion Edwards fod yr holl gywyddau marwnad a ganodd Dafydd i feirdd, ac a ganasant hwythau iddo ef, yn rhai ffug a ganwyd yn 'rhyw fath o ymateb i'r llall, yn debyg i'r modd y byddai'r pencerdd yn ateb ei destunwyr drannoeth y ffair yn nefod y cyff clêr', a'u bod wedi cael eu canu 'pan ddeuai beirdd ynghyd yng nghartref noddwr i ymrysona a dychanu a thynnu coes'.²³ Gellid bwrw amheuaeth ar y ddamcaniaeth hon o ystyried bod y cywyddau marwnad a ganodd Dafydd a Madog Benfras i'w gilydd yn digwydd ar wahân yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau, ac nid ochr yn ochr fel y gellid disgwyl pe baent wedi eu cyfansoddi ar yr un achlysur. Fodd bynnag, nid felly y mae yn achos y cywydd hwn a chywydd marwnad Dafydd i Ruffudd: y mae'r ffug-farwnad honno yn dilyn y cywydd hwn mewn un ar hugain o lawysgrifau, ac wedi ei lleoli'n agos ato mewn pum llawysgrif arall.²⁴ Y tebyg yw fod Dafydd wedi canu marwnad Gruffudd yn sgil y cywydd hwn a bod y ddwy gerdd wedi eu perfformio o fewn cyfnod byr i'w gilydd.

Gellir awgrymu, felly, fod yn yr hanes am Fol y Baeol olion y math o

²¹ DGIA 14.

²² Jerry Hunter, *art.cit.* 41.

²³ Huw Meirion Edwards, 'Murmio Marwnadau: Golwg ar y Ffug-farwnad yng Nghyfnod y Cywydd', *Dwned*, v (1999), 58.

²⁴ Y mae Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym: Collected Papers* (Cardiff, 1986), 49, o'r farn fod Dafydd wedi canu ei farwnad i Ruffudd cyn yr ymryson, gan nad yw'n cyfeirio o gwbl at yr anghydfod hwnnw yn ei gerdd (yn wahanol i Ruffudd yn y cywydd hwn, gw. llau. 9-12, 15-26). Fodd bynnag, nid yw absenoldeb unrhyw gyfeiriad at yr ymryson yng nghywydd Dafydd ond yn rhyw gymaint o ateg i'r ffaith fod Gruffudd eisoes wedi cydnabod goruchafiaeth Dafydd yn y cywydd hwn. Yn ogystal â hyn, ceir tebygrwydd rhwng y ddau gywydd mewn manau, gw. llau. 3n, 39n, 53-4n.

destunio a oedd, o bosibl, yn rhan o'r proses o berfformio'r gerdd o flaen cynulleidfa adeg gŵyl, naill ai yn oes Gruffudd a Dafydd neu mewn canrif-oedd diweddarach.²⁵ Cofier bod Llywelyn ap Gutun wedi llunio cyd-destun dychmygol yn ei ffug-farwnad yntau i Guto'r Glyn yn ail hanner y bymthegfed ganrif, gan honni bod ei gyfaill barddol wedi boddi ar draeth Malltraeth ym Môn.²⁶ Yn y fersiwn cynharaf o'r hanes, a geir yn llaw Ifan ap Siôn yn llawysgrif G, adroddir sut y [*d*]oeth bol abaeol ag a dda[*l*]iodd gynglwyst a gwr bonheddig a gwnai fo nhw [sef Dafydd a Gruffudd] yn ffre[*i*]ns. Tybed a oedd dal cynglwyst, sef cytundeb i fentro arian ar rywbeth, yn rhan o'r chwarae, ac a yw'r uchelwr y cynhelid y ddefod yn ei lys i'w weld yng nghymeriad y gwr bonheddig yma? Y mae'r posibilrwydd yn ddeniadol, ac yn beryglus efallai, yn absenoldeb unrhyw wybodaeth bendant am ddefodau perfformio cerddi yn y cyfnod hwn.

Y llawysgrifau

Y mae'r cywydd hwn ar glawr mewn saith llawysgrif ar ddeg ar hugain. Casgliadau o waith Dafydd ap Gwilym yw'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau sy'n perthyn i'r ail ganrif ar bymtheg, a gellir eu rhannu yn ddau brif grŵp. Er ei bod yn debygol iawn mai cynsail y ddau grŵp hyn oedd y llawysgrif goll a elwir y Vetustus, dylanwadwyd ar nifer o'r llawysgrifau yma a thraw gan draddodiadau amgen.²⁷ Y mae BCKXaeg oll yn deillio o G, sydd yn ei dro yn deillio o M, er bod ei destun yn wahanol i eiddo M ar adegau. Y tebyg yw fod Ifan ap Siôn, copiyydd G, wedi defnyddio llawysgrif neu lawysgrifau eraill anhysbys i lunio ei destun, neu wedi tynnu ar ei wybodaeth ef ei hun am y gerdd (neu'r ddau). Y mae Xa yn gopiâu uniongyrchol o G, ac fe'u hepgorwyd o'r amrywiadau, ynghyd â B, sy'n gopi o C, ac g, sy'n gopi o e. Y mae darlleniadau CKe fymryn yn wahanol weithiau i eiddo G, ac fe'u cynhwyswyd.

Y mae'r ail grŵp yn deillio o E, sydd hefyd yn deillio'n rhannol o lawysgrif a oedd yn gysylltiedig â'r Vetustus, sef k. Y mae testun k yn debyg i eiddo M ar adegau, ond, fel yn achos Ifan ap Siôn, tynnodd William Morris, copiyydd E, ar draddodiadau amgen wrth lunio ei destun ef. Llawysgrifau diweddar yw ANRY sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o E a k, ac fe'u hepgorwyd o'r amrywiadau. Llawysgrifau o'r ail ganrif ar

²⁵ Yn BL Add 31059, td. 103, yn llaw Richard ap John o Ysgorlegan, ceir rhagymadrodd tebyg, ond byrrach nag eiddo'r ffug-farwnad hon, i ffug-farwnad Dafydd i Fadog Benfras: *Cowydd marwnad am vadoc benfras o waith dd ap gwylim: pann ddoeth y gair oi varw ef ac ynte yn vyw ar hynny o amsser: ac velly yr aethe y gair at vadoc varw dd. a ffob vn a wnaeth varwnad iw gilid [sic] ac ai klowssant kynn i marw.* Am gywydd Dafydd, gw. DG.net cerdd 20.

²⁶ Am gywydd Llywelyn a chywydd Guto yn ateb iddo, gw. GLIGt cerdd 11; GGI² 101–3 (XXXVIII); atgynhyrchwyd cywydd Guto yn GLIGt, At. ii. Ceir testun yr ymryson hwn yn llawysgrif Boderwyd 1, 1 (ail hanner yr 17g.), llawysgrif sydd, yn ddiddorol ddigon, yn dwyn yr enw *Bol y Bavo / this book is called bavo*, ond nid yw union arwyddocâd y teitl hwn yn eglur.

²⁷ Ar y Vetustus, llawysgrif swmpus o waith Dafydd ap Gwilym a gomisiynwyd gan uchelwr cyfoethog c.1526, gw. DG.net 'Traddodiad y llawysgrifau'.

bymtheg yw FTUZj, sy'n dilyn darlleniadau'r Vetustus yn fras, ac sy'n gysylltiedig naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'i gilydd ac â k ac E, ac fe'u cynhwyswyd.

Yn ogystal â'r ddau brif grŵp hyn, ceir dwy lawysgrif annibynnol o'r unfed ganrif ar bymtheg, sef JO sy'n sicr yn perthyn i'r un traddodiad â'r Vetustus. Y mae ISVWbdfh oll yn llawysgrifau cymharol gynnar y mae eu testunau yn annibynnol ar y Vetustus ac yn dangos llawer o ôl traddodi llafar o ran darlleniadau a threfn llinellau. Y mae f yn gopi o V, ac S o d, ac fe'u hepgorwyd, ond cynhwyswyd h er ei fod yn perthyn i W, gan nad yw'n gopi uniongyrchol ohono. Ceir traddodiadau annibynnol hefyd mewn llawysgrifau o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, sef DHLPQci. Y mae Qci yn perthyn yn agos i D, ac fe'u hepgorwyd, ynghyd â H, sy'n gopi o L. Ymddengys DIVb fel pe baent yn perthyn i'r un traddodiad yn fras, ac y mae hwnnw'n un digon llwgr at ei gilydd.

Seiliwyd y testun yn bennaf ar ddarlleniadau G ac M o'r grŵp cyntaf uchod, prif lawysgrifau'r ail grŵp a dwy lawysgrif annibynnol J ac O.

Golygwyd y cywydd hwn yn DGG 149–51 (cerdd LXXXI) ac yn GDG³ 427–8.

Cynghanedd: croes 18 ll. (28 y cant); traws 9 ll. (14 y cant); sain 22 ll. (34 y cant); llusg 15 ll. (23 y cant).

3 **Deheubarth** Brenhiniaeth a sefydlwyd yn y 10g. yn ystod teyrnasiad Hywel Dda drwy gyfuno'r holl diriogaeth rhwng afonydd Teifi a Thawe. Credir i Ddafydd dreulio'i ieuentid yn llys Llywelyn ap Gwilym yng Nghastellnewydd Emlyn, gw. LIU 112; GDG³ xxi–xxxi, xxxix–xl; cf. llau. 8 *Dyfed* a 40 *Deau*. Y mae Dafydd yn ymffrostio yn ei drydydd cywydd ymryson fod uchelwyr Môn yn hael eu croeso iddo a bod ei gerddi yn boblogaidd yng Ngwynedd, ond nid felly y byddai'r croeso a gâi Gruffudd yntau pe dôi i Ddeheubarth, gw. DG.net 28.33–44. O ganlyniad, y mae'n bosibl fod ymgais yn ymhlyg ym moliant Gruffudd i Ddafydd yn y llau. hyn i'w gadw yn ei briod le, ac i'w uniaethu'n derfynol â'r ardal hon o Gymru. Yn ei farwnad i Ruffudd y mae Dafydd yntau'n bendant mai Môn yw bro Gruffudd, gw. *ib.* 22.12, 38; ll. 54n isod.

4 **gwirfardd** Cf. yr hyn y mae Gruffudd yn ei alw ei hun yn ei bedwerydd cywydd ymryson, DG.net 29.14 *Weirful, er mwyn dy wirfardd* (aralleirir [g]wirfardd yn 'fardd ffyddlon').

8 **Troes boen dwfn tros baun Dyfed** Cf. darlleniad llsgrau. DJOPTVWbdj *trais [boen dwfn]*, darlleniad y dylanwadwyd arno, o bosibl, gan y cymeriad llythrennol ac amllder y sôn am drais ar ddechrau ffug-farwnad Dafydd i Ruffudd, DG.net 22.1–8 *Tost oedd ddwyn, trais cynhwynawl, / Thws o'n mysg, Taliesin mawl. / Tristeais, nid trais diarw, / Trwm, oer, fal y trywyr marw. / Treiwyd gwawd, nid rhaid*

*gwadu, / Tros fyd, gwladeiddiaf trais fu. / Tros fy ngran, ledchwelan lif,
/ Try deigr am wr tra digrif.*

paun Dyfed Yn ôl Cainc Gyntaf y Mabinogi, cynhwysai Dyfed saith cantref, sef Cemais, Pebidiog, Rhos, Penfro, Daugleddau, Emlyn a'r Cantref Gwarthaf, gw. PKM 93; am gysylltiadau Dafydd â'r ardal, gw. ll. 3n. Dyma ddisgrifiad addas iawn o Ddafydd fel rhywun a oedd yn hoff o adar ac wrth ei fodd yn ei ddangos ei hun, cf. llau. 5 *penceirddwalch*, 6 *gwr balch*, 25n ac, o bosibl, 36n; a hefyd eiriau Dafydd yn ei gywydd i Ferched Llanbadarn, DG.net 137.23 *A chwedyl'r hir edrychwyf / Dros fy mhlu ar draws fy mhlwyf* (ar yr elfen ymfrostgar yn y llau. hyn, gw. Bleddyn Owen Huws, '“Dros fy Mhlu ar draws fy Mhlwyf”: Golwg Newydd ar “Blu” Dafydd ap Gwilym', *Dwned*, x (2004), 33–55 (tt. 40–1 yn arbennig)). Y mae Dafydd a Madog Benfras ill dau yn cymharu ei gilydd â pheunod yn eu ffug-farwnadau i'w gilydd, gw. DG.net 20.24; GMBen 4.6, 10, 13, 60. Geilw Madog a Dafydd ab Edmwnd Ddafydd ap Gwilym yn *eos Dyfed*, gw. GMBen 4.36; DE 20 (XI).

9–12 Yn ôl Dylan Foster Evans y mae'r llau. hyn yn dangos sut yr oedd beirdd y 14g. yn ystyried *genre* y canu dychan yn ffurf barchus a allai sefyll ar ei thraed ei hun, yn wahanol i'r hyn a nodir mewn o leiaf un fersiwn o Ramadegau'r Penceirddiaid, gw. 'Goganwr am Gig Ynyd': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996), 6–10, 24.

13 **Disgybl wyf, ef a'm dysgawdd** Un o lau. enwocaf yr Oesoedd Canol, a ll. sy'n cydnabod medr Dafydd ym maes y cywydd (ll. 14) a'i ddylanwad ar Ruffudd. Y mae'n rhyw gymaint o ateg o blaid un o brif gŵynion Dafydd yn erbyn Gruffudd yn yr ymryson, sef bod Gruffudd yn ei efelychu ac yn llên-ladrata oddi arno. Dyma, felly, graidd cymodlon y cywydd hwn, lle y mae Gruffudd yn cydnabod ei ddyled bersonol i fedr Dafydd fel bardd, dyled sy'n cael ei hadlewyrchu gan feirdd eraill a dalodd deyrngedau i Ddafydd, gw. GIG 90 (XXI.26, 28) *athro pawb oedd ac Athronddyysg oedd uthr ynddaw*; GMBen 4.39, 44 *athro beirdd a [ph]ennaeth beirdd* (Madog Benfras). Gwelir yn ll. 14n, fodd bynnag, fod yr hen gynnen rhwng Gruffudd a Dafydd yn dal i lechu yn llinellau'r cywydd hwn.

14 **huawdr cawdd** Ceir darlleniad haws, *huawdr hawdd*, mewn nifer o lsgrau., ond y mae tystiolaeth y llsgrau. cynnar, ynghyd â'r gynghanedd sain gadwynog a oedd yn gyffredin yn y 14g., o blaid *huawdr cawdd*, 'crewr digofaint'. Y tebyg yw mai at yr hyn a ddisgrifiodd Rachel Bromwich yn 'extreme abasement' yng ngwaith Dafydd y cyfeirir yma, sef ei bwyslais eithafol ar wewyr serch gwrthodedig, gw. *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym: Collected Papers* (Cardiff, 1986), 69. Dyma'r math o ganu a ddaeth dan lach Gruffudd yn y cywydd a roes

fod i'r ymryson, gw. DG.net cerdd 23. Llinell denau'r orffwysfa yn unig sy'n gwahanu'r mawl a'r dychan yn y ll. hon, lle y clywir llais cellweirus Gruffudd yn cyfeirio'n ôl at asgwrn y gynnen rhwng y ddau fardd.

- 21–2 **Rhof innau ... / Maddeuant** Ar yr arfer o ddefnyddio gair yn ei ffurf gysefin yn dilyn sangiad, gw. Treigladau 425.
- 25 **Cynddelw** Cynddelw Brydydd Mawr, *fl. c.1155–95*, y Gogynfardd enwocaf ac un y cyfeirir ato gan feirdd y ddwy ganrif ddilynol fel un o brif feistri'r traddodiad barddol; golygwyd ei waith yn GCBM i a ii; gw. llau. 33–52n. Y mae'r ffaith y cyfeirir ato ddwywaith yn y cywydd hwn (gw. ll. 42) yn awgrymu bod gan Ruffudd resymau amgenach na'r arfer dros gymharu Dafydd â Chynddelw, bardd a alwyd gan Catherine McKenna 'the most arrogant of all the bards', gw. MWRL 27; cf. ll. 8n.
- 26 **gwawr** Deellir 'arglwydd', ond gall hefyd mai 'arlliw' a olygir, gw. GPC 1605–6.
- 30 **dau aber Cai** Cysylltodd Iolo Morganwg le o'r enw Aber Cai â Chai Sant ap Brychan, gw. *Iolo Manuscripts* (Llandoverly, 1848), 120. Fodd bynnag, credir bod nant yn dwyn yr enw Cai yng nghyffiniau Dôl-goch, llys Llywelyn ap Gwilym ger Castellnewydd Emlyn, gw. D.J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Morgannwg', LICy v (1959), 170; ll. 3n uchod. Ar leoliad y llys, gw. DG.net, nodyn cefndir cerdd 6.
- 32 **bardd penceirddradd** Cf. ll. 5 *penceirddwalch*. Yn ôl cyfreithiau Hywel Dda yr oedd y pencerdd, ynghyd â'r bardd teulu a'r cerddor, yn un o'r tri phrif fath o fardd, a'r uchaf o ran statws, yn llys y brenin. Er mai pytiog yw'r dystiolaeth, ar y cyfan, ynghylch swydd y pencerdd yng nghyfnod Dafydd a Gruffudd, ymddengys y gallai bardd ennill y statws hwnnw drwy ddod yn fuddugol mewn ymryson a thrwy ennill cadair (gw. ll. 36n). Yn y 13g. cymerodd Phylip Brydydd ran mewn ymryson â'r *beird ysbydeit* yn llys Rhys Ieuanc yng Ngheredigion, a'r tebyg yw mai ymryson ydoedd i ymgiprys am swydd y pencerdd yn llys Rhys, gw. GDB cerddi 14 a 15, a td. 164. Llai dibynadwy efallai yw'r englynion ymryson a briodolwyd i Gynddelw Brydydd Mawr a Seisyll Bryffwrch yn y 12g., ond ceir cynsail chwedlonol i'r ymrysonau hanesyddol yn yr ymryson rhwng Taliesin a beirdd Maelgwn Gwynedd, gw. GCBM ii, cerdd 12; Ifor Williams, *Chwedl Taliesin* (Caerdydd, 1957). Prin a chymysglyd yw'r dystiolaeth ynghylch union natur y gyfundrefn farddol yn ystod y 14g., ond y mae nifer o gyfeiriadau yn yr ymryson rhwng Dafydd a Gruffudd yn awgrymu bod y ddau fardd wedi ennill graddau barddol oddeutu'r un adeg, naill ai yn sgil yr ymryson neu fel arall, gw. Gruffudd am Ddafydd yn ei bedwerydd cywydd ymryson, DG.net 29.27–8 *Am radd y mae'n ymroddi / Ymryson ym Môn â mi*; Dafydd am Ruffudd yn ei gywydd ymryson olaf, *ib.* 30.15–16 *O chafas y gwas, wg wên, / Urdd newydd ar ddwyn awen*; ymhellach, gw.

nodyn cefndir cerdd 2. Ymddengys fod Gruffudd wedi ei urddo'n bencerdd cyn i Ddafydd ganu cywydd olaf yr ymryson, ac ymddengys fod y llau. hyn yn awgrymu i Ddafydd yntau dderbyn yr un anrhydedd cyn i Ruffudd ganu ei ffug-farwnad iddo. Gall fod yn arwyddocaol mai'r pencerdd yn unig, yn ôl y cyfreithiau, a gâi hyfforddi beirdd eraill, nodwedd a ategir yng ngwaith y beirdd eu hunain ac a adlewyrchir ym marwnadau'r beirdd i Ddafydd, gw. LII 21; J.E. Caerwyn Williams 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', LICy xi (1970), 37; llau. 13n a 36n. Ymhellach ar y pencerdd, gw. DGIA 4-8.

- 33-52 Y mae Gruffudd yn cymharu Dafydd yn y llau. hyn â chyfanswm o wyth o brif feirdd y gorffennol. Y mae'n bosibl ei bod hi'n fwriad ganddo mewn ffug-farwnad fel hon barodio techneg a ddefnyddiwyd gan Wilym Ddu pan ganodd farwnad i Drahaearn (gw. ll. 49n) rywbryd yn ystod hanner cyntaf y 14g., lle'r enwir pedwar ar ddeg o feirdd enwog y gorffennol, gw. GGDT 8.11-28; cf. hefyd y rhestr enwau a geir gan Iolo Goch yn ei awdl i Ddafydd ap Bleddyn, Esgob Llanelwy, GIG 81 (XVIII.1-13). Ceir gan Wilym Ddu a Gruffudd fwllch yn rhestr y beirdd a enwir rhwng y rhai a ganai yn ystod y 6g. a'r rheini a ganai yn ystod y 12g. a'r 13g.
- 33 **Taliesin** Bardd o'r 6g. a ganai i Urien ap Cynfarch a'i fab Owain, arglwyddi teyrnas Rheged yn yr Hen Ogledd, gw. CT xxxix-xli; TYP³ 500-3. Yr oedd ei enw'n dynodi safon barddoniaeth a hynafiaeth y traddodiad barddol brodorol. Enwir ef gan Ddafydd yntau ar ddechrau ei ffug-farwnad i Ruffudd, DG.net 22.1-2 *Tost oedd ddwyn, trais cynhwynawl, / Thws o'n mysg, Taliesin mawl*. Ymhellach, gw. llau. 33-52n.
- 35 **Merddin** Myrddin y bardd a ganai yn yr Hen Ogledd yn ystod y 6g., yn hytrach na'r cymeriad chwedlonol o'r un enw, gw. TYP³ 458-63; Rachel Bromwich, 'Y Cynfeirdd a'r Traddodiad Cymraeg', B xxii (1966-8), 32-4; GSRh 2.4n. Fe'i henwir yn aml ar y cyd â Thaliesin (gw. ll. 33n), cf. GGDT 8.11-12; DG.net 45.23-4. Ymddengys fod cysylltiad agos wedi bodoli rhyngddynt ers cyfnod cynnar o fewn cyddestun chwedlonol, gw. YMTh; *Ystoria Taliesin*, gol. Patrick K. Ford (Caerdydd, 1992), 75-82. Ymhellach, gw. llau. 33-52n.
- 36 **cadair y gerdd** Yn ôl y cyfreithiau, *sef vyd pennkerd: bard gwedy ennillo cadeir*, gw. LIB 26 (ll. 5), xxvii-xxviii; Dafydd Jenkins, *The Law of Hywel Dda* (Llandysul, 1986), 38-9, 235, 371. Ymddengys ar un adeg y gallai bardd ennill cadair drwy ddod yn fuddugol mewn ymryson, ac y mae'n bosibl iawn mai at *radd* o'r math hwn y mae Dafydd a Gruffudd yn cyfeirio yn eu hymryson hwythau, gw. LIB 15 (llau. 10-13); nodyn cefndir cerdd 2. Er nad yw'n gwbl eglur beth oedd union natur y gyfundrefn farddol yn ystod y 14g., y tebyg yw y dylid ychwanegu *cadair y gerdd* at y cyfeiriadau eraill at y pencerdd a'i

swyddogaethau sy'n britho'r gerdd hon, gw. llau. 32n a 39n. Gan fod Myrddin yn cael ei enwi yn y ll. flaenorol, diddorol yw nodi bod *cadair Fyrddin* yn derm a ddefnyddid i olygu talaith neu goron, ynghyd â chrib ddwbl ar geiliog, gw. GGI² 332; IGE² 398; o ran yr ail ystyr, cf. ll. 8n.

39 **cyweirdant** Ceir cyfeiriadau yn y cyfreithiau at *gyweirgorn*, sef y teclyn a ddefnyddiai'r pencerdd i diwnio *cyweirdant* ei delyn, gw. LIB 108 (llau. 8–12); Dafydd Jenkins, *op.cit.* 332; cf. darlleniad llsgr. O *kyweirgorn*. Ceir y ddau derm yn ffug-farwnad Dafydd i Ruffudd, DG.net 22.17–18 *A'i chyweirgorn, ddiorn dda, / A'i chyweirdant, och wyrda!* Ar gyfeiriadau eraill at y pencerdd a'i swyddogaethau yn y cywydd hwn, gw. llau. 32n a 36n.

43 **Aneirin** Bardd o'r 6g. y priodolwyd iddo 'Y Gododdin', casgliad enwog o awdlau marwnadol i filwyr teyrnas y Gododdin yn yr Hen Ogledd, gw. CA xiv–xxiii; TYP³ 278–9; AH 123–50. Prin yw'r cyfeiriadau ato yng ngwaith y Gogynfeirdd a gwaith beirdd y 14g., ac ymddengys fod rhai o gopïwyr y gerdd hon yn anghyfarwydd ag ef, gw. yr amrywiadau; cf. Casnodyn yn ll. 51n; GDB 25.5n; llau. 33–52n.

45–6Er bod tynnu coes yn rhan allweddol o ffug-farwnadau'r beirdd i'w gilydd, yr oedd canu mawl i'r bardd 'ymadawedig' yn sicr yn rhan bwysig arall o'r confensiwn. Gan fod milwriaeth a dewrder yn rhan anhepgor o *genres* y canu mawl a marwnad i uchelwyr, ceir cyfeiriadau mynych at ddelfrydau ymladdgar ym mhob un o'r ffug-farwnadau cydnabyddedig hefyd. Fodd bynnag, y mae Gruffudd yn troi'r arfer i'w felin ei hun yn y cywydd hwn drwy ddwyn i gof y gwrthdaro geiriol gwirioneddol a ddigwyddodd rhyngddo ef a Dafydd: *aerfa, penceirdd-walch, [c]yfarwas / Rhof ac ef, dwbiwr a [ll]ifnadd lafn*. Fodd bynnag, gan fod cynifer o'r ffug-farwnadau, yn cynnwys y gerdd hon (gw. ll. 26), yn rhoi pwyslais ar ganu serch, ceir gwrthgyferbyniad rhwng dewrder ffyrnig y delweddau milwrol a chyflwr llipa'r beirdd yn wyneb grym serch. Dywedodd Dafydd ei hun nad milwr mohono, ond carwr, gw. DG.net 72.17–20 *Cyd bwyf was, cyweithas coeth, / Llwr yn nhrin, llawfron rhynoeth, / Nid gwas, lle bo gwyrddlas gwýdd, / Llwr wyf ar waith llyfr Ofydd*. Dylid cofio bod yr elfen hunanddifriol yng ngwaith Dafydd yn effeithiol oherwydd bod ei gynulleidfa'n gwybod yn iawn ei fod yn garwr digon llwyddiannus mewn gwirionedd, ac na ddylid cymryd disgrifiadau'r beirdd ohonynt hwy eu hunain yn rhy ganiataol. Ar y llaw arall, gellir synhwyro nad yr un yw'r agwedd at lyfrdra a geir gan Dafydd ag a geir yng nghywydd Llywelyn ab y Moel i Frwydr Waun Gaseg, lle y mae'r bardd yn ddigon hyderus yn ei enwogrwydd fel ymladdwr i wneud hwyl am ei ben ei hun yn y gerdd am iddo ffoi gyda'r milwyr Cymreig rhag y Saeson, gw. GSCyf cerdd 9. Nid yw'n debygol fod Dafydd erioed wedi gweld nac wedi bod yn rhan o frwydr, ac, o ganlyniad, nid yw disgrifiadau Gruffudd ohono yma yn taro

deuddeg. Efallai fod hyn oll yn fwriadol, yn enwedig o ddehongli *yn lle bai raid* fel awgrym nad oedd Dafydd yn brwydro ond pan fyddai'n rhaid iddo.

- 46 **Yn llwybr aer yn lle bai raid** Ni cheir y darlleniad hwn yn yr un llsgr., ond cynigir y diwygiad gan fod y rhan fwyaf o'r llsgrau. yn rhoi ll. chwesill: *yn llwybr aer lle bai raid*. Fodd bynnag, gall fod *llwybr* yn cael ei gyfrif yn ddeusill yn yr achos hwn, cf. 2.16n. Ymddengys fod Gruffudd yn chwarae ar ystyron *rhaid*, gw. GPC 3031 d.g. (a) 'rheidrwydd, angen; caledi, ?brwydr'.
- 49 **Trahaearn** Trahaearn Brydydd Mawr, bardd a oedd yn ei flodau yn gynnar yn y 14g., gw. GGDT 91–8. Canodd Gwilym Ddu farwnad iddo a adleisir mewn rhannau o'r cywydd hwn, gw. *ib.* cerdd 8; llau. 33–52n.
- 50 **Llywarch** Y Gogynfardd Llywarch ap Llywelyn a elwid hefyd, o bosibl, yn 'Prydydd y Moch' (er nad oes sicrwydd mai'r un oeddynt), *fl.* c.1173–1220, yn hytrach na phrif gymeriad Canu Llywarch Hen, cyfres o englynion o'r 9g. neu'r 10g. sy'n adrodd hanes Llywarch a'i feibion (cf. y darlleniad *fab Llywarch* mewn rhai llsgrau.). Llywarch ap Llywelyn oedd prif fardd tywysogion Gwynedd ar ôl marwolaeth Owain Gwynedd, gw. GLILL; cf. GGDT 8.17; llau. 33–52n.
- 51 **Casnodyn** Y bardd cynharaf o Forgannwg y cadwyd ei waith, *fl.* c.1320–40, gw. GC. Ymddengys fod rhai o gopiwyr y llsgrau. wedi cael trafferth gydag enw'r bardd, gw. yr amrywiadau; cf. llau. 33–52n a 43n.
- 52 **Addaf ... Fras** Bardd y tybir iddo fyw rhwng oddeutu canol y 13g. a degawdau cynnar y ganrif olynol. Fe'i claddwyd yn abaty Maenan yn Nyffryn Conwy. Cerddi darogan, y ceir peth amheuaeth ynghylch eu dilysrwydd, yw'r unig waith a briodolwyd iddo yn y llsgrau., gw. GGI² 321. Ymhellach, gw. llau. 33–52n.
- 53–4 Cf. y modd y mae Dafydd yn lleoli bedd Gruffudd yntau yn ei farwnad iddo, DG.net 22.37–42 *Tost o chwedl gan fun edlaes / Roi 'nghôr llawn fynor Llan-faes / Gimin, dioer, gem a'n deiryd, / O gerdd ag a roed i gyd. / Rhod serchowgrwydd agwyddor / I mewn cist ym min y côr.*
- 54 **dan gôr gwydr** Ar sail y cyfeiriad hwn yr awgrymodd D.J. Bowen fod Dafydd wedi ei gladdu yng nghorff mynachlog Ystrad-fflur yn hytrach nag o dan yr ywen yn y fynwent yno, a bod yr ywen yn 'tyfu'n anhyblyg wyliedydd dros y rhan o'r fynachlog lle'r oedd bedd Dafydd oddi mewn', gw. 'Ai yn Nhalylychau y Claddwyd Dafydd ap Gwilym?', *Barddas*, 87/8 (Gorffennaf/Awst 1984), 15. Fodd bynnag, ni cheir awgrym o hyn yng nghywydd Gruffudd i'r ywen uwchben bedd Dafydd (cerdd 5), sy'n sicr yn gwrthgyferbynnu â thystiolaeth y ll. hon. Yng nghôr neu gabidyldy'r eglwys y cleddid rhai arglwyddi ac uchelwyr yn ôl yr arfer, a gellid tybio mai yno hefyd y cleddid rhai beirdd, megis Addaf Fras yn abaty Maenan a Llywelyn ab y Moel yn abaty

Ystrad Marchell, gw. Pen 94, 26; IGE lvii. Am un rhestr o'r manau lle y claddwyd y beirdd, gw. LIGC 3029B [= Mos 110], 188, lle y dywedir i Ddafydd gael ei gladdu yn abaty Talyllychau (ymhellach, gw. nodyn cefndir cerdd 5). Ystrad-fflur oedd prif gladdfa llinach arglwyddi'r Deheubarth, a rhesymol yw tybio mai at yr abaty hwnnw y cyfeirir yma am fod Dafydd yn cael ei uniaethu â'r Deheubarth yn llau. 3n a 40. Y mae'r modd y mae Dafydd yntau yn lleoli bedd Gruffudd yn abaty Llanfaes ym Môn yn ei ffug-farwnad iddo yn awgrymu bod yr abatai hyn yn cael eu hystyried yn fannau delfrydol ar gyfer claddu beirdd yn ogystal ag uchelwyr ac uchelwagedd, er y dylid gochel rhag eu hystyried yn dystiolaeth ddibynadwy i'r perwyl hwnnw.

- 55 **Bleddyn** Y mae'n bosibl fod bardd o'r enw Bleddyn Ddu Was y Cwd, a oedd yn hanu o Fôn, yn gyff gwawd gan nifer o feirdd y 14g., gw. GBDd 3–8. Y tebyg yw mai ato ef y cyfeiriodd Dafydd yn ei awdl i Hywel ap Goronwy, deon Bangor, DG.net 8.39–40, ac yn ei bedwerydd cywydd ymryson, *ib.* 30.25–8 *Haws oedd yng Ngwynedd weddu / Tad i Fleddyn o'r dyn du, / Nag efô, hwyllo heli, / O dud Môn yn dad i mi.* Yn ôl Thomas Parry, 'Yr oedd yn ddefod mewn marwnadau ffug ... ofidio na bai rhyw fardd sâl dirmygedig wedi ei gymryd o'r byd yn hytrach na'r bardd enwog y cenir ar ei ôl', gw. GDG³ 554. Cywydd arall sy'n cynnwys y nodwedd hon ac sy'n sicr yn farwnad ffug yw marwnad Iolo Goch i Ithel Ddu, GIG 98–9 (XXIII.33–40) *Pam na bu farw, garw gaerug, / Gwyddelyn, march cregyn cryg? / Ni chaiff ef dolef lle dêl / Weithian, gan nad byw Ithel; / Gwyn ei fyd yn gwynfydu / Y Brem bach, awr brim y bu / O'i flaen farw ef eleni, / Iawn a wnaeth, hyn a wn i.* Serch hynny, nid yw'r arfer hon i'w gweld yn yr un ffug-farwnad arall, ac 'nid ymddengys fod hyn ymhlith confensiynau'r *genre*', gw. Huw Meirion Edwards, 'Murnio Marwnadau: Golwg ar y Ffug-farwnad yng Nghyfnod y Cywydd', *Dwned*, v (1999), 51.
- 56 **Fforddrych truan, cryman crwm** Am y tebygrwydd rhwng y disgrifiad hwn o Fleddyn (Bleddyn Ddu Was y Cwd yn ôl pob tebyg, gw. ll. 55n) a disgrifiadau difrifol eraill o ryw Fleddyn gan eraill, gw. GBDd 5–6.
- 59 **dilys ddewis** Seiniid *ddilys* fel *dilis* dan ddylanwad *i* arall yng ngoben y gair, gw. J. Morris-Jones: CD 248.
- 61 **teuluwas** Yng Ngramadegau'r Penceirddiaid yr oedd swyddogaeth y teuluwr yn cyfateb i swydd y bardd teulu, a'r tebyg yw mai at y swydd honno y mae Gruffudd yn cyfeirio yn y ll. hon, gw. DrOC 205. Credir bod y bardd teulu, sef y bardd a ganai i osgordd y brenin, yn un o bedwar swyddog ar hugain y llys, ac yn is ei statws na'r pencerdd, gw. *ib.* 203–7; ll. 32n. Fodd bynnag, y mae'n anorfod fod newidiadau sylweddol wedi digwydd yn y gyfundrefn farddol yn sgil y Goncwest, ac nid yw'n eglur beth yn union a olygid wrth y term *teuluwas* erbyn y

14g., cf. ll. 32n. Gan fod Gruffudd eisoes wedi galw Dafydd yn ben-
cerdd yn llau. 5 a 32 gellir casglu naill ai fod yr hen ystyron wedi
cymathu'n fras erbyn ei oes ef, neu fod gan *teuluwas*, yn unol â'i hen
ystyr arwrol, ystyr eironig yma o gofio beirniadaeth Gruffudd o ffug-
wewyr Dafydd yn ei gerddi serch, gw. 45–6n. Gall fod y pwyslais a
rydd rhannau o'r Gramadegau ar ddifyrrwch cerddi'r teuluwr yn
berthnasol yma, yn ogystal â chyswllt y bardd teulu â'r frenhines yn y
cyfreithiau, gw. GP 17, 37; Dafydd Jenkins, *The Law of Hywel Dda*
(Llandysul, 1986), 20.

64 **digrifach** Dilynir D(G)LNUZbk (cf. *ddigrifach* yn MT) ar draul
CGJKOPVdej *llawenach*. Amheuir fod *llawenach* yn ddarlleniad
diweddarach a ddefnyddid mewn gwrthgyferbyniad â *tristach* yn y
llynell flaenorol. Ar arferion treiglo (neu ddiffyg treiglo) ansoddair
cymharol yn dilyn rhif, gw. Treigladau 144–5 (ceir lle i gredu mai'r
gysefin a arferid yn gyffredinol yn dilyn *naw*, gw. *ib.* 135).

5

Hon yw'r fyrraf a'r enwocaf o'r ddwy gerdd farwnad a ganodd Gruffudd
Gryg i Ddafydd ap Gwilym.¹ Y mae'n bur debygol mai ar dystiolaeth y
cywydd hwn yn unig y seiliwyd y ddamcaniaeth i Ddafydd ap Gwilym gael
ei gladdu ym mynwent abaty Ystrad-fflur. Yr unig un i leisio gwrth-
wynebiad argyhoeddiadol i'r ddamcaniaeth honno yw Rachel Bromwich, a
seiliodd ei dadl, yn bennaf, ar ei chred fod y farwnad hon yn un ffug, yn
ogystal ag ar draddodiad a geid yn ardal Talylyllychau fod bedd Dafydd yn
nhir yr abaty yno.² Seiliwyd y ddadl o blaid Ystrad-fflur, ar y llaw arall, ar y
dybiaeth fod y cywydd hwn yn farwnad ddilys i Ddafydd.

Ceir dau gyfeiriad yng ngwaith beirdd diweddarach sy'n ymddangos fel
pe baent yn cefnogi'r dehongliad hwnnw.³ Dengys y cyfeiriadau at fedd
Dafydd mewn cywydd serch gan Ddafydd ab Edmwnd ac mewn cywydd

¹ Am y gerdd arall, gw. cerdd 4.

² Gw. Rachel Bromwich, 'Ai yn Nhalylyllychau y Claddwyd Dafydd ap Gwilym?', *Barddas*, 87/8 (Gorffennaf/Awst 1984), 14; *ead.*, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym: Collected Papers* (Cardiff, 1986), 11n3, 159–61. Yn *ib.* 11n3 dywedir mai Thomas Wiliems, Trefriw, a gofnododd restr manau claddu'r beirdd yn LIGC 3029B [= Mos 110], 188, ac, felly, dyddir y cyfeiriad at gladdu Dafydd yn Nhalylyllychau (*dd. ap Gwilym agladdpwynt y nhalylyllychau*) cyn 1600. Credir bellach mai yn llaw ddiweddar Robert Vaughan y cofnodwyd y rhestr oddeutu canol yr 17g.

³ Gw. Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1953), 80; *id.*, GDG³ xxxvi; *id.*, 'Ai yn Nhalylyllychau y claddwyd Dafydd ap Gwilym?', *Barddas*, 87/8 (Gorffennaf/Awst 1984), 15; D.J. Bowen, *ib.* 15–16; *id.*, 'Lle Claddwyd Dafydd ap Gwilym', *Barddas*, 89 (Medi 1984), 7–8. Gosodwyd plac i goffâu Dafydd ar fur gogleddol abaty Ystrad-fflur gan Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1951, a hynny eto yn bennaf ar sail y cywydd hwn, gw. T.H. Parry-Williams, 'Memorial to Dafydd ap Gwilym at Strata Florida', THSC, 1951, 38–40; C.A. Ralegh-Radford, *ib.* 40–2.

gan Wiliam Cynwal fod y traddodiad ynghylch yr ywen yn Ystrad-fflur wedi ennill ei blwyf erbyn ail hanner y bymthegfed ganrif a'r ganrif ddilynol.⁴ Y tebyg yw mai i gyfnodau diweddarach hefyd y perthyn y ddau englyn marwnadol dienw i Ddafydd a olygwyd yn GDG³ 431. Yr oedd mesur y cywydd wedi hen ddisodli'r awdl fel prif gyfrwng y beirdd ar gyfer canu mawl a marwnad erbyn y bymthegfed ganrif, ac nid oedd arfer y beirdd o ganu ffug-farwnadau i'w gilydd mor gyffredin yn y cyfnod hwnnw ag yr oedd ymhlith beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg.⁵ Y mae'n debygol iawn fod beirdd diweddarach wedi dehongli cywydd Gruffudd yn farwnad ddifrifol i'w gyfaill Dafydd (fel y gwnaeth rhai ysgolheigion hefyd) yn unol â'u defnydd difrifol hwy o'r cywydd marwnad, a bod y cyfeiriadau hyn oll yn adlewyrchu'r gred honno.⁶ O ganlyniad, ni ellir rhoi unrhyw bwys gwirioneddol ar dystiolaeth y cyfeiriadau eilradd hyn.

Y mae penderfynu beth yn union a ddywedir yng nghywydd Gruffudd yn ddbynnol, i raddau helaeth, ar yr hyn a alwodd Thomas Parry yn 'niwsans glân',⁷ sef confensiwn y farwnad ffug. Credir bellach fod y rhan fwyaf o'r cywyddau marwnad a ganodd y beirdd i'w gilydd (ynghyd â rhai i uchelwyr) yn ystod cyfnod cynnar y cywydd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn rhai a ganwyd pan oedd y gwrthrych yn dal yn fyw. Yn ôl Dafydd Johnston, 'anodd yw penderfynu weithiau a ydyw marwnad yn un ffug neu beidio, ond un nodwedd ddigamsyniol ar y ffug-farwnad yw'r pwyslais ar serch a digrifwch'.⁸ Yn sicr, y mae'r llinell yn un denau iawn ar adegau, ond o fabwysiadu'r pwyslais ar serch a digrifwch fel dau o feini prawf y ffug-farwnad, gwelir bod ymdriniaeth Gruffudd o enwogrwydd Dafydd fel bardd serch yn y cywydd hwn yn sail dros ei ystyried o'r newydd yn farwnad ffug.

Y mae'r cywydd yn seiliedig ar un o brif ddelweddau'r canu serch ac un a ddefnyddiodd Dafydd yn helaeth yn ei waith, sef delwedd y deildy.⁹ Geilw Gruffudd yr ywen yn *dŷ Dafydd*, [*tŷ*] *irddail*, *castell cudd* a [*th*] *yddyn* (llau. 4, 9, 11 a 34), gan adleisio Dafydd pan ddywed yntau iddo ... *eistedd dan*

⁴ Gw. DE 20 (XI): [*go*] *lvd davydd ap gwilym* / [*g*] *wydd i fedd sy gvddfa ym ... ysto kryd eosdy kred / ystavell eos dyved*; dryll cywydd a briodolwyd i Wiliam Cynwal yn BL Add 15040, 72: *y beirdd da yn gyfa gynt / boen hoen wedd bann heneiddynt / aent i aros rent evraid / ir teiav gorav a gaid / dd ap gwilm dewfvr / ai stred fflwch ai ystrad fflvr*. Fodd bynnag, er bod y ddau fardd yn cyfeirio at fedd Dafydd, y mae'n werth nodi nad enwir Ystrad-fflur yng nghywydd Dafydd ab Edmwnd ac na cheir sôn am yr ywen yng nghywydd Wiliam Cynwal.

⁵ Gw. Dafydd Johnston, LIU 149.

⁶ Yr oedd D.J. Bowen o'r farn fod y ddau englyn marwnadol dienw 'i bob golwg wedi eu canu yn sgil cywydd y Mab Cryg, ond yn ategu'r un traddodiad', gw. 'Ai yn Nhalyllychau y Claddwyd Dafydd ap Gwilym?', 15. Diddorol yw nodi na cheir yr un cyfeiriad at fedd tybiedig Dafydd yng ngherddi'r beirdd i abadau Ystrad-fflur.

⁷ Gw. Thomas Parry, *art.cit.* 15.

⁸ Gw. LIU 149; hefyd *ib.* 148; Rachel Bromwich, *op.cit.* 160; Huw Meirion Edwards, 'Murmio Marwnadau: Golwg ar y Ffug-Farwnad yng Nghyfnod y Cywydd', *Dwned*, v (1999), 56. Ymhellach ar gonfensiwn y ffug-farwnad, gw. nodyn cefndir cerdd 4.

⁹ Ar gerddi i'r deildy, gw. GMBen, nodyn cefndir cerdd 13.

*fedw gastell—/ Duw a wŷr na bu dŷ well.*¹⁰ Ceir hefyd debygrwydd rhwng y cywydd hwn a chywydd Dafydd i'r llwyn celyn, lle y cymherir y llwyn â [*ch*]aer ar ael ffridd, côr gweddaidd, a [*ch*]los tew diddos tŷ deuddyn.¹¹ Ceisiodd Rachel Bromwich gysylltu cywydd Dafydd i'r llwyn celyn â'r cywydd hwn yn uniongyrchol, ond y gwir yw y gellir cyfiawnhau cysylltu'r cywydd hwn â nifer o gywyddau gan Ddafydd sy'n dilyn yr un trywydd.¹² Dylid cofio hefyd fod hoffter y beirdd o gyffelybu eu hunain i seiri coed yn rhan amlwg o'r cywydd hwn ac o gywyddau ymryson Dafydd a Gruffudd, ynghyd â nifer o'r marwnadau ffug a ganwyd i Ddafydd gan feirdd eraill.¹³ Gellir yn hawdd heddiw ddehongli'r cyfeiriadau hyn yng nghywydd Gruffudd at rai o brif ddelweddau canu serch Dafydd fel gwrogaeth ddwys ar ran un a gyfaddefodd mewn cywydd arall ei fod yn ail iddo yn y maes hwnnw.¹⁴ Ar y llaw arall, dylid holi ai priodol ar y pryd fyddai disgwyl i gynulleidfa a oedd yn ystyried serch yn fath o bechod gymeradwyo cerdd a oedd yn cyfuno delweddau serch ag un o ganolfannau crefyddol enwocaf Cymru, os nad yr enwocaf oll.

Diau hefyd y byddai ergyd yr holl gyfeiriadau hyn gryn dipyn yn llai pe na bai Dafydd yn bresennol adeg datgan y gerdd, a bod blas coegni ar rai o'r cwpledi sy'n cael eu hanelu'n uniongyrchol ato.¹⁵ Efallai mai er budd a difyrwrch Dafydd ei hun y dewisodd Gruffudd fynd â delwedd y deildy un cam ymhellach, gan gyplysu delwedd yr ywen â hanes y Groes Sanctaidd. Ceir yr hanes yn *Ystoria Adaf*, un o chwedlau apocryffaidd mwyaf poblogaidd yr Oesoedd Canol. Uniaethir yr ywen yn Ystrad-fflur â'r tair gwialen a ddygwyd gan Seth fab Adda o Ardd Eden, ac a ddaeth i feddiant Dafydd Broffwyd maes o law. Uniaethir Dafydd Broffwyd yntau â Dafydd ap Gwilym (ll. 5), a chwery Gruffudd yn gelfydd â'u henwau ac â'r berthynas gynganeddol rhwng *Dafydd* a ffurf dreigledig *tyfu* (llau. 4–7). Ceir hanes y tair gwialen wedi iddynt ddod i feddiant Dafydd Broffwyd yn y cyfieithiad Cymraeg hynaf o *Ystoria Adaf* yn llawysgrif Peniarth 7:

Ac ympen ynaw niev ydoeth davyd argwyal drachevyn gaerusele[.]
Amedylyaw aoruc pale yplanei ygwyal hyñy yn anrydedus[.] Arnos

¹⁰ Gw. DG.net 41.11–12.

¹¹ *Ib.* 40.2, 3 a 4.

¹² Gw. Rachel Bromwich, *art.cit.* 14. Tanseiliwyd ei dadl, i raddau helaeth, gan Thomas Parry, *art.cit.* 15. Fodd bynnag, y mae'n werth nodi bod y llwyn celyn a'r goeden ywen yn goed bythwyrdd a ystyrid yr un mor werthfawr â'i gilydd ar ddechrau'r Oesoedd Canol, gw. William Linnard, *Welsh Woods and Forests: History and Utilization* (Cardiff, 1982), 17: 'A holy or churchyard yew was worth a pound whereas a woodland yew was only worth fifteen or thirty pence.'

¹³ Gw. Morgan Thomas Davies, 'The Death of Dafydd ap Gwilym', yn *Heroic Poets and Poetic Heroes in Celtic Tradition: A Festschrift for Patrick K. Ford* (CSANA Yearbook 3–4), ed. Joseph Falaky Nagy and Leslie Ellen Jones (Dublin: Portland, 2005), 66–73.

¹⁴ Gw. 4.13–14n.

¹⁵ Gw. llau. 17n, 18n, 20n, 26n a 27n. Cydnabyddir mai mater o fam bersonol, yn aml, yw dehongli coegni mewn achosion fel hyn.

honno yrodes ymewn gogof ogarrec aoed gerllaw dwvyr val ygallei drannoeth ar eang [diwyg.] ev planv agadaw keidyweit arnaddvnt adogyn o olevat ayvynet yntev yorffowys[.] Ac yna odwyvawl nerth ygroc yronn yssyd reglydus yn wastat yr hon nythwyll ac nythwyllir[.] Sef y kyvodes yteir gwialen yn ev sevyll[.] Ac eugwreidiaw yny garec achymysgv yteir yny vvant yn vn[.] Affan weles ybrenin yr anryvedawt hwnw. ydywot bit ovyn duw ar gendloed ydayar canys mawrhydyc amolyaunus yw yn yweithredoed ac ny symvdawd davyd ypren odyno namyn gwneithur arydedd yny gylch.¹⁶

Dilynir yr hanes hwn yn gymharol fanwl yn y cywydd, gan gyfnewid y pren gwiaill am y goeden ywen.¹⁷ Tyfodd yr ywen drwy ras Duw (llau. 3–4), ac wedi iddi dyfu fe'i hanrhydeddwyd gan Ddafydd (llau. 7–9). Defnyddir rhethreg yr Oesoedd Canol, *litotes* (sef gwadu'r gwrthwyneb), i restru rhagoriaethau'r ywen (llau. 27–38), ac y mae nifer ohonynt yn adleisio testun Cymraeg *Ystoria Adaf*.¹⁸ Fe'i hadleisir yn yr un modd wrth ddiweddu'r cywydd, drwy alw ar Dduw i anrhydeddu gwyrthiau'r ywen (ll. 40).

Un ddadl yn erbyn derbyn y gerdd hon yn fynegiant o wrogaeth Gruffudd i ganu serch Dafydd yw'r ffaith fod ei hadleisio mynych o *Ystoria Adaf* yn ymddangos fel pe bai'n tanlinellu pechod serch fwyfwy yn hytrach na mawrygu rhinweddau serch. Defnyddiodd Iolo Goch yntau hanes Dafydd Broffwyd, y pechadur serch a drodd yn edifeiriwr, yn ei gywydd marwnad i'w gyfaill o fardd Llywelyn Goch ap Meurig Hen, sydd, fel y cywydd hwn, wedi peri anghytuno rhwng Rachel Bromwich ac eraill ynghylch y modd y dylid ei ddehongli.¹⁹ Ceir hanes edifeirwch Dafydd Broffwyd yn *Ystoria Adaf*:

Ac ... ympen ydeng mlyned arvein ygoruc davyd dirvawr bechawt yny haedawd bar duw Ac yna yd aeth davyd dan ypren kysegredic ac wylaw oedivarwch am ybechot adywedut miserere achyn nogorffen ysalym medylyaw gwneithur temyl ar vrent dadolwch yr arglwyd am ybechot²⁰

O gofio bod Gruffudd, yn yr ymryson, yn lladd ar rai agweddau ar ganu serch Dafydd, nid yw'n gwbl amhosibl fod ergyd foesol fwriadol yn llechu y tu ôl i adleisiau apocryffaidd y gerdd hon.

¹⁶ Gw. Sarah Rowles, 'Golygiad o Ystoria Adaf' (M.Phil. Cymru [Aberystwyth], 2004), 98. Ar y tebygrwydd rhwng y cywydd hwn a thestun llsg. Ysgol Amwythig XI o *Ystoria Adaf*, gw. llau. 4n a 25n.

¹⁷ Ceir amwysedd mewn manau, gw. llau. 5–6n.

¹⁸ Gw. llau. 27–8n, 31n a 32n. Ar *litotes*, gw. J. Morris-Jones: CD 61. Yn ôl Morgan Thomas Davies, *op.cit.* 72n81, 'this seems to have been a distinctive technique of Dafydd's'. Gw. DG.net 46.15–18, 43–6, 47.19–32.

¹⁹ Gw. GIG 95 (XXII.83–96). Ffug-farwnad yw'r gerdd yn ôl Rachel Bromwich, *op.cit.* 160, ond marwnad ddifrifol yn ôl Dafydd Johnston, GIG 307, a Huw Meirion Edwards, 'Murnio Marwnadau: Golwg ar y Ffug-farwnad yng Nghyfnod y Cywydd', *Dwned*, v (1999), 51.

²⁰ Sarah Rowles, *op.cit.* 99.

Efallai nad oes a wnelo achlysur y gerdd â'r ddadl ynghylch man claddu Dafydd. Os derbynir bod y gerdd hon wedi ei chanu cyn i Ddafydd farw, y mae'n ddigon posibl fod y mynachod wedi ei gladdu yn Ystrad-fflur yn sgil cerdd Gruffudd.²¹ Er nad oes yr un cyfeiriad uniongyrchol at Ystrad-fflur yng ngwaith Dafydd, y mae'n anodd credu nad oedd yn gyfarwydd â'r abaty gan ei fod yn gyfarwydd iawn â chartref Ieuan Llwyd a'i fab Rhydderch yng Nglyn Aeron nid nepell oddi yno. Y tebyg yw fod Llawysgrif Hendregadredd ym meddiant y teulu hwnnw pan gofnododd Dafydd ei englynion i'r Grog o Gaer ynddi.²² Byddai'n braf gwybod beth oedd wedi dod ag ef i'r ardal, ai cyswllt â'r teulu ynteu â'r abaty?²³ Bellach y mae'r ywen yn Ystrad-fflur wedi dod yn rhan o fytholeg Dafydd ap Gwilym am resymau amgenach na thystiolaeth y gerdd hon yn unig. Wedi mynd i'r afael â'r dadleuon ynghylch man claddu Dafydd yn GDG³ xxxiii y mae Thomas Parry yn troi ei sylw at y disgrifiad enwog o Ddafydd fel llanc 'hurfain ... a gwallt llaes melynrych ... a hwnnw yn llawn cayau a modrwyau arian'. Dywed fod y 'disgrifiad braidd yn rhy debyg i'r hyn y "dylai" bardd fel Dafydd ap Gwilym fod.' Dylid ystyried y posibilrwydd fod yr hanes rhamantaidd ynghylch claddu un o feirdd mwyaf Cymru yn un o ganolfannau crefyddol pwysicaf y wlad yn debyg iawn hefyd i'r hyn y *dylai* hanes felly fod. Fel y dywedodd C.A. Raleigh-Radford adeg dadorchuddio'r garreg goffa i Ddafydd yn Ystrad-fflur yn 1951: 'The tradition that Dafydd was buried under the yew at Strata Florida ... is surely what he would have wished.'²⁴ Gwyddai Gruffudd hynny i'r dim, ac o achos hynny dylid petruso cyn dweud yn bendant i Ddafydd ap Gwilym y bardd serch gael ei gladdu 'yng nghartref olaf llawer o dywysogion ac uchelwyr y De'.²⁵

Rhannwyd y cywydd yn dair rhan yn y golygiad hwn. Y mae'r rhan gyntaf yn ymdrin yn bennaf â pherthynas yr ywen â Dafydd, ac yn yr ail ran rhoddir sylw i fedd y bardd oddi tani. Canolbwyntir ar yr ywen yn y drydedd ran mewn cyfres o *litotes*, cyn deisyfu bendith Duw arni yn y llinell glo.

Golygwyd y cywydd yn BDG xxxiii, DGG 151–2 (LXXXII) a GDG³ 429–30, ac fe'i cyfieithwyd gan Joseph Clancy, gw. MWP 217–18.

Cynghanedd: croes, traws, sain 12 ll. (30 y cant) yr un; llusg 4 ll. (10 y cant).

1 yr ywen Uniaethwyd yr ywen hon â'r goeden ywen a saif heddiw ryw

²¹ Gw. dadleuon D.J. Bowen ynghylch y modd y pennid manau claddu uchelwyr cyn eu marw, 'Lle Claddwyd Dafydd ap Gwilym', 8.

²² Gw. ll. 5n.

²³ Am y cysylltiadau posibl rhwng teulu Parchrhydderch, Dafydd ap Gwilym ac Ystrad-fflur yn ystod tridegau'r 14g., gw. D.J. Bowen 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', LICy viii, 3–9; GLIBH 6–9.

²⁴ C.A. Raleigh-Radford, *art.cit.* 41.

²⁵ Gw. Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, 80.

ddeg llath o fur gogleddol eglwys y Santes Fair yn Ystrad-fflur, a rhyw ganllath o weddillion mur gogleddol yr abaty. Nid yw'n hysbys a seiliwyd y gred hon ar draddodiad lleol hŷn, ynteu ar y ffaith mai hon yw'r ywen fwyaf sydd wedi goroesi o blith nifer a oedd yn arfer sefyll ym mynwent yr abaty. Yn ôl Leland yr oedd yno bedair coeden ywen ar bymtheg ar hugain yn 1540, ond pedair ar hugain yn ôl eraill, gw. Samuel Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (London, 1833), 231. Y mae teitl y gerdd yn llsgrau. AD fel pe bai'n awgrymu nad oedd yr ywen yn dal i sefyll yn y fynwent erbyn y 16g.: *I'r Ywen a oedd uwch ben Bedd D. Gwilym* (gthg. teitl B: *I'r Ywen a dyfu uwch ben Bedd Daf Gwilym*). Ar y llaw arall, y mae'n fwy na thebyg fod yr ywen hon yn sefyll ym mynwent yr abaty pan oedd Gruffudd yn fyw, gw. A.O. Chater, 'The Higher Plants and Vegetation of Cardiganshire', yn *Cardiganshire County History*, ed. J.L. Davies and D.P. Kirby (Cardiff, 1994), 63:

... the Yew ... is or was the largest in girth. Although only about two-thirds of the trunk remains, when complete the trunk must have been at the very least 750 cm in girth, indicating that it may well have been a sizeable tree in the fourteenth century.

Y mae'n fwy na thebyg i Ruffudd ddewis coeden ywen yn destun ar gyfer y gerdd hon yn sgil cysylltiadau amlwg y goeden honno â mynwentydd a marwolaeth. Fodd bynnag, cyfeirir at yr arfer o ddefnyddio pren ywen i wneud bwâu a saethau yn yr Oesoedd Canol yng ngherddi Gruffudd a Dafydd, gw. DG.net 23.17–18, 138.17–24. Fel y dywed D.J. Bowen wrth ddadlau o blaid lleoli bedd Dafydd yn Ystrad-fflur a dehongli'r cywydd hwn fel marwnad ddifrifol, '... o gofio ei gŵyn ef fod saethau Morfudd yn ei ladd, nid anghymwys oedd fod y pren ei hun yn cysgodi man ei feddod', gw. 'Lle Claddwyd Dafydd ap Gwilym', *Barddas*, 89 (Medi 1984), 8. Onid yw addasrwydd amlwg yr ywen yn hyn o beth yn sail i gredu bod defnydd Gruffudd ohoni yn y gerdd hon yn fwriadol eironig?

2 **Ystrad-fflur** Abaty Sistersaidd Ystrad-fflur ym mhlwyf Caron-uwch-clawdd, gw. WATU 35. Ar gysylltiadau posibl Dafydd â'r abaty, gw. R. Geraint Gruffudd, 'Dafydd ap Gwilym: An Outline Biography', yn *Celtic Languages and Celtic Peoples: Proceedings of the Second North American Congress of Celtic Studies*, ed. Cyril J. Byrne, Margaret Harry and Pádraig Ó Siadhail *et al.* (Halifax, Nova Scotia, 1992), 433; LIU 112.

4 **tŷ Dafydd** Yr oedd gan Ddafydd ddiddordeb mawr mewn adeiladau a'r grefft o adeiladu, ac y mae hyn i'w weld yn ei ddisgrifiadau o goed, gw. Morgan T. Davies, "'Aed i'r coed i dorri cof": Dafydd ap Gwilym and the Metaphorics of Carpentry', CMCS 30 (Winter 1995), 67–85; Gwyn

Thomas, *Dafydd ap Gwilym: Y Gŵr wrth Gerdd* (Aberystwyth, 2003), 11–15. Diddorol yw nodi bod testun llsg. Ysgol Amwythig XI o *Ystoria Adaf* yn sôn bod Dafydd Broffwyd wedi rhoi'r tair gwialen o'r neilltu mewn *kist o uaen yr honn a elwit gwedy hynny tŵr dauyd*, gw. Sarah Rowles, 'Golygiad o Ystoria Adaf' (M.Phil. Cymru [Aberystwyth] 2004), 98.

- 5 **Dafydd Llwyd a'th broffwydawdd** Ceir yr unig enghraifft o enw llawn Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam yn nheithl cerdd o'i eiddo yn Llawysgrif Hendregadredd, gw. GLIBH 60 *Eglynyn a gant dauid llwyd vab gwilim gam yr groc o gaer*. Y mae'n bosibl iawn mai ef ei hun a gofnododd ei gerdd yn y llsg., gw. MWM 223; Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LIGC xxii (1981–2), 18. Gellid, ar yr un pryd, ddehongli *llwyd* yn a., 'sanctaidd, duwiol', a'i ystyried yn gyfeiriad at Ddafydd Broffwyd, gŵr y cuddiwyd ei enw yn y ll. hon ac yr uniaethir Dafydd ap Gwilym ag ef yng ngweddill y gerdd yng nghydestun chwedl *Ystoria Adaf*.
- 5–6 Y mae ystyr y cwpled yn aneglur o'i ddarllen yn llythrennol mewn perthynas ag *Ystoria Adaf*. Fel y gwelir yn y dyfyniad cyntaf yn y nodyn cefndir uchod, y mae Dafydd Broffwyd yn ymateb â rhyfeddod pan wêl fod y tair gwialen wedi gwreiddio yn yr ogof o garreg, ac ni cheir awgrym iddo broffwydo hynny. Y mae'n bosibl fod y ffaith y gelwid y Brenin Dafydd yn Ddafydd Broffwyd yn gwarantu sylw o'r fath. Ar y llaw arall, pan yw Adda yn marw ar ddechrau chwedl *Ystoria Adaf* y mae angel yng Ngardd Eden yn proffwydo wrth Seth y bydd y tair gwialen yn tyfu o'r ddaear o'u rhoi yng ngheg Adda cyn ei gladdu ef: *Achyn peñ ytridyev val ydwot yr anghel y diffodes adaf ... Ac yrodes [Seth] y tri gronyn adywetpwyd vhot ydan wreyion ydavot Ac orei hyñy ykyvodes teir gwialen aroet byrr yn ogyvuch ogymeint*, gw. Sarah Rowles, *op.cit.* 94. Gall fod Gruffudd wedi cymysgu rhwng dwy wahanol ran o'r chwedl.
- 8 **o'i fabolaeth fu** Dywedir naill ai fod Dafydd wedi defnyddio delwedd y deildy yn ei gerddi ers iddo fod yn ifanc (h.y. iddo fod yn fardd serch ers y cychwyn), neu fod Dafydd wedi bod yn gysylltiedig â'r ywen, ac ag Ystrad-fflur, ers ei ddyddiau cynnar, gw. ll. 2n.
- 9 **urddo** Cf. Dafydd yn ei gywydd i fis Mai, DG.net 32.21–2 *Tadmaeth beirdd heirdd a'm hurddai, / Serchogion mwynion, yw Mai*.
- irddail** Cf. Dafydd yn ei farwnad ffug i Ruffudd, *ib.* 22.36 *Na cherddi, yn iach irddail!*
- 10 **llwyn** Trosiad am ganghennau deiliog yr ywen, gw. GPC 2244 d.g. *llwyn*¹ (b). Ceir 'beam' yng nghyfieithiad Joseph Clancy, MWP 217.
- 11 **castell** Cf. disgrifiad Dafydd o'r deildy, DG.net 41.11–12 *Ac eistedd dan fedw gastell — / Duw a wŷr na bu dŷ well*.

- 12 **y pren gwial gynt** Sef y pren gwial yr adroddir ei hanes yn chwedl *Ystoria Adaf*, gw. y nodyn cefndir uchod. Tyfodd y pren o'r tair gwialen wreiddiol a ddygwyd gan Seth fab Adda o Ardd Eden, ac fe'i defnyddiwyd yn ddiweddarach i greu'r Groes Sanctaidd.
- 13 **lleau** Fe'i deellir yn e.ll. yma, 'llefydd, lleoliadau', gw. GPC 2121 d.g. *lle*¹. Cf. testun llgr. Ysgol Amwythig XI o *Ystoria Adaf*, lle y ceir hanes y tair gwialen wedi iddynt wreiddio yn y graig: ... *ac nys [sym]juduys Dauyd h6ynt oc eu [lleyau] daroed [ac eu] plannu yn rinweda6l*, gw. Sarah Rowles, *op.cit.* 98. Ar y llaw arall, y mae'n bosibl fod y f. *llëu*, 'lleoli, gosod', yn fwy ystyrllon, er nad yw'n ymddangos yn yr un o'r llsgrau., gw. GPC 2122 d.g. *lleaf*².
- 14 Gall fod y ffaith fod y ll. hon yn ymrannu'n dair rhan, a bod tair rhan o'r goeden yn cael eu henwi, yn adlewyrchu'r modd yr unodd y tair gwialen ynghyd i ffurfio un goeden yn *Ystoria Adaf*, gw. y dyfyniad cyntaf yn y nodyn cefndir uchod.
- 16 **bedd rhwym** Y mae darlleniad llsgrau. BCD, *beth*, yn adlewyrchu'r modd y caledir *dd* yn *th* gan *rh* o'i flaen. Eto fe'i hatebir ag *dd* yn ail hanner y ll., ac er nad yw darlleniad llgr. A, *bedd rwym*, 'rhwymiad bedd', yn ymddangos yn ddim mwy nag ymgais ar ran copiyydd diweddarach i gywreinio'r gynghanedd, gall fod peth sail iddo, cf. GGMD i, 7.68 *Menai mywn rhwym bedd mynor*; GGDT 9.11 *Fry ar ddeau o rwym beddau, temlau tomlyd*.
- 17 **bydaf englynion** Ceir *byda* ym mhob llgr., ond ffurf ddiweddar ydyw yn ôl GPC 361 d.g. *bydaf*, a'r tebyg yw mai *bydaf* oedd ffurf wreiddiol y gair yn y gerdd hon. Gall fod Gruffudd yn awgrymu bod y sŵn a gynhyrchid gan Ddafydd wrth ganu englynion yn ymdebygu i sŵn aflafar ac undonog haid o wenyn gwyllt. Defnyddid delweddu yn ymwneud â gwenyn a nythod cacwn gan feirdd eraill mewn cyd-destunau dychanol, gw. GIG 166 (XXXVII.19); GGI² 173 (LXV.21); GGrG 9.57; GSdT 7.67n; cf. hefyd ll. 26n. Y mae disgrifiad Dafydd ei hun o Ruffudd ab Adda yn ei ffug-farwnad i'r bardd hwnnw yn dilyn yr un trywydd, gw. DG.net 21.35 *Gwenynen gwawd barawdwir*. Dywed Ieuan Llawdden yntau fod sŵn *canu gwawd* a [*ch*]anu *cainc* yn ei atgoffa o sŵn ych yn anadlu wrth gnoi cil, gw. GLI 23.47–52, 25–8n. Efallai fod disgrifiad Gruffudd yn adlewyrchu'r sŵn a gynhyrchid wrth ganu englynion yn benodol, yn hytrach na chywyddau, gan y gallai Gruffudd fod wedi rhoi *cywyddau* yn lle *englynion* heb effeithio'r gynghanedd. Y mae *englynion* hefyd yn anghydnaws â'r pwyslais a rydd Gruffudd ar ganu serch Dafydd yng ngweddill y cywydd drwy gymharu'r ywen â'r deildy, canys ar fesur y cywydd yn benodol yr arloesodd Dafydd yn y maes hwnnw, fel y dywed Gruffudd ei hun yn ei farwnad ffug i Ddafydd, gw. 4.13–14n. Yn ogystal â hyn, y mae'r ffaith fod *bydaf* swnllyd ym

mudaniaeth y bedd yn awgrymu bod Gruffudd yn tynnu coes Dafydd, ac yn defnyddio gwrtheb i awgrymu nad oes neb ond Dafydd ei hun bellach yn gwranddo ar ei farddoniaeth. Ar y llaw arall, ceir tystiolaeth fod nythod gwenyn gwyllt mewn coed yn werthfawr yn ystod yr Oesoedd Canol. Yn ôl Cyfreithiau Hywel Dda yr oedd *bydaf yn y coet* yn werth *deu swllt*, gw. LIB 55 (llau. 19–23, lle y cysylltir bydafau â choed yn benodol); Dafydd Jenkins, *The Law of Hywel Dda* (Llandysul, 1986), 292. (Sylwer bod llsgrau. CEF yn ffafrio'r darlleniad *englyion*, ond ni rydd cystal ystyr yma.)

- 18 **mewn bedd yr oedd** Ceir darlleniadau carbwl yn ail ran y ll. hon ym mhob llsgr. heblaw E: *mewn bedd ir oedd*. Nid yw'n eglur a wahaniaethir rhwng *i* ac *y* yn y llsgr. honno, a gall mai *ir*, 'ffrwythlon, gwyrdd', a olygid. Ceir yr unig ddarlleniad dilys arall o safbwynt cynganeddol yn F, ond y mae'n weddol amlwg mai ymgais ddiweddarach ydyw i wneud synnwyr o'r darlleniadau llwgr a geir yn y llsgrau. eraill: *bv dewr ef mewn rrin nef rroydd*. Gall fod darlleniad E yn rhesymoliad diweddarach hefyd, ond y mae'n bwysig nodi bod y gynghanedd groes a geir yn y ll. gyflawn yn E yn parhau â'r gwahanol gyfuniadau cynganeddol a geir rhwng *b*, *d* ac *r* yn llau. 16–17. Gall hefyd fod y darlleniad hwn yn gydnaws ag agwedd Gruffudd at ganu serch Dafydd yng nghywydd cyntaf yr ymryson, lle y gwneir hwyl am ben arfer Dafydd o'i ddisgrifio'i hun fel un a gâi ei anafu neu ei ladd gan effeithiau serch gwrthodedig; h.y. 'mewn bedd yr oedd eisoes cyn iddo farw'. Byddai hyn yn fodd i ddehongli *bu ddewr ef* yn sylw coeglyd hefyd o gofio pa mor llipa yw ymateb Dafydd i 'arfau serch' yn ôl Gruffudd, gw. DG.net cerdd 23.
- 19 **synnud** Sylwer mai *symud* yw darlleniad llsgrau. BDF, ac y gall fod yma enghraifft o gyfatebiaeth $n = m$. Fodd bynnag, ni rydd y darlleniad hwnnw gystal ystyr a'r tebyg yw mai camddarllen *m* am *nn* a geir yma.
- 20 **A gwae Ddyddgu pan fu fud** Cyfeirir at Ddyddgu ferch Ieuan ap Gruffudd ap Llywelyn o Dywyn ym mhlwyf y Ferwig yn ne-orllewin Ceredigion. Canodd Dafydd naw o gywyddau iddi, gan ei defnyddio fel gwrthbwynt llwyr i Forfudd. Yr oedd Dyddgu'n ferch i uchelwr ac yr oedd ganddi wallt tywyll, ond priodi uchelwr a wnaeth Morfudd, ac yr oedd ganddi wallt golau. Am fanylion am Ddyddgu, ac am y berthynas rhyngddi a Morfudd yng ngwaith Dafydd, gw. GDG³ xxiii–xxvi; LIU 135–7; Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym: Collected Papers* (Cardiff, 1986), 27–8. Y tebyg yw fod y ll. hon yn adleisio'r hyn a ddywed Gruffudd yn ei drydydd cywydd ymryson wrth gymharu Dyddgu â Gweirful, ei gariad ef ei hun, gw. DG.net 27.47–52 *Trwch iawn y'th farnaf, Ddafydd, / Tristâu Dyddgu o'r dydd. / Didrwech wyf, ffieiddwyf ffo, / Didrist Gweirful o'm didro. / Gwae Ddyddgu, ddyngweddeiddgall, / Gwyn fyd Gweirful: ni wyl wall.* Tybed ai ergyd

- goeglyd y ll. yw fod Gruffudd o'r farn y byddai Dyddgu ar ei hennill, mewn gwirionedd, pe bai Dafydd yn 'marw' ac yn methu canu iddi?
- 22 **i'w hael** Llsgrau. CEF *yw hael*. Gall fod y grŵp hwn o lsgrau. yn ystyried rhan gyntaf y ll. hon yn sangiad, ac *yw* yn gyfeiriad at yr ywen, cf. ll. 26 *drybedd yw*, 'ywen [sydd fel] trybedd'.
- 23 **ceiniau** Dilynir darlleniad llsgr. F, a deallir *ceiniau* yn ll. *cainc*, 'canghennau'. Er na cheir y ffurf l. hon yn GPC 390, fe'i ceir yn nhestun Pen 7 o *Ystorya Adaf*, lle y disgrifir y pren gwaiil: *Ac vch beñ y ffynnawn ydoed preñ dirvawr yveint ac yn amyl y geinyev*. Ar y llaw arall, nodir bod *ceing(i)au* yn ffurf l. ddilys yn GPC *ib.*, a gall mai hyn a geir yn narlleniadau llsgrau. ABCE *geingciau* D *geingkie*. Y tebyg yw y byddai *ceingie* yn dderbyniol i glust Gruffudd Gryg. Ar yr arfer o gyfateb *n ag ng*, gw. J. Morris-Jones: CD 225.
- 25 **gwarchadw ei wyddfa** Cf. testun llsgr. Ysgol Amwythig XI o *Ystorya Adaf*, lle y dywedir i Ddafydd Broffwyd benodi gwŷr i warchod y tair gwialen, gw. Sarah Rowles, *op.cit.* 98: *ac adeb keidweit a goleuat oc eu gwarchadw a mynet a oruc ynteu y orffybyys*.
- 26 **Drybedd yw, fodrabaidd dda** Gall fod *trybedd*, 'tripod', yn gyfeiriad at y modd yr oedd yr ywen yn 'dal' bedd Dafydd fel math o lestr, ond posibilrwydd arall yw mai at drybedd wyneb i waered y cyfeirir er mwyn adlewyrchu natur driphlyg y gwaiil sanctaidd yn chwedl *Ystorya Adaf*, gw. y dyfyniad cyntaf yn y nodyn cefndir uchod. Y mae'n bosibl hefyd ddarfod dewis y gair er mwyn adleisio'r gair *bedd* ac i bwysleisio natur fynwentaidd yr ywen. Ychydig iawn o enghreifftiau eraill o'r geiriau *trybedd* a *modrabaidd* a geir yng ngwaith Beirdd yr Uchelwyr, a gall fod hynny'n fodd i ymglywed â thinc dychanol yn y farwnad hon. Ceir y ll. *modrybedd* mewn cerdd ddychan a ganwyd cyn 1400 gan y Mab Cryg, a cheir *modryb* mewn cerdd ddychan gan Dudur Penllyn, gw. GDC 16.12; GTP 85 (llau. 11–12). Mewn cywydd dychanol i ferched eiddigus y cyfeiriodd Gwerful Mechain hithau at *trybedd*, gw. GGM 10.52. Y mae'n dilyn, o bosibl, mai mewn cyd-destun dychanol y defnyddir *trybedd* a *modrabaidd* yn y ll. hon yn ogystal. Y mae hefyd yn werth tynnu sylw at ddarlleniad llsgr. D *fodrabaidd adda*. Tybed ai ymwybyddiaeth y copïydd o'r cyswllt rhwng y cywydd ag *Ystorya Adaf* a barodd iddo gofnodi'r camgymeriad hwn?
- 27 **Na ddos gam ... / Ywen, odduwch ben y bedd** Deallir *cam* yn e., ond gthg. defnydd Joseph Clancy, MWP 218, o'r gair yn a., 'cam, crwca'. Y mae'r syniad o weld coeden ywen yn cerdded i ffwrdd yn ddigrif i ni heddiw, ac ni cheir rhyw lawer o le i amau nad yr un fyddai'r effaith ar gynulleidfa Gruffudd yn y 14g. Gall hefyd fod Gruffudd yn adleisio rhan o chwedl *Ystorya Adaf* lle y mae Dafydd Broffwyd yn gweld yn dda i beidio â symud y pren gwaiil o'r fan y gwreiddiodd yn y ddaear drwy ras Duw, gw. Sarah Rowles, *op.cit.* 98: *ac ny symvdawd davyd*

- ypren odyo namyn gwneithur aryded yny gylch.* Cf. hefyd y dyfyniad yn ll. 13n.
- 29 **geifre ni'th lwgr** Cf. Dafydd yn ei gywydd i'r llwyn celyn, DG.net 40.35–6 *Ni thyn gafr hyd yn Hafren / Un baich o hwn, na bwch hen.* Ceisiodd Rachel Bromwich gysylltu'r cywydd hwn â chywydd Dafydd i'r llwyn celyn yn uniongyrchol ar sail y tebygrwydd hwn, ond tanseil-iwyd ei dadleuon, i raddau helaeth, gan Thomas Parry, gw. 'Ai yn Nhalylychau y Claddwyd Dafydd ap Gwilym?', 14–15; y nodyn cefndir uchod.
- 30 **gwendre'** Er mai *gwendre* a geir ymron pob llsgr., y mae'n werth tynnu sylw at ddarlleniad llsgr. F, *gwedre*, a allai fod yn amrywiad ar *godref* neu yn dalfyriad o *gwerydre*, 'cartref, ardal, bro', gw. GPC 1609 d.g. *gwedre*. Gallai *gwendre* fod yn rhesymoliad diweddarach, ond yr un yw ystyr y ddau air yn y pen draw.
- 31 **ni'th lysg tân** Cf. Dafydd yn ei gywydd i'r gwynt, DG.net 47.24 *Ni'th lysg tân, ni'th lesga twyll.*
- 32 **Ni thyr saer, ni'th ddyfriw serch** Diwygiwyd darlleniad hanner cyntaf y ll., nas ceir yn yr un llsgr., er mwyn cwblhau'r gynghanedd. Er bod hyn yn torri ar batrwm y llau. blaenorol (*ni'th*), yr un yw'r sain ar lafar, a gellid, pe mynnid, ei gysylltu â llau. 33–4 *Ni thyr saer ... / [Ac n]i'th bilia crydd ... / Dy dudedd yn dy dyddyn.* Gall fod hyn yn gyfeiriad at ran o chwedl *Ystorya Adaf* lle y mae seiri Selyf, mab Dafydd Broffwyd, yn ei chael hi'n amhosibl defnyddio'r pren sanctaidd i greu trawst ar gyfer cwblhau'r gwaith o adeiladu'r deml, gw. Sarah Rowles, *op.cit.* 100: *Sef oed yhyt un kyvyd ardec arugein Ac wedy messuraw yn graff allinin ydoed kyvyd arnaw yn hwy noc aoed reit wrthaw: Pan dyrchawwyt yvyny ydoed kyvyd yn vyrrach Atheirgweith ydyrchawwyt oe brovi Athravei yprenn ar y ylawr ybydei arnaw kyvyd yn hwy Affan dyrchevit yvyny y bydei kyvyd yn eissiau. Aryvedawt mawr vv hynny gan bawb or ay gweles.* Y tebyg yw mai ystyr *ni'th ddyfriw serch* yw na fydd y cariadon sy'n cwrdd o dan yr ywen yn ei niweidio. A yw'r ffaith fod serch yn cael ei restru ymhlith y pethau a allai niweidio'r goeden yn datgelu gwir agwedd Gruffudd at farddoniaeth serch Dafydd yn y cywydd hwn?
- 33 **Ni'th bilia crydd ... / Dy dudedd** Awgrymodd Thomas Parry y defnyddid rhisgl coed i wneud gwadnau clocsiau, gw. 'Ai yn Nhalylychau y Claddwyd Dafydd ap Gwilym?', 15. Fodd bynnag, rhisgl pren derw yn unig a ddefnyddid yn yr Oesoedd Canol wrth drin crwyn anifeiliaid i wneud lledr, gw. L.F. Salzmänn, *English Industries of the Middle Ages* (London, 1913), 174: 'The bark from which the tan was obtained ... had to be only of oak, the use of ash bark being forbidden.' Awgrymodd Morgan Thomas Davies, 'The Death of Dafydd ap Gwilym', yn *Heroic Poets and Poetic Heroes in Celtic Tradition: A Festschrift for Patrick*

K. Ford (CSANA Yearbook 3–4), ed. Joseph Falaky Nagy and Leslie Ellen Jones (Dublin: Portland, 2005), 72n81, fod Gruffudd yn adleisio cywydd Dafydd i'r iwrc'h yn y llau. hyn, gw. DG.net 46.43–4 *Ni'th fling llaw, bydd iach lawen, / Nid â dy bais am Sais hen.*

35–8 Goddr. y f. *tyw'r taeg a'r cynuteion* yn ll. 38.

40 **diwartho** Cynigir 'anrhydeddu' yn yr aralleiriad, ond ceir ystyron eraill posibl yn GPC 1055–6 d.g. *diwarthaf* (a) a (b): 'rhyddhau oddi wrth warth, cadw rhag gwaradwydd ... cywiro'; 'claddu, daearu'. Gall fod yr ail ystyr yn arbennig o berthnasol yn sgil adleisiau moeswersol posibl y cywydd hwn mewn perthynas ag *Ystorya Adaf*.

gwyrthiau Cyfeiriad arall at hanes y Groes Sanctaidd yn chwedl *Ystorya Adaf*. Am rai o'r rhyfeddodau a gyflawnwyd gan y pren gwaiail pan oedd ym meddiant Dafydd Broffwyd a'i fab Selyf, gw. llau. 27–8n, 31n, 32n. Wedi i'r pren gwaiail gael ei daflu i lyn aflan gan yr Iddewon yn rhan olaf y chwedl, sonnir am ei wyrthiau wrth iddo, drwy ras Duw, iacháu'r cleifion a ddôi at y llyn hwnnw, gw. Io v.1–9; Sarah Rowles, *op.cit.* 102: *Ac ny adawd duw yr pren hwnnw na dangossei ywyrthyeu[.] Affevnyd yrwng echwyd ahanner dyd ydisgynei englyyon yny llyñ achyffroi awnei y llyñ oll yna.*

6

Cerdd sy'n tynnu ar amryw o gonfensiynau'r Cywyddwyr yw hon. Yn sylfaenol, cywydd dychan ydyw, a'r rhan fwyaf ohono'n llawn o ddyfalu trylwyr a dyfeisgar. Y mae hefyd yn fath o gywydd rhwystr, sef cywydd sy'n darlunio'r anhawster a gaiff y bardd wrth geisio cyrraedd ei nod. Yn olaf, ymgysyllta'r cywydd hefyd â'r canu i dymhorau a welir yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. Nid y cyfuniad o ddeunydd yn unig sy'n sail i wreiddioldeb y cywydd hwn, ond hefyd y cyd-destun: tynnwyd y gwahanol elfennau o'u cynefin naturiol, sef y canu serch, a'u haddasu at hanes taith y bardd i Santiago de Compostela ac yn ôl. Er y newid hwn, nid cerdd grefyddol mo hon, eithr erys y diddordebau ar lefel bur secwlar.

Egyr y gerdd drwy gyfarch y lleuad, a gosodir y cywair dychanol ar unwaith yn y llinell gyntaf. Y sail i gŵynion y bardd yw fod lleuad Ebrill yn dwyn tywydd gwael: y mae'n anwadal, yn *symudo lliw* (ll. 5) o hyd, ac felly'n newid y tywydd yn ddisymwth. Canolbwyntir ar ddau fath o dywydd gwael, sef glaw a gwynt, a ddychmygir fel dagrau ac ochneidiau'r lleuad. Cais y bardd ddehongli arwyddocâd yr arwyddion hyn, gan dynnu ar yr hyn y mae dagrau ac ochneidiau yn ei olygu mewn barddoniaeth Gymraeg. Gallant ddynodi serch aflwyddiannus (ll. 10), neu salwch (ll. 12), neu alar am golled (llau. 13–14). Yn llinell 27 y mae'r bardd yn symud at gŵyn benodol: y mae'r tywydd gwael a ysbardunwyd gan y lleuad wedi gollwng

ei long ar arfordir Sbaen. Nerth Sant Iago a'i hachubodd rhag boddi (llau. 31–4). Llenwir y llinellau nesaf â rhagor o ddyfalu. Pethau crwn yw y rhan fwyaf o'r delweddau, sef gwahanol fathau o olwynion, tarian gron a dysgl, ymysg pethau eraill. Cyfuniad o agweddau gwrthgyferbyniol yw'r lleuad, yn oer ac yn wlyb, yn boeth ac yn ffyrnig. Y mae sail i'r delweddau hyn mewn gwyddoniaeth ganoloesol, gweler y nodyn ar linell 16 isod. Yna gofyn y bardd i leuad Ebrill ildio ei lle i leuad Mai (llau. 53–6). Bydd Mai yn dod â'r haul i'w galonogi; yn y cyfamser, bydd Gruffudd yn ddigon bodlon i gyrraedd rhyw fath o harbwr, lle y gall aros i fis cythryblus Ebrill fynd heibio (llau. 65–8). Ar y diwedd, y mae'n edrych ymlaen at ailgydio yn ei daith dan leuad fwy ffafriol.

Golygwyd y gerdd yn DGG² 134–6. Ceir yr un testun yn sylfaenol yn OBWV 94–6 ac yn BI B XIV 83–5, gyda mân newidiadau yn yr atalnodi. Cyfieithwyd y gerdd i'r Saesneg gan Joseph Clancy, gw. MWP 210–12.

Cynghanedd: croes 22 ll. (31 y cant); traws 20 ll. (28 y cant); sain 24 ll. (33 y cant); llusg 6 ll. (8 y cant).

- 2 **Ffriw drist ydyw'r dau ei phryd** Dilynir GH, er na ellir darllen y ll. gyfan yn G. Ni ellir derbyn *a'i phryd* ar ôl *tau*, fel a geir yn y llsgrau. hyn, felly diwygiwyd ef yn *ei phryd* (byddai *a phryd* yn rhoi ystyr dderbyniol hefyd). Yn DGG² dilynwyd llsgrau. DE, ond tardda'r rheini o A, nad yw o reidrwydd yn annibynnol ar H. Noder bod y rh. 2 un. a geir yn GH yn cyd-fynd â gweddill y gerdd, lle y cyferchir y lleuad yn gyson yn yr ail berson (e.e. llau. 4, 6).
- 3 **nobl** Darn o arian bath a wnaed o aur ac a fathwyd gyntaf dan Edward III (1327–77), gw. GPC 2587 d.g. *nobl*².
- 4 **ar fryd dyn** Nodir *ar fryd* 'intending, intent upon' yn GPC 338 d.g. *bryd*, ond daw'r enghraifft gynharaf o 1621. Am yr ystyr wahanol yma, cf. PKM 9 (llau. 15–16) *Kerdet araf, guastat oed gan y march ar uryt y neb a'y guelei*.
- 7 **cochi cyn gwynt** DB 64 *Luna quarta, si rubeat quasi aurum, ventos ostendet* (ib. 65 *O byd coch y lleuat en betwared megys lliw eur, gwynnyeu a darogan*); DN 113 (XLIII.3) *Gwynt a bair y lliw'n goch*.
- 8 **glas ... glaw** Cf. DN 113 (XLIII.2) *Os lloer las llawer a wlych*; hefyd ll. 46 isod.
- 9 **cron drymlaw** Eg. yn gyson yw *glaw*, gw. GPC 1406 a G 532, felly ni all *cron*, ffurf f. *crwn*, ei oleddfu. Fe ddilyn mai *llaw* sydd yma. Cymherir y lleuad â llaw ormesol. Yr unig ffordd o gadw *glaw* fyddai derbyn *crondrymlaw* 'glaw trwm sy'n ymgronni', gan ddeall *cron* yn fôn y f. *cronni*.

crawen Gw. GPC 582. Cyfeirir, y mae'n debygol, at liw melynaid y lleuad.

- 10 Y mae'r bardd yn dioddef gan y glaw, gan ei weld fel dagrau'r lleuad yn sgil serch ofer.
- 11 **clod yt dewi** Am y gystrawen, cf. G.W. Goetinck: Peredur 32 (llau. 21–3) *Clot bychan hagen, ac etmyc, yw itt oruot y marchawc lludedic gwedy blinho yn ymlad*. Dichon fod y bardd yn gweld distawrwydd y lleuad yn arwydd priodol o gywilydd. Posibilrwydd llai tebygol yw 'y mae'n hysbys dy fod yn tewi'. Gall *clod* fod yn a., gw. GPC 503.
- 13 **rhwystrchwedl restr** Sangiad annelwig ei ystyr. Fe'i dehonglir yn gyfeiriad difriol at *genedl* y lleuad. Ymddengys fod *rhestr* weithiau'n enw ar lif (e.e. o waed), cf. GIBH 12.18n *A gwaed rhestr a gaed drostun* (?darllener *restr*); GPC 1547 d.g. *gwaedrestr* '?gwaedlyd, wedi ei ystaenio â gwaed'. Yn GLI 22.50n disgrifir olion traed ceffyl yn *rhestri tân*. A ellir 'llif [o ddagrau yn sgil] newyddion blinderus'? Y mae'r lleuad yn wylo yn ll. 22 isod.
- 14 **fflwring** Darn o aur bath, gw. GPC 1297 d.g. *ffloring*; cf. DG.net 58.39 *Rhyborth i'r gŵr yw'r fflwring* (am y lleuad).
callestr Math o garreg a bair wreichion pan y'i trewir, S. '*flint*'.
- 15 **un dremydd drych** Am y gystrawen, cf. GGMD i, 4.48 *Rholant unffyniant, ib. 5.77 armes un rhodres Rhodri, 126 un dremyn Ulcasar*.
- 16 **iâ** Delweddu oer a geir am y lleuad yn y cywydd hwn (ac eithrio *llwythboeth*, ll. 21n, a *tân Mihangel*, 42n). Ystyrir bod y lleuad yn danllyd, ond yn gymysg â dŵr a'i gwnâi'n oeraidd, cf. DB 64 *natura igneum, sed aqua permistum* (*ib. 65 ac annyan tanaul, a chymysc duuyr ac ef*).
- 19–20 Cf. DG.net 101.3–6 *Uchenaid, oer rynnaid ran, / A dorres yn bedeirran / Bron a'i deily, bryn y dolur: / Braidd na'm hyllt o'i gorwyllt gur*.
- 19 **grynnaid** Gw. GPC 1541; DGG² 227; Ifor Williams, 'Grynn, Gryniaw, Gosgryn', B iii (1926–7), 54–5; BRh 4 (llau. 16–17) *A phan rynnei y march y anadyl y wrthaw a'r n. ib. 39*. Gthg. LIU 154 'ffawd oer', sef *rhyn + naid*.
- 21 **llwythboeth** Am natur danllyd y lleuad, gw. ll. 16n. Y mae ystyron ffigurol *poeth* hefyd yn berthnasol yma, gw. GPC 2842–3. Fe'i ceir, e.e., am ast sy'n chwannog am gi.
lletbai Gair cyffredin iawn mewn dychan, cf. yr enghreifftiau yn GPC 2160.
- 22 **gwnai** Am y ffurf, gw. WG 117 a 364. Cytuna DGG² 227n4, ond gthg. Bl B XIV 84 a LIU 154 *gwnâi*.
- 23 **planed** Yn ôl dealltwriaeth Ptomelaïos o'r bydysawd, a dderbynnid yn gyffredinol yn yr Oesoedd Canol, y saith planed oedd y lleuad, Mercher, Gwener, yr haul, Mawrth, Iau a Sadwrn, gw. GPC 2816 (b).
- 24 **lwfer** GPC 2071. Twll yn y to a adawai i fwg ddianc o'r neuadd, â

strwythur uwchben i ollwng y mwg a chadw'r glaw allan. Siâp crwn y twll sydd ym meddwl y bardd, efallai, ond mwy tebygol yw'r ffaith fod y lwfer yn gollwng mwg fel y mae'r lleuad yn gollwng glaw, cf. DG.net 109.51 *Lwferau dwfr lifeiriaint* (am lygaid dagreuol). Disgrifir lwferau canoloesol yn L.F. Salzman, *Building in England Down to 1540: A Documentary History* (Oxford, 1952), 219–22. Yr oedd nifer o wahanol fathau, ac anodd yw cyffredinoli am eu siâp.

25–6 **Pa ryw wylaw ... yr wyd** Ni lwyddwyd i gael hyd i enghraifft gyffelyb o'r gystrawen hon, a phetrus yw'r aralleiriad.

wylaw ... awyr / ... gŵyr Lleddf yw'r ddeusain yn *awyr* mewn Cym.C. fel arfer, cf. yr enghreifftiau yn G 48, felly *gŵyr* ac nid *gwŷr* a geir yn ll. 26 yn ôl pob tebyg. Y mae'n wir y byddai'r gynghanedd lusk ar ei hennill o ynganu *awyr* yn dalgron, ond am odl dra chyffelyb cf. EWGP 24 (III.23b) *dygbydyt gla6 o awyr*, lle y mae *awyr* yn safle'r brifodl yn odli â *hŵyr* a *llwyr*. Ceir yr un peth yn union yn GIG 171 (XXXIX.7) *Safn llawn baw a chwyd awyr*, lle y mae *awyr* yn odli â *hwyr* eto, ac yn DG.net 57.49–50. Awgrymir yn G 48 mai *aw-wŷr* oedd yr ynganiad. Yn wyneb yr enghreifftiau hyn ni raid meddwl am ddarllen *gwŷr* yn ll. 26.

26 **minllwyd** Ymylon y llyfr, fe ymddengys. Nid yw'n eglur o ba le y daeth y darlenniad *meinllwyd* yn DGG² 135.

27 **Sain Siâm** E. lle gan amlaf, cf. GHS 7.63n; GIRh 8.103–6n, ond yma gwell yw ei ddeall fel e. y sant ei hun, cf. ll. 70. Y mae'r lleuad, drwy atal taith Gruffudd, yn torri'r cytundeb a wnaethai Gruffudd â'r sant.

29 **Harri** Y brenin Harri II o Gastil (1369–79), gw. y rhagymadrodd tt. 20–1; gthg. DGG² 228 sy'n awgrymu Harri IV o Loegr (1399–1413), sydd braidd yn hwyr ar gyfer cyfnod y bardd.

31 **pani** Amr. ar *pe* yw *pa*, gw. GPC 2704 d.g. *pe*.

32 **Siacob** Sant Iago (< Llad. *Jacobus*), un o'r apostolion. Credid bod ei gorff ynghladd yn Santiago de Compostela yng ngogledd-orllewin Sbaen, gw. ODCC³ 862.

Siencyn Dilynir llsgr. G am mai e. cyffredin iawn yng Nghymru yn y cyfnod hwn oedd Siencyn. Ni chyfrifir yr *n* gyntaf yn y gynghanedd. Dichon mai ymdrech i greu cynghanedd gyflawnach a welir yn llsgrau. AH; er hynny, gellid ffurfio *Siecyn* o *Siac* + *-yn*.

33 **deuym ... nofym** Am y terfyniad amhff. *-ym*, gw. WG 324 lle yr awgrymir mai ffurf anghyffredin ac artiffisial ydyw. Gellid adfer *-em* yma heb darfu ar y gynghanedd na'r ystyr.

cyd nofym nef H.y., byddent wedi boddi. Fel arall: 'er inni nofio drwy[']r nef', cf. MWP 211 'though we swam the heavens'.

34 **trychaf** Gradd eithaf yr a. *trwch*, gw. GPC 3625 d.g. *trweh*². Byddai *trwch*¹ 'lluosog, helaeth' yn synhwyrol hefyd.

- 36 **ym Duw** Gan mai'r lleuad ac nid Duw a gaiff y bai gan y bardd, gwell yw dehongli hyn yn ffurf ar *myn* (GPC 3754 d.g. *ym*³) yn hytrach na ffurf l un. yr ardd. *i*.
- 38 **o i ar** Am y cyfuniad hwn, gw. GPC 2611 d.g. *o*¹; GLMorg 41.44n; a cf. GLGC 197.61–2.
- 39 Mater o wybodaeth gyffredin oedd dylanwad y lleuad ar y llanw, cf. DG.net 58.31 *Hyrdda lanw, hardd oleuni*; DB 52 *Aestus Oceani, id est, accessus et recessus lunam sequitur* (ac *ib.* 53).
- 40 **traean** Ymddengys mai sôn am y lleuad anghyflawn y mae'r bardd yma, er cymaint y pwyslais yng ngweddill y gerdd ar ei siâp crwn; cf. y ll. nesaf.
- brau** Gair ac iddo lawer o ystyron, gw. GPC 311. Yma gellid hefyd 'rhwydd' a 'cyflym'.
- 41 **tywyll gwfert** Y mae rhan o leiaf o'r lleuad dan gysgod yma: ai cyfeiriad ydyw at y lleuad newydd? Cf. DG.net 58.50 *Cwfert, o'r wybr y cyfyd* (am y lleuad).
- 42 **tân Mihangel** Ystyrir yr archangel Mihangel fel arweinydd byddinoedd y nef ac amddiffynnwr yr enaid dynol yn awr angau, gw. ODCC³ 1089. Gw. hefyd 10.39. Am *tân*, cf. ll. 16n.
- 43 **awyr llidferw** Ymddengys fod *llidferw* yn goleddfu *awyr*; gall *awyr* fod yn eg., gw. GPC 244 a G 48. Sonnir am y gwynt.
- 44 **chwarfan** GPC 849 d.g. *chwerfan*, olwyn fach ar droell nyddu.
- 45 **llwygaw** Gw. GPC 2244 d.g. *llwygaf* am yr ystyr 'dioddef eclips, diffyg' mewn perthynas â chorff nefol.
- 46 **maen cafad** Gw. GPC 2307 d.g. *maen*¹, '*precious stone believed to fall with showers*' neu '*crystal supposed to bring rain*'.
- 47 **Caer Droea** Gw. GPC 384 d.g. *caer*, '*Troy, Walls-of-Troy, a labyrinth, a maze*'. Yn DGG² 228 esbonnir mai cysylltiad tybiedig â'r gair *troi* a roes fod i'r ystyron hyn. Cf. AP 12 (ll. 19)–13 (ll. 2) *ag yna ef a welai newyddgaer vawr, vynor, [a] thyrau amhwc o odidowgwaith a gwaith kaer dro arni* (ceir *kaer droya* mewn llsgrau. eraill). Ymddengys mai rhyw fath o batrwm ydyw yn yr enghraifft hon. Yn y ll. bresennol disgrifia natur drofaus y gwynt.
- pellant** Sonnir am grwydriadau'r lleuad o amgylch yr wybren, neu gellid ei gysylltu â *gwynt* ac aralleirio 'cadarnle [i] siwrnai faith [y] gwynt [megis] drysfâ'.
- pill** Gair ac iddo nifer o ystyron gwahanol, gw. GPC 2805. 'Cadarnle' sy'n gweddu orau yma: disgrifir y lleuad fel lloches i'r gwynt sy'n plagio dynion (a'r bardd yn benodol).
- 48 **carn** Eto, gair ac iddo fwy nag un ystyr (GPC 429; G 112–13). Gellid

hefyd ‘*hoof*’, gan feddwl am siâp crwn y lleuad.

corun Defnyddid *corun* am ran uchaf y pen, ac yn benodol am ben a eilliwyd yn null mynach. Am yr olaf y meddylyr yma, bid sicr.

49 **buarth baban** Yn ôl GPC 343 d.g. *buarth*, ‘*baby ring or circlet, ring of fire made with a blazing stick, turned round and round to divert a child*’. Dyna’r ystyr a dderbynnir yn GDG³ 356 (134.24) *Pentan, buarth baban beirdd* (am Niwbwrch) ac yn 378 (143.37–8) *Rhwysg mab o fuarth baban, / Rhed, y dur, fal rhod o dân* (am gledddyf); yn ôl *ib.* 546–7 yng ngeiriaduron William Owen(-Pughe) a D. Silvan Evans y cafwyd yr ystyr hon. Barn arall a geir yn TA 635: ‘Tebyg mai rhyw ddyfais oedd ... i gadw ar ei draed blentyn bach heb ddysgu cerdded’, cf. *ib.* 456 (CXVII.41–2) *Gofaint oedd, gan gefn y tân, / Wrth bobî’r buarth baban* (am fwcled). Cred Dafydd Johnston (Bl B XIV 180) mai ‘corlan fechan gron i gadw baban yn ddiogel’ ydoedd *buarth baban*, a cf. GLGC 327 (146.5) *Buarth baban rhag annwyd* (am lys cynnes; cf. y n. *ib.* 595) a 512 (237.31) *Fy mab, fy muarth baban*. Y gwir yw na all yr un o’r enghreifftiau hyn, sydd i gyd yn ffigurol, dorri’r ddadl.

56 **oerllith** Gellid hefyd ‘oer dy ymborth’; am y ddau air *llith*, gw. GPC 2188–9 d.g. *llith*¹ a *llith*².

57 **diennill** I’w gysylltu ag *amod* yn y ll. nesaf, gthg. yr atalnodi yn DGG² 136.

58 **dioer** Gair unsill gan amlaf, gw. GPC 1024 a G 363, a myn y rheol acennu mai unsill ydyw yma (y mae *wybroer* yn ll. 57 yn ddeusill), er bod y ll. sillaf yn fyr. Byddai *Diennill ... / A amod* yn adfer hyd cywir i’r ll. (a’r *a* megis yn y gystrawen *mawr a beth*).

61 **arwydd** Ansicr: cyfeiriad at leuad Ebrill, o bosibl, fel arwydd na fydd taith yr ymgymmerî â hi yr adeg hon o’r flwyddyn yn un lwyddiannus, neu at *diwedd gwanwyn* yn ll. 60 (gan na soniwyd am y lleuad yn benodol ers ll. 56).

62 Fel deisyfiad y dehonglir y ll. hon, ond noder mai disgrifiad pellach o’r *arwydd* ydyw yn ôl yr atalnodi a fabwysiadwyd yn DGG² 136.

63 **mis** Mis Mai, dechrau’r haf.

64 **taradr** Yr haul, yn ôl pob tebyg, yn hytrach na’r mis, cf. GIG 139–40 (XXXI.30–1) *A Duw o fewn aeth yn dy fynwes / Fal yr â drwy’r gwydr y terydr tes* (h.y. pelydrau haul yn treiddio drwy ffenestr).

65–6 Ni ellir deall *Mai* yn oddr. y frawddeg hon: sut y gallai mis Mai arwain y llong i *pill yr Ebrill* ‘cadarnle Ebrill’ ar ôl i Ebrill fynd heibio? Hefyd, y mae *A Mai* yn ll. 67 yn awgrymu’n gryf fod y bardd yn troi o’r newydd at gyfarch mis Mai yn y ll. honno. Dealler yma ddeisyfiad olaf at fis Ebrill: a’r mis mor ffyrnig yn ei erbyn, digon i’r bardd fyddai cyrraedd harbwr diogel. Yno y bydd yn aros nes y daw mis Mai i’w

arwain yn ddiogel at ei nod (llau. 67–72). Gthg. yr atalnodi yn DGG² 136 a'r n. *ib.* 228–9.

- 67 **hutGai ehetoed** Cf. DG.net 44.13 *Fry yr ai, iawnGai angerdd*. Gellir deall cyfeiriad Dafydd ap Gwilym yng ngoleuni'r hyn a honnir am Gai yn CO³ 14 (387–8) *Kyhyt a'r prenn uchaf yn y coet uydei pann uei da ganthaw*, ond nid yw hyn yn llwyr gyson â'r ll. dan sylw, ac efallai fod rhyw chwedl am Gai yn hedfan, a weddai'n well i l. Dafydd ap Gwilym hefyd. Gw. ymhellach TYP³ 308–11; WCD 91–4.
- 70 **dy Galis** O'r Ffrangeg *de Galice* 'o Galisia'. Yn rhanbarth Galisia y mae Santiago de Compostela.

7

Yr allwedd i ddyfeisgarwch y cywydd ffraeth hwn yw'r modd y mae'n tynnu ar sawl *genre*. Y mae'n dechrau fel cywydd dychan, ond un sy'n dangos ofn ac arswyd y bardd yn ymgiprys â'r edmygedd y mae'r don yn ei ennyn ynddo. Cawn, felly, gymysgedd o foliant a dychan yn y llinellau cyntaf. Yna, wedi i'r bardd glywed neges y don, y mae'r gerdd yn troi'n ddisymwth yn gywydd llatai.

Y mae'r bardd ar fwrdd llong a drewir gan don. Disgrifir y don yn llau. 1–32. Ceir yma lawer o'r eirfa ganmoliaethus a gysylltir â thonnau yng ngwaith y beirdd canoloesol, megis sôn am wynder ag egni, ond y mae arswyd y bardd yn brigo droeon yn ystod y disgrifiad, wrth iddo arfer geiriau y disgwyliid eu cael mewn dychan yn hytrach na mawl (e.e. *graen* 2, 18; *erynaig* 3; *amhuredd* 5; *cylla* 6; *gwae* 8, 13). Ac eto, ymetyb y don gan esbonio mai cennad neu latai ydyw oddi wrth gariad Gruffudd, Goleuddydd, sy'n gweld ei eisiau (llau. 33–42). Ymdeimlir yn syth ag ansicrwydd y bardd ynghylch ffyddlondeb ei gariad: *A saif lle rhoes gynt ei serch?* (ll. 52). Digon amwys yw ateb y don. Rhaid i Ruffudd ddychwelyd yn o sydyn os nad yw am golli Goleuddydd. Wedi'r cyfan, onid diarhebol yw anwadalwch merched pan fydd eu cariadon i ffwrdd (llau. 59–60)? Bwrir Gruffudd i banig llwyr, ac ymbilia'n daer ar y don i'w gludo adref yn ddi-oed. Rhan fawr o hwyl y gerdd yw'r gwrthgyferbyniad rhwng agwedd ofnus y bardd ar y dechrau a'r canmol sebonllyd y mae'n ei dywallt ar y don unwaith y mae'n deall pwy a'i hanfonodd.

Ceir y cywydd hwn mewn pedair llawysgrif ar hugain, a bu raid ystyried un ar ddeg ohonynt wrth lunio'r testun. Er bod ambell wahaniaeth yn nhrefn y llinellau, ar y cyfan cadwyd strwythur loyw y gerdd yn dda yn y gwahanol gopiâu, ac nid yw'r darlleniadau unigol ychwaith yn amrywio ar raddfa fawr.

Golygwyd y gerdd yn DGG² 137–9 (cerdd LXXV).

Cynghanedd: croes 36 ll. (47 y cant); traws 13 ll. (17 y cant); sain 24 ll.

(32 y cant); llusg 3 ll. (4 y cant).

- 2 **rhaeadr** Yn llsgrau. TX yn unig y ceir y ll. *rheydr*. Nid yw'n eglur o'r llsgrau. a yw'r gytsain gyntaf wedi ei threiglo, ond dyna sydd hawsaf o safbwynt y gynghanedd.
- i'r gras** Nid yw *gras* yn ei ystyr arferol yn addas yma. Yn DGG² 137 diwygir yn *er gras*, ond eto ni thâl disgrifiad cadarnhaol yn wyneb y llau. negyddol, dychanol sy'n dilyn. Haws na diwygio yw derbyn *cras* 'lludw, llwch, ulw ... cawn neu wlydd sychion', gw. GPC 580. Ceir enghreifftiau eraill yn EWGP 28 (V.7a) *Kalan gayaf; kalet cras* ac yn GLIL1 18.37 *Llym anyan trathan trwy gras—a choed*. Eg. ydyw yn ôl GPC *l.c.*, ond ni ddyfynnir enghraifft yno yn cadarnhau hyn.
- 3 **erynaig** Ceir *arynaig* (GPC² 496) ac *erynaig* (GPC 1239), heb wahan-iaeth ystyr. Nid oes modd gwybod pa un a oedd yma'n wreiddiol.
- 4 **y hi** Dyna a geir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau., er na nodir y ffurf tan 1551 yn ôl GPC 1967 d.g. *hyhi*. Eto, awgrymir yno fod *hyhi* yn adffurfiad ohoni, felly dichon fod y *hi* yn hen. Unwaith eto, ni ellir gwybod pa ffurf a oedd yma'n wreiddiol.
- 7 **gwelwglawdd** Deellir hwn yn oddr. a'r f. *tryfriwawdd* yn fg. *Clawdd* o ewyn yw'r don sy'n chwalu dan ei rym ei hun. Am bosibilrwydd arall, gw. ll. 8n.
- tryfriwawdd** Ni nodir y f. hon yn GPC 3640 ond nodir y rhagddodiad cryfhaol *try*-² (*ib.* 3634). Gellid derbyn *tra friwodd* gyda'r un ystyr, ond nid yw'n rheol treiglo'n feddal ar ôl *tra*, gw. Treigladau 407–8; diweddar yw'r enghreifftiau o'r treiglad hwn a ddyfynnir yno. Ni thycia'r un o'r darlleniadau eraill o ran y gynghanedd, sy'n mynnu *-r-* o flaen yr acen.
- 8 **gwe hirerw** Disgrifiad o'r don. Posibilrwydd arall yw ei fod yn ddelwedd am arwyneb y môr ac yn wrth. *tryfriwawdd* yn ll. 7: 'Chwil-friwodd clawdd gwelw ... / [Y] we hir ei lledaeniad.'
- 10 **morfeirch** Dyma ddarlleniad yr holl llsgrau. ac eithrio'r hynaf, T, sy'n cynnig *morfoch*. Gair annelwig am angenfilod y môr yw *morfeirch*, gw. GPC 2489 d.g. *morfarch* a'r enghreifftiau a ddyfynnir yno, sy'n dyddio'n ôl i'r 14g. Gair am ddolffiniaid neu lamidyddion yw *morfoch*, gw. *ib.*, ac yr oedd yn bodoli yn amser Gruffudd.
- 13–14 Dilynir llsgr. T wrth roi'r cwpled hwn yma. Nis ceir mewn rhai llsgrau., ac yn y gweddill fe'i ceir ar ôl llau. 15–16. Y mae digon o dystiolaeth dros ddilysrwydd y llau. hyn ond, ar y llaw arall, ni ellir derbyn eu lleoliad yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. sy'n eu cynnwys oherwydd byddent yn torri ar draws y cysylltiad amlwg rhwng *gwranda*w (ll. 16) a *diasbad* (ll. 17). Diau mai'r ffaith fod y gair *gwa*e ar

ddechrau llau. 13 a 16 a barodd gamosod y cwpled yn y llsgrau. hyn.

- 13 **o'i hymyl hi** Saif y gwyliedydd anffodus wrth ochr y llong, ac felly y mae hefyd wrth ymyl y don sy'n taro'r llong.
- 14 **geir** Nid yw *gaer* yn synhwyrol. Sonnir am ddyn yn sefyll ar bwys yr hwyl ar fwrdd llong.
goror heli Gwrth. *gwyl* yn y ll. flaenorol.
- 15 **gan ei hafn drud** Daw'r *diabod* (ll. 17) *gan* ('oddi wrth') y bwlech a agorir yn y môr.
ei ... ei Er bod y ll. sillaf yn hir, y mae tystiolaeth y llsgrau. dros y ddau *ei* yn rhy gryf i hepgor y naill neu'r llall ohonynt. Gthg. DGG² 137 a 229 *gan hafn* 'cant o hafnau neu bantiau'.
- 16 **a fai'n gwrndaw** Byddai *biau'i gwrndaw* (llsgrau. BGX) yn synhwyrol hefyd.
- 17 **Ysbaen** Acennir ar y goben yn y cyfnod hwn, cf. GHS 5.36n.
- 18 **grawth** Am yr ystyr 'llamsachus', gw. GPC 1527. Dyfynnir yno enghreifft lle y mae'n disgrifio cerddediad ceffyl.
- 19 **ffaig** Am yr ystyr 'cwrw', cf. (mewn cyd-destun tebyg) IGE² 106 (llau. 5–6) *Gwisgi ddwfr, gwaig o'i ddwyfron, / Dioer yn ei ffaig o'r graig gron* (awdur ansicr).
parchu Am yr ystyr 'arbed', gw. GPC 2687 d.g. *parchaf* (b).
- 20 **mawrfurm** Ceir *burm* yn amrywiad ar *burum*, gw. GPC 349 d.g. *burum*, lle y nodir enghreifftiau canoloesol: 'ewyn neu ysgum sy'n ymffurfio ar wyneb diod frag'.
- 22 **môr-forwyn** Am enghreifftiau canoloesol eraill, gw. GPC 2489.
- 25 **amau nidr** Darlleniad llsgr. T, gthg. DGG² 137. Synhwyr'r bardd fod y don yn *nidr*, yn broblem iddo. Amheus yw (*y*) *mae neidr* y llsgrau. eraill (a dderbynnir yn DGG² 229): os delwedd am y don ydyw, paham y ceir *y mae*, a'r don wedi bod yn bwnc y gerdd ers y ll. gyntaf? *Amau nidr* yw'r *lectio difficilior* yn ddiau, ac ymddengys fod Gruffudd Gryg yn arbennig o hoff o'r gair *nidr*, cf. 3.17, 6.17, 34. Dichon fod *nidr* yn ddieithr i genedlaethau diweddarach, a byddai natur ddigyswllt y sangiad hefyd yn faen tramgwydd. Am sangiad 'digyswllt' cyffelyb sy'n disgrifio teimlad y bardd gan ddefnyddio *amau*, cf. GMBen 5.75–6 *Y cusan, ddyn eirian ddydd, / Amau'i gael, am ei gilydd*.
- 26 **Llid (oer ei gwrid) ar ei gwrych** Eg. yn unig yw *llid* yn ôl GPC 2175 d.g. *llid*¹, ond y mae'r holl llsgrau. o blaid peidio â threiglo'r ddau e. arall yn y ll., felly y mae'n rhaid mai'r don yw rhagflaenydd dealedig y rh. *ei* yn y ddau achos. Gellid hefyd ddeall brawddeg enwol yma: 'Cynddaredd oer yw ei gwrid ar ei hewyn'. Chwaraeir ar ddwy ystyr *llid*, sef 'cynddaredd' a hefyd yr ystyr feddygol, sef 'ymchwydd',

- ‘enyriad’. Cyfeirio at gochni croen llidiog neu wyneb dig a wna *gwrid*: wrth gwrs, gwyn yw lliw yr ewyn, felly’n baradocsiaidd *gwrid oer* sydd arni, *gwrid* nad yw’n goch o gwbl.
- 29 **cyrchu** Chwaraeir ar ystyron gwahanol y gair, ‘ymosod ar’ ac ‘ymofyn’. Y mae’r bardd yn gweld y don fel gelyn a’i fryd ar ymosod ar ei long, ond mewn gwirionedd y mae hi wedi dod i’w nôl adre at ei gariad.
- 31 **rhestr** Am yr ystyr ‘ffrwd’, gw. 6.13n.
- 33 **dywad** 3 un.grff.myn. *dywedyd*, gw. G 431 d.g. *dywedut*.
- 36 Awgrymir, efallai, nad oes angen i’r bardd ofni’r nos oherwydd mai neges gyfeillgar sydd gan y don; os felly, rhaid mai yn ystod y nos y dychmygir bod hyn oll yn digwydd. Posibilrwydd arall yw na ddylai’r ferch ofni’r nos, sef cerydd i’r bardd am ei gadael ar ei phen ei hun mewn gwely unig. Y mae’r ail yn fwy boddhaol.
- neb** Cymerir *neb* yn oddr., ond gellid ei gydio wrth *gyfnod*, gan roi ‘unrhyw gyfnod’. Er na threiglir e. yn rheolaidd ar ôl *neb*, ceir rhai enghreifftiau o dreiglo (Treigladau 94). Os derbynnir hyn, rhaid hefyd dderbyn mai’r ferch yw goddr. dealedig *ofned*, gan na chrybwyllir neb arall.
- 40 **cynnil leddf** Annelwig: y don, Goleuddydd neu’r bardd?
Goleuddydd E. cariad Gruffudd Gryg, cf. DG.net 22.20 *Prydydd Goleuddydd liwddyfr* (Marwnad Gruffudd Gryg).
- 42 **gorug ais** Llsgrau. *gorugeis* (ac eithrio V), y gellid ei ddeall yn 1 un.grff.myn. *gwneuthur*, ond nid oes tystiolaeth fod y fath ffurf wedi bodoli erioed, gw. WG 361; GMW 130; G 696 d.g. *gwneuthur*, oll yn cadarnhau mai *gorugum* a ddisgwyliid. Rhanner ef, felly, yn ddau air. Cyffredin yw sôn am wneud poen i *ais* rhywun, cf. GILIF 3.29–30 *A gwayw eglur a goglais / O waith dyn fwyn aeth dan f’ais*. Sylwer hefyd ar y darlenniad yn llsgr. V (ffurf gyfystyr â *gorug* yw *gorau*). Y mae’r don yn cyhuddo Gruffudd o beri gloes iddo, neu i’r ferch (felly DGG² 230).
- 43 Anodd yw dewis rhwng y fersiwn o’r ll. a geir yn BDGX ac ar ffurf ychydig yn wahanol yn T, a’r fersiwn a geir yn y llsgrau. eraill. Anhawster arall yw penderfynu ai’r don a gyferchir â’r geiriau hyn ynteu ai sangiad ydynt yn disgrifio Goleuddydd.
- 45 **dywaid** Ffurf 2 un.grch. a gafwyd drwy gymathiad â’r 3 un.pres.myn., gw. G 431.
- 48 **mam aig ynys** Sef y don. Môn yw’r ynys. Dywed y don mai wrth ymyl Môn y cododd hi am y tro cyntaf. Eto, nid amhosibl ‘ynys [sy’n] fam [i] lu’, cf. 8.30n.
- 49–50 Deellir mai sangiad yw’r rhan fwyaf o’r cwpled hwn, yn cyfeirio at

waith caled (*anial wst*) y don yn chwilio am Ruffudd. Cyfeiria *ystum* at orchymyn y ferch i'r don.

51 **hynny** Byddai *yno* llsgrau. CFISUV yn ystyrllon hefyd.

i'th Enghraifft o'r ffurf *i* yn swyddogaeth *yn* o flaen y be., gw. GPC 1993–4 d.g. *i*⁵.

54 **â sail** Darlleniad llsgr. T yn unig. Ni lwyddwyd i gael enghraifft arall o'r ymadrodd *â sail*, ond o'r holl ddarlleniadau yn y llsgrau. hwn yw'r unig un sy'n rhoi rhywfaint o synnwyr. Nodir yn GPC 3156 d.g. *saell*¹ 'hwyl' yr amrywiad *sail*, ond er bod yr ystyr yn ddeniadol yma, o'r iaith lafar fodern y daw'r holl enghreifftiau. Eto, ymddengys mai dyna sydd y tu ôl i llsgr. S *i dan sail*. Yn DGG² 230 dadleuir mai ll. *sâl* 'ad-daliad, gwobr' yw *sail* yma, ond ni dderbynnir hyn yn GPC 3171 d.g. *sâl*².

57 **er** Gair y mae ei ergyd yn aml yn amwys mewn Cym.C. Yma, fe'i deallir yn yr ystyr 'yn gyfnewid am': rhybuddir y bardd yn erbyn cymryd yn ganiataol y caiff wobr am ei gân. Posibilrwydd arall yw 'er gwaethaf': er gwaethaf y budd a ddaw i'r ferch oddi wrth farddoniaeth Gruffudd, ni thâl iddo ymddiried ynddi.

59 **dirmycid** Hen ffurf 3 un.pres.myn., gw. WG 322–3; GMW 119. Yr oedd ffurfiau fel hon yn hynafol iawn erbyn amser Gruffudd Gryg, ond mewn diarhebion yr oedd tuedd iddynt oroesi, gw. DGG² 230. Y mae'n bosibl fod *Dirmycid merch ... w'r ni welo* yma'n adlais o ddihareb goll; cf. GGM 12.14 *Dirmycer ni welir*.

60 **orne** Sef *gorne* 'lliw' neu 'gwedd', gw. GPC 1493; DGG² 230. Eg. ydyw yn ôl GPC *l.c.*, ond yma y mae'n rhaid ei ddeall yn eb. Yn llsgr. T yn unig y ceir y darlleniad hwn, ond nid oes dim yn y lleill sy'n rhagori arno. Adffurfiad gorgywir o *orne* yw *ornai* yn llsgrau. CFIS, yn ôl pob tebyg.

61 **Clawdd Offa** Y clawdd a godwyd (yn ôl y gred gyffredin) gan y brenin Offa (*ob.* 796) ar hyd y ffin rhwng y Cymry a Mercia. Delwedd am y don ydyw yma.

gyrfa Gellid derbyn *oerfa* hefyd, er na restrir enghraifft cyn diwedd yr Oesoedd Canol, gw. GPC 2625.

erfid Am ddefnyddio'r gair hwn am donnau yn benodol, gw. GPC 1231 (b); cf. GGMD i, 4.19 *canrwysg ton erfid*.

62 **Caer Gwydion** Y Llwybr Llaethog, gw. GPC 384 d.g. *caer*; G 729 d.g. *Gwydyon*. Y mae hon gyda'r enghreifftiau cynharaf sydd ar glawr. Gall fod cyfeiriad arall yn llechu yn un o gerddi Casnodyn, gw. GC 11.148n. Am Wydion, gw. TYP³ 392–4; WCD 349–50; hefyd *ib.* 369 d.g. *Huan ap Gwydion*, lle y ceir rhagor o wybodaeth am y cysylltiad traddodiadol rhyngddo a'r Llwybr Llaethog.

63 **clod fawrgrair** Dyma'r darlleniad mwyaf ystyrllon yn y cyd-destun: pe

derbynnid *f'eurgrair*, byddai'n rhaid deall *clod f'eurgrair* yn ddisgrifiad o'r don fel un sy'n lledaenu clodydd cariad Gruffudd. Gallai clod gyfeirio'n benodol at y canu mawl, lle y defnyddir delwedd y don yn helaeth fel delwedd stoc, cf. Barry J. Lewis, 'Golwg y Beirdd ar Harddwch Natur', *Dwned*, xi (2005), 35–63.

clwyd Gw. GPC 513 (a) 'plaid symudol o wiail, cawell'; (b) 'pren neu drawst y saif aderyn arno, cwt ieir'; (c) 'gwaith gwaiail plethedig yn cynnal to gwellt'. Y mae'r don fel ffens wiail, efallai, cf. y defnydd cyffelyb o'r gair fel delwedd am y niwl yn DGG² 63 (XXXIX.30) *Chwyd forlo rhyngo' a'r haul* (un o gerddi apocryffa Dafydd ap Gwilym) a DG.net 57.23 *Chwydau uchel a welir* ('Y niwl'). Eto, yn wyneb y cyfeiriad at grancod, gall fod rhywbeth fel 'cawell' hefyd mewn golwg yma.

clwyd forgrainc Treiglir yr ail e. yn enidol ar ôl yr eb. *clwyd* am fod y ddau e. yn ffurfio uned glwm, cf. Treigladau 70–1. Ceir digon o enghreifftiau eraill gyda'r e. *clwyd*, cf. GPC 513 a G 150; GDC 15.27 *dieithr clwyd fawieir*; a *clwyd forlo* yn DGG² 63 (XXXIX.30).

- 64 **archlen** Derbynnir y darlleniad hwn am fod y gair ar glawr mewn man arall, gw. GPC² 420 'corff, bron, mynwes'; G 36 '?llurug, pais'. Un enghraifft sicr a geir, sef GCBM ii, 6.33 *Hud aruoll archoll yn archlen*, ond gellir derbyn yn hyderus DB 31 (13.6) *arthlen* (gw. *ib.* 121 am y diwygiad), lle y mae'n cyfieithu'r Llad. *corpus*. Ni nodir enghraifft o *marchlen* (cf. llsgrau. BCGX) yn GPC 2355, ond os derbynnir y darlleniad hwnnw yma, byddai 'llen march' yn ystyrllon fel delwedd am y don.

ancr Eg. yw *ancr*, a'r ffurf f. arno yw *ancres*, ond y mae tystiolaeth y llsgrau. yn gadarn o blaid ei gymryd yn eb. yma. Math o feudwy oedd ancr a giliai i fyw mewn cell ar ei ben ei hun. Byddai'r gell gan amlaf yn gysylltiedig ag eglwys, a châi'r ancr dderbyn ymwelwyr a ddeuai â rhoddion iddo, a hefyd wrando ar wasanaethau'r eglwys drwy dwll neu ffenestr fach yn y wal. Merched oedd y mwyafrif ohonynt. Gw. ymhellach Bernard Hamilton, *Religion in the Medieval West* (London, 1986), 185.

- 65 **gwynnedd** Gw. G 747 a GPC 1777 d.g. *gwynnedd*¹. Hon yw'r unig enghraifft a restrir yno, ond cf. bellach GGrG 8.31–2 *A bysedd hwyrwedd, hirion,—a'i gwynnedd / Mal y bydd bunedd boneddigion* (Gruffudd ap Tudur Goch) ac *ib.* 8.31n.

Caswennan Yn ôl G 116, e. ar Swnt Enlli, y culfor rhwng Enlli a Llŷn; gw. ymhellach WCD 319–20. Yn DGG² 231 nodir mai dryllio llong Arthur, Gwennan, a roes fod i'r e. yn ôl y chwedl. Crybwyllir Caswennan gan Hywel ab Einion Lygliw: *Deuliw berw Caswennan* (GGL1 1.26n).

- 67 **geirw** Gall fod yn eb.un. yn ôl GPC 1388, ond y mae'n anodd cael hyd

i enghraifft ddiogel. Fe'i deellir yn e.ll., felly. Nid oes rhaid gweld anghysonder rhwng y ffurf 2 un. *dy* a'r e.ll. yn ei dilyn: rhes o grychau yw'r don.

dygyfor Gall fod yn a. yn ogystal ag yn e. yn ôl GPC 1133, ond unwaith eto nid oes enghraifft ddiogel: o'r ddwy enghraifft a ddyfynnir, gall yn hawdd mai e. ydyw yn DG.net 62.32 *callor dygyfor* (aralleirir yn 'crochan rhyferthwy'), ac yn GBF 52.19 *ysgor dygyuor* fe'i deellir yn e. gan y golygydd.

69–74 Dilynir y drefn a geir yn y rhan fwyaf o lawer o'r llsgrau. Yr unig eithriadau yw X (testun go sâl) lle'r hepgorir llau. 71–2, a T, y copi hynaf, lle y ceir y drefn 71–2, 69–70, 73–4. Y mae'r testun yn berffaith ystyrion fel y saif yn llsgr. T, a hynny oherwydd bod dau ddarlleniad gwahanol yno hefyd: (i) yn ll. 71 ceir y ffurf orchmynnol *hebrwng vi* yn lle *fy hebrwng*: y mae hyn yn ymgysylltu â *cais* yn ll. 66; (ii) yn ll. 73 ni cheir y cys. *a* ar y dechrau. Y mae absenoldeb *a* yn y ll. hon yn angenrheidiol ar gyfer rhediad y synnwyr yn ôl y drefn a geir yn llsgr. T. Fodd bynnag, golyga fod hyd y ll. yn ddiffygiol. Ar y sail hon, a chan ystyried tystiolaeth trwch y llsgrau., derbynir y drefn a geir yn y copïau eraill.

74 **gwyal unllun** Cf. GGMD iii, 5.108n *gweilging saffir* (am ferch); ond ll. yw *gwyal* yma. Os nad y ferch a ddisgrifir, cf. ll. 63n *chwyd* am y don.

75 **trimis** Ansicr yw ergyd y gair hwn: ai gweld y ferch am dri mis yn ddi-dor yw'r ystyr? Ymddengys hynny braidd yn ddiarwyddocâd: paham tri mis yn arbennig? Neu gallai gyfeirio at hyd y daith arfaethedig adref, ond ni chrybwyllwyd honno ers ll. 72. Trydydd posibilrwydd yw na fydd Gruffudd yn ceisio mynd am fordaith am dri mis ar ôl iddo gyrraedd adref. Unwaith eto, ymddengys hynny braidd yn annisgwyl yn y cyd-destun: disgwylid iddo ymwrthod â'r môr am byth, fel yr ymddengys ei fod yn ei wneud yn ll. 76. Tueddir at yr ail bosibilrwydd.

76 Ceir camosodiad yn y ll. hon (*-dd- -d- ~ -d- -dd-*). Osgoid hyn pe derbynid y darlleniad amrywiol yn BI, ond nid oes digon o ategiad llawysgrifol iddo.

8

Dyma, efallai, y gerdd fawl gynharaf i ranbarth o Gymru sydd ar glawr.¹ Daeth cerddi o'r fath yn eithaf poblogaidd yn y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg, a cheir digon ohonynt i allu sôn am *genre* penodol. Diau fod egin y *genre* newydd hwn i'w gweld yn y canu mawl arferol i unigolion. Cyffredin yw canmol bro noddwr wrth ei ganmol yntau, ac yn y cerddi

¹ Gall fod GGLI cerdd 9 'I'r haul ac i Forgannwg' yn gyfoes neu'n gynharach.

mawl i froydd y mae'r beirdd yn estyn y syniad hwn i lenwi cerdd gyfan. Nid yw cynulleidfa arfaethedig y cerddi hyn yn gwbl eglur: gellid eu datgan, efallai, mewn mwy nag un llys lleol, neu ar ryw achlysur lle y byddai nifer o uchelwyr y fro wedi ymgynnull ynghyd.

Cwestiwn arall yw ymhle y mae perchennog y llais person cyntaf sy'n siarad yn y gerdd hon i'w leoli. Nid yw hyn yn gyfystyr â'r lle y *cyfansoddwyd* y gerdd, nac ychwaith y lle y'i *datgamwyd*. Ni allwn wybod ymhle yr oedd Gruffudd pan gyfansoddodd y cywydd hwn, ac o ran y perfformio, y mae'n fwy na thebygol y byddai Gruffudd wedi *datgan* y cywydd ar ôl cyrraedd adref neu wedi ei anfon i Fôn er mwyn i ddatgeiniad ei ddwyn o amgylch yr ynys. Ond ble y mae'r gerdd yn lleoli ei siaradwr? Gellid deall o'r llinell gyntaf fod y gerdd yn darlunio Gruffudd Gryg yn cyfarch Môn o ddeheubarth Ffrainc. Ond paham y crybwyllir Nant Ffrancon? Nid yw'r lle hwnnw ym Môn. Posibilrwydd deniadol yw fod y siaradwr yn y gerdd ar ei ffordd adref, ac wedi cyrraedd Nant Ffrancon – y lle cyntaf y gellir gweld Môn ohono wrth deithio yno drwy Eryri, a lle perffaith ar gyfer canu cywydd cyfarch i'r ynys. Os felly, disgrifiad cryno o'r daith a geir yn y llinell gyntaf. Y mae'r ansicrwydd hwn yn parhau yn llinell 3, a thrafodir y broblem ymhellach yn y nodyn ar y llinell.

Thema lywodraethol y gerdd yw perchentyaeth gwŷr yr ynys, yn hytrach na'i nodweddion naturiol (er crybwyll y rheini tua'r diwedd). Canmolir *serch a rhoddion* (ll. 5), *maeth llawen* (ll. 18) ac yn bennaf oll *medd* (llau. 6, 10, 12). Rhestrir cymydau'r ynys fesul un, gan ddechrau yn y de-orllewin a mynd mewn cylch clocwedd—nodwedd a ailadroddir droeon yn y cerddi diweddarach i'r ynys.² Yna sonnir yn fyr am wahanol dirweddau Môn: [*g*]wastatir tirion, [*c*]orsydd a mynydd (llau. 31–2). Unwaith eto, y mae'r pwyslais ar ymborth a ffrwythlondeb, ac ar y sawl sy'n cynnig croeso i'r bardd (llau. 33–6).

Golygwyd y cywydd yn Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Gruffudd Gryg i Dir Môn', YB xiii (1985), 146–54. Prin yw'r gwahaniaethau yn y testun a gynigir yma, ond llwyddwyd i gynnig ambell awgrym newydd mewn rhai manau lle nad yw'r ystyr yn eglur.

Yn eithriadol, canwyd y cywydd hwn ar un brifodl (-on) a chyda'r gair *Môn* ar ddiwedd pob cwpled.

Cynghanedd: croes 9 ll. (25 y cant); traws 6 ll. (17 y cant); sain 15 ll. (42 y cant); llusg 6 ll. (17 y cant).

1 **nen** Am yr ystyron trosiadol, gw. GPC 2569 1(a) 'pen ... brig, copa'.

Nanffrancon Nant Ffrancon, dyffryn yn Eryri lle y rhed Afon Ogwen i gyfeiriad Bangor. Diau mai dyma un o'r prif ffyrdd i Ynys Môn yn yr

² Gw. Gruffydd Aled Williams, 'Môn y Beirdd', *Bro'r Eisteddfod 3: Ynys Môn*, gol. Bedwyr Lewis Jones a Derec Llwyd Morgan (Llandybïe, 1983), 96. Cf. hefyd R. Geraint Gruffydd yn AH 35; GCBM i, cerdd 8.

Oesoedd Canol, ac o'r dyffryn hwnnw y byddai'r teithiwr wedi cael ei gipolwg cyntaf ar yr ynys. Gw. y nodyn cefndir am arwyddocâd posibl y cyfeiriad.

- 2 **gwlad ... Fôn** Am y treigladd i e. priod genidol ar ôl eb., gw. Treigladau 111.
- 3 **neuaf** Am y f. hon, gw. GPC 2575–6 'cwyno, achwyn, gofidio, grwgnach'; J. Lloyd-Jones, 'Neuaf, neued, afneued', B i (1921–3), 5–6, lle y deuir i'r casgliad mai '*grudge*' yw ystyr sylfaenol y gair. Ategir hyn gan yr enghreifftiau yn GMB 8.82n *kyn y uar arnaf neuaf na'm llas*; GCBM i, 21.94 *Neuaf nas gbelaf ual y'm gbeles*, ib. 24.67 *Eryr glyb glewaf, neuaf na dab*. Gwedda hyn yma, efallai: y mae'r bardd yn anfonlon fod gan Guienne benwn, sef arwydd o bendefigaeth, gan fod Môn yn well. Y mae'r dehongliad hwn yn gadael yn agored y cwestiwn ymhle y mae'r llais barddol wedi ei leoli, oherwydd gallai fynegi ei farn am Gïen naill ai yn y wlad ei hun ynteu ar ôl cyrraedd adref. Ond o dderbyn yr ystyr 'hiraethaf', gellid deall bod Gruffudd, ar ôl iddo gyrraedd Nant Ffrancon neu Fôn, bellach yn hiraethu am Gïen, er cydnabod bod Môn yn well (ll. 4). Byddai hynny'n fwy cyson â'r ffaith ei fod yn canmol Sbaen yn 9–10: nid oes dim byd yn annymunol am y lleoedd estron hyn, ond gwell ganddo ei famwlad. Ceir dau anhawster gyda'r dehongliad hwn, fodd bynnag, sef fod GPC *l.c.* yn mynegi petruster ynghylch yr ystyr 'hiraethu', gan mai geiriaduron yw'r unig ffynhonnell ddiogel ar ei chyfer, a hefyd ni cheir enghraifft hysbys arall o *neuaf* o + gwrthrych. Gwahanol eto yw barn Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Gruffudd Gryg i Dir Môn', YB xiii (1985), 151. Awgrymir yno fod y bardd yn lleisio ei gŵyn 'o'r wlad o dan faner y Gïen'. Os felly, yn ne Ffrainc y mae siaradwr y gerdd o hyd.

Gïen Rhanbarth Guienne (Guyenne) yn ne-orllewin Ffrainc, a oedd ym meddiant brenhinoedd Lloegr o deyrnasiad Harri II (1154–89) ymlaen. Llygriad o'r e. *Aquitaine* yw *Guienne*; y brif dref yn yr ardal oedd Bordeaux, wrth aber Afon Garonne ac Afon Dordogne. Daeth yr e. i amlygrwydd yng Nghytundeb Paris (1259) pan wrhaodd Harri III o Loegr i Louis IX o Ffrainc dros Gïen a Gwasgwin. Enillodd brenin Ffrainc y tir hwn yn ôl ar ddechrau'r Rhyfel Can Mlynedd, ond fe'i hadferwyd i Edward III yn 1360 dan amodau Cytundeb Brétigny.

pennon Penwn, math o faner 'hircul ar lun triongl neu gynffon gwennol', neu 'baner' yn gyffredinol, gw. GPC 2764 d.g. *penwn*.

- 4 **nod** Chwaraeir ar yr ystyron 'arwydd', cf. *pennon* yn y ll. flaenorol, ac 'enwogrwydd', gw. GPC 2587–8 d.g. *nod*¹.
- 6 **rhysfa'r** Nid yw'r darlleniad yn eglur yn llsgr. B, lle yr ysgrifennwyd *rysa r* yn wreiddiol ac yna ychwanegu *v* uwchben yr *a*: gellid dehongli hyn yn *rysavr*, *rysvr* neu *rysvar*. O blaid y cyntaf y mae llsgr. D *ryssavr*,

a dyna a dderbynnir yn Gruffydd Aled Williams, *art.cit.* 151, lle y cysylltir *rhysau* â bon *rhysedd* ‘moethusrwydd’ neu ‘afradlonedd’, cf. GPC 3142; CA 352–3. Eto, ni nodir *rhysau* na *rhys* yn GPC *l.c.* Am yr ail bosibilrwydd: ceir y f. *rhysu* yn yr ystyr ‘llesteirio’ (GPC *l.c.* d.g. *rhysaf*²), ond ni wedda’r ystyr honno yma. O dderbyn y trydydd dehongliad o lsg. B, fodd bynnag, ceir e. digon cyffredin yn y farddoniaeth ac ystyr burion, gw. GPC *l.c.* d.g. *rhysfa*¹. Daeth Iolo Morganwg i’r un casgliad yn llsgr. C.

Rhosyr Rhosyr, trefgordd a llys y tywysogion ym Môn, a elwid yn ddiweddarach Niwbwrch; e. hefyd ar gantref deheuol yr ynys (WATU 190). Rhydd y llsgrau. *rosvr* yma, ond penderfynwyd adfer un o’r hen ffurfiau er mwyn cael cynghanedd gyflawn. Ceir y ffurf hon yn RB 407 ac yn VSB 246 (*rosuir*). Ardystir amryw ffurfiau eraill sy’n cynnwys *f*, yn amrywiadau ar *Rhosfair*, gw. y cofnodion yn ArchifMR d.g. *Rhosyr*. Gellid hefyd dderbyn *Rhosyr* yma gan nad oes rhaid ateb *f* mewn cynghanedd.

- 7 **gwaraf gwirion** Y bardd, neu gallai gyfeirio at *Gaergybi* yn y ll. nesaf.
- 8 **’Môn** Y mae’n anodd gwybod ai fel *Môn* (genidol) ynteu fel cywasgiad o *ym Môn* y dylid deall *mon* yn llsgr. B, ond *ymon* a geir yn llsgr. D, a theimlir mai dyna’r dehongliad esmwythaf (cf. ll. 6 *Rhosfyr ym Môn*).
- 9 **Ysbaen** Acennir ar y goben yn y cyfnod hwn. Gw. hefyd 7.17n.
- osbion** Am yr ystyron, gw. GPC 2657 d.g. *osb*. Gellid ‘gwesteiwyr’ yma, ond nid yw’n hawdd cael enghraifft gadarn o’r gair yn yr ystyr hon cyn y cyfnod diweddar.
- 11 **Nafarn** Navarre, teyrnas sydd bellach yn rhan o Sbaen. Â’r llwybr enwog o Ffrainc i Santiago de Compostela drwyddi.
- ceusarn gyson** Diau fod y ffordd yn gau yn sgil traed y lliaws pererinion a’i tramwyai. Gthg. Gruffydd Aled Williams, *art.cit.* 152, lle y’i dehonglir yn gyfansoddair o *gau* + *sarn* ‘ffordd ddrwg’ ac yn ddisgrifiad o natur fynyddig Navarre (gan roi coma o’i flaen). Ceir gwell cyfochreb â *meddgell Môn* yn y ll. nesaf o dderbyn bod *Nafarn* yn enidol yma. Gwedda *cyson* hefyd fel disgrifiad o’r ffordd eithriadol hir hon, yr enwog *camino*.
- 13 **dof gymwd** Enghraifft o ddynodi cyrchfan â threigladd meddal a heb ardd., gw. Treigladau 227–8.
- dros dwf gwymon** Menai yw’r cwmwd cyntaf y mae’r bardd yn dychmygu ei gyrraedd ar ôl croesi’r Fenai.
- 14 **Menai** Cwmwd yn ne-orllewin yr ynys, a’i ganolfan yn Rhosyr (WATU 155).
- 15 **Bodeon** Trefgordd ym mhlwyf Llangadwaladr, cwmwd Malltraeth (WATU 15; *Bodowen* ar y map heddiw, SH 380 668). Dim ond fel

cywriad yn B y ceir y ffurf *Bodeon*: ysgrifennwyd *vodavon* yno'n wreiddiol, a cheir *vadavon* yn D. Nid oes tystiolaeth yn unman arall, hyd y gwyddys, y gellid galw'r lle hwn yn *Bodafon*, a *Bodeon* a geir yn nhrwch yr enghreifftiau cynnar o'r e., gw. ArchifMR d.g. *Bodeon*. Enw ar fynydd a threfgordd yng nghwmwd Twrcelyn yw Bodafon (cyfeirnod grid y mynydd yw SH 47 85), ac felly ni ellir derbyn y darlenniad hwnnw yma. Dichon mai awydd naturiol i greu cynghanedd lusg rhwng *af* a *Bodeon* a roes fod i'r llygriad, ynghyd, efallai, â gwybodaeth amherffaith o ddaearyddiaeth Môn. Ceir cynghanedd draws reolaidd o dderbyn *Bodeon*.. Yn Gruffydd Aled Williams, *art.cit.* 152, derbynnir *Bodafon*.

16 **Malltraeth** Cwmwd i'r gogledd o'r Fenai a'i ganolfan yn Aberffraw (WATU 152).

yw Disgwyliid *mae*, ond am enghraifft debyg, cf. DG.net 171.8n.

18 **Lliwan** Cwmwd Llifon, i'r gogledd o gwmwd Malltraeth (WATU 145). *Lliwan* hefyd oedd enw'r afon a rannai'r ddau gwmwd (Drudwy neu Bodrywydd heddiw) a gall fod amwysedd yn y testun (*cymwd ... Lliwan / afon Lliwan*), fel y nodir yn Gruffydd Aled Williams, *art.cit.* 153. Gw. ymhellach Gwilym T. Jones, *Afonydd Môn* (Bangor, 1989), 75–6.

19 **bel** Cyffredin yn y cywyddau yw sôn am *dwyn y bel*, *cael y bel* fel arwydd o ragoriaeth. Ansicr yw beth yn union yw *bel* yn yr ymadroddion hyn: ai S. 'bell' ynteu ffurf dreigledig *pêl*? Derbynnir *bel* yn GSDT 8.9n *Dwg y bel fal Llywelyn*; GSRh 11.71–2n *Rhisiart, nid gwaed rhy isel, / Gwedy yntau, biau'r bel*; GDG³ 98 (35.3–4) *Di-hwch riain dâl uchel, / Er dig i'r byd dygi'r bel*. Ategir hyn yn OED² ii, 89 d.g. *bell*, lle y nodir ymadroddion cyffelyb yn S. yn ymwneud â'r gloch a wisgir gan yr anifail sy'n arwain gyr neu ddiadell. Eto, *bêl* a dderbynnir yn GDGor 7.79–80 *A darfo rhwyfo rhyfel, / Cymry sy yn barnu'r bêl* (gw. *ib.* 7.80n) ac yn GGI² 233–4 (lxxxix *passim*). A barnu wrth reol trwm ac ysgafn, disgwyliid llafariad fer yn *bel* mewn amryw o'r enghreifftiau hyn, cf. J. Morris-Jones: CD 232–3. Yn wyneb hyn derbynnir *bel* yma: ceir cynghanedd groes yn y ll., felly ni raid poeni am yr odl â *dêl* (a allai greu cynghanedd sain â *bêl*, gan barchu rheol trwm ac ysgafn).

Talybolion Am y treigladd, cf. ll. 13n. Cwmwd gogledd-orllewinol yr ynys oedd Talybolion, a'i ganolfan yng Nghemais (WATU 201).

20 **fan y hanwyf** Awgrym cryf fod Gruffudd yn hanu o Dalybolion, gw. y rhagymadrodd.

21–2**Tŵr ... / Celyn** Twrcelyn, cwmwd gogledd-ddwyreiniol Môn a'i ganolfan ym Mhenrhosllugwy (WATU 216).

maenol Nid oes ystyr dechnegol iddo yma, gw. GPC 2310 d.g. *maenor*.

23 **goror cerddorion** Sangiad yn cyfeirio ymlaen at y cwmwd yn y ll.

nesaf.

- 24 **Tindaethwy** Dindaethwy, cwmwd de-ddwyreiniol Môn a'i ganolfan yn Llan-faes (WATU 58; Melville Richards, *Enwau Tir a Gwlad* (Caernarfon, 1998), 10). Am y *T-*, gw. I. Williams: BWP 155n2.

***Môn** Cf. ll. 8n.

- 25–6H.y., bydd yr amser maith a diflas o aros am ddychweliad Gruffudd Gryg drosodd. Llac yw'r defnydd o yw yn ll. 25 am y dyfodol. Y mae'n ddigon eglur yn ll. 13 na ddychmygir bod y bardd wedi croesi'r Fenai eto.

- 25 **purorion** Gw. GPC 2934 d.g. *puror*². Yn GCBM i, 3.210 y mae'n dwyn cynodiadau sydd ychydig yn negyddol (*A'm gônaeth o buraŵr yn brydyd*), ond yn GIG 93 (XXII.24) a 95 (XXII.91) y mae'n rhydd o'r arlliw hon. Cyfeiria yno at feirdd neu gerddorion yn gyffredinol ac at Lywelyn Goch ap Meurig Hen, gwrthrych y gerdd.

- 27 **dwysgwblach** Gradd gymharol *dwysgwbl*, sef *dwys* + *cwbl*, gw. G 405 d.g. *dwys* a GPC 1112; DG.net 20.15 *O ddwysgwbl serch oddysgaid*; GIRh 1.23 *Dwysgwbl aur sinddwbl yw'r sofl* (am wallt merch).

- 29 **hawdd fyd** Ceir *hawddfyd* a *hawdd fyd* yn ôl GPC 1827. Ni ellir bod yn sicr pa ffurf a arferai'r bardd ei hun, ac nid yw o fawr bwys. Eg. yn golygu 'byd da, esmwythdra' (gw. *ib.*) yw *hawddfyd*, ond teimlir yn y rhan fwyaf o'r enghreifftiau ei fod yn ebychiad tebyg i *hawddamor* o ran ei ddefnydd a'i ystyr, cf. DG.net 11.13 *Cyfyd yt hawdd fyd, fadiain bôr,—gennyf, / Ac annwyl hawddamor*; GGI² 32 (XII.7–8) *Rhydd yw ym roi hawddamawr / A rhoi hawdd fyd pob rhodd fawr*; GDC 12.1 *Hawddfyd i'm pôr parod foliant*. Ebychiad ydyw yn 9.1 isod hefyd. Yma y mae'r bardd yn anfon ei gyfarchion i Fôn o ddeheubarth Ffrainc.

cyfoeth Am yr ystyr, gw. GPC 708 (c); G 213.

- 30 **mam Gymry** E. traddodiadol ar yr ynys a gofnodir ers y 12g., cf. GLIL1 23.145–6 *Gorwyt ut dremrut dra mor lliant—y Mon, / Mam Gymry y metant*. Esbonia Gerallt Gymro yr e.: *Est etenim haec insula prae cunctis Kambriae finibus triticeo gramine incomparabiliter fecunda, adeo ut proverbialiter dici soleat lingua Britannica, Mon mam Kembre, quod Latine sonat, Monia mater Kambriae. Quoniam aliis undique terris deficientibus, haec sola gleba praepingui uberique frugum proventu Kambriam totam sustentare consuevit* (*Giraldi Cambrensis Opera*, vi, ed. J.F. Dimock (London, 1868), 127 (ii.7)). Yng nghyfieithiad Thomas Jones (*Gerallt Gymro* (Caerdydd, 1938), 131): *Canys y mae'r ynys hon yn anghymarol fwy cynhyrchiol mewn grawn gwenith na holl ardaloedd Cymru: yn gymaint felly ag y mae'n arfer diarhebu'n gyffredin yn yr iaith Gymraeg, 'Môn mam Cymru'. Oherwydd pan fyddo'r holl ardaloedd eraill ymhobman yn methu, y mae'r wlad hon, ar ei phen ei hun, yn arfer cynnal Cymru i gyd â'i*

chnwd bras a thoreithiog o yd.

Cymry Nid oedd gwahaniaeth tarddiad nac ystyr yn wreiddiol rhwng *Cymry* a *Cymru*. Am y treigladd, gw. Treigladau 101 (treiglo ar ôl eb. mewn cyfosodiadau sefydlog).

31 **gwastatir** Nodwedd amlwg iawn ar Ynys Môn, yn enwedig o'i chymharu â gweddill Gwynedd.

32 **corsydd** Ceir darnau sylweddol o dir corsiog yn ardal Malltraeth.

mynydd Gw. GPC 2541 (b) am y gwahanol ystyron posibl. Er bod mynyddoedd ar Ynys Môn, yn wyneb y cyfeiriad at *wastatir* yn y ll. flaenorol y mae'n debygol nad tir arbennig o uchel yw hwn eithr tir agored na thyfid cnydau arno.

34 **brig yd** Cf. DN 26 (X.9–10) *Ni thyf, mal gwenith hafaidd, / Bric ar yd, lle ni bo'r gwraidd.*

bragod GPC 307 'math o ddiod frag a wneid gynt drwy eplesu cwrw a mêl ynghyd'. Arbenigedd Cymreig ydoedd, gw. Marged Haycock, *'Where Cider Ends, There Ale Begins to Reign': Drink in Medieval Welsh Poetry* (Cambridge, 1999), 8–9, felly nid yw'n syndod fod Gruffudd yn dyheu amdano yn Ffrainc.

9

Cywydd serch yw hwn a'r rhan fwyaf ohono'n rhoi disgrifiad manwl o ferch, gan ddilyn trefn go bendant o frig ei phen hyd at ei bron a'i breichiau; hepgorir gweddill ei chorff. Ar ddiwedd y cywydd gwrthyd y bardd enwi ei anwylyd, ond yn syth o flaen y llinellau hyn ceir awgrym chwareus mai Goleuddydd ydyw, sef yr un enw ag a welsom yn 7.40.

Y mae disgrifiadau trefnus fel hwn o ferched yn gyffredin yn y canu serch. Ceir enghraifft nodedig gan Iolo Goch, a gwatwarwyd y confensiwn gan Werful Mechain.¹ Y drefn yn y cywydd hwn yw gwallt, talcen, aelïau, llygaid, gruddïau, genau, gwefusau, dannedd, lleferydd, trwyn (ychydig allan o drefn), gën, bron, breichiau a gwddf (eto ychydig allan o drefn).

Gwael yw cyflwr y gerdd yn y llawysgrifau. Ni cheir ond saith ohonynt, ac o'r rheini y mae AEF yn bendant yn tarddu o rai eraill ac felly gellir eu hanwybyddu. Tybir hefyd, er nad gyda'r un radd o sicrwydd, fod DG yn tarddu yn y pen draw o C. Rhoddir darlleniadau ohonynt, er y teimlir nad ydynt o fawr werth. Y mae D yn benodol yn dangos olion diwygio gan rywun a geisiai leddfu ar anawsterau'r testun. Dyna'r copi, gwaetha'r modd, a ddilynwyd gan mwyaf yn DGG². Erys BC, dwy lawysgrif fwy neu lai gyfoes â'i gilydd. Rhagora B bron bob tro ar C, ond yn anffodus, diflannodd

¹ GIG 101–4 (cerdd XXIV); GGM cerdd 9. Gw. ymhellach Ann Matonis, 'Nodiadau ar Rethreg y Cywyddwyr', *Y Traethodydd* (Gorffennaf 1978), 155–67.

ei rhan olaf (ar ôl ll. 26) yn sgil colli dalen. Rhaid, felly, ddibynnu'n llwyr ar C am ran olaf y gerdd, ac y mae'n ddigon amlwg fod hwnnw yn destun gwael a llwgr. Yn wir, y mae cymaint o achosion o afreoleidd-dra mydryddol a chynganeddol yn y gerdd nes peri amau ai Gruffudd Gryg yw'r awdur: er enghraifft, y llinellau byr (llau. 8, 28, 32 cyn ei diwygio, efallai 39), yr ansicrwydd parthed hyd geiriau ac ynddynt lafariaid ymwthiol neu w ansillafog (llau. 23–4, 39), yr odlau sigledig (ll. 11 yn y gynghanedd sain, 23–4 cyn eu diwygio), ac, mewn manau, y syniadaeth ddadleuol (ll. 28) neu'r ieithwedd amheus o syml (llau. 37–8). Diflanna rhai o'r anawsterau hyn drwy ddiwygio, ond erys rhai'n anodd eu gwaredu. A yw'n ddilys, felly, ddiwygio unrhyw beth o gwbl yn y testun ar y sail mai cerdd gan fardd medrus o'r bedwaredd ganrif ar ddeg yw hon, neu a ddylid cymryd ei bod yn waith diweddarach a gadael yr afreoleidd-dra fel y saif? O blaid awduraeth Gruffudd y mae'r ystyriaethau canlynol: (i) y priodoliad yn C (collwyd y priodoliad, os oedd un, yn B); (ii) yr enw Goleuddydd a guddir, yn ôl pob tebyg, yn llinell 36; (iii) canran uchel y gynghanedd sain (40 y cant);² (iv) yr ieithwedd gymharol gymhleth yn B (gthg. llau. 12, 13, 19 yn B â'r hyn a geir yn C). Yn betrus, felly, derbynnir yma mai diffygion testunol, yn hytrach nag arwyddion o ddiweddarwch, yw'r problemau yn y testun hwn, a cheisir diwygio lle y bo modd. Y mae'n rhaid cydnabod, serch hynny, fod y testun golygedig yn llai boddhaol nag eraill yn y gyfrol hon.

Golygwyd y gerdd yn DGG² 131–2. Fel y nodwyd uchod, y mae'r golygiad hwnnw yn dilyn llsgr. D yn rhy glos, ac yn anffodus ni wyddai'r golygyddion am B, y testun gorau.

Cynghanedd: croes 9 ll. (21 y cant); traws 11 ll. (26 y cant); sain 17 ll. (40 y cant); llusg 4 ll. (10 y cant). Ceir un llinell heb gynghanedd (ll. 1).

1 **hawddfyd** Cf. 8.29n. GPC 1827 eg. 'byd da, esmwythdra', ond yn aml iawn cyfarchiad bendithiol ydyw, e.e. GDC 12.1 *Hawddfyd i'm pôr parod foliant!* Fe'i deallir fel bendith yma.

amgen nog echdoe Y mae'n anodd cael synnwyr os deallir bod hyn yn goleddfu *hawddfyd*, felly gwell yw ei gymryd yn sangiad sy'n cyfeirio at gyflwr meddyliol y bardd. Cf. DG.net 110.1–2 *Dyddgwaith dybech fu echdoe, / Da fu Duw â Dafydd ddoe* ac *ib.* 11–12.

Ni cheir cynghanedd yn y ll. hon.

4 **un dyn goeth** Amrywia cenedl *dyn* yn y canu serch, ac weithiau, fel yma, treiglir a. ar ei ôl fel petai'n eb., er na threiglir y gair ei hun ar ôl y rhif. *un* na'r fannod. Gthg. *ddyn* yn ll. 2.

5 **gwiwlwys haf** Fe'i deallir yn gyfeiriad at amser y flwyddyn, ond gallai

² Efallai nad cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod y gynghanedd draws yn tra-arglwyddiaethu yn llau. olaf y gerdd, lle y mae'r ieithwedd braidd yn rhy syml o'i chymharu â gweddill gwaith Gruffudd Gryg (e.e. ll. 37); fe gofir mai dyma'r rhan o'r gerdd nas ceir yn llsgr. B.

fod yn ddisgrifiad o'r ferch hefyd ('un fel yr haf tra disglair').

- 6 Ai rhyw achlysur cymdeithasol a ddisgrifir yma?
- 8 **pabl** Gthg. llsgrau. CDG *gwbwl*. *Pabl* yw'r *lectio difficilior* yn ddiamau.
- fy mynd** Am enghreifftiau eraill, gw. GGMD i, 2.15n.
- 10 **siaffyr** GPC 3258 d.g. *siaffer*¹, *siaffr*¹, *siaffyr* 'padell dân, rhyw fath o ddysgl dwymo'. Fel y nodir yn DGG² 225, cyfeirir at liw gwallt y ferch. Ceir yr un ddelwedd gan Siôn Tudur, gw. GST i, 781 (200.21–4) *Os hoffais dy frig siwffair / Hoff wyd dan y ddwyraff aur. / Rhais 'y mryd, rheswm ar wir, / Nas hoffwn, liw mân siaffir*. Gw. ymhellach OED² ii, 1062 d.g. *chafer*²; yn ôl y diffiniad hwnnw, y mae'n amlwg fod modd llosgi glo neu olog mewn siaffyr.
- yr oedd** *a oedd* a ddisgwyliid ar ôl y goddr. *siaffyr*, ond y mae'r ymadrodd adferfol *ar ei hiad* hefyd yn rhagflaenu'r f. yma.
- 11 **uwchben gem Gymru** Twyll odl o fewn y gynghanedd sain.
- 12 **pwynt** Am yr ystyr, gw. GPC 2951 d.g. *pwynt*¹ (e); GIG 102 (XXIV.57–8) *Pwy a allai, pei pensaer, / Peintio â chalch pwynt fy chwaer*.
- sêr, sidan** Llsgrau. CD *feinder*, llsgr. G *ffeinder*, sy'n fyr o sillaf ac yn wannach o ran ystyr. Dyma olion eglur trosglwyddiad llafar.
- 13 **mererid** Unwaith eto, dengys llsgr. B ddarlleniad llawer mwy soffistigedig na'r lleill.
- 14 **meillion** Blodau gwyn sydd gan y feillionen wen, *Trifolium repens*, sef y math mwyaf cyffredin o feillion ym Mhrydain, gw. W. Keble Martin, *The New Concise British Flora* (London, 1982), plât 22; cf. GGrG 8.18 *Lloer gwyngnawd lliw blawd blodau meillion*; CO³ 18 (llau. 497–8) *Pedeir meillonon gwynnyon a dyuei yn y hol myn yd elhei*.
- calch** GPC 391 (b) 'owmal, lliw neu ddefnydd yr addurnid arfau megis tarian, llurig, helm a chyfrwyau, etc., ag ef'. Dewisir yr ystyr hon rhagor 'calch' yma (er y byddai lliw gwyn calch yn gweddu'n dda) oherwydd y cyplysiad â *hoelion* (isod). Ond efallai fod modd rhoi coma rhyngddynt a derbyn 'calch', os yw ail hanner y ll. yn cyfeirio at *hoelion* yn disgleirio yn yr haul.
- hoelion ... haul** Cf GO 97 (XIV.35–6) *Gwlith mân arian mewn aravl / Gwreichion yw'r hoelion o'r havl* (yn disgrifio tarian). Ansicr iawn yw'r ergyd yma, gw. uchod.
- 15 **cron** Gw. GPC 615 d.g. *crwn* (b), a cf. CSTB 16 (XII.43–4) *Sidan crwn, gwn ei ganod, / Sawdurio'n ael, sad yw'r nod* (am aelïau merch).
- 18 **golygon dduon** Treiglir yr a. ar ôl e. deuol, gw. Treigladau 62, a cf. PKM 42 (ll. 16) *golygon orwyllt*.
- 19 **cyfliw** I'w ddeall gyda *mwyar* yn y ll. nesaf.

- 20 **addfed** Ffurf ddilys ar *aeddfed* yn ôl GPC² 82 d.g. *aeddfed*.
- 21 **cwrel** Delwedd gyffredin am liw coch y gruddiau, gw. GPC 647 a GMBen 6.20n am enghreifftiau mewn perthynas ag aeron celyn a chriafol, sydd ill dau'n drawiadol o goch.
- 23 **didrwl** Diwygiad petrus iawn. Ceir *dibwl* yn llsgrau. BCG a *dwbl* yn llsgr. D; ychwanegwyd hefyd *a* yn D er mwyn hyd y ll. Dilynwyd llsgr. D yn DGG² 131, ond fel mewn manau eraill, diystyrir D yma am y credir mai diwygio er mwyn rheoleidd-dra yr oedd y copïydd. Y mae'r ll. yn berffaith fel y saif yn BCG, ond ni cheir odl â ll. 24: nid odla *cwbl* â *dibwl* onis yngenir *cwblwl*, ond y mae nifer y sillafau yn ll. 24 yn erbyn hynny. Ni welir modd diwygio ll. 24 a fyddai'n well na'r diwygiad a gynigir yma ar gyfer ll. 23, felly cedwir ll. 24 yn ddigyfnewid. Am y gair *trwbl* gw. GPC 3624.
- 25 **trosedd traserch** Dau air daufiniog y gellir eu dehongli'n negyddol, gw. GPC 3617 a 3558.
- 26 **cyfagos** Sef y dannedd; ffurfiant res lefn heb fylchau hyll.
- 27 **pêr** Mwy tebygol na *ffêr* 'cadarn'.
tafod parodiaith Yr oedd *-aw-* ddiacen eisoes yn datblygu yn *-o-* yn y cyfnod hwn, a chan mai *-aw-* a geid yn y ddau air hyn mewn Cymraeg cynharach, gall mai copïydd diweddarach a newidiodd y ddau. Felly, ni rydd yr odl hon sail dros amau oed y darlleniad.
- 28 **maith** Ymddengys mai peth da yw trwyn hir yng ngolwg y bardd, ond yn wyneb byrder y ll. y mae'n amheus a yw'r darlleniad yn gywir.
- 29 **cyfion** Gw. GPC 694 d.g. *cyfiawn*, *cyfion* (c) am yr ystyr. Y mae'r treigladd yn annisgwyl ond yn dderbyniol ar ddechrau ll., ac y mae ei angen ar gyfer y gynghanedd draws. Am y llafariad *-o-*, gw. ll. 27n.
aelgeth Gw. GPC 1206 d.g. *elgeth*, *aelge(r)th*.
- 30 **o loywfron** Ansicr, ac y mae'r ailadrodd yn peri anesmwythyd. Deellir yn betrus gyfeiriad at eira ar ochr bryn, ond byddai 'bron lefn o [liw] lluchiad eira [fel ar] fron ddisglair' yn bosibl. Gellid hefyd *oloywfron*, treigladd o *goloywfron*. Os felly, 'bron lefn, [lliw] lluchiad eira bron ddisglair'.
- 31 Cynghanedd sain reolaidd, ond y mae'r aceniad yn drwsgl. Gwell o safbwynt yr aceniad fyddai derbyn cynghanedd groes, ond golygai hynny dderbyn bod *r* yn *deufrach* ac *n* yn *dan* heb eu cyfrif. Dygai ei breichiau faich o fawl am eu bod mor hardd.
- 32 **cylch gwyn** Llsgrau. *kylcheugwyn*, darlleniad diystyr. Y mae'r ll. yn rhy hir hefyd. Gwnâi *cylchau gwyn* synnwyr o ryw fath fel disgrifiad o wddf y ferch, ond erys problem y sillaf dros ben. Yn DGG² 132 hepgorwyd y cys. *a* ar flaen y ll., ond cadwyd y ffurf *cylcheugwyn* (heb esboniad).

- 33 **rhan** H.y., yr hyn y cynysgaeddwyd hi ag ef gan natur.
- 34 **gwylan** Delwedd gyffredin am wynder croen merch, cf. DG.net 45.1–2 *Yr wylan deg ar lanw, dioer, / Unlliw ag eiry neu wenlloer*. Y mae'n rhyfedd ar un olwg, gan mai cefnau ac esgyll du neu lwyd sydd gan y gwylanod sy'n gyffredin ym Mhrydain. Ond yr argraff a grëir ar y llygad gan yr aderyn wrth hedfan sy'n cyfrif, ac yn sicr y lliw gwyn sy'n taro'r llygad fwyaf.
- 35–6 Ymddengys fod y bardd yn cymharu gwynder y ferch â lliw pob merch arall. Gallai ll. 36 sefyll ar wahân fel disgrifiad o'r ferch sy'n wrth. y gerdd, ond byddai *goliw*, wedyn, braidd yn wan ei ystyr. Ceir gwell synnwyr o ddeall *gŵyl ddyd* yn ll. 36 yn enidol ar ôl *goliw*.
- 35 **no** Fe'i diwygiwyd er mwyn cysondeb â'r ffurfiau *nog* a *no'i*.
mwyl no'i gilydd Annelwig: disgrifiad o'r *goliw* fel un gwell na'r arfer, efallai, neu'n well nag eiddo merched eraill.
- 36 **ar liw** H.y., ar yr amser pan fo lliw golau dydd i'w weld.
golau ddydd Ai chwarae ar enw ei gariad y mae'r bardd yma?
- 37 **doetwy'** Ffurf l un.pres.dib. *dywedyd* gydag ystyr ddyfodol. Digwydd y ffurf *doedai* yn GGL1 5.37, felly ymddengys fod hon yn ffurf bosibl yng nghyfnod Gruffudd Gryg.
- 39 **henw** Awgryma hyd diffygiol y ll. fod angen cyfrif hwn yn ddeusill, ond unsill ydyw yn y ll. flaenorol.
- 40 **bach** Gwrthsaif ei dreiglo'n aml ar ôl eb., gw. Treigladau 56–7, lle y cysylltir y duedd hon â Gwynedd.
- 41 **growndwal** H.y., y mae ei chalon hi'n hael hyd ei gwaelod.
- 42 **Y Fêl Ynys** Enw ar Ynys Prydain, gw. TYP³ 246 a 248–9.

10

Awdl i Dduw ar fesur rhupunt yw hon. Dechreuir trwy ymbil ar Dduw i faddau pechodau'r hil ddynol (llau. 1–8), cyn mynd ymlaen i'w ganmol (llau. 9–19). Wedyn gofynnir am iachawdwriaeth, gan enwi'r pethau y seilir gobaith dynion arnynt (llau. 20–8). Daw'r deisyfiad ei hun yn llau. 29–31, ac yna cloir drwy restru gogoniannau'r nef. Nodweddir yr adrannau gwahanol hyn gan eu defnydd o gymeriadau geiriol cryf, ac y mae'r adran sy'n rhestru agweddau ar Grist a'i ddioddefaint ar y cymeriad *er* yn dwyn i gof nifer o gerddi crefyddol eraill.¹

Ceir yr awdl hon mewn dwy lawysgrif ganoloesol, sef Llawysgrif Hendregadredd (D, s. xiv^{med}) a Llyfr Coch Hergest (B, c.1400). Y mae'r copi cynharaf yn sicr yn gyfoes â'r bardd ei hun. Y mae trefn y llinellau yn

¹ E.e. GGMD ii, 15.85–92; GMBen 10.57–66 (Llywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon).

wahanol iawn yn B a cheir yno lai ohonynt, sy'n awgrymu bod traddodiad llafar y tu ôl i'r copi hwn (neu i'r ddau). Eto, ceir dau achos lle y mae'r ddau gopi yn cytuno ar ddarlleniad sy'n ymddangos yn wallus, sy'n awgrymu bod rhyw fath o gysylltiad rhyngddynt.² Golyga'r cymeriadau estynedig a natur gatalogaidd y gerdd nad oes modd dweud rhyw lawer yn hyderus ynglŷn â threfn wreiddiol y llinellau. Yma dilynwyd D am mai hwn yw'r copi hynaf, ond cynhwyswyd dwy linell o B nas ceir yn D. Afraid dweud bod lleoliad gwreiddiol y rhain yn arbennig o ansicr. Gan nad oes rheswm da dros wrthod y llinellau ychwanegol hyn yn B, a chan fod ambell ddarlleniad yn B fel petai'n rhagori ar D,³ ni chredaf mai llaw y bardd ei hun a welwn yn D.

Ni olygwyd y gerdd hon o'r blaen. Ceir copiâu diplomatig yn H 351–2 ac R 1297. Nid yw'r trawsysgrifiad yn H yn gyflawn: hepgorwyd y cwpled olaf sy'n sefyll ar waelod f. 90^v.

Mesur: rhupunt, 40 llinell. Ceir cynghanedd sain gytbwys ddiacen ym mhob ll. ac eithrio ll. 1 (sain gytbwys acennog); a gw. ll. 13n.

2 **arf aelaw** Braidd yn annelwig yw rhai o'r delweddau yn y gerdd hon, cf. llau. 27n, 28n. Y mae'n debygol mai sôn yn gyffredinol am awdur-dod Duw a wneir yma.

3 **haid bechaduriaid** Am y gystrawen, cf. yr ymadrodd *haid wenyn* a geir yn *The Welsh Life of St David*, ed. D. Simon Evans (Cardiff, 1988), 1 (ll. 11); GDEp 6.19; GPC 1813 d.g. *haid*.

4 **llusg ... llesg** Anodd dewis rhwng darlleniadau B a D yma. Y mae'r ddau yn ystyrllon ac yn briodol i'r cyd-destun.

tremyn Ffordd sy'n arwain i dragwyddoldeb yw bywyd y byd hwn yn ôl y ddealltwriaeth Gristnogol, ac felly rhyw fath o bererindod, cf. 1 Pedr ii.11 lle y cyferchir Cristnogion *tamquam advenas et peregrinos* (BCN *fel alltudion a dieithriaid*). Cyfrifir segurddod (*accedia*), sef cyndynrwydd i ymberffeithio, yn un o'r saith pechod marwol.

5 **camlyau** Darlleniad llsg. B. Ceir y gair hwn mewn cyd-destun tebyg yn GGMD ii, 2.40 a GMD 7.9. Ar y llaw arall, nid oes enghraifft hysbys o *lledlyau* (darlleniad llsg. D), a gall mai dylanwad dau gymal arall y ll. a roes fod iddo.

llid frodiau Cf. GGMD ii, 1.26 *dilid frodiau diledfrydedd*. Am farnau cyfreithiol y sonnir, efallai, cf. GMBen 9.14 *Fy ffalst gyfraith yn y brydiaith yn y brodiau* (Gruffudd ap Llywelyn Lwyd). Yr oedd dieter (*ira*) yn un o'r saith pechod marwol.

lledfrydedd Ystyridd anobaith fel y pechod gwaethaf oll, oherwydd golygai nad oedd y pechadur yn ymddiried yng ngallu Duw i gyflawni

² Gw. llau. 8n a 31n.

³ Ll. 5n (petrus); ll. 21n (petrus).

ei iachawdwriaeth.

- 7 **goganwaith** Ni chymeradwyid y canu dychan gan lawer o eglwyswyr a gwaherddir beirdd parchus rhag ymhél ag ef yn y gramadegau barddol, gw. trafodaeth Barry J. Lewis, ‘Trafod Barddoniaeth yn yr Oesoedd Canol: Y Traddodiad Mawl a Chrefydd’, *Dwned*, viii (2002), 21–3, a cf. GGMD ii, 15.17 a GMBen 10.19 (Llywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon) am gyfaddef dychan mewn cerddi cyffes eraill.
- 8 **balched** Yr unig enghraifft hysbys o’r gair hwn (GPC 251). Balchder (*superbia*) yw’r pennaf o’r saith pechod marwol a gwreiddyn y lleill.
anwared BD *anwaeret*. Ni thycia *anwaered* ‘llethr, llechwedd, goriwaered’ yma (GPC² 380). Nodir yr enghraifft hon yn GPC² 381 d.g. *anwared*¹ ‘diffyg gwaredigaeth; (gweithred) (d)diymwared’ (eg. ac a.). Cf. GGMD ii, 15.22 *gweithred anwared* (awdl gyffes).
- 12 **ni’n rhyomedd** Ni ellir darllen y geiriau gwreiddiol yn D, felly pwysir ar y geiriau a ysgrifennwyd drostynt yn ddiweddarach. Y mae’r darlleniad yn B bron yn unffurf. Yn llsgr. A ceir *ni wyr omed*, ond fel y nodwyd uchod (td. 84), ni ellir pwyso ar honno. Ond yr un fyddai’r ystyr yn fras, sef na fydd Duw yn gwrthod dosrannu ei ras.
- 13 Ni cheir y ll. hon yn D. Y mae’r gynghanedd sain yn bengoll, yr unig enghraifft yn y gerdd. Gellid hefyd ei dehongli fel cynghanedd lusg wydro (J. Morris-Jones: CD 177–8).
Ti a’n diddawr Neu ‘Ti sydd o bwys i ni’.
- 14 **tostion erchyll** Braidd yn ddigyswllt yma yw’r geiriau hyn, ond fel y nodwyd uchod, ni allwn fod yn sicr o drefn wreiddiol y llau. yn y gerdd hon. Sonnir am y clwyfau a ddiodefodd Crist ar y groes.
tywyll Gwrthgyferbynnir â *golau* yn y ll. nesaf (sy’n awgrymu bod y ddwy l. yn perthyn gyda’i gilydd—fe’u ceir felly yn B hefyd, ond yn y drefn 15, 14). Ergyd *tywyll* a *golau* yw ‘nos a dydd’ ac felly trwy’r amser, ond meddylier hefyd, yn wyneb y cyfeiriad at y diodefaint ar ddechrau’r ll. hon, am y tywyllwch a fu adeg marwolaeth Crist ar y groes (Math xxvii.45).
- 17 **bendig ... rhyfyg** Am yr odl, gw. D.J. Bowen, ‘Pynciau Cynghanedd: Odli *I, U* ac *Y*’, LICy xx (1997), 138–43.
- 18 **Eurddonen** Ffurf ar enw Afon Iorddonen a geir mewn testunau canoloesol, fel hefyd *Urddonen*, cf. llsgr. B. Nid oes modd gwybod pa ffurf a ddefnyddiai’r bardd. Bedyddiwyd Crist yn yr Iorddonen, cf. Math iii.13. Gellid hefyd aralleirio fel hyn: ‘Ti, Fab Mair fendigaidd sy’n urddo Gwynedd â [dŵr] Iorddonen.’ Delwedd o ddŵr bedydd yw Afon Iorddonen.
Gwynedd Mamwlad y bardd.

19 **Nasredd** Cartref teulu Iesu.

21 **Gŵr diddyedd** Darlleniad llsgr. B. Yn llsgr. D ceir *yr dy ddyed*. Gwnâi hynny synnwyr pe cymerid mai *dyedd* ('rhyfel, aflonyddwch, cythrwfl', gw. GPC 1121) a ddioddefodd Crist yw hyn, neu efallai y rhyfel a wnaeth Crist, yn ôl dealltwriaeth gyffredin yr Oesoedd Canol, yn erbyn uffern er mwyn achub gwŷr cyfiawn yr hen oesoedd ohoni.

22 Nis ceir yn llsgr. D.

digyfedd GPC 688 d.g. *cyfedd* 'cydymaith, cyfaill'; G 349 d.g. *digyued* 'di-wledd, digyfeddach; anghenus, newynog, ymprydiol'. Ystyr negyddol yn sicr sydd i'r gair yn GGDT 7.21 *Neur wn o'i eisiau ddau ddigyfedd*, lle y sonnir am garchariad Syr Gruffudd Llwyd. Ond mentrir awgrymu 'digymar' yma, gan fod y cyd-destun yn gadarnhaol.

23 **coron** Y goron ddrain.

25 **enw rhediad** Ansicr yw'r ystyr. Yn GPC 3045 d.g. *rhediad* ceir 'symudiad (cyflym); ras; cwrs, hynt, llwybr', ond y mae'n anodd cael synnwyr o'r rhain. Fe'i defnyddir hefyd yn ffigurol am ddull ymddygiad, cf. GSRh 10.63–4 *Arghwydd ni weled, wedy eurgledd—nef, / Un rhediad ag ef o anrhydedd*. Ond yn GC 2.119 *rhediad cad cedyrn* ac 8.2n *Rhediad yw ataf yngaf angau* awgrymir mai 'rhedwr' yw'r ystyr. Deellir *enw rhediad* yma yn gyfuniad ar y patrwm 'twyllwr bradwr' (Treigladau 125–6): y mae enw Duw yn lledu'n bell. Petrus iawn yw hyn.

27 **dechrau ... diwedd** Geni Crist a'i farwolaeth ar y groes? Yn ddiwinyddol byddai hynny'n agored i'w gwestiynu, ond barddoniaeth yw hon, nid diwinyddiaeth. Neu gellir ystyried yr adnod Dat xxii.13 *Ego alpha et omega primus et novissimus / principium et finis* (BCN *Myfi yw Alffa ac Omega, y cyntaf a'r olaf, y dechrau a'r diwedd*); hefyd Dat i.8.

dwywau Sef 'duwiau'; derbynnir yr enghraifft hon yn G 402 d.g. *dwy*¹. Gelwir Duw yn *deus deorum*, 'Duw y duwiau', yn eithaf aml yn yr Hen Destament, er enghraifft, Deut. x.17; Salm xlix.1, lxxxiii.8, cxxxv.2 (BCN l.1, lxxxiv.7, cxxxvi.2); Daniel ii.47, ond erys y cyfeiriad hwn yn rhyfedd. Eto fe'i ceir yn y ddau gopi ac y mae'r gynghanedd mor gadarn a rheolaidd fel mai anodd fyddai awgrymu diwygiad.

28 **crychlam** Annelwig: gair canmoliaethus pur, efallai, neu gyfeiriad at ddisgyniad Crist i uffern (ll. 21n).

30 **daearblant** Nid yw'r treiglad yn llsgr. D yn un rheolaidd, ac y mae orgraff llsgr. B yn amwys. Diwygiwyd er mwyn y gystrawen, cf. ll. 31n. Efallai fod copiyyd D yn deall y fel yr ardd. *i*; ond os felly, gadewir y f. *erbyn* heb wrthrych.

yardang Gw. GPC 2027 d.g. *irdang* (-nc), *yardang*; J.E. Caerwyn Williams, 'yardang', B xxiv (1970–2), 269–71. Ymddengys mai dryswch a achoswyd gan y gair prin hwn a welir yn llsgr. B. Ni cheir enghraifft

arall o'r gair *tangnofiant* ac nis rhestrir yn GPC 3423.

- 31 **cael** Treiglir yn y ddau gopi. Ni ellir esbonio'r treigladd, felly diwygiwyd yma.

Pedr Y pwysicaf o'r apostolion a phorthor y nef, cf. GMB 4.25–6 *Mi, Veilyr Brydyt, beryerin y Bedyr, / Portha'wr a gymedyr gymhes deithi* (Meilyr Brydydd); GDB 10.23–4 *Pedyr wynn a'n gôrthuyn gôrth yr gyder: / Ys ti a ôrthyd a ôrthoter!* (Phylip Brydydd).

rhaf etifedd 'Etifedd gras', sef unrhyw un a adewir i mewn i'r nef, ynteu cyfeiriad arall at Bedr. Gellid hefyd 'gras etifedd', h.y. gras y sawl a gaiff fynediad i'r nef. Ll. annelwig iawn.

- 32 **Corf** Delwedd am arglwydd neu, fel yma, am Dduw fel cynheiliad. Y mae cyffelybu'r noddwr i golofn sy'n cynnal ei wŷr yn ddelwedd bur gyffredin yn y canu mawl, cf. T.J. Morgan, 'Trosiad y Golofn', YB x (1977), 94–105.

cyntedd GPC 801 'rhan anrhydeddusaf y neuadd'.

- 33 **oedd** Gw. GMW 110–11 am *oedd* 'byddai'.

- 34 **Serubin** Un o'r graddau o angylion.

rhòl Farthin Sant enwog oedd Marthin (Martin o Tours yng Ngâl, *ob.* 397, gw. ODCC³ 1050). Ni cheir cyfeiriadau eraill at ei rôl, ond yma llyfr y bywyd ydyw, sef rhestr y sawl a achubir, gw. Dat iii.5 *et non delebo nomen eius de libro vitae* (BCN *a'i enw ef ni thorraf allan fyth o lyfr y bywyd*).

rhwyl Gair ansicr ei ystyr, gw. GPC 3116. Yn GGMD i, 4.67n fe'i deallir yn a. 'disglair', ac y mae hynny'n gweddu yma hefyd. Os e. 'siambr, llys' ydyw, yna byddai'n rhaid derbyn ei fod yn eb. ac yn peri treigladd i'r e. genidol sy'n dilyn (neu gellid 'yng ngwychder [y] siambr [nefolaidd]').

- 35 **cof ennyd** Yr eiliad y cofir y sawl a gaiff achubiaeth, ac yr â'r gweddill i ebargofiant yn uffern. Rhan gyffredin o ieithwedd grefyddol yw ymbil ar Dduw i gofio dynion, cf. geiriau'r lleidr a groeshoeliwyd gyda Christ yn Luc xxiii.42 *Domine memento mei cum veneris in regnum tuum* (BCN *Iesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas*). Crynhoir ffawd y sawl nas cofir yn Math xxv.12 *amen dico vobis nescio vos* (BCN *Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyh, nid wyf yn eich adnabod*).

- 37 **Ymher** Cedwir yr *h* yn yr orgraff yma er mwyn y gynghanedd, gthg. GPC 1211 d.g. *emyr, emer, ymer*.

- 38 **perfffeithgwys** Aneglur: cyfeiriad cyffredinol at dir nef, efallai, neu ai at y cwrs y mae'n rhaid ei ddilyn er mwyn cyrraedd yno?

- 39 **Gabriel a Mihangel** Angylion. Gabriel yw'r archangel a ddaeth at Fair i'w hysbysu ei bod yn feichiog o'r Ysbryd Glân, gw. Luc i.26–38. Am

yr archangel Mihangel, gw. 6.42n.

yngedd Gair anhysbys. Y mae'r llsgr. yn anodd ei darllen yma, ond *hyngedd* neu efallai *hyngedd* a geir yno. Dehonglir ef yn gyfuniad o *ying* 'cyfyng' + terfyniad enwol *-edd*. Cf. *ingder* GPC 2016 lle y cynigir 'proximity'.

11

Cyfres o englynion yw'r gerdd hon y ceir yr unig gopi hysbys ohoni yn LIGC 6680B (Llawysgrif Hendregadredd), f. 31^v. Llaw 'c', un o lawiau'r drydedd haen yn ôl dadansoddiad Daniel Huws, a'i cofnododd yno.¹ Gwael iawn yw ansawdd y testun oherwydd bod yr inc wedi pylu, ac mae'n annarllenadwy mewn manau, sy'n peri problemau o ran dehongli'r gerdd. Ymhellach, y mae'r gerdd hon yn un anarferol sydd fel petai wedi angori mewn rhyw achlysur unigryw na wyddom ddim amdano, a diau y byddai'n peri penbleth hyd yn oed petai gennym destun cyflawn ohoni. Gellir goresgyn un anhawster cyn cychwyn: er bod newid ar ôl llinell 20 o englynion unodl union i benillion proest, y mae absenoldeb unrhyw fwlch neu arwydd cyffelyb rhyngddynt yn y llawysgrif, yn ogystal â sylwedd y canu (ac yn enwedig adleisiau rhwng y ddwy ran, e.e. y geiriau *ditiad* a *ditio* yn llau. 19–20 a 38) yn dangos yn eglur mai un cyfansoddiad yw hwn, nid dau fel yr awgrymir yn MWM 224 a GLIBH 15.


Yn y pedwar englyn cyntaf enwir y pedwar gŵr canlynol: Ieuan, Gwilym ap Llywelyn, Llywelyn a Gruffudd.² Os oedd enw priod unsill yn y pumed englyn, ni ellir ei ddarllen bellach. Ni ddywedir dim am gydberthynas y dynion hyn, ond y mae'r cyfosodiad yn awgrymu mai tad Gwilym ap Llywelyn yw'r Llywelyn a enwir yn y trydydd englyn. Nid yw'n eglur ychwaith pa beth sydd wedi digwydd iddynt oll. Marwnadol yw naws yr englynion: er enghraifft, y mae chwerthin y beirdd wedi pallu oherwydd (neu o amgylch) Ieuan (ll. 1n), er nad esbonnir paham. Ond ni ddywedir yn ddiamwys eu bod oll wedi marw. Yn y pumed englyn cawn glywed iddynt gael eu *ditio*. Benthycair o'r Saesneg *indict* yw'r ferf hon (ll. 20n), a chyfeiria at gyhuddo pobl o flaen llys. Cyhuddwyd y dynion hyn, efallai: ond ai iaith lythrennol ynteu ffigurol sydd yma? Hawdd y gellid cymhwyso'r ddelwedd o gyhuddo rhywrai, sef eu dwyn gerbron llys, at y modd y câi pobl eu cipio ymaith gan farwolaeth, ac ategir hynny gan yr ymadrodd *datod gerwin* (ll. 19): gall mai rhwygo'r meirw oddi wrth y byw yw'r syniad yma. Nid yw pethau'n gliriach yn ail hanner y gerdd, sef y penillion proest. Yno sonnir am ddeuddeg o bobl neu o bethau sydd rywsut yn gyfrifol am y

¹ Gw. MWM 209.

² Y mae'r darganfyddiad hwn yn golygu na ellir bellach dderbyn cynigion Daniel Huws i gysylltu'r gerdd â'r naill neu'r llall o'r ddau ddyn o'r enw Llywelyn ap Llywelyn a gysylltid â chylch Parchrydderch, cf. MWM 220–1.

ditio. Gwaetha'r modd, collwyd y rhan fwyaf o'r ddwy linell y gallwn ddyfalu iddynt fod yn allweddol, sef llinellau 21 a 28. Hebddynt nid yw natur y *deuddeg* dan sylw yn eglur o gwbl. Ai cyfeirio a wneir at ddeuddeg dyn sydd wedi dwyn achos yn erbyn y dynion a ganmolir yn yr englynion unodl union, ynteu ai arwyddion y Sodiad sydd yma (cf. ll. 32 *Diddestl arwyddon duddig*) ac os felly, a feiir hwy am farwolaeth y pedwar neu'r pump o ddynion? Gwyddys bod pobl yn yr Oesoedd Canol yn cysylltu afiechydon megis y Pla Du â dylanwad y cyrff nefolaidd.³

Byddai hyn oll ynndo'i hun yn ddigon o dalcen caled. Yn anffodus, o chwilio yng nghofnodion yr oes am ddynion yng nghyffiniau Caerfyrddin (ll. 2) a oedd yn dwyn yr enwau hyn, fe'n dygir wyneb yn wyneb â phenbleth mwy fyth. Yng nghofnodion y Cantref Mawr, enwir pob un ohonynt, ac y mae'n amlwg mai cyfres o genedlaethau a gawn yma. Isod nodir yr ach a'r dyddiadau y gellir eu cywain o'r ffynonellau swyddogol.⁴ Nodir hefyd fab Ieuan a'i frawd:



Ai cyd-ddigwyddiad yw hyn? Anodd credu hynny. Cawn yma bob un o'r

³ Am esboniadau seryddol ar y Pla Du, gw. Samuel K. Cohn, Jr., *The Black Death Transformed: Disease and Culture in Early Renaissance Europe* (London, 2002), 226–8; cf. DN 101–5 (cerdd XXXVII). Y mae'r ffaith mai ar y blaned Sadwrn a'i chydberthynas â'r sêr yr oedd y damcaniaethau hyn yn canolbwyntio, ac nid ar y Sodiad fel y cyfryw, yn bwrw amheuaeth dros yr esboniad hwn ar y gerdd.

⁴ Am yr ach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Rhydderch Ddu' 1, 2 a 4. Ymhlith yr amryfal swyddi hyn yr oedd aelodau o'r teulu yn gwnstabl Castell Dryslwyn ac yn ystiward y Cantref Mawr, yn rhingyll Mallaen ac yn gwnstabl yr un cwmwd.

⁵ R.A. Griffiths: PW i, 246, 261, 280, 380, 388.

⁶ *Ib.* 380, 381, 388.

⁷ *Ib.* 381.

⁸ *Ib.* 381, 388.

⁹ *Ib.* 381, 382, 383, 384.

enwau a geir yn y gerdd, yn yr un drefn ag y'u ceir yno (ond iddynt gael eu henwi o'r ieuaf i'r hynaf yn y gerdd), ac mewn ardal sydd yn sicr *gorywch claeGaer Ferddin*. Ymhellach, gelwir Llywelyn yn Llywelyn Du, ac o graffu ar linell 9 yn y gerdd, gwelir mai [g]ŵr *lliwdeg du* yw Llywelyn yno. Cofier mai mab Llywelyn yw Gwilym yn y gerdd hefyd. Yn olaf, noder bod lle i enw priod unsill yn y rhan o linell 17 na ellir ei darllen. Ai *Rhys* a safai yno'n wreiddiol? Ond yn wyneb hyn oll, y mae'r ddwy ddamcaniaeth a leisiwyd uchod ynglŷn â *genre*'r gerdd, sef cwyn yn erbyn achos cyfreithiol neu farwnad i nifer o ddynion, yn ymddangos yn ansicr iawn. Sut y gellid dwyn achos yn erbyn aelodau o bedair neu hyd yn oed bum cenhedlaeth? A barnu wrth y dyddiadau a roddwyd uchod, go brin fod Gruffudd, Llywelyn Du, Gwilym ac Ieuan yn fyw ac yn oedolion ar yr un pryd, heb sôn am Rys. Ar y llaw arall, pa fath o farwnad sy'n galaru am bedwar neu bump o wŷr a fuasai farw, bid sicr, dros gyfnod o ryw ganrif? Ac os marwnad ydyw, yna gwyddom fod Ieuan, y gŵr ieuaf a grybwyllir, yn fyw yn 1388. Y mae hyn yn anghyfforddus o ddiweddar ar gyfer Gruffudd Gryg. Fe *allai* Gruffudd fod wedi ei farwnadu, petai Ieuan wedi marw yn fuan wedi 1388, ond nid oes tystiolaeth am ddyddiad marwolaeth Ieuan. Yn olaf, llaw o ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg a gofnododd y gerdd hon yn Llawysgrif Hendregadredd yn nhyb Daniel Huws.¹⁰ Sut y gallai gofnodi marwnad i ŵr a oedd yn dal yn fyw yn 1388?

Y mae angen ailfeddwl. Noder yn gyntaf fod gan Ieuan ap Gwilym frawd o'r enw Gruffudd. Tybed ai ef yw'r Gruffudd a enwir yn y pedwerydd englyn? Golygai hynny mai tair cenhedlaeth yn unig a fyddai wedi bod yn fyw yr un pryd. Nid oes unrhyw sicrwydd mai enw Rhys a geid yn y pumed englyn: yn wir, gellid dadlau mai *r*, ac nid *s*, yw llythyren olaf y gair neu'r geiriau coll (y mae gweddill y gair yn gwbl annarllenadwy). Os oedd Llywelyn Du yn dal yn ddigon gweithredol i fod yn gwnstabl yn 1328, fe all ei fod wedi byw ymhell i mewn i'r 1330au a hyd yn oed y 1340au. Yr oedd ei fab Gwilym yn ddigon hen i ddal swydd yn 1328 hefyd, a cheir cofnodion am Wilym hyd 1361. Yr oedd ei fab yntau, Gruffudd, yn dal swydd yng nghanol y pumdegau. Y mae peth amheuaeth ynglŷn â Ieuan, nad oes cofnod ar ei gyfer cyn 1375; ond eto, y mae'n annhebygol ei fod ugain mlynedd yn iau na'i frawd. Gallai yntau fod yn oedolyn yn y 1340au, os nad yn y 1330au. Y mae'n ddigon credadwy, felly, fod Llywelyn, ei fab a'i ddau wŷr i gyd yn oedolion ar yr un pryd ac y byddai modd canu iddynt rywbryd *c.1330 × c.1350*. Os felly, y mae angen dehongli'r gerdd nid fel marwnad ond fel cwyn am ryw broses cyfreithiol a ddygwyd yn erbyn y dynion hyn. O gofio mai deuddeg gŵr a eisteddai mewn rheithgor yn ôl y drefn Seisnig (trefn a oedd yn ennill ei phlwyf yn y bedwaredd ganrif ar ddeg),¹¹ y mae'n

¹⁰ MWM 210.

¹¹ W.H. Waters, *The Edwardian Settlement of North Wales in its Administrative and Legal Aspects (1284-1343)* (Cardiff, 1935), 145, 163; Ivor Bowen, *The Statutes of Wales* (London, 1908), 10, 11,

edrych yn debygol iawn mai dyna sydd wrth wraidd yr englynion anarferol hyn.

I grynhoi: englynion sy'n cwyno am achos llys yw'r rhain. Y rhai a gyhuddwyd oedd Llywelyn Du, Gwilym ap Llywelyn a Gruffudd ac Ieuan ap Gwilym. Y mae'r bardd yn gryf o'u plaid ac yn rhoi awgrym clir fod Ieuan o leiaf yn noddwr i feirdd. Y mae'n bosibl fod Gruffudd ei hun yn barddoni, a barnu wrth y ffaith iddo gael ei gymharu â Thaliesin ac Aneirin. Trigai'r gwŷr hyn yn y Cantref Mawr, a byddai dyddiad yn ystod y blynyddoedd $c.1330 \times c.1350$ yn debygol. Nid oes modd gwybod pa fath o achos llys sydd dan sylw, ond ymddengys fod rheithgor o ddeuddeg wedi dyfarnu yn eu herbyn. Defnyddid rheithgorau mewn achosion troseddol, ond hefyd yn gynyddol mewn achosion lle y dadleuid ynglŷn â pherchnogaeth tir. Awgryma'r geiriau *ditio pedwar* (ll. 38) nad oedd enw pumed gŵr yn wreiddiol yn llinell 17, ond yn hytrach fod yr englyn hwnnw'n crynhoi cwyn rhan gyntaf y gerdd. Y mae llinell olaf y gerdd yn awgrym eglur nad ystyriai'r bardd y dyfarniad yn erbyn ei gyfeillion fel y gair olaf ar y mater. Dichon fod *ditiad* yn gallu sefyll, mewn ieithwedd farddol o leiaf, yn llac am ddedfryd negyddol rheithgor yn ogystal â'r cyhuddiad gwreiddiol yn erbyn y pedwar gŵr.

Yn GLIBH 15 mynegir peth amheuaeth ynglŷn ag awduraeth Gruffudd Gryg o Fôn, ac enwir dau ddyn arall o'r un enw a chanddynt gysylltiadau â sir Aberteifi, lle y copiwyd y gerdd, neu â sir Gaerfyrddin, a allai fod wedi eu cyfansoddi. Wrth gwrs, y mae'n amhosibl profi mai Gruffudd Gryg ap Cynwrig o Fôn yw gwir awdur y gerdd hon, ond, ar y llaw arall, nid oes unrhyw dystiolaeth fod yr un o'r ddau Gruffudd Gryg arall yn barddoni, a'r unig reswm dros eu hawgrymu oedd eu cysylltiad â'r broydd perthnasol ac, yn achos Gruffudd Gryg ab Ieuan Fychan, ei gysylltiad teuluol (digon pell) â theulu Parcrhydderch. Y mae'n amlwg y byddai Gruffudd Gryg ap Cynwrig yn hysbys i gylch Parcrhydderch, nid yn lleiaf oherwydd ei berthynas â Dafydd ap Gwilym. Dylem dderbyn awduraeth bardd hysbys, ie enwog, rhagor rhywrai eraill na wyddys hyd yn oed iddynt farddoni erioed. Ar y llaw arall, ni ellir dadlau'n ddiogel mai llaw Gruffudd Gryg ei hun a welir yn y llawysgrif, er ei bod yn gyfoes â'r bardd ei hun. Ceir cerdd 10 yn Llawysgrif Hendregadredd hefyd, a honno mewn llaw wahanol. Gan y bu raid diwygio'r testun hwnnw mewn manau, nid yw'n debygol o fod yn llaw y bardd ei hun. Am y gerdd hon, y mae cyflwr y copi yn y llawysgrif mor wael fel mai prin y ceir ffin rhwng diwygio a darllen gyda llygad ffydd. Nid yw, gan hynny, yn ddiogel mynegi barn ynglŷn ag agosrwydd y testun ei hun at y gwreiddiol.

Mesur: englynion unodl union (llau. 1–20) ac yna benillion proest (llau. 21–38). Y mae'r brifodl ar *-in* yn yr adran gyntaf ac yn newid ym mhob

pennill yn yr ail. Y mae cymeriad geiriol rhwng llinellau cyntaf yr englynion unodl union, a chymeriad llythrennol yn esgyll pob un. Ymddengys fod cymeriad llythrennol cryf yn ail ran y gerdd, gydag ambell eithriad, ond rhaid cofio nad yw'r darlleniadau bob tro yn hollol ddiogel yno oherwydd cyflwr gwael y llawysgrif. Ni olygwyd y gerdd erioed o'r blaen, ond ceir trawsysgrifiad o'r englynion unodl union yn unig yn MWM 224.

Ni roddwyd ystadegau cynghanedd ar gyfer y gerdd hon gan fod y testun mor fylchog.

- 1 **am** Y mae'r ystyr yn amwys ym mhob enghraifft isod. 'Oherwydd' [yr hyn sydd wedi digwydd i] Ieuan yw'r ystyr yn y bôn, fel sy'n gyffredin mewn marwnadau, cf. GGMD i, 1.35–40, 6.20, 24, 7.10, 52. Dyma un o'r nodweddion yn yr englynion agoriadol sy'n rhoi iddynt naws farwnadol, fel y dywedir yn y nodyn cefndir. Eto, nid marwolaeth yw achos tebygol y gofid yma, ond y cyhuddiad a ddygwyd yn erbyn Ieuan a'i deulu, gw. y nodyn cefndir eto. Gellid hefyd aralleirio *am* yn 'o amgylch': pallodd y chwerthin llawen o amgylch Ieuan a'r gwŷr eraill a restrir yn yr englynion sy'n dilyn. Neu, gellir gwneud un frawddeg hir o'r englynion hyn a derbyn bod pob un o'r ymadroddion sy'n dechrau ag *am* yn ddibynnol ar *ditiad garw* yn ll. 19: lleisiwyd cyhuddiad creulon 'ynglŷn â' phob un ohonynt.

Ieuan Gellir darllen yr enw hwn yn y llsg., gthg. MWM 224.

- 2 **Gorywch claeGaer Ferddin** Y Cantref Mawr yw'r tir wrth lan orllewinol Afon Tywi, i'r gogledd-ddwyrain o dref Caerfyrddin, ac felly y mae'n gweddu'n burion i'r disgrifiad hwn.
- 5 **Gwilym** Gthg. MWM 224 *salym: wilym*, yn sicr, a geir yn y llsg.
- 7 **ymyl fyddin** H.y., y fintai sy'n arfer ymgasglu wrth ei ymyl: ei deulu neu ei osgordd.
- 9 **Lladin** Awgrym fod Llywelyn yn llythrennog, os nad mewn urddau eglwysig.
- 12 **Merddin** Credaf mai *oerdin* yw darlleniad y llsg., a dyna yw barn MWM 224 hefyd, er gwaethaf y demtasiwn i ddarllen yr *o* fel *v*. Ni nodir *oerddin* yn GPC 2625 ac nid oes tystiolaeth fod y gair *din* 'dinas, caer' yn air byw yn y 14g. (GPC 1019; G 358–60). Yn wyneb y cyfeiriadau at Daliesin ac Aneirin yn yr englyn nesaf, byddai cyfeiriad at Fyrddin, y trydydd o feirdd mawr yr Hengerdd, yn rhesymol yma, ac y mae'r gynghanedd sain yn ennill o adfer *f* ar ddechrau'r gair. Sylwer bod y ffurf orgraffyddol *verddin* yn digwydd yn ll. 2 yn y llsg.
- 13 **Cynon** Cynon ap Clydno Eidyn, gw. TYP³ 326–7; GGMD i, 4.162n. Gthg. MWM 24 lle y darllenir *Eionon*.

Taliesin Y bardd enwog.

berw Sef bwrlwm yr awen, gw. GPC 275 d.g. *berw*¹ (c).

- 15 **trywenydd** Ansicr. Yn MWM 224 cynigir *gyweirydd*, a'r *g-* yn betrus. Fe all mai *G* fawr sydd yn y llsgr., ond credaf mai *n* yw'r darlleniad cywir yng nghanol y gair. Bid a fo, nid yw *gyweirydd* yn rhoi cynganedd, ac y mae'r gair *trin* i'w weld yn eglur ar ddiwedd y ll., felly y mae angen *tr-* i'w ateb. Ni restrir *trywenydd* yn GPC 3646, ond y mae'n ffurf gwbl ddichonadwy o'r f. *trywanu* + y terfyniad gweithredydd *-ydd*.
- 16 **Aneirin** Y bardd enwog. Cyfeirir ato hefyd yn 4.43; cf. GSRh 2.7 (Sefnyn) a 6.75 (Rhisierdyn).
- 17 **am [...]** Yn MWM 224 darlleniir *Am* yn betrus a nodir bod llythrennau yn dilyn na ellir eu hadnabod. Ni lwyddwyd i ddarllen y rhain nac *Am*, ond yn sicr disgwyliid *Am* ar ddechrau'r ll., felly fe'i cynhwyswyd yn y testun golygedig. Gall mai *r* yw llythyren olaf y darn aneglur.
- 17–18 **am werin—falchdlos / Yn agos am egin** Sef y bobl o gwmpas y gwehelyth, neu o gwmpas Ieuan, sef aelod ieuaf y teulu?
- 19 **ditiad** Nis nodir yn GPC 1053, ond ceir yno'r f. gyfatebol, gw. ll. 20n.
- 20 **ditio** GPC 1053 d.g. *ditiaf* 'cyhuddo'. Benthycair o'r S.C., cf. OED² vii, 862–3 d.g. *indict*¹ '*bring a charge against ... accuse ... esp. by legal process*'.
- undawtai** Tra ansicr. Y mae *undawt* yn eglur yn y llsgr., ond ni ellir darllen y llythyren neu'r ddwy lythyren sy'n dilyn. Yn MWM 224 nodir *undawtei* heb arwydd fod dim yn anodd ei ddarllen, felly dilynir hynny yma. Nid yw ystyr *undawtai* yn eglur ychwaith, ond cynigir ei fod yn gyfansoddair o *undawd* (*undod*) + *tai*. Digon cyffredin yw sôn am *dai gwin*, cf. GGMD i, 3.88; GDC 3.49 (Dafydd y Coed); GSDT 15.30.
- 21 Dyma l. sy'n peri rhwystredigaeth fawr, oherwydd y tebyg yw mai yma yr esbonnid natur y *deuddeg* yn wreiddiol. Ni ellir darllen unrhyw beth yn sicr o flaen *yn Rat*, ond ni fyddid yn gwrthod *attunt*.
- 22 **ditmant** Gw. GPC 1053 (enghraifft gynharaf o 1722) ac *ib.* 3508 d.g. *titmant* (enghraifft gynharaf o 1547). Gan fod *ditio* yn sicr yn ll. 20, y tebyg yw mai *dditmant* a geir yma.
- 23 Y mae'n debygol mai rhyw fath o felltith ar y *deuddeg* a welir yma. Dymunir iddynt ddioddef *hun hud*, ac efallai ryw gosb arall sydd ar goll yn y darn na ellir ei ddarllen. Eto, gellid hefyd *arnun* 'ynghyd, ar yr un pryd' (GPC 208), ac os y gair hwnnw sydd yma, rhaid cydnabod bod ergyd y ll. yn ei chyflwr presennol yn benagored.
- 24 **pedwar[]rwyd** Y mae'n bosibl fod y gair *pedwar* yn parhau, efallai gydag *w*, ond ni ellir darllen dim yn sicr yma. Ai cyfansoddair o *gwýd* sydd ar ddiwedd y ll.? Y mae'n anodd meddwl am air arall a roddai broest boddhaol yn *-yd*.

- 28 **dwyl** **lwer** Ansicr, ac ni ellir cael darlleniad ystyrion o'r llythrennau hyn.
- ffloc** GPC 1296 d.g. *ffloc*¹ 'praidd, gyr, mintai, haid': benthycair o'r S. y ceir enghraifft ohono yn GRhGE 12.55 *Pob rhyw ffloc yn ceinioca*. Gwedda'r ystyr yn dda yma, er nad yw darlleniad y llsg. yn eglur iawn.
- 29 **diddyudd** Anodd ei ddarllen yn y llsg. Am yr ystyr, gw. GPC 1134 d.g. *dyhudd*.
- 30 **fuant** *vvant* sydd yn y llsg., er ei fod yn torri ar draws y cymeriad.
- o grud** Sef o'u plentyndod. Rhaid cyfaddef fod y darlleniad yn ansicr iawn. Y llythyren gyntaf yw *o* neu *y*. Yna gellir darllen *gr-* yn sicr ar ddechrau'r gair nesaf, a diogel hefyd yw *-t* ar ddiwedd y gair. Gallai'r drydedd lythyren fod yn *a*, *u* neu *y*. Byddai *gryd*, ffurf dreigledig ar *cryd* 'crynfa', yn bosibl. Neu, pe gellid darllen *e*, ceid *gred*, gair hawdd iawn ei dderbyn mewn cyd-destun cyfreithiol; ond nid ymddengys mai *e* sydd yno.
- 31 **gwag** Llsg. *gwa.*; mentrir dyfalu'r llythyren olaf, ond ni fyddai *gwar* yn amhosibl.
- d|** **l** **ddwg** Ai *duwddwg* (sef *du* + *gwddwg*, gw. GPC 1607 d.g. *gwddf*, *gwddw*, *gwddwg*)? Y mae angen dwy sillaf heb gytsain yn y bwlch.
- 35 **diolud** Y mae'r darlleniad yn ddiogel, ond yn anodd ei ddehongli. O'r braidd y gelwid Duw yn 'ddigyoeth'.
- 37 **o'u** Yn y llsg. ceir yma un neu ddwy o lythrennau na ellir eu darllen. Y mae'r gynghanedd yn mynnu llafariad neu ddeusain, a hefyd ffurf na fyddai'n peri treigladd i *ced*. *O'u*, gellir tybied, sydd i'w adfer yma. Nid yw'r ystyr yn eglur. Efallai fod y bardd yn bygwth y deuddeg: bydd hyn yn gostus iddynt. Os felly, yn eironig y defnyddir *ced*.
- 38 **ditio pedwar** Sef Ieuan, Gwilym, Llywelyn a Gruffudd.
- cydio cad** Gw. GPC 664 d.g. *cydiaf* am yr ymadrodd hwn.

Atodiad i

Perthyn y cywydd hwn i'r corff o ganu defosiynol i Grist y mae lle i gredu i'r rhan fwyaf o feirdd roi tro ar gyfrannu ato yn ystod yr Oesoedd Canol. Nid yw'r canu hwn yn arbennig o arloesol nac ysbrydoledig, ond pery'n gyson bresennol gydol y cyfnod fel islais crefyddol i brif weithgareddau'r gyfundrefn farddol.¹ Dengys cipolwg cyflym ar y cywyddau i Grist, i Dduw ac i Fair o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif gyn lleied o ganu newydd a geid yn y maes hwn o oes i oes, a pha mor unffurf oedd y

¹ Ar y newid posibl o ganu personol i ganu mwy amheronol yn y canu crefyddol yn ystod y 14g. a'r 15g., gw. LIU 196.

delweddu a'r eirfa a ddefnyddiai'r beirdd yn eu gwaith.² Yr oeddynt oll yn gerddi a fwriedid i ennyn *compunctio* ymhlith y gwrandawyr (fel y mae poblogrwydd y cywydd hwn yn y llawysgrifau yn tystio), ac yn fodd i uniaethu'r unigolyn â dioddefaint Crist ar y groes ac â'r waredigaeth a ddaeth yn sgil ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Un o brif ddibenion y cywydd hwn yw darlunio, yn fras, fywyd Crist, o'i fedyddio a'i ieuentid (llau. 11–16) hyd ei farwolaeth a'i atgyfodiad yn ystod wythnos y Pasg (llau. 17–52). Manylir ar bwysigrwydd y Drindod ar y dechrau (llau. 1–10), a chyflwynir gweddi fach i ddymuno gwaredigaeth rhag poenau'r purdan i gloi'r gerdd (llau. 53–60). Ceir elfen weledol gref i'r canu defosiynol hwn, a pherthyn yn agos i gerddi'r beirdd i grogau sanctaidd.³ Serch hynny, ni raid tybio bod y gerdd hon yn seiliedig ar un ddelwedd benodol o Grist, boed yn grog, yn ffenestr liw neu'n llun arall, gan fod delweddu o'r math hwn mor gyffredin mewn eglwysi ledled y wlad yn ystod yr Oesoedd Canol.

Y llawysgrifau

Y mae testunau'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn ymrannu yn ddau brif ddosbarth o ran trefn eu llinellau (gyda rhai amrywiadau), sef CDGP QUVcg–knpx a BEFH–ORSTWY–bdeflmoqrt–w, ac y mae'r ddau ddosbarth yn cynrychioli'n fras ddau fersiwn gwahanol o'r gerdd grefyddol hon y gellir eu galw yma yn fersiynau *f* a *β*. Y tebyg yw fod y ddau fersiwn yn seiliedig ar un neu ddwy o ffynonellau gwreiddiol gwahanol, y naill yn priodoli'r cywydd i Ddafydd ap Gwilym a'r llall i Ruffudd Gryg.

Y mae fersiwn llawysgrif Peniarth 66 o'r cywydd (llsgr. s, 16g./17g.), o ran trefn ei linellau ac o ran rhai darlleniadau, yn gwbl unigryw. Er bod yn *f* bum cwpled nas ceir yn *β*, ac yn *β* bedwar cwpled nas ceir yn *f*, y mae fersiwn *s* yn cynnwys yr holl gwpledi hyn, ynghyd â phum cwpled nas ceir mewn unrhyw lawysgrif arall. Llawysgrif A yw'r unig lawysgrif arall sy'n cynnwys rhai cwpledi gwahanol i'r ddau brif fersiwn, ond nid yw ei thestun mor gyflawn â fersiwn *s* o'r gerdd. Er y gall fod llawysgrif *s* yn fersiwn newydd o'r gerdd a ailgyfansoddwyd gan ddatgeiniad neu gopiyydd gorawyddus, gellid disgwyl y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cerddi eraill a ysgrifennwyd gan yr un llaw yn y llawysgrif; ond nid felly y mae. Yn ogystal â hyn, y mae'r ffaith mai yn llawysgrif *s* yn unig y cyfunir y ddau brif fersiwn (nad ydynt, sylwer, yn cynrychioli dwy gerdd wahanol,

² Am gyfeiriadau gwerthfawr yn y maes hwn, ynghyd â sylwadau am y canu crefyddol yng Nghymru mewn cyd-destun Ewropeaidd, gw. GIBH 8–17.

³ E.e. englynion Dafydd ap Gwilym i'r grog yng Nghaerfyrddin (DG.net cerdd 1; GLIBH cerdd 4); awdlau Gruffudd ap Maredudd a Llawdden i grog Caer (GGMD ii, cerdd 1; hefyd Barry J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth, 2005); GLI cerdd 1); cywydd Guto'r Glyn i'r grog yng Nghaerlleon (GGL² 283–4 (cerdd CX)); cywyddau Ieuan Brydydd Hir a Siôn Ceri i grog Aberhonddu (GIBH cerdd 12 (hefyd M. P. Bryant-Quinn, 'Enaid y Gwir Oleuni': y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, ii (1996), 51–94); GSC cerdd 54).

eithr dau fersiwn gwahanol o'r un gerdd), ynghyd â'r ffaith fod s yn un o'r llawysgrifau cynharaf, yn rhoi awdurdod i'r fersiwn unigryw a geir yno. Dadleuir yma fod fersiwn s o'r gerdd yn cynrychioli traddodiad dilys sydd gyfwerth ag *f* a *β*, os nad gwell na hwy hefyd yn sgil y ffaith ei fod yn cynnwys fersiwn cyflawn o'r cywydd. Seiliwyd y golygiad ar s o ran trefn y llinellau a derbyniwyd nifer o ddarlleniadau unigryw ohono.⁴

Fodd bynnag, lle bo s yn ddiffygiol dewiswyd rhai darlleniadau o lawysgrifau eraill. Er bod darlleniadau fersiwn *β* yn rhagori, gan amlaf, ar ddarlleniadau fersiwn *f* o ran cywirdeb, amheuir yn gryf fod fersiwn *β* yn adlewyrchu'r hyn a ddisgwyliid mewn cywydd fel ag yr oedd yn y bymthegfed ganrif a'r ganrif ddilynol pryd y cofnodwyd y fersiynau cynharaf o'r gerdd hon. O ganlyniad, er bod darlleniadau *f* yn anos ar y cyfan, rhoddwyd blaenoriaeth i'r fersiwn hwnnw o'r gerdd yn unol ag egwyddor *lectio difficilior*.⁵

Awduraeth a dyddiad y gerdd

Derbyniwyd y gerdd hon yn gyffredinol yn waith Gruffudd Gryg ar sail ei chynnwys wrth ei enw ef yn DGG2 232. Y mae cyfanswm o un llawysgrif ar ddeg ar hugain yn priodoli'r gerdd i Ruffudd, ond gellir lleihau'r nifer hwnnw i un ar ddeg wedi hepgor copiâu.⁶ Ceir enw Dafydd ap Gwilym wrth y gerdd mewn pedair llawysgrif ar ddeg, ond cyfanswm o wyth wedi hepgor copiâu.⁷ Ar sail y niferoedd hyn ni dderbyniwyd y gerdd fel gwaith Dafydd.⁸ Y mae un llawysgrif yn ei phriodoli i Siôn Cent, tair llawysgrif yn ansicr ynghylch awduraeth a dwy arall yn ddiennw.⁹ Er bod llawysgrif bwysig s yn un o'r tair llawysgrif ddiennw, y mae'r ffaith fod y llawysgrif honno'n cynnwys cywyddau eraill a briodolir yno i Ddafydd ap Gwilym a Siôn Cent yn awgrymu'n gryf nad oedd y copiyydd o'r farn fod y cywydd hwn yn eiddo iddynt hwy. Yn *f* y ceir y fersiwn agosaf at yr hyn a geir yn s o ran darlleniadau, ond, fel y gwelir uchod, priodolir y cywydd i Ddafydd ap

⁴ Gw. llau. 8n, 34n, 35–6n, 38n, 54n. Ceir *Jesv dy drugaredd* wrth frig y cywydd yn llsg. s, ond gan fod y geiriau hynny i'w cael wrth gywyddau eraill yn y llsg. nad oes a wnelo crefydd ddim â hwy ni ddyliid ei ystyried yn bennawd ar y cywydd hwn. Er mai hwn yw'r unig gywydd y ceir *Amen* wrth ei droed yn llsg. s, dylid ei ystyried yn ddiweddglo i ran neu adran o'r llsg. yn hytrach nag yn ddiweddglo i'r cywydd yn benodol. Y tebyg yw fod y copiyydd diennw yn ŵr crefyddol o'r de neu'r canolbarth, gw. y ffurfiau tafodieithol yn ei ddarlleniadau ar gyfer llau. 1 (*gore, pier*), 30 (*diodde*), 34 (*[g]lore*), 49 (*mine*).

⁵ Enghreifftir hyn yn ymhellach yn ll. 1n.

⁶ Llsgrau. AEFJLMWadlt.

⁷ Llsgrau. DGPVhij.

⁸ Gw. DG.net 'Yr Apocryffa' (dilynir dadleuon Helen Fulton, gw. DGA 246).

⁹ Llsg. n (Siôn Cent); llsgrau. CQr (ansicr); llsgrau. sw (diennw). Nododd Helen Fulton fod llsg. s yn priodoli'r cywydd i Ddafydd ap Gwilym ('Peniarth 66 ... tentatively attributes it to Dafydd ap Gwilym', gw. DGA 246), ond ni cheir priodoliad mewn gwirionedd, camgymeriad a ddeilliodd, o bosibl, o'r ffaith fod y cywydd blaenorol wedi ei briodoli i Ddafydd. Ar y cywydd hwnnw, *Y llwyn bedw dianedwydd*, a wrthodwyd y ganon Dafydd, gw. DG.net 'Yr Apocryffa'; DGA 75 (cerdd 27).

Gwilym bron yn ddieithriad yn y fersiwn hwnnw. Gwelir, felly, nad yw'r ffaith fod y mwyafrif o'r llawysgrifau (a gynrychiolir gan fersiwn ß) yn priodoli'r gerdd i Ruffudd yn sail gadarn i'w rhoi iddo ef gan y diystyrwyd darlleniadau'r llawysgrifau hynny, ar y cyfan, wrth lunio'r testun.

Y tebyg yw y dylid diystyru'r priodoliadau i Siôn Cent yn sgil y ffaith fod cynifer o gerddi crefyddol wedi eu cambriodoli iddo ef yn y llawysgrifau.¹⁰ Ar y llaw arall, y mae'r cywydd yn ymddangos yn debyg i waith bardd a ganai yn y bymthegfed ganrif o safbwynt rhai nodweddion cynganeddol. Y mae canran y gynghanedd groes yn uchel (42 y cant), ac, yn fwy arwyddocaol, ceir o leiaf un gynghanedd groes o gyswllt.¹¹ Nid oes lle i gredu bod yng ngwaith Dafydd ap Gwilym yr un gynghanedd groes o gyswllt ddilys, a defnyddir y ffaith honno gan Thomas Parry a Dafydd Johnston fel maen prawf ar gyfer gwrthod nifer o gywyddau eraill a briodolwyd iddo yn y llawysgrifau.¹² Yn ôl Dafydd Johnston ceir yr enghreifftiau cynharaf o'r gynghanedd hon yng ngwaith Gruffudd Llwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac y mae'r ffaith fod un llinell o gynghanedd groes o gyswllt i'w chael mewn cywydd i Ieuan ab Einion, a briodolwyd i Iolo Goch yn y llawysgrifau, yn sail i amau awduraeth y gerdd honno.¹³ Fodd bynnag, hyd yn oed pe na dderbynnid y gerdd honno yn waith Iolo, y mae'r ffaith ei bod yn debygol iddi gael ei chanu ym mlynnyddoedd cynnar y bymthegfed ganrif yn rhyw gymaint o ateg o blaid y ddadl fod beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyfarwydd â'r gynghanedd groes o gyswllt.¹⁴ Ar y llaw arall, y mae lle i gredu bod yng ngwaith Gruffudd Gryg llinell o gynghanedd groes o gyswllt y gellir ei dyddio mor gynnar â phumdegau'r ganrif.¹⁵ Fe'i ceir, yn ddiddorol ddigon, mewn cywydd i dad Ieuan ab Einion, sef Einion ap Gruffudd o Chwilog, a cheir tebygrwydd anarferol rhwng cywydd Gruffudd i'r tad a chywydd Iolo i'r mab.¹⁶ Yn wir, y mae canran y gynghanedd groes (60 y cant) yn y cywydd i Einion ap Gruffudd hyd yn oed yn uwch na'r ganran yn y cywydd hwn. Un nodwedd bwysig arall o'r cywydd crefyddol hwn yw'r ffaith ei fod yn cynnwys dwy llinell ymddangosiadol ddilys nad oes cynghanedd sicr ynddynt, nodwedd a berthyn i waith y Cywyddwyr cynnar.¹⁷ O ganlyniad, ymddengys y gellid bod wedi canu'r cywydd crefyddol hwn ar unrhyw adeg yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, pan oedd Gruffudd Gryg yn ei flodau.

Fodd bynnag, erys yr arddull dafodieithol a llafar yn faen tramgwydd i

¹⁰ Gw. ASCent 11.

¹¹ Gw. llau. 10n a 55n.

¹² Gw. DG.net 'Awduraeth'.

¹³ Gw. *ib.* Am y cywydd a'r llinell berthnasol, gw. GIG 13 (III.13).

¹⁴ Dyddiodd Dafydd Johnston, *ib.* 191, gywydd Iolo rhwng 1385 ac 1390, ond gw. bellach ddadleuon Barry J. Lewis, GMBen 239–41.

¹⁵ Gw. uchod 1.65n a nodyn cefndir y gerdd. Gall fod amheuaeth, fodd bynnag, ynghylch awduraeth y gerdd honno.

¹⁶ Gw. *ib.* troednodyn 11.

¹⁷ Gw. llau. 23n a 59n.

unrhyw ymgais i briodoli'r cywydd hwn i Ruffudd. Y mae'r dafodiaith anffurfiol sy'n brigo i'r wyneb yn llinellau 21, 30, 34, 44 a 48, ynghyd â'r ffurf dafodieithol *poene* (ll. 59), yn nodweddion na ddisgwyliid eu gweld yng ngwaith bardd proffesiynol o Fôn. Gwelir, o ganlyniad, nad oes gan yr un o'r tri bardd a enwir yn y llawysgrifau hawl bendant ar y cywydd. Er na ellir ei dderbyn yn waith Gruffudd Gryg, fe'i golygir yma gan nas derbyniwyd i ganon Dafydd ap Gwilym.

Ceir golygiadau o wahanol fersiynau o'r cywydd yn BDG 485–6 (cerdd CCXLII), BU 2–3 (cerdd 2), DGA 148–51 (cerdd 51), DGG 141–2 (cerdd LXXVII), a cheir cyfieithiad Saesneg o destun BU yn MWP 218–19.

Cynghanedd: croes 25 ll. (42 y cant);¹⁸ traws 11 ll. (18 y cant); sain 14 ll. (23 y cant); llusg 8 ll. (14 y cant); ansicr 2 ll. (3 y cant).

- 1 **Pwy yw'r gorau piau'r goron** Er mai ar sail trefn eu llau, yn bennaf y gwahaniaethir rhwng fersiynau *f* a *β* o'r cywydd hwn, y maent yn wahanol hefyd o ran eu darlenniadau ar gyfer y ll. hon, ynghyd â'r cwpled agoriadol yn ei gyfanrwydd. Ceir *Pwy yw'r gorau piau'r goron* yn bennaf gan *f*, a *Pwy yw'r gŵr piau'r goron* bron yn ddieithriad gan *β*. Er y gellid dadlau mai fersiwn *β* o'r ll. hon sydd fwyaf persain i'r glust, y tebyg yw mai chwaeth lenyddol copiŵyr a beirdd diweddarach sy'n gyfrifol am hyn. Fel yn achos yr holl lsgrau. eraill, cofnodwyd y testun llawysgrifol cynharaf yn fersiwn *β* oddeutu diwedd yr 16g. a dechrau'r 17g. (llsgr. t, Pen 72, 1581–1613). Y mae'r ffaith fod *gŵr* yn air mor gyffredin yn llau, agoriadol cywyddau gan rai beirdd erbyn y 15g. yn sail i gredu mai *gorau* oedd y darlenniad gwreiddiol, gw. GLGC 683; GHC 80; GDL1 227; cf. llau. 11 a 34 *gorau gŵr*; *Dduw orau'i gred*. Ceir fersiwn *β* o'r ll. agoriadol hon yng nghorff fersiwn o gywydd brud gan Ieuan Brydydd Hir, sy'n awgrymu bod y ll. yn cylchredeg yng ngwaith beirdd eraill yn y 15g. a'i bod yr un mor ddefnyddiol i'r brudwyr ag yr oedd i'r beirdd a ganai gerddi crefyddol, gw. GIBH 40; cf. ll. 2n a GC 7.165. Fel yr adlewyrchir yn narlenniad llsgrau. ADGr (*Pwyr*), y tebyg yw y cywesgid *Pwy yw'r* yn unsill ar lafar yn fersiwn *f*, gw. J. Morris-Jones: CD 202–4; cf. ll. 4n. Gall fod a wnelo ymlyniad fersiwn *β* wrth *gŵr* ryw faint â'r ffaith fod y gair hwnnw'n ymddangos yn ddieithriad yn ail l. y cwpled yn fersiwn *f*. Yn ogystal â hyn, fersiwn *f* sydd debycaf i destun *s* o'r cywydd, sy'n cynrychioli traddodiad annibynnol ac unigryw yn ôl pob tebyg, gw. y nodyn cefndir uchod a ll. 8n.

pw yw ... / y Gŵr ... ? Ceir yr un patrwm o ran gofyn ac ateb yn llau, agoriadol cywydd Gwerful Mechain i angau a barn, gw. GGM 2.1–4 *Pwy'n gadarn ddyddfarn a ddaw / A phob dyn a phawb danaw? / Y Gŵr a wnaeth gaerau ne' / O fewn dydd a fu'n diodde'.*

¹⁸ Ceir dwy gynghanedd groes o gyswllt bosibl, gw. llau. 10n a 55n.

- 2 **Y Gŵr a'i friw ger Ei fron** Ceir darlleniad gwahanol yn nifer o lsgrau. fersiwn ß: *Duw wyn a'i frath dan Ei fron*. Cf. Ieuan Brydydd Hir yn ei gywydd i'r grog yn Aberhonddu, GIBH 12.14 *Duw nef a'i frath dan Ei fron*.
- 4 **bara a'r gwin** Cywesgir yn deirsill, gw. J. Morris-Jones: CD 201–4, cf. ll 1n.
- 7 **aberth** Sef sacrament yr offeren neu'r cymun lle'r offrymid y *bara a'r gwin* (ll. 4).
- 8 **uniawnbryd nerth** Llsgr. s yn unig sy'n cynnwys y darlleniad hwn, y cyntaf o nifer o ddarlleniadau unigryw a geir ynddi nas ceir mewn unrhyw lsg. arall. Er bod rhai o ddarlleniadau s yn ymddangos yn amheus (e.e. ll. 42 *a nef kadarn fv r kodiad*; ll. 49 *a mine fydd yn vnod*), y mae lle i gredu bod nifer ohonynt yn ddilys, gw. y nodyn cefndir uchod, troednodyn 1.
- 10 **A thad a nerth wyd i ni** Ceir y gynghanedd groes o gyswllt hon yn ddigyfnewid ym mhob llsgr. Ar arwyddocâd y gynghanedd hon o safbwynt awduraeth a dyddiad, gw. y nodyn cefndir uchod; cf. ll. 55n.
- 12 **Ei fedyddiwr** Ioan Fedyddiwr.
- 13 **morwyn difai** Un ai enghraifft brin o gadw ffurf gysefin a. yn union ar ôl yr orffwysfa er ei fod yn dilyn eb., gw. Treigladau 55 (troednodyn), neu enghraifft o galediad *-n dd-* > *-n d-*, gw. *ib.* 26–7.
- 16 **pumoes byd** Gw. DGA 246; GIBH 8.9n; GDG³ 434.3n10: 'Rhennid oed y byd cyn dyfod Crist yn bum cyfnod. Dyma un rhaniad: (1) o'r Creu hyd y Dilyw; (2) o'r Dilyw hyd Abraham; (3) o Abraham hyd Ddafydd; (4) o Ddafydd hyd y Gaethglud; (5) o'r Gaethglud hyd ddyfod Crist.' Credid bod Crist wedi achub pobl gyfiawn yr oesoedd hyn o uffern wedi iddo farw ar y groes, cf. llau. 43–8n.
- 17 **Suddas ydoedd ddiraswr** Cf. llsgr. *s a svddas oedd ddiraswr*; fersiwn *f Suddas ydoedd anraswr*. Dewiswyd darlleniad *f* ar gyfer hanner cyntaf y ll. gan ei bod yn debygol fod dechrau ll. 19 wedi dylanwadu ar hanner cyntaf ll. 17 yn s. Cf. HCLI 79 (XXVI.49) *Pwy ond Suddas anrasawl*; GGM 4.27 *Mam Suddas, oedd ddiraswr*.
- 21 **Iddewon** Cf. GIBH 6.23n, a'r cyfeiriadau a geir yno.
- 22 **Amherchi Ei bum harcholl** Cf. Gruffudd Llwyd yn ei gywydd i Dduw, GGLl 18.49–50 *Mynych y gwnair, eurgrair oll, / Amherchi Dy bum harcholl*.
- pum harcholl** Gyrrwyd hoelion drwy ddwylo a thraed yr Iesu, ac fe'i trywanwyd yn ei ochr â gwaywffon. Gw. DGA 247.
- 23 **Dwylo a thraed cynghydlun** Ll. ddigyghanedd yn ôl rheolau cerdd dafod, a geir yn llsgr. s yn unig. Y mae safleoedd y cytseiniaid yn y brif-

odl yn anghywir mewn perthynas â'r acen yn yr orffwysfa, ond gall mai enghraifft gynnar a dilys ydyw o'r hyn a alwyd yn ddiweddarach yn fai crych a llyfn, gw. J. Morris-Jones: CD 146–7.

cynghydlun Llsgr. s *kynhydlun*. Ceir *cyhydlun* yng ngolygiad Helen Fulton, gw. DGA 149. Ni cheir *cyhydlun* na *cynghydlun* yn GPC, ond bernir mai cyfuniad ydyw o *cynghyd* (gw. GPC 742 d.g. *cyngyd*¹) + *llun*: '[dwylo a thraed] o'r un wedd gyd-derfynol, gyfunol'.

26 **O gwmpas, y drain ganpig** Dilynwyd darlenniad unigryw llsgr. s, o *gwmpas y drain kannpig*, ond diwygiwyd *kannpig* er mwyn cwblhau'r gynghanedd drwy ystyried *drain* yn wrth. [*c*]anpig. Ar ateb *mp* ag *np*, gw. J. Morris-Jones: CD 224–5, lle y dyfynnir fersiwn ß o'r ll. hon.

28 **A briwo ais Mab Mair wen** Ceir *m* berfeddgoll yn y ll. hon, gw. R.M. Jones, *Meddwl y Gynghanedd* (Llandybie, 2005), 206.

30 **Dioddef Ei ladd—on'd oedd flwng?** Diwygir darlenniad llsgr. s *a diodde i ladd*, er mwyn y gyfatebiaeth gytseinol. Ystyr *dioddef* yma yw 'caniatáu', ond y mae'r bardd yn chwarae'n greffus hefyd ag ystyr fwy cyfarwydd y gair er mwyn pwysleisio mai arteithwyr yr Iesu, yn hytrach na'r Iesu ei hun, sy'n dioddef fwyaf yn y pen draw, gw. GPC 1023 d.g. *dioddefaf* (a), (b).

blwng Llsgr. s *hwng*. Derbynnir diwygiad Helen Fulton, DGA 149. Y tebyg yw fod *-dd* ar ddiwedd *oedd* wedi llyncu'r *f* led-lafarog ar ddechrau *flwng*, gw. J. Morris-Jones: CD 199–200.

34 **Dduw orau'i gred, oddi ar y groes** Prin yw'r llsgrau. sy'n cynnig ll. foddhaol o ran y gynghanedd, ac felly derbyniwyd y darlenniad unigryw a geir yn llsgr. s. Er bod fersiwn s o'r ll. hon yn ymddangos yn rhy hir o ddwy sillaf, y tebyg yw y cywesgid *oddi ar* yn ddeusill, gan dalfyrru ymhellach o bosibl i greu'r sain '*ddi ar neu odd ar* ar lafar.

35–6 Llsgr. s yn unig sy'n cynnwys sangiad yn y cwpled hwn, ac y mae'n cyfleu'r ystyr yn well na'r hyn a geir yn bennaf yn *f*: *Ac am Grist y bu dristedd, / A roed heb oed yn y bedd*. Serch hynny, dewiswyd darlenniad *f* ar gyfer y sangiad ei hun gan fod fersiwn s yn ymddangos yn ddiffygiol: *yno i bydd tristedd*.

37 **Ac eilwaith pedwar gelyn** Cyfeiriad at nifer tybiedig y rhai a roed i amddiffyn bedd yr Iesu rhag i'w gefnogwyr ddwyn ei gorff, neu, fel yr awgrymodd Helen Fulton, ffordd gynnil o awgrymu bod pedair cornel y bedd yn cael eu hamddiffyn, gw. DGA 247. Y tebyg yw fod *eilwaith* yn golygu 'drachefn', '*once more*', yma mewn perthynas â'r anrheithio a fu eisoes ar gorff yr Iesu, yn hytrach nag 'am yr ail dro', gw. GPC 1193.

38 **A gaed i wyllo Duw gwyn** Ceir cynghanedd sain yn nifer o llsgrau. fersiynau *f* a ß, *Oedd yno'n gwyllo Duw gwyn*, ond y mae *f* yn cynnwys rhai darlenniadau sy'n awgrymu mai cynghanedd draws a geid yn y ll.

hon yn wreiddiol: DGVn *a fu yn*, *h o gef yn*, *j a gof yn*, *i^l ai gwaith oedd* (cyn ei gywiro). Yn ogystal â hyn, ymddengys fel pe bai *A gaed* yn dilyn yn naturiol o *A roed* yn ll. 36, ac er nad yw'r ffurf *gwyllo* yn amhosibl yn y 14g., mwy cyffredin yw *gwyliaw*. O ganlyniad, dewiswyd darlleniad unigryw llsgr. s.

- 43–8 Hanes apocryffaidd am yr Iesu yn anrheithio uffern a geir yn llsgr. s yn unig, gw. GIBH 6.71–4n; DGA 247.
- 47 **gwlad dreftadol** Llsgr. s *wlad tredadol*, gyda ffurf gysefin yr a. yma'n adlewyrchu'r modd y caledai dwy *d* i greu sain *t* ar lafar, gw. J. Morris-Jones: CD 207–8. Disgwylid i hyn amharu ar y gynghanedd lusg, ond y mae lle i gredu nad oedd caledu'n digwydd mewn cynghanedd o'r math hwn, cf. Guto'r Glyn yn ei gywyddau marwnad i Lywelyn ab y Moel o'r Pantri ac i Rys abad Ystrad-fflur, GGI² 15 (V.29) *Nid byw cariad taladwy*, *ib.* 30 (XI.39) *Felly frig Ceredigiawn*. Ceid eithriadau i'r arfer gyffredin o galedu dwy gytsain feddal yn achos cynganeddion croes, traws a sain, a gall mai eithriad o'r un natur a geir yma hefyd, gw. J. Morris-Jones: CD 217–18; cf. 1.1n, 2n, 17n.
- 52 **Un Duw** Darlleniad llsgr. s. Cf. y pwyslais ar *un* Duw mewn cerddi eraill i Grist, gw. GGM 1.69.
- 54 **A'r Iesu nef, ras i ni** Ceir amrywiadau ar *Lle prynodd Ef nef i ni* yn bennaf gan fersiynau *f* a *β*, ac yn llsgr. s yn unig y ceir y darlleniad hwn. Gall fod yn arwyddocaol fod yr union gwpled a geir yn llau. 53–4 yn fersiynau *f* a *β* yn ymddangos mewn cywydd arall, 'Yn erbyn caru'r byd', a briodolwyd i Syr Dafydd Trefor ac i Faredudd ap Rhys, gw. GSDT 15.59–60 a GMRh 20.59–60 *Archwn i'r uchel Geli, / Lle prynodd Ef nef i ni*.
- 55 **Er Ei ddolur o'i ddwylaw** Cynghanedd groes o gyswllt, o bosibl, ond gall mai cytsain wreiddgoll yw *r* yma, gw. R.M. Jones, *op.cit.* 204–6; cf. ll. 10n.
- 56 **gwryd** Ar ei amwysedd mewn cyd-destun crefyddol, gw. GIBH 12.1n.
- 59 **Dwyn rhag y dicllon boene** Derbyniwyd yn fras ddarlleniad unigryw llsgr. s (*ddwyn Rag ddiellon boene*), a gefnogir, i raddau helaeth, gan fersiwn *f*. Dilysir y ffurf dafodieithol *poene* gan y brifodl, ac er y ceir nifer o nodweddion llafar neu anffurfiol yn y cywydd hwn dyma'r unig ffurf na ddisgwylid ei chlywed yng ngeirfa bardd gogleddol, cf. llau. 21, 30, 34, 44 a 48. Ni cheir cynghanedd foddhaol yn y ll. hon yn llsgr. s nac yn fersiwn *f*, ond amheuir yn gryf fod y ll. gynganeddol gywir a geir yn fersiwn *β* yn ddiwygiad diweddarach: *Duw'n edrych a'n dwyn adref*. Gall fod yma enghraifft gynnar o'r cynghanedd lusg wydro (*dicllon boene* neu *ddwyn ... boene*), ond y mae'n ddigon posibl mai ll. ddigynghanedd ydoedd o'r cychwyn. Am lau. unigol digynghanedd yng ngeirfa Dafydd ap Gwilym, gw. DG.net 4.15n, 15.3n, 91.21n.

Atodiad ii

Ceir yr englyn hwn mewn un llawysgrif yn unig, sef LIGC 1578B, 400. Yno y mae'n rhagflaenu englyn a briodolir i Ddafydd ap Gwilym sy'n cadarnhau ymlyniad y bardd hwnnw wrth Forfudd. Ceir yr ail englyn mewn nifer o lawysgrifau, ac yn y golygiad newydd o waith Dafydd ap Gwilym fe'i cyfrifir ymhlith y cerddi ansicr eu hawduraeth.¹ Fel y nodir yno, y tebyg yw mai ffugiad yw'r englyn cyntaf i esbonio'r englyn adnabyddus (boed hwnnw'n waith dilys Dafydd neu beidio), ond ni ellir profi hyn.

2 **Bwa** Y Bwa Bach, gŵr Morfudd, gw. GDG³ xxviii–xxxiii; DG.net 47.16n, 110.40n.

3 **oed dydd** Nodir y cyfuniad hwn yn GPC 2621 d.g. *oed* gyda'r ystyr '*appointed day, appointed time*'.

¹ DG.net cerdd 168.

Mynegai i'r nodiadau

- aberth** At.1.7n
addfed 9.20n
aelaw 10.2n
aelgeth 9.29n
aig 7.48n
ais 7.42n
am 11.1n
amau 7.25n
ancr 7.64n
anfaith 2.43n
anwared 10.8n
ar fryd gw. **bryd**
ar liw 9.36n
archlen 7.64n
archoll At.1.22n; **erchyll** 10.14n
arf 10.2n
arial 3.19n
arian 1.11–12n
arnoddwaith 3.13n
arwydd 6.61n
aur 2.20n, 3.9n; gw. hefyd **tid aur**
awyr 6.25–6n, 43n
bach 9.40n
balched 10.8n
bardd penceirddradd 4.32n
bedyddiwr At.1.12n
bedd 5.16n, 18n
bel 8.19n
berw 11.13n
blwng At.1.30n
bod: yw 8.16n; **oedd** 10.33n;
 fuant 11.30n
bragod 8.34n
brantar 3.34n
brau 6.40n
brawd: brodiau 10.5n
brig yd 8.34n
bron 3.59n
brwydrdro 2.27n
bryd 3.33n; **ar fryd** 6.4n
buarth 2.4n; **buarth baban** 6.49n;
byd 9.8n; gw. hefyd **pumoes byd**
bydaf 5.17n
byddin gw. **ymyl fyddin**
cad gw. **cydio cad**
cadair y gerdd 4.36n
cadw 3.57n
cafad gw. **maen cafad**
cainc: ceiniau 5.23n
calch 9.14n
callestr 6.14n
cam 5.27n
camlw: camlyau 10.5n
cân 3.23n
carn 6.48n
carw: ceirw 3.48n
castell 5.11n
cawdd 4.14n
cerdd 3.6n, 12n; gw. hefyd **cadair y gerdd**
ceusarn 8.11n
claim 3.24n
clau 1.15n
clod 6.11n
clwyd forgrainc 7.63n
cochi 6.7n
cof ennyd 10.35n
colerwisg 1.11–12n
côr gwydr 4.54n
corf 10.32n
coron 10.23n
cors: corysdd 8.32n
corun 6.48n
cras 7.2n

- crawen** 6.9n
crud 11.30n
crwn: cron 6.9n, 9.15n
crwth 3.3n
crychlam 10.28n
crydd 5.33n
cryman 4.56n
curwr 3.48n
chwert 6.41n
cwrel 9.21n
cywyn 2.35n
cydio cad 11.38n
cydwnion 1.21n
cyfagos 9.26n
cyfanheddrwydd 3.27n
cyfion 9.29n
cyfoeth 8.29n
cynghydlyn At.1.23n
cylch gwyn 9.32n
Cymry 8.30n
cyni 2.35n
cynllun 3.67n
cyntedd 10.32n
cyson 8.11n
cyweirdant 4.39n
chwarfan 6.44n
dechrau 10.27n
deisyf 3.6n
deulu 2.29n
didrwl 9.23n
diddori: diddawr 10.13n
diddyedd 10.21n
diddyudd 11.29n
dieniwa 2.59n
digyfedd 10.22n
dioddef At.1.30n
dioer 6.58n
diolud 11.35n
dirmygu: dirmycid 7.59n
disgybl 4.13n
ditiad 11.19n
ditio 11.20n, 38
ditmant 11.22n
diwair 2.22n
diwarth 2.1n
diwartho 5.40n
diwedd 10.27n
diwyd 3.31n
dod: deuym 6.33n
draig 2.28n
dremydd 6.15n
drud 7.15n
drwg lygad 2.28n
drych 6.15n
dwyllo mwnwgl 2.62n
dwysgwbl: dwysgwblach 8.27n
dwywau 10.27n
dyfriw 5.32n
dygyfor 7.67n
dyhudd gw. diddyudd
dyn 9.4n
dysgu: dysgawdd 4.13n
dywedyd: dywaid 7.45n; **dywad**
 7.33n; **doetwy'** 9.37n
egored 1.42n
englyn: englynion 5.17n
ehetgoed 6.67n
Eingl 3.34n
eilwaith At.1.37n
ennyd gw. cof ennyd
enw 1.5n, 9.38n, 10.25n
er 7.57n
erfid 7.61n
erynaig 7.3n
etifedd 10.31n
ffaig 7.19n
ffloc 11.28n
fflwring 6.14n
fforddrych 4.56n
ffrathr 2.37n
gadu 1.21n
gafaelgarn 2.47n
gafr: geifre 5.29n
gan 7.15n
garw 3.7n
geir 7.14n

- geirw** 7.67n
gelyn gw. pedwar gelyn
glas 6.8n
glaw 6.8n
gloywbrim 3.29n
gloywfron 9.30n
goganwaith 10.7n
golau ddydd 9.36n
golygon 9.18n
gorne 7.60n
gosod 3.6n
gradd 1.9n
graddio 1.71–2n
growndwal 9.41n
grynnaid 6.19n
gwaladr 2.15n
gwarchadw 5.26n
gwastatir 8.31n
gwawr 4.26n
gwe 7.8n
gweld: gweled 1.59n
gwelwglawdd 7.7n
gwendre 5.30n
gwengainc 3.39n
gwial gw. pren gwial
gwingoeth 3.39n
gwirfardd 4.4n
gwiwlwys 9.5n
gwlad At.1.47n
gwneuthur: gwnai 6.22n; **gorug**
 7.42n
gwra 3.68n
gwraidd 1.3n
gwrandaw 7.16n
gwridd 7.26n
gwryd At.1.56n
gwyal 7.74n
gwybod: gŵyr 3.11n, 6.25–6n
gwŷd 3.49n
gwydr gw. côr gwydr
gŵyl 1.38n
gwylyan 9.34n
gwymon 8.13n
gwynnedd 7.65n
gwynt 6.7n
gwyrrth: gwyrthiau 5.40n
haf 9.5n
hafn 7.15n
haid bechaduriaid 10.3n
hap 1.28n
haul gw. hoelion ... haul
hawdd fyd 8.29n; **hawddfyd** 9.1n
hi, y 7.4n
hir 1.4n
hirerw 7.8n
hoelion ... haul 9.14n
huawdr 4.14n
hwylwin 2.3n
i: i'th 7.51n
iâ 6.16n
iaith 1.8n; **ieithoedd** 2.54n,
irddail 5.9n
letring 3.20n
lwfer 6.24n
Lladin 11.9n
llaw Dduw 3.25n
lle: lleau 5.13n
lledfrydedd 10.5n
lletbai 6.21n
llid 7.26n, 10.5n
llidferw 6.43n
llith gw. oerllith
lliw gw. ar liw
llwybr 4.46n
llwygaw 6.45n
llwyn 5.10n
llwythboeth 6.21n
llygad gw. drwg llygad
llywio: llywiau 2.15n
mabolaeth 5.8n
maen cafad 6.46n
maenol 8.21–2n
maith 9.28n
mam: mam aig ynys 7.48n; **mam**
Gymry 8.30n
mawrfurm 7.20n

- mawrgrair** 7.63n
meillion 9.14n
mererid 9.13n
minllwyd 6.26n
modrabaidd 5.26n
môr 2.46n
mordwy 3.31n
morfarch: morfeirch 7.10n
môr-forwyn 7.22n
morgrainc gw. clwyd forgrainc
morwyn At.1.13n
mwnwgl gw. dwylo mwnwgl
mynydd 8.32n
naid 3.33n
neb 7.36n
nen 8.1n
neuo: neuaf 8.3n
nidr 3.17n, 7.25n
no 9.35n
nobl 6.3n
nod 8.4n
nofio: nofym 6.33n
o grud 11.30n
ochr 3.46n
oed dydd At.1.3n
oerllith 6.56n
o i ar 6.38n
osb: osbion 8.9n
pabl 9.8n
pani 6.31n
parchu 7.19n
parodiaith 9.27n
pa ryw 6.25–6n
paun Dyfed 4.8n
pechaduriaid gw. haid
bechaduriaid
pedwar gelyn At.1.37n
pellynt 6.47n
penceirddradd gw. bardd
penceirddradd
pencerdd 2.50n
pennon 8.3n
pêr 9.27n
perffeithgwys 10.38n
piler 3.33n
pill 6.47n
pinagl 1.3n
planed 6.23n
plygain 3.15n
poen: poene At.1.59n
pren gwial 5.12n
proffwydwawd 3.18n
pumoes byd At.1.16n
punnoedd 3.4n
puror: purorion 8.25n
pwyl At.1.1n
pywnt 3.42n, 9.12n
rhad 10.31n
rhaeadr 7.2n
rhan 1.23n, 9.33n
rhediad 1.28n, 10.25n
rhestr 6.13n, 7.31n
rhòl 10.34n
rhudd 2.20n
rhwyl 10.34n
rhwym 5.16n
rhwystrechwedl 6.13n
rhygawn 2.33n
rhysfa 8.6n
rhywiach 2.49n
rhywiogwalch 1.52n
saer 2.54n, 5.32n
sail 7.54n
seithgarw 2.5n
serch 5.32n
Serubin 10.34n
siaffyr 9.10n
suddo: suddwyf 2.46n
sythgad 2.5n
tafod 9.27n
talw: tâl 3.4n
tân 6.42n
taradr 6.64n
teulu 3.9n
teuluwas 4.61n
tewi 6.11n

- tid aur** 3.46n
tidraff 3.17n
ton 3.50n
tost: tostion 10.14n
traean 6.40n
traserch 9.25n
treftadol At.1.47n
tremyn 10.4n
trimis 7.75n
trosedd 9.25n
trwch: trychaf 6.34n
trybedd 5.26n
tryfriwawdd 7.7n
trymlaw 6.9n
trywenydd 11.15n
tŷ 5.4n
- tyniad** 3.8n
tywyll 10.14n
uchel 2.21n, 35
undawtai 11.20n
urddo 5.9n
wythliw 3.64n
yngedd 10.39n
ym 6.36n
ymher 10.37n
ymlyniad: ymlyniaid 3.54n
ymyl 7.13n; **ymyl fyddin** 11.7n
ynys 7.48n
yrdang 10.30n
ystad 1.10n
ywen 5.1n, 28

Enwau personau

- Addaf** Adda At.1.45
Addaf ... Fras 4.52n
Aneirin 4.43n, 11.16n
Bleddyn ?Bleddyn Ddu Was y Cwd 4.55n
Bwa Y Bwa Bach At.2.2n
Cai yn y cyfuniad **hutGai** 6.67n (a gw. *Enwau lleoedd* d.g. **Aber Cai**)
Casnodyn 4.51n
Collwyn Collwyn ap Tangno 1.16n
Crist At.1.3, 35 **Crist Ddewistad** 4.57
Cynddelw Cynddelw Brydydd Mawr 4.25n (cf. **Cynddelwaid** 4.42)
Cynfrig Cynfrig ab Iorwerth 2.13n
Cynon Cynon ap Clydno Eidyn 11.13n
Dafydd At.1.45
Dafydd fab Gwilym Dafydd ap Gwilym 4.1, 29–31 **Dafydd** 4.10, 5.4n, 7, At.2.1 **Dafydd Llwyd** 5.5n
Dafydd Llwyd gw. **Dafydd fab Gwilym**
Diawl 2.31
Duw 2.30, 3.24, 50, 4.61, 5.3, 40, 7.76, 11.35, At.1.34, 38, 52 **Duw Lyw** 6.36 **Duw Naf** 3.25
HoywDduw 4.20 (a gw. **Nêr**)
Dyddgu 5.20n
Eiddig 3.60n
Einiawn 1.32n **Einion** 1.60
Einion ... fab Gruffudd 1.5–6n
Elffin Elffin ap Gwyddno Garanhir 3.42n
Gabriel yr archangel 10.39n
Goleuddydd 7.40n
Gruffudd ?Gruffudd ap Gwilym 11.15
Gruffudd Dwn Gruffudd Dwn ab Iorwerth 2.12n
Gruffudd ... Gryg 7.41–2
Gruffudd 2.60n **Gruffudd Gryg** 11.29
Gwilym ... Fab Llywelyn 11.5–6
Gwydion gw. *Enwau lleoedd* d.g. **Caer Gwydion**
Harri y brenin Harri II o Gastil 6.29n
Hywel¹ Hywel ab Iorwerth 2.21n
Hywel² Hywel ap Maredudd 1.13n
Iesu At.1.54, 58 (a gw. **Crist, Mab Mair**)
Ieuan ?Ieuan ap Gwilym 11.1n
Iorwerth ab Iorwerth 2.9n
Iorwerth ap Gruffudd 2.2n
Llywarch Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’ 4.50n
Llywelyn ?Llywelyn Du 11.12
Llywelyn ... Ab Iorwerth 2.15–16n
Mab Mair 4.53, 10.18, At.1.28
Mair 7.76, 10.1, At.1.39, 42
Maredudd Maredudd ab Iorwerth 2.23n
Marthin 10.34n
Melwas 1.62n
Merddin Myrddin 4.35n, 11.12n
Mihangel yr archangel 6.42n, 10.39
Morfudd At.2.4
Mredudd Maredudd ab Einion 1.14n
Nudd Nudd ap Senyllt 1.33n
Offa gw. **Clawdd Offa** dan *Enwau lleoedd*
Pedr 10.31n
Rhisiart Rhisiart II, brenin Lloegr 3.32n
Rhys¹ Rhys ab Iorwerth 2.19n

Rhys² Rhys ap Tudur Fychan
3.28, 42 **Rhys fab ... Tudur**
3.45–6
Sain Siâm Sant Iago 6.27n, 70
Siacob Sant Iago 6.32n
Siencyn 6.32n
Suddas Jwdas Iscariot At.1.17n,
19

Taliesin 4.33n, 11.13n
Trahaearn Trahaearn Brydydd
Mawr 4.49n
Urien Rheged 1.52n **Urien** 1.15n
Ysbryd Ysbryd Glân 10.35,
At.1.8

Enwau lleoedd

- Aber Cai** 4.30n
Bodeon 8.15n
Caer Droea 6.47n
Caer Ferddin Caerfyrddin 11.2n
Caer Gwydion Y Llwybr
 Llaethog 7.62n
Caergybi 8.8
Caswennan Swnt Enlli 7.65n
Clawdd Offa 7.61n
Cymru 9.11 **Cymry** 8.30n
Chwilog 1.36n
Deau 4.40
Deheubarth 4.3n
Dyfed 4.8n
Eifionydd 1.34n
Eryri 3.48
Eurddonen Iorddonen 10.18n
Fêl Ynys, y Ynys Prydain 9.42n
Ffrainc 3.40n, 8.1
Galis Galisia 6.70n
Giën Guyenne (Guienne) 8.3n
Gwynedd 1.25, 2.39, 3.1, 22, 44,
 49, 61, 64, 10.18n
Israel 10.19
Lliwan Llifon 8.18n **Lliwon** 2.17n
Lloegr 2.28, 30
Llŷn 1.39n
Malltraeth 8.16n
mam Gymry 8.30n (a gw. **Môn**)
Menai 8.14n
Môn 2.4, 56, 3.23, 35, 8.2n, 4, 6,
 8n, 10, 12, 14, 16, 18, 20, 22,
 24n, 26, 28, 30, 32, 34, 36 **Môn**
mam ynys 2.7n (a gw. **mam**
Gymry)
Nafarn Navarre 8.11n
Nanffrancon Nant Ffrancon 8.1n
Nasredd Nasareth 10.19n
Powys 2.40
Rhosfyr Rhosyr 8.6n
Talybolion 8.19n
Tindaethwy Dindaethwy 8.24n
Tŵr ... Celyn Twrcelyn 8.21–2n
Ysbaen Sbaen 7.17n, 8.9n
Ystrad-fflur 5.2n

Llawysgrifau

Nodir isod y llawysgrifau y mae'r cerddi a olygir yn y gyfrol hon yn ymddangos ynddynt. Yn achos llawysgrifau a gopiwyd gan fwy nag un ysgrifennydd, nodir y llaw(iau) a fu'n gyfrifol am gopïo'r testunau a olygwyd yn y gyfrol hon yn unig. Diolchir i Mr Daniel Huws am unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth nas crybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Prifysgol Bangor

Bangor 6: Owen Jones 'Owain Myfyr' (cerdd 4) a David Ellis (cerdd 5), 1768, gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection', 1–1216 (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor); GDG clxv–clxix; G.T. Roberts, 'Robin Ddu yr Ail o Fôn', B, vi (1932), 240–3.

Bangor 704: Y Parchedig Richard Williams, Machynlleth, ?1780au, gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection', 1–1216; ByCy 1001.

Bangor 13512: Richard Owens, c.1750, gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection', 13473–16978 (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor).

Bangor 14677: Peter Bailey Williams, 1792–1836, gw. *ib.*

Bangor (Mos) 3: llaw anh., c.1595, gw. E. Gwynne Jones and A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection 1–1093' (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor, 1967).

Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig

BL Add 9817: Richard ap John o Ysgorlegan ac eraill, c.1587–97, gw. CMRWBM iv, 934–48.

BL Add 12230 [= RWM 52]: Griffith Vaughan, c.1689, gw. RWM ii, 1136–44.

BL Add 14866 [= RWM 29]: David Johns, 1586–7, gw. CAMBM 1844, 16; RWM ii, 1022–38; MWM 100.

BL Add 14869 [= RWM 19]: John Davies, Mallwyd, 1617, gw. RWM ii, 957–70; *Dr John Davies of Mallwyd: Welsh Renaissance Scholar*, ed. Ceri Davies (Cardiff, 2004), 106.

BL Add 14870 [= RWM 53]: Cynorthwydd Lewis Morris, c.1748, gw. CAMBM 1844, 17; RWM ii, 1144–51.

BL Add 14876: Richard Morris, 1722–49, gw. CAMBM 1844, 19–20.

- BL Add 14879 [= RWM 38]:** Richard ap John o Ysgorlegan, c.1620, gw. RWM ii, 1079–82.
- BL Add 14882 [= RWM 31]:** Wiliam ap Wiliam ap Robert o Dregarweth, 1591, gw. CAMBM 1844, 21–2; RWM ii, 1048–53.
- BL Add 14890:** Iaco ap Dewi, ail hanner yr 17g. (nid yn hwyrach na 1698), gw. CAMBM 1844, 24.
- BL Add 14894 [= RWM 40]:** William ap William ap Robert (*fl.*1591–7), gw. CAMBM 1844, 26; RWM ii, 1087–91.
- BL Add 14907:** Lewis Morris, 1761, gw. H. Owen, *The Life and Works of Lewis Morris* ([Llangefni], 1951), 15–21.
- BL Add 14932:** William Morris, 1740–55, gw. CAMBM 1844, 36; GDG cl–clv.
- BL Add 14940:** John Owen (dan oruchwyliaeth Richard Morris), c.1758, gw. CAMBM 1844, 40–1.
- BL Add 14964:** Owen Jones ‘Owain Myfyr’, 1768, gw. CAMBM 1844, 45.
- BL Add 14966:** Wiliam Bodwrda, c.1644–50, gw. *ib.* 46–7; R. Geraint Gruffydd, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)’, Cylchg LIGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, ‘Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1974), 266–340; *id.*, ‘Wiliam Bodwrda (1593–1660)’, Cylchg LIGC xix (1975–6), 300–10, *passim*.
- BL Add 14967 [= RWM 23]:** llaw anh., canol yr 16g. (ar ôl 1527), gw. CAMBM 1844, 47; RWM ii, 996–1014; Rh.F. Roberts, ‘A List of Manuscripts from the collection of Iolo Morganwg among the Family Papers Presented by Mr Iolo Aneurin Williams and Miss H. Ursula Williams, 1953–4’ (cyfrol anghyhoeddedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1978), 4.
- BL Add 14969:** Thomas Prys, Huw Machno ac eraill, hanner cyntaf yr 17g. (cyn 1634), gw. CAMBM 1844, 48.
- BL Add 14970:** Edward Williams, ‘Iolo Morganwg’, c.1800, gw. *ib.* 48–9.
- BL Add 14971 [= RWM 21]:** John Davies, Mallwyd, c.1617, gw. *ib.* 49; RWM ii, 977–86; Rh.F. Roberts, ‘Bywyd a gwaith Dr. John Davies, Mallwyd’ (Cymru [Bangor], M.A., 1950), 342; *Dr John Davies of Mallwyd* 109–10.
- BL Add 14976 [= RWM 22]:** un o gynorthwywyr John Davies, Mallwyd, c.1617, gw. CAMBM 1844, 52; RWM ii, 986–96; *Dr John Davies of Mallwyd* 110.
- BL Add 14978:** llaw anh., c.1600, gw. CAMBM 1844, 53.
- BL Add 14979:** llaw anh., canol yr 17g., gw. *ib.* 53–4.

- BL Add 14984:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. *ib.* 55–6.
- BL Add 14991:** Owen Jones ‘Owain Myfyr’, 18g./19g., gw. *ib.* 57–8.
- BL Add 14999:** llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 60.
- BL Add 15027:** llaw anh., 1789–1807, gw. *ib.* 71–2.
- BL Add 15059:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (ar ôl 1621), gw. *ib.* 80–1.
- BL Add 31056:** llaw anh., ail hanner yr 17g. (ar ôl 1658), gw. CAMBM 1876–81, 154.
- BL Add 31060:** llaw anh., c.1620, gw. *ib.* 154.
- BL Add 31062:** Hugh Maurice, 1804, gw. *ib.* 154.

Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Bodewryd 1: Wmffre Dafis, 1618 × 1635, gw. ‘Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1932), 1; ByCy 117.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen

Bodley Welsh e 1: Ifan ap Siôn, c.1612 x 1623, gw. SCWMBLO vi, 53; GDG cxxx–cxxxiii; MWM 100–1.

Bodley Welsh e 7: llawiau anh., 16/17g., gw. SCWMBLO vi, 216.

Bodley Welsh f 2: llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 54; Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648–1722* (Caerdydd, 1953), 48.

Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Brog (y gyfres gyntaf) 2: Wmffre Dafis, 1599, gw. ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’, i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1937), 3–5; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg LlGC* v (1947–8), 234–6.

Brog (y gyfres gyntaf) 3: llaw anh., 17g., gw. ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’, i, 6–7; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg LlGC* vi (1949–50), 1–42.

Brog (y gyfres gyntaf) 4: Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’, i, 8–9; R. Geraint Gruffydd, *art.cit.* 350; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg LlGC* vi (1949–50), 149–61.

Brog (y gyfres gyntaf) 6: llaw anh., 1627 x 1633, ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’ i, 13–14; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg LlGC* vi (1949–50), 223–48.

Llawysgrifau yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd

- Card 1.18:** Elizabeth Phillips, 1850, gw. Graham C.G. Thomas and D. Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the "Cardiff MSS" ' (Aberystwyth, 1994), 2–3.
- Card 1.550:** llaw debyg i law David Ellis, ail hanner y 18g., gw. *ib.* 57.
- Card 2.5 [= RWM 11, ii]:** llaw anh., 16g./17g., gw. RWM ii, 141–5.
- Card 2.40 [= RWM 26]:** John Morgan, Matchin, c.1714, gw. *ib.* 214–24; Graham C.G. Thomas and Daniel Huws, *op.cit.* 79.
- Card 2.68 [= RWM 19]:** llaw anh., c.1624, gw. RWM ii, 178–93; Graham C.G. Thomas and Daniel Huws, *op.cit.* 82.
- Card 2.86 [= RWM 42]:** William Jones, ail hanner y 18g., gw. RWM ii, 235–6.
- Card 2.114 [= RWM 7] 'Llyfr Ficar Wocing':** llaw anh., 1565, gw. *ib.* 110–28; Graham C.G. Thomas and Daniel Huws, *op.cit.* 88; MWM 100.
- Card 2.615:** Edward Jones, 1748–9, gw. Graham C.G. Thomas and D. Huws, *op.cit.* 141.
- Card 2.616:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (ar ôl 1618), gw. *ib.* 142.
- Card 2.624 [= Hafod 10]:** llaw anh., 16g./17g, gw. RWM ii, 312–13.
- Card 3.4 [= RWM 5]:** Elis Gruffydd, c.1527, gw. *ib.* 96–103.
- Card 3.37 [= RWM 20]:** llaw anh., 1614 × 1636, gw. *ib.* 193–202.
- Card 4.10 [= RWM 84]:** Dafydd Jones o Drefriw, canol y 18g. (ar ôl 1736), gw. *ib.* 790–3; Graham C.G. Thomas and Daniel Huws, *op.cit.* 315.
- Card 4.101 [= RWM 83]:** Huw Machno, c.1600–36, gw. RWM ii, 783–9; Graham C.G. Thomas and Daniel Huws, *op.cit.* 327.
- Card 4.110 [= RWM 47]:** David Ellis, Cricieth, 1771 × 1795, gw. RWM ii, 239–43; Graham C.G. Thomas and D. Huws, *op.cit.* 328.
- Card 4.156 [= RWM 64]:** Margaret Davies, 1736–7, gw. RWM ii, 272–85; Graham C.G. Thomas and Daniel Huws, *op.cit.* 334.
- Card 4.330 [= Hafod 26]:** Thomas Wiliems, c.1574, gw. *ib.* 336–45.
- Card 5.10i [= RWM 48]:** William Griffith, Dolgellau, c.1750, gw. RWM ii, 244–8; Graham C.G. Thomas and Daniel Huws, *op.cit.* 436.
- Card 5.11 [= RWM 33]:** llaw anh., ail hanner y 18g., gw. RWM ii, 230.
- Card 5.30 [= RWM 65]:** Siôn Dafydd Laes, 1682–4, gw. *ib.* 285–9.
- Card 5.167 [= Thelwall]:** cylch Richard Longford, c.1565–72, gw. Graham C.G. Thomas and Daniel Huws, *op.cit.* 451; BaTh 303, 311–12.

Llawysgrifau yng nghasgliad Cwrwmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- CM 5:** Ieuan Tudur Owen, Dugoed, o bosibl, c.1600, gw. RWM ii, 878–86; B.G. Owens and R.W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrwmawr Manuscripts', i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 5–6.
- CM 10:** David Ellis, 1766, gw. RWM ii, 890–5; B.G. Owens and R.W. McDonald, *op.cit.* 11.
- CM 11:** David Ellis, 1775 (td. 15), 1777 (td. 455), gw. RWM ii, 895–900; B.G. Owens and R.W. McDonald, *op.cit.* 12–13.
- CM 14:** Lewis Morris, 1727, gw. RWM ii, 903–8; B.G. Owens and R.W. McDonald, *op.cit.* 17; Dafydd Wyn Wiliam, *Cofiant Lewis Morris 1700/1–42* (Llangefni, 1997), 142.
- CM 22:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. RWM ii, 919–20; B.G. Owens and R.W. McDonald, *op.cit.* 25.
- CM 27:** Margaret Davies (td. 14) a 'J.J.' (td. 69), 1760, gw. RWM ii, 925–32; B.G. Owens and R.W. McDonald, *op.cit.* 30–1.
- CM 312:** llaw anh., 16g./17g., gw. B.G. Owens, Rh.F. Roberts and R.W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrwmawr Manuscripts', ii (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1993), 370.
- CM 381:** John Williams 'Ioan Rhagfyr', 1783, gw. B.G. Owens, Rh.F. Roberts and R.W. McDonald, *op.cit.* 435; GDG clxviii–clxix; ByCy 985.
- CM 454:** Peter Bailey Williams, c.1791–3, gw. B.G. Owens, Rh.F. Roberts and R.W. McDonald, *op.cit.* 509.

Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies ym Mhrifysgol Cymru Bangor

- Gwyn 3:** Jaspas Gryffyth, 1590, gw. GSCMB 30; *Gwyneddon 3*, gol. I. Williams (Caerdydd, 1931), v–xii; *Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin*, ed. B.F. Roberts (Aberystwyth, 1988), 46.
- Gwyn 4:** sawl llaw, gan gynnwys William Middleton, o bosibl, 1594–5, gw. GSCMB 30; I. Williams, 'Protestaniaeth Wiliam Midleton', B viii (1935–7), 245–7.
- Gwyn 9:** Peter Bailey Williams, 1801, gw. *ib.* 30–1.
- Gwyn 13:** Peter Bailey Williams, 1781, gw. *ib.* 30.

Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Salisbury, Prifysgol Caerdydd

- HCad:** Llawysgrif Huw Cadwaladr, llaw anh., cyn 1770.

Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen

J 101 [= RWM 17]: llaw anh., canol yr 17g., gw. RWM ii, 68–86; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg LIGC* v (1947–8), 234–6 a phlât 32.

J 111, ‘Llyfr Coch Hergest’ [= RWM 1]: Hywel Fychan, 1382□□□1408, gw. RWM ii, 1–29; G. Charles-Edwards, ‘The Scribes of the Red Book of Hergest’, *Cylchg LIGC* xxi (1979–80), 246–56; D. Huws, ‘Llyfr Coch Hergest’, *CyT* 1–30.

J 137 [= RWM 12]: llaw anh., c.1600, gw. RWM ii, 41–6.

J 139 [= RWM 14]: llaw anh., c.1630, gw. *ib.* 56–7 (gwall yw ‘early xvith century’); E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg LIGC* vi (1949–50), 223.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

LIGC 95B: John Rowlands, canol y 19g., gw. NLWCM 105.

LIGC 436B: llaw anh., c.1710 × 1730, gw. *ib.* 325–35.

LIGC 642B: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. HMNLW i, 43.

LIGC 643B: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (ar ôl 1607), gw. *ib.*

LIGC 670D: William Jones ‘Bleddyn’, Llangollen, 19g., gw. *ib.* 46–7.

LIGC 728D: llaw anh., 16g./17g., gw. *ib.* 54.

LIGC 834B: un o gynorthwywyr Dr John Davies, Mallwyd, c.1610 × 1620, gw. *ib.* 64, *Dr John Davies of Mallwyd* 110–11.

LIGC 1024D: llaw anh., ail hanner y 18g. (ar ôl 1765), gw. HMNLW i, 82.

LIGC 1246D: Rhys Jones, 1752 × c.1760, gw. *ib.* 101; CLC² 414.

LIGC 1559B: Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. HMNLW i, 130; R. Geraint Gruffydd, *art.cit.* 350; Dafydd Ifans, *op.cit.* 579–601.

LIGC 1578B: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. HMNLW i, 133–4.

LIGC 1579C: llaw anh., 17g.–19g., gw. *ib.* 134.

LIGC 1980B [= Pant 11]: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 18g., gw. RWM ii, 815–16.

LIGC 1981B [= Pant 12]: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 1758, gw. *ib.* 816; Aneirin Lewis, ‘Ieuan Fardd a’r Gwaith o Gyhoeddi Hen Lenyddiaeth Cymru’, *JWBS* viii (1954–7), 130–1.

LIGC 2010B [= Pant 42]: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 1772, gw. RWM ii, 853–5.

LIGC 2692B [= Llyfr Cwmbychan]: llaw anh., hanner cyntaf y 18g., gw. HMNLW i, 233.

LIGC 3021F [= Mos 1]: John Davies ‘Siôn Dafydd Laes’, 1684 × 1686, gw. RWM i, 1–14.

- LIGC 3047C [= Mos 144]:** William Phylip, c.1620, gw. *ib.* 131–51.
- LIGC 3048D [= Mos 145]:** Wiliam Bodwrda a'i gynorthwydd, 1644 x 1650, gw. *ib.* 151–68; R. Geraint Gruffydd, *art.cit.* 350; Dafydd Ifans, *op.cit.* 341–52.
- LIGC 3049D [= Mos 146]:** Ifan Siôn o Wydir, dechrau'r 17g., gw. RWM i, 168–79.
- LIGC 3051D [= Mos 148]:** llaw anh., ar ôl 1605, gw. *ib.* 196–212.
- LIGC 3056D [= Mos 160]:** Wmffre Dafis, 16g./17g. (ar ôl 1593), gw. *ib.* 224–42; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylchg LIGC v* (1947–8), 234; D. Huws, 'The Transmission of a Welsh Classic' yn *Recognitions: Essays presented to Edmund Fryde*, ed. Colin Richmond and Isobel Harvey (Aberystwyth, 1996), 194.
- LIGC 3057D [= Mos 161]:** llaw anh., 1558–63, gw. RWM ii, 242–55.
- LIGC 3066E [= Mos 212]:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (cyn 1640), gw. RWM i, 279–86.
- LIGC 3487E:** John Jones (1750–1810), gw. *ib.* 291.
- LIGC 5269B:** un o gynorthwywyr Dr John Davies, Mallwyd, c.1626, gw. HMNLW ii, 82; *Dr John Davies of Mallwyd* 111–12.
- LIGC 5273D:** William Davies, Llangoed, 1642, gw. HMNLW ii, 83.
- LIGC 5283B:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. *ib.* 85.
- LIGC 5475A [= Aberdâr 2]:** Benjamin Simon, 1754, gw. RWM ii, 395–408; HMNLW ii, 104.
- LIGC 6471B:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (cyn 1633), gw. *ib.* 183.
- LIGC 6499B:** llaw anh., c. 1800, gw. *ib.* 186.
- LIGC 6680B [Llawysgrif Hendregadredd]:** dwy law anh. o drydedd haen y llawysgrif, ail chwarter y 14g., gw. MWM 193–226.
- LIGC 6706B:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. HMNLW ii, 208.
- LIGC 7191B:** ?David Humphreys, c.1679–92, gw. *ib.* 245.
- LIGC 8497B:** llaw anh., 1590au, gw. HMNLW iii, 54.
- LIGC 9048E [= copi ffotostat o lawysgrif Rhydychen, Coleg Balliol 353]:** Syr Siôn Prys o Aberhonddu, c.1539–49, gw. GP cx–cxi; HMNLW iii, 106; E.D. Jones, 'Llyfr Amrywiaeth Syr Siôn Prys', *Brycheiniog*, viii (1962), 97–104; R.A.B. Mynors, *Catalogue of the Manuscripts of Balliol College Oxford* (Oxford, 1963), 349–51.
- LIGC 9166B:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. HMNLW iii, 121.
- LIGC 11087B:** llaw anh., c.1600, gw. *ib.* 304.
- LIGC 11816B:** llaw anh., 17g., gw. HMNLW iv, 70.
- LIGC 12873D:** Ifan Wiliam, c. 1775, gw. *ib.* 333.

- LIGC 13078E:** llaw anh., c.1590–1617, gw. *ib.* 362–3.
- LIGC 17114B [= Gwysanau 25]:** llaw anh., c.1560, gw. H.D. Emanuel, ‘The Gwysaney Manuscripts’, *Cylchg LIGC* vii (1952), 339; ‘Catalogue of the Gwysaney Mss’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1953), 31–45; E. Bachellery, *Études* v (1950–1), 116–18; GO 21–2 (er iddo gamsynied parthed y dyddiad); BaTh 306.
- LIGC 19901B [= J. Gwenogvryn Evans 1]:** llaw anh., canol yr 17g., gw. ‘Schedule of Manuscripts, Books ... of the late Dr. Gwenogvryn Evans’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1930), 1.
- LIGC 20574A:** John Prichard, 1652, gw. ‘Llawysgrifau 20001–21700’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth).
- LIGC 21700D [= Heythrop]:** llaw anh., 1625–50, gw. *Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Adroddiad Blynyddol 1980–81* (Aberystwyth, 1981), 60–1.
- LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlech]:** llaw anh., c.1700, gw. ‘Schedule of the Contents of a Manuscript Volume of Welsh poetry known as the Tanybwlech Manuscript’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1932), 1–42.
- Llawysgrifau yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*
- Llst 14:** Samuel Williams, 17g., gw. RWM ii, 448; GDG cxxxv–cxxxvi.
- Llst 30:** un o gopiwyr John Davies, Mallwyd, c.1610 × 1620, gw. *ib.* 465–73; *Dr John Davies of Mallwyd* 112.
- Llst 31:** llaw anh., 1666, gw. RWM ii, 473.
- Llst 35:** Wmffre Dafis, 16g./17g. (ar ôl 1598), gw. *ib.* 478–82; ByCy 117; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg LIGC* v (1947–8), 234n3.
- Llst 53:** Siâms Dwnn, c.1641–7, gw. RWM ii, 534–45.
- Llst 54:** cynorthwydd Moses Williams, c.1710 × 1720, gw. *ib.* 545–9.
- Llst 118:** Wmffre Dafis, 1601×1635, gw. *ib.* 579–92; E.D. Jones, *art.cit.* 234.
- Llst 120:** Jaspas Gryffyth, c.1597–1607, gw. RWM ii, 603–9; GDG cxix–cxxi; MWM 99–100.
- Llst 123:** Wiliam Bodwrda, c.1644 × 1650, gw. RWM ii, 620–34; R. Geraint Gruffydd, *art.cit.* 350; Dafydd Ifans, *op.cit.* 354.
- Llst 125:** Wiliam Bodwrda, c.1644 × 1650, gw. RWM ii, 649–62; R. Geraint Gruffydd, *art.cit.* 350; Dafydd Ifans, *op.cit.* 375–83.

- Llst 133:** Samuel Williams, c.1712, gw. RWM ii, 664–94; Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1644–1722* (Caerdydd, 1953), 37–40; GDG cxxxiii–cxxxv.
- Llst 145:** Samuel Williams, c.1710 × 1720, gw. RWM ii, 721–5.
- Llst 147:** un o gynorthwywyr Edward Lhuyd, 1697, gw. RWM ii, 726, GP xv.
- Llst 168:** llaw anh., 16g./17g. (ar ôl 1599), gw. RWM ii, 757–9.
- Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*
- Pen 49:** John Davies, Mallwyd, 16/17g., gw. RWM i, 382–9; *Dr John Davies of Mallwyd* 105–6.
- Pen 51:** Gwilym Tew, c.1460–80, gw. RWM i, 399–402; Ann E. Jones, ‘Gwilym Tew: Astudiaeth destunol a chymharol o’i lawysgrif, Peniarth 51, ynghyd ag ymdriniaeth â’i farddoniaeth’ (Ph.D. Cymru, 1981), 94–5 *et passim*.
- Pen 54:** llaw anh., c.1480, gw. RWM i, 409–19; MWM 63, 95–6.
- Pen 56:** llaw anh., hanner cyntaf yr 16g., gw. RWM i, 425–6; BaTh 305.
- Pen 63:** Richard Cynwal, c.1600, gw. RWM i, 444–8.
- Pen 64:** Simwnt Fychan, c. 1582, gw. *ib.* 448–54.
- Pen 66:** llaw anh., 16g./17g., gw. *ib.* 456–60.
- Pen 72:** Kynfrigg Powell, 1581–1613, gw. *ib.* 477–86.
- Pen 77:** llaw gynnar Thomas Wiliems, 1576, gw. *ib.* 509–18; GP liii.
- Pen 78:** William Lloyd, c.1573–83, gw. RWM i, 518–21.
- Pen 81:** llaw anh., c.1580, gw. *ib.* 527–31.
- Pen 96:** Lewys Dwnn, c.1603, gw. *ib.* 592–603.
- Pen 97:** ?Robert Vaughan, c.1604, gw. *ib.* 603–9.
- Pen 99:** William Salesbury, ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 613–24; *Dr John Davies of Mallwyd* 108.
- Pen 112:** John Jones, Gellilyfdy, 1609–10, gw. RWM i, 671–86; N. Lloyd, ‘A History of Welsh Scholarship in the First Half of the Seventeenth Century, with Special Reference to the Writings of John Jones, Gellilyfdy’ (Oxford, D.Phil., 1970), 28–33.
- Pen 118:** cynorthwydd Siôn Dafydd Rhys, c.1580–1620, gw. RWM i, 718–25.
- Pen 119:** William Jones, c.1700, gw. *ib.* 726–30.
- Pen 124:** llaw anh., c.1714, gw. *ib.* 754–68.
- Pen 198:** llaw anh., c.1700, gw. *ib.* 1206.

Pen 221: John Jones, Gellilyfdy, c.1605–c.1620, gw. *ib.* 1045; N. Lloyd, *op.cit.* 26–7.

Pen 312: John Jones, Gellilyfdy, 1610–40, gw. RWM i, 1114–18.

Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstey yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Wy 2: un o gynorthwywyr Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. ‘Schedule of the Wynnstey Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth), 2; R. Geraint Gruffydd, *art.cit.* 350; Dafydd Ifans, *op. cit.* 624–47.

Mynegai i'r llinellau cyntaf

	<i>Td.</i>
Am Ieuan truan treiodd chwerthin—clêr.....	87
Dafydd fab Gwilym, ymy.....	50
Hawddfyd (amgen nog echdoe!)	79
Iôr nef a'i chrair, ac euryr Mair, y Gŵr a'n medd	83
Lleuad Ebrill lliw dybryd	63
Meibion, diwarth eu mebyd.....	38
O nen Ffrainc i Nanffrancon.....	76
Pwy yw'r gorau piau'r goron	94
Rhag cyfraith dewfaith, Dafydd,—ŵr beius.....	101
Tebyg yw Gwynedd, meddir	44
Y don ewynlon wenlas	68
Y post hardd hapus dewrddoeth	31
Yr ywen i oreuwas.....	58

Mynegai i'r noddwyr a'r gwrthrychau

Cerdd

Achos llys yn erbyn Llywelyn Du, Gwilym ap Llywelyn a Gruffudd ac Ieuan ap Gwilym	11
Crist	At. 1
Dafydd ap Gwilym	4, At. 2
Duw.....	10
Einion ap Gruffudd ap Hywel	1
Merch.....	9
Rhys ap Tudur	3
Saith mab Iorwerth ap Gruffudd.....	2
Tir Môn.....	8
Y don.....	7
Y lleuad.....	6
Yr ywen uwchben bedd Dafydd ap Gwilym	5